yma, yr hwn y tywalltwyd ei waed i wneuthur iawn dros ein pechodau, i brynnu i ni ddawn yr Yspryd Glan, a hawl i fywyd tragywyddol a gogoniant: y derbynir yn raslawn pwy bynnag a ddaw at Dduw ar hyd y ffordd yma, ond y sawl a wrthodant ddyfod a ddygant arnynt eu hunain ddamnedigaeth fwy. Dyma swm a sylwedd y gennad y mae gweinidog Duw yn ei dwyn at ei wrandawyr; dyma 'r gair oddi wrth Dduw sydd ganddo i'w ddatgan. Ond y mae amryw bethau ynddo i'w cymmwyso at amryw fath o bobl; ac oddi eithr iddynt gael eu cymmwyso felly, ni fydd y gair mor fuddiol ac mor effeithiol i gynhyrfu a chyffroi. I'r perwyl yma ystyriwn beth yr ydys

1af. yn dywedyd wrth yr esgeulus a'r ysmala, y rhai, pa un bynnag ai hen ai ieuaingc, goludog ai tlodion, ydynt yn byw mewn llwyr ddifräwch mewn perthynas i gyflwr eu heneidiau, ac i dragywyddoldeb. Llaweroedd, y mae lle i ofni, ydynt yn y fath gyflwr. Diwyd yn eu galwedigaeth fydol, gweddol yn eu hymddygiad, ïe, yn barchus yn y byd; ond y maent, ysywaeth, yn esgeulus mewn perthynas i'r bywyd nesaf: nid ydynt yn gofalu am dano megis yr unig beth angenrheidiol. Er bod ganddynt ryw ymddangosiad o grefydd, er eu bod yn dyfod weithiau i'r addoliad cyhoedd;

nid oes ganddynt deimlad parhaus, pethau eraill sydd yn meddiannu eu calonnau. Yr awrhon, at yr holl gyfryw rai, gair sydd yn yr Efengyl, a gair cyffrous iawn, "Deffro di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddi wrth y meirw, a Christ a oleua i ti."—Eph. v. 14. "Y mae hi weithian yn bryd i ni ddeffroi o gysgu; —— y nôs a gerddodd ymhell, a'r dydd a nesaodd."—Rhuf. xiii. 11. "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy 'r porth cyfyng. Ystyriwch eich ffyrdd. Cymmerwch afael ar y bywyd tragywyddol."

2. Trown yn nesaf at yr halogedig a'r annuwiol, at y sawl sy 'n gwneuthur arfer yn wirfoddol o bechod; yn rhoddi rhwysg i chwantau drwg, i duedd anonest, ac yspryd maleisus; y sawl sy 'n barod i ruthro i ormodedd ar bob adeg; i dwyllo a gwneuthur cam, bryd bynnag y medront; i ymollwng i chwant ddrwg, neu gynfigen, neu falais, bryd bynnag y bo profedigaeth yn eu denu. Beth yw gair yr Efengyl at y cyfryw bechaduriaid ysgeler? "Oni wyddoch chwi, na chaiff yr anghyfiawn, na 'r sawl sy 'n gwneuthur y cyfryw bethau, etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyller chwi, ni watworir Duw, canys beth bynnag a hauo dyn, hynny hefyd a fêd efe. Digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion." Nid ydych ond yn

trysori digofaint i chwi eich hunain erbyn dydd digofaint. Cymmerwch rybudd mewn pryd. Torrwch ymaith eich pechodau trwy edifeirwch, canys oni edifarhewch, chwi a ddifethir. Dychwelwch a chredwch yr Efengyl, fel y dilëer eich pechodau; canys yr holl rai digrêd a'r anedifeiriol a gânt eu rhan yn y llyn sy 'n llosgi â thân a brwmstan.

Fe ellid yn nesaf adrodd y gair oddi wrth Dduw wrth y chwiliwr difrifol a gostyngedig, yr hwn y mae ei enaid yn sychedig am Dduw; yr hwn, wedi ei ddwyn i deimlo mor werthfawr ydyw gwybodaeth ddwyfol, sydd yn chwilio yn ofalus am dani trwy 'r moddion gosodedig, yr hwn i'r dyben yma sy 'n darllen ac yn gwrando gair Duw, yn gweddio am ddoethineb oddi uchod, ac yn chwilio am dani fel am drysor cuddiedig. Oes yma un o'r cyfryw yn ein plith? Y mae gair oddi wrth Dduw atto ef hefyd, gair cyflawn o râs a chysur, "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder, canys hwy a ddiwellir. Pob un sy 'n gofyn, sy 'n derbyn. Os bydd ar neb o honoch eisiau doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sy 'n rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod, a hi a roddir iddo ef."

Y mae math arall o bobl wrth y rhai y gellid adrodd y gair oddi wrth Dduw, a llym

gerydd y dylai fod. Dynion ydyw y rhain sydd "wedi adnabod ffordd cyfiawnder, a throi oddi wrth y gorchymyn sanctaidd a draddodwyd iddynt."—2 Pedr ii. 21. Dynion ydynt a argyhoeddwyd unwaith mor bwysfawr ydyw crefydd, ac a wnaethant broffes ddifrifol o honi; cynhyrfwyd eu meddyliau gan yr Efengyl, a phrofasant nerthoedd y byd a ddaw: yn teimlo bod eisiau cyfnewid mawr ar eu calonnau a'u bucheddau, fe ddarfu iddynt ddechreu gwellhau eu ffyrdd, a chychwyn ar hyd llwŷbrau newydd. Ond, ysywaeth! eu mwynder a ymadawodd fel cwmmwl y boreu, ac fel gwlith boreuol. Eu bwriad o wellhau a ddiflannodd, ac aeth yn ddiddim. Chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd a orchfygodd eu hargyhoeddiad. Eu hen arferion a'u hail-feistrolodd hwynt. Aethant yn ddifatter am gyrchu i'r Eglwys, yn ddifatter am ddarllen y Bibl, ac yn esgeulus yn eu gweddiau dirgel. Eu cydwybod a galedir fwy-fwy beunydd; eu serchiadau sy 'n dychwelyd yn brysur at y byd: y mae llwybrau pechod yn dechreu bod yn fwy hyfryd ganddynt na ffyrdd Duw.

Yrwan, os oes rhai o'r cyfryw yn ein plith, gwybyddant fod gair oddi wrth Dduw attynt hwythau hefyd. Yr ydych, drueiniaid, yn cilio yn ol yn fuan i ddistryw. "Os tyn neb yn ol,"

medd Duw, "ni ymfoddlona fy enaid ynddo." O! gwelwch eich perygl; eich diwedd a fydd gwaeth na 'ch dechreuad. "Cofia, gan hynny," medd yr Arglwydd, "o ba le y syrthiaist, ac edifarhâ, a gwna y gweithredoedd cyntaf; ac onid ê, yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganhwyllbren di allan o'i le, oni edifarhai di."—Dat. ii. 5.

Ond nid hwyrach y mae math arall o ddyn yn ein mysg. Fe all fod un, yr hwn y mae ei galon yn flin gan deimlad o bechod; yr hwn, wedi dyfod i ganfod ei euogrwydd a'i berygl, sydd yn llawn o ofn a braw. Mae 'n gwybod ddarfod iddo dros hir amser ddigio Duw, a chyffroi ei lid; ac yn awr pa beth a wna ef, pa sutt y bydd iddo ffoi rhag barn ei gyfraith gyfiawn ef, i ba le y dianga, pa beth a wna ef i fod yn gadwedig.

Oes un o'r cyfryw yn y fan yma, sydd yn teimlo, yn meddwl, yn chwilied fel hyn—yn ei gondemnio ei hun, yn llefain am drugaredd? Dyweder wrth y fath enaid cystuddiedig, fod llawenydd yngwydd angylion Duw am un pechadur a edifarhao. Cymmer gysur. Yr iachawdwriaeth yr wyt ti yn hiraethu am dani sydd yn agos. Diangfa a agorwyd i ti. Crêd yn yr Arglwydd Iesu, a chadwedig fyddi. Efe a gafodd bridwerth iti, sef ei waed gwerthfawr ei hun, ac a'th geidw rhag soddi. Y

mae efe yn fwy awyddus i'th achub, nag yr ydwyt ti i gael dy achub. Disgynodd o'r nef, a bu farw ar y groes, er mwyn cadw pob enaid gorthrymmedig, edifeiriol. Y mae 'n llefain, "Deuwch attaf bawb ar y sydd yn flinderog ac yn llwythog." Ffowch ynteu atto ef am ymwared: o herwydd i ti dy gondemnio dy hun, ni wna efe dy gondemnio; o herwydd i ti ddyfod atto ef, efe a'th achub âg iachawdwriaeth dragywyddol. O bydded i'w râs dy ddysgu, dy annog, a'th gymmorth; felly y cei esmwythdra i'th enaid.

Y mae un math o ddyn etto yn ol, wrth ba un y mae gennym ni air oddi wrth Dduw, sef y Cristion sefydlog yn ei grefydd. Un ydyw ef sydd wedi diangc at Grist am noddfa rhag euogrwydd a grym pechod, ac wedi cyrhaedd tangnefedd a llawenydd, gan gredu yn gwasanaethu Duw, ac yn byw mewn gobaith o'r gogoniant a ddatguddir. Y gair at y cyfryw un oddi wrth Dduw ydyw hyn, "Bydd ffyddlawn hyd angeu, ac mi a roddaf i ti goron y bywyd." Fel dinas a osodir ar fryn, ni ellir dy guddio; gan hynny llewyrched dy oleuni ger bron dynion. Rhodia yn addas i'th alwedigaeth sanctaidd. Bydd ffrwythlawn mewn gweithredoedd da. Na ddiffygia yn gwneuthur daioni; eithr cynnydda mewn grâs: bydded dy gynnydd yn eglur i bawb Bid atgof gennyt yr amrafael

beryglon o'th amgylch: oddi fewn, calon dwyll-odrus, lygredig; oddi allan, byd llithiog; o amgylch, ysprydol elynion heb rifedi, yn ceisio dy ddistryw. Gwylia, gan hynny, a bydd sobr; Na fydd uchel fryd, eithr ofna; ymostwng i rodio gyd a'th Dduw; na ddiffodda 'r Yspryd; gweddia yn ddibaid; ac uwchlaw pob peth yn edrych at Iesu, perffeithydd ein ffydd; derbyn o'i gyflawnder ef gymmorth i'th holl angenrheidiau. Ynghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddi, ei gyfiawnder ef yn unig a gofi, ac efe a'th geidw, hyd ymddangosiad ein Harglwydd Iesu Grist, yn ddiargyhoedd.

Ar fod i bawb o honoch gyrhaedd y fath ystâd o râs, y fath gyflwr dedwydd, yw fy nwys weddi at Dduw, yn enw ein Hiachawdwr bendigedig, i ba un, &c.

PREGETH II.

CWYMP DYN A'I LYGREDIGAETH.

RHUFEINIAID v. 18.

Trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad.

Y MAE 'r Apostol yn y testyn yn crybwyll am yr euogrwydd cyffredinol sy 'n gorwedd yn awr ar ddynion oll. Yr oedd wedi dangos yn nechreu 'r Epistol, bod yr Iuddewon a'r Cenhedloedd wedi eu cyd gau dan bechod; ac felly wedi eu darostwng i'r penyd a osodwyd yn erbyn pob trosedd. Yn yr adnod hon, a rhai eraill o'r blaen, y mae 'n chwilio allan ffynnon neu ddechreuad pechod, yn dangos sutt y cafodd fynediad i'r byd gyntaf, ac yn parhau fyth er hynny i gadw ei lywodraeth. Trwy gwymp dyn y daeth ef; ac o achos y llwgr a ddilynodd y cwymp, y mae ei nerth a'i rym yn parhau. Y mae 'r Apostol yn ymegnio yn ddwys i'w gwneuthur hwy yn hysbys ac yn deimladwy o'r caswir yma, fel y byddent os-

tyngedig yn eu meddwl wrth weled eu cyflwr truenus wrth natur, a mwy awyddus i gofleidio yr Efengyl sy wedi darparu meddyginiaeth i'r aflwydd. Fel y prisient yn fwy y grefydd nefol a ddygodd eilwaith fywyd ac anllygredigaeth i oleuni, gan achub dynion cwympiedig.

A chyffelyb foddion y mae 'r Yspryd Glan yn arferu yn awr, sef dangos cwymp dyn a'i lygredigaeth, er mwyn gostwng balchder dynion, a'u cymhell a'u cynhyrfu i geisio ymwared trwy 'r Iesu. Yn gyntaf efe a'n hargyhoedda ni o bechod, gwedi hynny o farn. Rhaid i ni fod yn deimladwy o'r clwyf, cyn y clywom arnom ein hunain ymorol am feddyginiaeth i'n hiachau. "Mab y dyn a ddaeth i geisio ac i achub yr hyn a gollasid. Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion."

Ond wrth hyn y mae llaweroedd yn tramgwyddo, y rhan fwyaf yn methu. Trwy anwybodaeth o'u gwir gyflwr y maent yn synied yn rhy uchel am danynt eu hunain, yn amgen nag y dylent synied; yn ofer-dybied fod dynion wrth naturiaeth mor gyfiawn ag erioed; neu fod cymmaint o'u galluoedd etto fyth ynddynt, a'u bod yn abl i weithio allan eu hiechydwriaeth trwy eu nerth a'u rheswm eu hunain. Tra bo dynion yn cynnwys y cyfryw wâg opiniwn, y maent yn chwanog i ymchwyddo yn eu meddwl, i hyderu arnynt eu hunain, yn lle ymddiried

iddo ef yr hwn sydd gadarn i achub, i'r hwn y perthyn cyfiawnhau 'r anghyfiawn, a gwaredu ei bobl, nid yn unig rhag cospedigaeth, ond hefyd rhag gallu ac arglwyddiaeth eu pechodau.

I dynnu i lawr y fath dyb gyfeiliornus, ymegniaf, trwy nerth Duw, i ddangos i chwi, yn gyntaf, bod dyn wedi cwympo yn llwyr oddi wrth Dduw, a thrwy ei gwymp wedi llwyr ymddieithrio oddi wrtho. A gellid dangos a chadarnhau hyn ddwy ffordd,—oddi wrth dystiolaeth yr Ysgrythur, a phrofiad cyffredinol; a digon fydd hyn i foddloni pob un sy 'n perchi awdurdod Duw, ac yn pwyso tystiolaeth yn sobr a difrifol, fod dynion o herwydd eu cwmp mewn cywair truenus a llygredig. O bydded i'r ystyriaeth arwain pob enaid o honom atto ef "a ddichon yn gwbl iachau, y rhai trwyddo ef sy 'n dyfod at Dduw."

Ystyriwn, 1af, dystiolaeth gair Duw, yr Ysgrythur sanctaidd. Ar bwngc o athrawiaeth mor bwysfawr, mae lle i ddisgwyl y byddai 'r dystiolaeth Ysgrythyrol yn gadarn ac yn helaeth: ac felly y ceir hi. Crybwyllaf rai mannau yn ol y dref0 yr ysgrifenwyd hwy, gan agor rywfaint ar eu sylwedd. Duw, ni a ddarllenasom, a wnaethai ddyn yn ol ei ddelw ei hun; a'i hiliogaeth a gadwasent y ddelw yma yn ei pherffeithrwydd, pe parhasai ef yn ei

ufudd-dod a'u uniondeb. Fe a gwympodd—delw Duw a ddilëwyd—y felldith a ganlynodd. Pan genhedlodd Adda, gan hynny, fab, y mae yr Yspryd yn hysbysu 'n bendant, mai yn ei ddelw ei hun y cenhedlwyd ef, nid yn nelw Duw, a'i gyffelybrwydd, yr hyn oedd gynt ei orchest, a'i ragorfraint, a'i ogoniant. Nid hir y bu cyn y profwyd hyn, pan dywalltwyd gwaed y naill frawd gan y llall; golwg drymllyd i'n rhieni cyntaf, yn ddangosiad echrydus o ddrwg-effaith eu trosedd, ac arwydd ofnadwy o ddigofaint a dial yr Hollalluog: ac mi dybygwn ei fod yn dystiolaeth a phrofiad sicr o'r llygredigaeth a ddaeth yn lle 'r diniweidrwydd a feddiannai galon dyn cyn y cwymp. Ar ol y fath siampl, mewn un o feibion Adda ei hun, o'r llygredigaeth a darddodd oddi wrth y cwymp, llai rhyfedd fydd gennym glywed yr hanes ganlynol: "Yr Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaiar, a bod holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser, a'r ddaiar a lygrasid ger bron Duw, a llanwasid y ddaiar hefyd â thrawsedd." Dyna 'r hanes y mae efe yn ei roi a wybu beth oedd mewn dyn. Drygionus oedd calon dyn y pryd yma, drygionus oedd pob bwriad a phob meddylfryd, ïe, yr holl duedd drwyddo cyn egino o'r dymuniant neu 'r bwriad, a drygionns oedd yn ddibaid,

drwg yn tarddu allan yn wastad, fel ffrwd o ffynnon yn rhedeg hyd y flwyddyn. Ond fe all rhai wrthddadleu, mai nid naturiol iddynt oedd y drygionus duedd yma, ar ol y cwymp, nid llwgr a aned ynddynt; ond mai drygionus yr aeth eu natur trwy ymarfer â drygioni. Ond cymmerwch eiriau Duw wrth Noah ar ol y diluw yn atteb. Onid ydyw ef yn dywedyd yn ei galon, wrth fwrw golwg ar y cenhedlaethau i ddyfod, "Ni chwanegaf felldithio 'r ddaiar mwy er mwyn dyn, o herwydd bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuengctyd." Yma mae 'n amlwg bod yr Arglwydd yn cyfrif y drygionus weithredoedd i galonnau llygredig dynion megis y ffrwyth naturiol, i'w llygredigaeth o'u dechreuad, o'u mebyd; mae 'n debygol ddarfod i siamplau drwg ac arferion chwanegu at y drygionus duedd, ond gwreiddyn drwg, naturiaeth lygredig ac wedi ei gwenwyno a'i chlwyfo o'r dechreuad, yw 'r prif achos o'r drygau oll a'r anfoesoldeb. Er gwaethaf y gospedigaeth ofnadwy, y diluw mawr, fe ddarfu i'r genhedlaeth nesaf, yr un ddrwg egwyddor yn gweithio ynddynt ac a fu yn eu tadau, droi yn fuan at yr un ffyrdd, yn gymmaint ac amlhau o eulun-addoliaeth yn gyffredinol yn nyddiau Abraham, yr hyn oedd achos i'r Arglwydd neulltuo cenhedl iddo ei hun. Hawdd ynteu y gallwn ymofyn

gyda Job sanctaidd, "Pwy a ddyru beth glân allan o beth aflan? Neb."—Job xiv. 4. A chyd-synied â chyffes y Psalmydd, "Wele mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Yn y naturiaeth y mae 'r mèth: halogwyd y ffynnon, a rhaid i'r ffrwd fod yn aflan.

Wrth fyned ymlaen yn yr Ysgrythur, yr ydys yn cael helaethach brofiad neu dystiolaeth o'r llygredigaeth cyffredinol yma. Y mae 'r Yspryd Glan trwy enau Dafydd yn mynegi i ni fel hyn, "Yr Arglwydd a edrychodd i lawr ar feibion dynion, i weled a oedd neb deallgar, yn ymgeisio â Dnw. Ciliodd pawb, cyd-ymddifwynasant, nid oes a wnêl ddaioni, nag oes un." Psal. xiv. 2. A'r un peth a ddatguddiodd yr Yspryd i'w fab Salomon: canys ymysg yr amryw ddrygau dan yr haul, y Pregethwr a gafodd weled mai hwn oedd y pennaf, ac, yn wir, yn ddechreuad y lleill, sef, "fod calon meibion dynion yn llawn drygioni; ac ynfydrwydd sydd yn eu calon, tra fyddant fyw, ac ar ol hynny y maent yn myned at y meirw." Ffynnon lawn o ddrygioni ac anwiredd yw 'r galon, yn dylifo drosodd mewn gweithredoedd brwnt a gwrthun o bob math; yr ynfydrwydd a gawsid megis yn etifeddiaeth yn ymddangos o hyd, nes i angeu ddyfod yn derfyn ac yn gospedigaeth.

Yr oedd gan y Prophwydi sanctaidd hefyd yr un farn am y peth, yr un meddwl o ystâd a naturiaeth lygredig dynion. Meddai Jeremiah, "Y galon sydd fwy ei thwyll na dim, a drwg ddiobaith ydyw, pwy a'i hedwyn?" Yn sicr dyfnder o lwgr ydyw hi, ar ol chwilio a phlymio hyd yr eithaf, ni cheir mor gwaelod. Nis gwyr neb hyd a dyfnder yr anwiredd sy 'n trigo mewn anian lygredig.

Ein Harglwydd bendigedig, gan hynny, pan oedd ef ei hun ar y ddaiar, gyd ag amryw hysbysiadau ac addysg bwysfawr, a ddangosodd pa bethau yn enwedig a halogai ddyn; y mae yn hysbysu ymhellach eu bod yn cael eu dechreuad yn y galon. "O'r galon," medd ef, "y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor-priodasau, godinebau, lladradau, cam-dystiolaethau, cablau." Yno y mae hadau ac egwyddorion pechod i'w cael; ac oddi yno, megis o wely brwd a ffrwythlawn, y mae bwriadau drygionus a drwg-weithredoedd yn tarddu allan yn helaeth. Ac y mae hyn yn dyfod o angenrhaid oddi wrth ddarfod ein geni yn y byd; canys beth bynnag a aned o'r cnawd sydd gnawd. Ein naturiaeth a elwir yn gnawd, o herwydd ei bod cyn ei hadnewyddu yn hollawl heb yr Yspryd; wedi ei chaethiwo i chwantau ac anwydau cnawdol.

Ar ol clywed allan o'r gair mae llygredig

ydyw ein natur, rhaid i ni ddisgwyl ymhellach glywed ei chondemnio, ac felly y mae 'n ysgrifenedig, "wrth naturiaeth yn blant digofaint." Y mae digofaint yn canlyn pechod, fel y mae y cysgod yn canlyn y corph; lle bynnag y bo pechod, yno y mae digofaint; a lle bynnag y bo digofaint, bid sicr gennym fod pechod yn gorwedd wrth y drws.

Oddi wrth yr amryw dystiolaethau a grybwyllwyd, ac yn wir oddi wrth y moddion rhyfeddol a drefnwyd i'n hachub, y mae mor amlwg nad ellir ei wadu, bod dyn yn greadur wedi cwympo, a'i lygru, a'i ddifwyno, fel nad ydyw mwyach, nes ei iachau, wrth fodd Duw; ond yn lle bynny, yn aflan yn ei olwg sancteiddiaf. Ac felly y gwelwn y barna Diwygwyr ein Heglwys, fel y canfyddir yn y nawfed Erthygl. "Nid ydyw pechod gwreiddiol yn sefyll o ddilyn Adda, (megis yr ofer-siarad y Morganiaid,) eithr bai a llygredigaeth natur pob dyn ydyw ar a genhedlir yn naturiol o hil Adda, trwy 'r hyn y mae dyn wedi myned yn dra phell oddi wrth gyfiawnder gwreiddiol, ac yw o'i naturiaeth ei hun â'i ddychwant ar ddrygioni, megis y mae 'r cnawd bob amser yn chwenychu yn erbyn yr yspryd. ac am hynny ymhob dyn a enir i'r byd hwn, yr haeddai ddigofaint Duw a damnedigaeth."

Bellach, heblaw tystiolaeth y gair, y mae prawf neu brofiad pawb o honom yn dangos ac yn cadarnhau hyn. Gwirionedd sicr ydyw, er y gwedir ef yn fynych; ac y mae 'r galon yn cydnabod mai gwir yw, pan ddelo hi i iawn syniad o honi ei hun. Er ni wêl y deillion mo hono, nid llai gwir yw, bod yr haul yn llewyrchu ganol dydd. Y mae prawf pob oes yn tystio 'r llygredigaeth a ddatguddir yn yr Ysgrythur. Nid yn yr oes gyntaf y gwelwyd bod drygioni dyn yn fawr ar y ddaiar, y mae cwynfan pob oes ganlynol yn profi bod yr unrhyw achos yn gweithio er y dechreuad. Y cenhedloedd, y doethaf o honynt yn sicr a ganfyddent yr aflwydd, er ni chawsant allan mo wreiddyn yr anaf a'r clwyf; hwy a geisient hefyd yn ofer ei symmud trwy reolau moesol. Cymmerwch olwg yn y dyddiau hyn ar y cenhedloedd paganaidd, sy heb gael Haul Cyfiawnder yn tywynu arnynt, sydd etto yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angeu, mor gaethion ydynt dan allu 'r diafol ac ysprydion drwg, mor ffiaidd yn eu defodau, mor frwnt ac anweddaidd eu moesau, mor anifailaidd yn eu harferion, mor greulon, a gwaedlyd, ac ysgeler eu haddoliad gau. Ac ymhlith y cenhedloedd a dderbyniodd yr Efengyl, ïe, yn ein gwlad ein hunain, mor aml ac mor echrydus ydyw anwir-

edd, a drygioni, ac annuwioldeb. Minteioedd yn fawr eu hawydd yn dilyn eu heulun Mammon ; llaweroedd yn ymegnio yn astud am anrhydedd a mawredd y byd, yn anghofus o'r anrhydedd a geir yn y nef gan y ffyddloniaid ; a rhan fawr yn dilyn pleserau pechadurus. Er nad ydynt yn troedio 'r un llwybr, y maent yn cyd-uno oll yn hyn, sef i addoli a gwasanaethu y creadur yn fwy na 'r Creawdwr.

Fel hyn y mae proffeswyr lawer, niferoedd a elwir yn ol enw Crist, yn anharddu eu proffes ; a'r ychydig mewn cymhariaeth sy 'n gywir, ydynt ddiffygiol iawn ; ac er eu bod yn cashau pechod, ac yn ymladd eu goreu yn erbyn ei hudoliaeth a'i abwyd, etto weithiau hwy a ddeuant yn fyr, hwy a lithrant, ac a glywant ynddynt eu hunain arwyddion o'u gwreiddiol wendid.

Ymhellach, arwyddion y llygredigaeth yma a welir hyd yn oed mewn plant. Chwi a ganfyddwch ynddynt gynfigen wrth blant eraill ; ddigofaint, os croesir hwy ; cyndynrwydd ac ystyfnigrwydd, yn gynnar iawn. Rhai sy well nag eraill, yn enwedig lle y rheolir ac yr hyfforddir hwy yn iawn ac yn brydlawn. Ond y mae 'r goreu o honynt yn dangos yn gynnar iawn yr egin o'r gwyniau sy 'n gryfion ac aml yn holl hiliogaeth Adda. Ac o ba le y dywedwn

y daeth y duedd yma, oddi eithr oddi wrth gwymp ein cyn-dad cyffredin. Gwelodd Duw mai da iawn oedd pob peth a grewyd ganddo ef. Cabledd brwnt a fyddai i ni ddywedyd neu feddwl fod drygionus duedd dyn wedi ei dderbyn oddi wrtho Ef, ffynnon pob daioni. Bid sicr gennych mai drwy effaith y cwymp y daeth yr holl aflwydd hwn.

Gallwn chwanegu tystiolaeth ymhellach, sef y trueni a welir ymhlith dynion. "Dyn a aned i flinder fel yr eheda gwreichionen i fynu." Clywir o bob tu gŵynion y cystuddiedig, grwgnach yr anfoddlonus, ocheneidiau 'r sawl a siomwyd, llefain y cleifion, a gruddfan rhai yn meirw. Beth yw 'r byd ond Bochin, sef lle o wylofain a galar? Tristwch yn dyfod ar ol tristwch, yn gynt na 'r cenhadon at Job gyd â newyddion drwg. A phwy sydd ddiogel ac allan o gyrhaedd yr helbulon cyffredinol hyn? Onid ydyw pob dyn byw yn clywed ynddo ei hun arwyddion marwoldeb; yn teimlo mai ynghanol ei fywyd ei fod mewn angeu; yn prysuro i'r bedd, etifeddiaeth y pechadur, etifeddiaeth holl heppil Adda ac Efa. Ac a fedrwn ni dybied y gwnai Duw, yr hwn y mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd, yr hwn nid o'i fodd a flina ac a gystuddia blant dynion, yr hwn, fel y geilw St. Ioan ef, Cariad yw; a fedrwn ni dyb-

ied y gwnai 'r cyfryw Hanfod, heb ei gythruddo, godi 'r ffrewyll uwch ein pennau, a'n ceryddu â scorpionau? Pell ydyw hynny oddi wrtho. "Barnydd yr holl ddaiar a wna farn. Cyfiawn yw 'r Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd." Ymae 'n rhoddi i ni lai, ond nid un amser fwy, nag y mae ein hanwireddau ni yn haeddu.

Ond fe all rhai, ondodid, wrthddadleu mai am y drygau a wnaethom ni ein hunain, ac nid o achos ein llygredigaeth, y mae helbulon a marwolaeth yn dyfod i'n rhan. Llawer o boenau, yn sicr, sy 'n tarddu oddi wrth ein camymddygiad; nid oes mo 'r ammeu nad felly y mae 'n bod. Ond beth a ddywedwch chwi am y doluriau y mae y rhei'ny 'n fynych yn eu dioddef, "y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda?" Pa dyb sydd gennych yn sefyll wrth grŷd baban, efallai ond newydd ei eni, yn goddef dirboen, a gwasgfeydd trymion, ac yn trengu fel y gwywa 'r blodeuyn tynner gan y rhew-wynt? Oes dim achos, debygwch chwi, am hyn? A dybiwch chwi fod yn hyfryd gan Dduw ganfod poen y fath wirioniaid bychain, fel y dychymygai 'r paganiaid gynt am Moloch? O nid felly y mae, bid sicr gennym; llygredig ydyw naturiaeth y rhai bychain hynny, megis holl heppil Adda cwympedig; y mae ynddynt

hadau yr holl bechodau, y rhai a eginent ac a ffrwythent ynddynt ryw bryd; ac y mae 'r fain a draethwyd ar ein rhywogaeth, "Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli," yn disgyn arnynt, o drugaredd, cyn i'r egwyddorion ddyfod i ffrwyth. Ac nid oes mo 'r ammeu gennyf nad ydyw 'r gwaed sanctaidd a dywalltwyd ar y groes yn eu hachub.

Ac yr awrhon, frodyr anwyl, ar ol dal gyhyd ar y pwngc yma sy mor bwysfawr, ystyriwn pa ddeunydd y dylem wneuthur o hono.

Iaf. Hyn, o'i ddwys ystyried, a'n cynhyrfa i ymostwng yn îs ger bron Duw. Er i ni weled ein gweithredoedd pechadurus, a'u cydnabod, ni wna hynny ostwng gymmaint ar ein balchder, ag a wna iawn olwg ar lygredigaeth ein natur, ei liw du, ei achosion, a'i wreiddyn. Yna ni a ganfyddwn, nid yn unig ddarfod i ni bechu, ond heblaw hynny, na fedrem amgen na phechu, o herwydd ein llwgr. Arweinir ni hefyd, wedi ein darostwng i'r llwch, a'n diosg o'n holl falchder, i geisio'r ymwared y mae'r Efengyl yn ei gynnyg trwy'r Iesu, yr hwn a ddaeth i'n rhyddhau ni oddi wrth gaethiwed llygredigaeth. Ni a ddeuwn i weled mai amhosibl ydyw ein rhyddhau ein hunain; mai llwyr amhosibl ydyw gwneuthur dim a ryngo fodd Duw, nes iddo ei hun gyflawnhau 'r euog, a sancteiddio ein naturiaeth halogedig.

2. Ni a ganfyddwn pa mor arswydus o beth ydyw pechod, sydd wedi dwyn ar ein naturiaeth y llwgr yma. Yn gyffredin, yn lle ei ofni, yr ydym yn chwareu ac yn cellwair ag ê. Yn lle edrych arno megis peth chwerw, yr ydym yn gwneuthur yn ysgafn o honaw, yn yfed y gwppan felus heb ystyried y gwenwyn marwol sydd yn y gwaelod. A'r anystyriaeth yma sydd dystiolaeth arall o'n dallineb ysprydol; deillion ydym i weled presennol aflwydd pechod, a deillion i ganfod y tragywyddol wae sydd ynghadw i bechaduriaid anedifeiriol. O pettaem ni 'n ystyried fel y mae Duw yn ffieiddio pechod, pettaem ni 'n craffu ar yr amryw arwyddion o ddigofaint Duw yn ei erbyn sydd i'w gweled yn awr, neu 'n credu 'n gywir y digofaint sydd ar ddyfod, nid oes yn sicr neb o honom ni chrynai o waelod ei galon. Fel y ddaiar-gryn a ysgydwodd y carcharwr, gan gymhell y ceidwad i syrthio ar ei luniau, ac ymofyn yn ddwys am iechydwriaeth; felly y cymhellid ni, trwy iawn syniad o'n henbyd lygredigaeth, i ffoi at Dduw. A bydded sicr genych, ni ffŷ neb atto yn ofer.

Yn ddiwaethaf. Pa gennadwraeth hyfryd ydyw 'r Efengyl i'r sawl sy wir deimladwy o'u cyflwr. Dan y fath syniad ac argyhoeddiad, ni fedrwn ni ddim bod yn ddifatter am Oen

Duw sy 'n tynnu ymaith bechod y byd; nid awn ni ddim heibio i'w groes yn ddigyffro, a'r Arglwydd wedi rhoddi arno ef ein hanwireddau ni i gyd; ni ymofynwn yn ein balchder, pa sutt y dichon y pethau hyn fod, ond yn ostyngedig ni a blygwn ein gliniau a'n calonnau o flaen ei orsedd, gan synnu, a chredu, ac addoli. Yna ni a ganfyddwn nad oes yn un lle arall nag ymwared na gobaith; yma, bod gobaith ac ymwared hollawl wedi eu datguddio i ni. Nyni yn drueni oll, Duw oll yn drugaredd; nyni yn llygredigaeth oll, Crist yn berffeithrwydd oll; nyni yn euog, Crist yn faddeugar; nyni yn wendid hollawl, ef yn holl-alluog; nyni yn gwbl ac yn llwyr golledig mewn pechod, efe yn abl i achub hyd yr eithaf.

O na byddai gan bob enaid o honom deimlad o'i glwyf! mor barod y byddem i ymostwng i'r meddyg dwyfol yma, a bwrw ein hunain, lygredig greaduriaid, wrth ei draed. Gwyn ei fyd yr hwn a ddelo atto fel hyn, "Canys yr Arglwydd a edrychodd ar y ddaiar, i wrando uchenaid y carcharorion, ac i ryddhau plant angeu." A'r unrhyw drugaredd a fyddo i bob un yn y gynnulleidfa bresennol, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr bendigedig. Amen.

PREGETH III.

DUW YN TRUGARHAU.

HOSEA XI. 8, 9.

Pa fodd y'th roddaf ymaith, Ephraim? y'th roddaf i fynu, Israel? pa fodd y'th wnaf fel Admah? ac y'th osodaf megis Zeboim? trodd fy nghalon ynof, a'm hedifeirwch a gyd-gynneuwyd. Ni chyflawnaf angerdd fy llid, ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim: canys Duw ydwyf fi, ac nid dyn.

Y MAE hir amynedd Duw tu ag at bechaduriaid, ei anewyllysgarwch i gospi, ei barodrwydd i faddeu, yn amlwg iawn yn y gair. Y mae 'r Bibl yn llawn o ddarluniadau o'r fath, yn gosod allan dosturi 'r Arglwydd, mewn amryw siamplau ac amryw hysbysiadau. Ond, ysgatfydd, nid oes mo 'r un llannerch yn yr Ysgrythur yn amlygu graslonrwydd a thrugaredd Duw mor deimladwy ac mor gyffrous ac y gwneir yn y testyn. Y mae 'u darlunio megis ymdrech gref yn meddwl Duw rhwng ei gyfiawnder a'i drugaredd, a thrugaredd o'r

diwedd megis yn cael y goreu. Nid ydym yn sicr i dybied ddarfod i'r fath ymdrech gael lle yn y Meddwl Dwyfol: y mae 'r Arglwydd yn siarad yn ol dull dyn, a phan ddywedir ei fod yn edifar ganddo amcanu rhyw beth, yr ystyr yw, ei fod yn gweled yn dda yn ei ddoethineb oedi neu gyfnewid ar ei bwrpas i gospi, a bod trugaredd gyd ag ef yn ei dueddu i dosturio wrth yr edifeiriol.

Mi ystyriaf y testyn yn fwy pennodol, er mwyn casglu gwedi hynny oddi wrtho addysg llesiol i chwi.

Yr oedd cenhedl Israel, neu Ephraim, fel y galwyd hi yn fynych gan y Prophwydi, wedi gwneuthur pob peth i gyffroi 'r Arglwydd i ddigofaint. Wedi gollwng yn anghof y cwbl y darfu i'r Hollalluog wneuthur iddynt; yr oeddynt wedi ymadael â'i wasanaeth ef, wedi ymwrthod â'i addoliad ef, ac wedi ymroi i'r eulun-addoliaeth fryntaf a allai fod. Ac yr oeddynt wedi parhau dros hir amser yn y cyflwr yma: ni thycciai na thrugareddau na barnedigaethau i'w dychwelyd; parhaent yn anedifeiriol fyth. Yn yr adnod nesaf o flaen y testyn, y mae 'r Arglwydd yn cwyno "fod ei bobl ar feddwl cilio oddi wrtho; er eu galw at y Goruchaf, etto ni ddyrchafai neb ef." Yn awr ynteu beth amgen oedd i'w ddisgwyl na chael o honynt eu

trin yn ol yr haeddent. Ar ol y fath gŵyn, beth oedd i'w ddisgwyl ond traethu 'r farn arnynt? beth amgen ond i'r Arglwydd digllawn ddywedyd yn bendant, mi a'u cospaf hwy 'n sicr, ac byth ni ddangosaf iddynt drugaredd? Ond, nage, nid felly; y cyfryw ydyw helaethrwydd grâs a thrugaredd yr Hollalluog, a'i fod ef yn union yn chwanegu, ar ol y gŵyn a ddarllenais i chwi, y geiriau tosturiol hyn, "Pa fodd y'th roddaf ymaith, Ephraim? y'th roddaf i fynu, Israel? pa fodd y'th wnaf fel Admah? ac y'th osodaf megis Zeboim? trodd fy nghalon ynof." Dyma drugaredd yn cael y goreu ar gyfiawnder fanwl. Dadleuai cyfiawnder megis fel hyn, "Rhodder Ephraim i fynu bellach; rhodder ef i ddinystr, fel oen i'r llew i'w larpio a'i dynnu 'n ddarnau; gwneler ef fel Admah a Zeboim, y ddwy ddinas a ddinystrwyd â thân o'r nef yr un pryd a Sodom a Gomorrah; dinystrier ef yn hollawl fel y dinasoedd hyn; aeth yn gyffelyb iddynt mewn drygioni, gwneler ef yn gyffelyb iddynt yn eu distryw: ni wneir cam felly ag ef, canys felly yr haeddai." Ond, ar yr ochr arall, dyma drugaredd yn dadleu fel hyn, "Pa fodd y gwnaf hyn? pa fodd y bwriaf ymaith fy mab, gynt mor hoff gennyf? er mor ddihired, fy mab ydyw ef; yn sicr y mae 'n haeddu felly, y mae 'n addfed i ddistryw, y mae barnedig-

aeth yn barod i ddisgyn arno, y gelyn yn barod i ymaflyd ynddo, yn sychedu am ei waed; ac os rhoddwn ef i fynu, pa gam fyddai hynny? ond pa fodd y medraf fi wneuthur felly? nid oes gennyf mo 'r galon i'w ddinistrio; nid hwyrach, os arbedir ef ennyd, fe all edifarhau, a dychwelyd at ei ddyledswydd: pa fodd, ynteu, y medraf fi ei roddi ef i fynu i'w gyfrgolli yn druenus?

Megis fel hyn y mae trugaredd yn dadleu, ac nid yw yn dadleu 'n ofer. Y mae 'r Arglwydd yn dywedyd ei fod megis yn meddalu yn raslawn wrth feddwl am doster y farn a syrthiai ar ei bobl, pe buasai 'n myned i'r eithaf. "Trodd fy nghalon ynof, a'm hedifeirwch a gyd-gynneuwyd." A sylwch fel y mae 'n dibennu, "Ni chyflawnaf angerdd fy llid, ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim;" h. y. ni wnaf mo 'r pethau hyn yn awr, arbedaf ef ennyd etto; er fy mod yn ddig wrtho, er na chaiff ef mo 'r myned yn llwyr ddi-gosp, etto ni adawaf i'm holl lid syrthio arno, ysgafnhaf y farn, ni wnaf gwbl ddiben o hono; ceryddaf ef, ond nid yn fy nigofaint, rhag ei ddwyn ef i ddiddim; ceryddaf ef, etto heb ei lwyr ddinystrio. A sylwch, yn ddiwaethaf, pa sutt y mae 'n dyfod i dosturio felly wrtho, "Canys Duw ydwyf fi, ac nid dyn." Os dyn y buasai i Ephraim ddigio

fel hyn, ni fedrasai mo 'i ddioddef, ei ddig a fuasai 'n drech na 'i drugaredd, a chospi y gwnaethai, os gallai. Ond Duw ydwyf fi, meddai ef, ac nid dyn; Duw a ŵyr sutt i attal ei ddigofaint. Ei drugaredd sydd yn parhau yn dragywydd; ac fe ŵyr hefyd sutt i gysylltu cyfiawnder â thrugaredd. Megis mewn pethau eraill, felly hefyd wrth faddeu pechodau ac arbed y pechadur, nid yw meddyliau Duw fel ein meddyliau ni, na'i ffyrdd ef fel ein ffyrdd ni.

Gwedi ystyried fel y mae trugaredd, ac hirymaros, a thynnerwch naturiaeth Duw yn ymddangos yn y fan yma o'r Ysgrythur, ni a gasglwn oddi yma addysg er lleshad i ni.

Ac ystyriwn, 1af, fel y mae mannau ac hanesion eraill o'r Bibl yn portreiadu Duw ac yn ei ddarlunio yn yr un modd megis trugarog ac hir-ymarhous. Yn yr amser o flaen y diluw, mor amlwg y gwelwyd hyn, mor hynod yr ymddangosodd graslonrwydd y Goruchaf. Cymmaint oedd drygioni y ddaiar, a bod i'r Arglwydd edifarhau am wneuthur o hono ddyn ar y ddaiar; ac efe a ymofidiodd yn ei galon. "A'r Arglwydd a ddywedodd, Dilëaf ddyn yr hwn a greais oddi ar wyneb y ddaiar." Dyma fel yr oedd cyfiawnder yn gofyn; ond trugaredd a ddadleuai yn yr achos yma hefyd, gan erfyn am oedi 'r farn. Er cymmaint y llygrasid

dynion, er i'w pechodau megis alw yn uchel am gospedigaeth, am ddinystr i ddisgyn arnynt yn ebrwydd; etto fe ddywedasai yr Arglwydd yn ei fawr dosturi, cyn eu boddi, "Ei ddyddiau a fyddant ugain mhlynedd a chant;" h. y. mi arbedaf ddynion dros yspaid yr amser yma i edrych a wnant hwy ddychwelyd a cheisio Duw. Ond pan derfynid yr amser yma, a hwythau heb edifarhau, yna yn wir angerdd ei ddigofaint a syrthiodd arnynt.

Mor hynod hefyd y darfu i drugaredd Duw gyfryngu, ac aml weithiau arbed yr Israeliaid yn y diffeithwch. "Ni ddeallasant ei ryfeddodau yn yr Aipht, ni chofiasant luosawgrwydd ei drugareddau; eithr gwrthryfelgar fuont wrth y môr, sef y môr côch: etto efe a'u hachubodd hwynt er mwyn ei enw, i beri adnabod ei gadernid. Eithr yn y fan yr anghofiasant ei weithredoedd ef, ni ddisgwyliasant am ei gyngor: blysiasant yn ddirfawr yn yr anialwch, a themtiasant Dduw yn y diffeithwch." Y naill amser hwy a droent Dduw eu gogoniant, yr hwn a wnaethai gymmaint drostynt, i lun eidion; amser arall, grwgnachent yn eu pebyll, ac ni wrandawent ar lais yr Arglwydd. Brydiau eraill hwy a ymgymmysgent â'r cenhedloedd eulun-addolgar. Hyn oll a gynneuodd lid yr Arglwydd, ac efe a'u rhoddai yn llaw eu gelynion,

ond etto pan oedd ing arnynt, efe a edrychai arnynt, gan glywed eu llefain hwynt. Ac efe a gofiodd ei gyfammod â hwynt, ac a edifarhaodd; h. y. fe gyfnewidiodd ar ei bwrpas i'w difa hwynt, ac a'u harbedodd yn drugarog.

Ond i beidio a son am siamplau eraill, pa mor rhyfeddol y mae tynnerwch y Goruchaf yn ymddangos yn y weithred fwyaf rhagorol o'i drugaredd, prynedigaeth ac iechydwriaeth dynion. Nid ydyw drygioni y byd o flaen y diluw, a llygredigaeth a gwrthryfelgarwch Israel neu Ephraim, ond portreiad o lygredigaeth y natur ddynol yn gyffredin. Llygrwyd pob cnawd ger bron Duw. Pan edrych y bydd ef i lawr o'r nef ar y ddaiar ac ar feibion dynion, fe a wêl nad oes un cyfiawn, nag oes un; fe a wêl bod meddylfryd calon dyn yn ddrygionus bob amser. Beth arall yw hanesion y byd hwn, ond hanes o wrthryfelgarwch dynion yn erbyn eu Gwneuthurwr. Y mae dynion etto fyth yn ymfucheddu megis heb Dduw yn y byd, yn gaeth-weision i amrafael chwantau, yn dilyn amcanion eu calonnau drygionus eu hunain; yn cymmeryd megis am eu Duw eu meddiannau bydol, neu eu pleserau pechadurus. Y mae 'r ddaiar etto fyth yn gyflawn o drais; y gwefusau a luniwyd i fendithio'r Arglwydd, a arferir i'w gablu ac i'w ddianrhydeddu, trwy ddrwg arfer

o honynt, trwy araith lygredig ac annuwiol, ïe, gan rai, hyd yn oed i wadu ei awdurdod; y dwylaw, y traed, y llygaid a grewyd i'w wasanaethu a'i ogoneddu ef, a gymmerir yn ddibaid megis arfau pechod ac anghyfiawnder. Onid y cyfryw ydyw cyflwr llaweroedd o ddynion, er cymmaint a wnaed i'w dychwelyd? onid ydyw 'r byd agos yn gyffredin yn gorwedd mewn drygioni? Beth ynteu y mae eithaf cyfiawnder yn ofyn ond ei ddinystrio? Ond nid felly y gwnaeth y Duw trugarog: ni fedrai glywed yn ei galon ddistrywio ei greaduriaid yn ddiarbed. Darparodd foddion i'w hachub, ac y mae yn parhau i gynnyg derbyniad, i gynnyg maddeuant, ac iechydwriaeth i'r sawl oll a fyddo ffyddlawn ac ewyllysgar i'w derbyn.

Pan edrychai 'r Hollalluog ar golledig gyflwr dynion, cyfiawnder a ddadleuai yn daer am eu cospi a'u distrywio; trodd ei galon megis ynddo, ei edifeirwch a gynneuwyd: ni fynnai farwolaeth pechaduriaid, ni fedrai ddioddef eu rhoddi i fynu oll yn hollawl i ddiafol, a gadael i'w heneidiau anfarwol fod yn druenusaf yn dragywydd, heb geisio eu hachub, heb geisio iddynt ddychwelyd a byw. Yr oedd, yn sicr, anhawsdra i'w pardynu, rhag, wrth ddangos trugaredd iddynt, y byddid megis yn rhoddi annogaeth i bechod, neu ymddangos o'r Goruchaf

heb fod mor anfeidrol o'r cyfiawn a sanctaidd ag ydyw ef mewn gwirionedd. Ond yr oedd y Goruchaf yn medru gorchfygu 'r anhawsdra yma. Duw ydyw ef, ac nid dyn. Fe gafodd ffordd i ddangos ei fawr drugaredd heb anghlod i'w gyfiawnder. Dychymygodd ffordd i ryddhau pechaduriaid, sef iawn dros eu pechodau. Y moddion yma, tra 'r oeddynt yn dangos parch y Goruchaf i'w gyfraith, a lenwai 'r nef o fawl a gogoniant. Canys danfonodd ei unig-anedig Fab i'r byd; rhoes ef i fod yn aberth dros bechaduriaid truain: efe a gymmeroedd arno eu natur; dioddefodd ac a fu farw er eu mwyn; rhoddwyd eu hanwiredd hwy arno ef; bu 'n hongian ar y groes megis yn ddrych i ddynion ac angylion: ac yn yr awr honno yr amlygwyd cyfiawnder, sancteiddrwydd, doethineb, a thrugaredd y Duwiol Anian. Ond ei drugaredd a'i tueddodd i lunio 'r fath foddion o foddloni cyfiawnder, a chyd a hynny i arbed y troseddwr. Yn yr awr honno yr agorwyd ffordd i'r pechadur i ddychwelyd, maddeuant a heddwch a ddatganwyd i bob un a ymddiriedai i'r aberth yma dros eu pechodau, ac, wedi dychwelyd at Dduw, a roddai ei hun rhagllaw i'w wasanaeth, ac i gael ei sancteiddio trwy ei Yspryd.

Fel hyn y cafodd trugaredd megis orfoleddu

ar gyfiawnder. Felly y gall y pennaf o bechaduriaid gael eu hachub. Felly ni cheiff neb, er gwaethaf eu camweddau a basiodd, eu cyfrgolli, oddi eithr iddynt barhau 'n gyndyn yn eu gwrthryfelgarwch, ac ymwrthod â'r maddeuant a'r cymmod a gynnygir iddynt.

Y cyfryw ydyw 'r golwg y mae prynedigaeth yn rhoddi i ni o drugaredd ddigymmar y Goruchaf ac o'i hir-ymaros. Fel na byddai i bechaduriaid farw yn ddifeddyginiaeth, yn ddiobaith, ni arbedodd ef ei Fab ei hun, ond fe rhoes ef drosom ni oll: mynnai 'r Arglwydd ei ddryllio, ei glwyfo, a gosod ei enaid yn aberth dros bechod. O dyma siampl anfeidrol o'r drugaredd a ddarluniwyd yn y testyn megis yn gweithio mor nerthol yn mynwes yr Arglwydd.

Yn ail, fel y mae 'r fath olwg ar drugarowgrwydd Duw yn mawrhau euogrwydd Pechod. Y mae pechod, am amrafael achosion, yn dra brwnt: gwrthryfelgarwch ydyw ef yn erbyn ein cyfiawn frenhin, sydd ganddo wir hawl i'n hufudd-dod; dirmyg ydyw ef o feistr graslawn a charediccaf; anniolchgarwch ydyw ef tu ag at gyfaill anfeidrol hael a ffyddlawn: ond yn bennaf dim, yr hyn, rhagor na dim arall, sy yn ei wneuthur yn frwnt a drygionus dros fesur ydyw, ei fod yn ddibrisdod o drugaredd a thosturi heb eu bath ar law Duw. Yma y mae

ei fryntni yn ymddangos yn ei ddull gerwinaf. Oddi eithr bod y Goruchaf mor anfeidrol drugarog, ni fuasai pechod ddim mor bechadurus. Er cymmaint oedd euogrwydd Ephraim, onid amlwg ydyw, mai mwy o lawer y buasai, os ar ol i Dduw dosturio wrtho, y gwnaethai barhau yn pechu yn erbyn Duw. Mor euog ynteu raid i rhei'ny fod sy 'n dirmygu ac yn ymwrthod â'r drugaredd a gynnygir yn yr Efengyl, heb brisio dim, neu heb brisio fel yr haeddai, yr hyn oll y teilyngodd yr Arglwydd wneuthur drostynt, mor euog y rhaid iddynt fod yn dirmygu y tyner dosturi a ddangosodd iddynt, yr aberth gwerthfawr a ddarparodd efe drostynt, ac felly yn gwneuthur yn ysgafn o amcan a bwriad Duw i'w hachub; yn naccau dychwelyd at eu dyledswydd, ac yn rhyfygus yn caledu eu calonnau yn ei erbyn ef. Ystyriwch hyn, frodyr, ystyriwch yn ddifrifol; chwychwi y rhai y mae eich cydwybod yn tystio na ddarfu i chwi etto ymgymmodi â Duw yn ol ei Efengyl, ac nad ydych yn byw fel y dylai gwaredigion yr Arglwydd, ymhob sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb. Nid hwyrach eich bod yn bwriadu byw felly, ond nid allan o law; yr ydych yn bwriadu troi at Dduw amser a ddaw, ond nid ydych etto yn barod. O! na ymddiriedwch i'r cyfryw fwriad siomgar, i'r cyfryw fwriad rhy-

fygus. Trugaredd Duw, er cymmaint, ni chynnygir yn wastad i bechaduriaid anedifeiriol. Er ni chyflawnodd Duw lidiawgrwydd ei ddigofaint y pryd hwnnw ar Ephraim, er iddo ei arbed y pryd hwnnw, nid oedd hynny ond dros amser: pan ddarfu 'r amser hwnnw, ac ynteu heb wellhau, yna, gan ddychwelyd, yr Arglwydd a'u llwyr ddinystriodd. Onid felly y bu i'r bobl o flaen y diluw? hwy a arbedwyd dros yspaid chwe ugain mhlynedd: ond pan ddaeth yr amser yma i ben, a hwythau heb edifarhau, y diluw a ddaeth ac a'u dinystriodd hwy oll. Onid felly hefyd y bu i Israel yn y diffeithwch? fe ddarfu i'r Arglwydd gyd-ddwyn â hwynt dros amser: ond o'r diwedd, yn nydd ei ddigofaint, fe dyngodd nad elent i'w orphwysfa. Dysgwch, a chymmerwch rybudd oddi wrth y siamplau hyn. Ysgrifenwyd hwy er addysg i chwi. Na themtiwch yr Arglwydd, trwy anedifeirwch a dirmyg, i'ch torri ymaith yn eich pechodau, a'ch selio i ddinystr. Nid ydyw 'n ewyllysio bod neb yn golledig. Na chyffrowch chwithau ef i ddigofaint; yn hytrach ymaflwch yn ei drugaredd: "Edifarhewch a dychwelwch, fel y dilëer eich pechodau.

Yn ddiwaethaf. Mor gysurlawn ydyw 'r golwg yma o drugaredd Duw i bechaduriaid

edifeiriol a gostyngedig. Y mae 'r fath rai yn chwanog i fod yn llawn o amheuaeth ac ofn: y syniad a'r teimlad sy ganddynt o'u pechodau, meddwl y gorfydd iddynt ymladd yn eu herbyn, sy 'n chwanog i'w cythryblu a'u llenwi o amheuaeth ac anesmwythdra. Y maent yn chwennych cael ymgymmodi â Duw, y maent yn chwennych iechydwriaeth, ond etto heb hyderu y cânt hi, heb obaith y gwna Duw ei channiattau iddynt, gan gymmaint eu hanheilyngdod. Yrwan, i'r cyfryw rai y mae addysg y testyn yn cynnyg diddanwch o'r mwyaf. A oedd Duw mor anewyllysgar i roddi Ephraim i fynu, ïe, er ei fod yn anedifeiriol? a oedd hi mor alarus ganddo roddi Israel ymaith, pan yr oedd Israel heb ei geisio? ac a fydd ef yn ol o ddangos trugaredd i'r sawl sydd yn ei cheisio? a oedd yn fawr ganddo gospi a dinystrio 'r sawl oeddynt yn myned ymlaen yn eu drygioni? ac a wna ef glywed arno ei hun ewyllys i fod yn anrhugarog wrth y sawl sy 'n ymegnio i ymwrthod â'u pechodau, ac yn fawr eu hawydd i rodio mewn newydd-deb buchedd? Y mae 'r fath beth yn afresymol i'w feddwl. Yn sicr iawn, os ydych chwi yn ceisio Duw yn eich calonnau, yn condemnio 'ch hunain, ac yn erfyn trugaredd, fe gynneua ei ymysgaroedd tu ag attoch; y mae 'n tosturio yn dyneraf wrthych, ac

yn dywedyd megis wrth bob un o honoch, Ti enaid cystuddiedig, cymmer gysur, fy llid a drowyd ymaith; nis gallaf dy roddi i fynu; nis gallaf dy wneuthur fel Admah a Zeboim. Pa sutt y dinystriaf di, yr hwn wyt yn ymostwng ger fy mron: canys Duw ydwyf fi, ac nid dyn. Dy Dduw ydwyf, yr hwn a gymmodwyd â thi; dilëais dy gamweddau, a byth ni adawaf monot.

O bydded i'r Duw graslonaf, sy 'n rhoddi i ni y fath gysuron yn ei air, roddi i ni allu i'w derbyn mewn ffydd a gobaith, fel y derbyniom nerth a diddanwch, ac yr elom ar hyd ein taith i'r nef yn orfoleddus.

PREGETH IV.

ADDEWID O GRIST.

JEREMIAH XXIII. 5, 6.

Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, y cyfodaf i Ddafydd Flaguryn cyfiawn, a Brenhin a deyrnasa ac a lwydda, ac a wna farn a chyfiawnder ar y ddaiar. Yn ei ddyddiau ef yr achubir Iuda, ac Israel a breswylia yn ddiogel: a hyn fydd ei enw ar yr hwn y gelwir ef, YR ARGLWYDD EIN CYFIAWNDER.

YR ydys yn gyffredin yn esponio 'r brophwydoliaeth yma megis yn rhagfynegi Crist a'i ddyfodiad yn y cnawd, a gogoneddus gyflwr ei Eglwys. Nis gall yr arwyddion a'r nodau fod yn gyfaddas i neb ond iddo ef: dyma ei enedigaeth yn ol y cnawd o dylwyth Dafydd a'i Dduwiol Anian wedi eu pennodi. Yn fynych y darlunir pen-cenedl a'i hiliogaeth dan ddull gwreiddyn a blaguryn, megis yn y bennod hon; ac yn y xxxiii. 15. y dywedir, "Yr amser hwnnw paraf i Flaguryn Cyfiawnder flag-

uro i Ddafydd." A'r Iesu, fel y gwelir yn y Testament Newydd, a aned o'r Forwyn Fair, yr hon a darddodd o dŷ Dafydd. "A Brenhin a deyrnasa," medd y Prophwyd. Y Messiah a bortreiadwyd yn wastad er amser Dafydd megis Brenhin, yn gymmaint ag i'r Iuddewon ei ddisgwyl fel Brenhin daiarol. Ond nid oedd ei frenhiniaeth yn weledig mewn gwychder a mawredd bydol, megis tywysogion y byd hwn, er hynny crybwyllir yn yr Ysgrythur mai Brenhin dyrchafedig ydyw ef uwch pob anian; ac os sylwn, ceir gweled effeithiau mawrion o'i awdurdod a'i allu; a diammeu y bydd anfeidrol mwy dangosiad cyn y diwedd. Beth am y dial ofnadwy a ddanfonodd ar ei leiddiaid, yr Iuddewon, trwy ddinystrio eu dinas a'u gwladwriaeth, a'u gyru ar wasgar trwy 'r holl fyd.

Beth a ddywedwn am y llwyddiant rhyfedd a gafodd yr Efengyl mewn ychydig amser, er gwaethaf holl wrthwyneb y byd: onid oedd hyn yn dangos bod gallu goruchaf Crist Frenhin yn fwy nerthol, ac yn diddymmu holl egni dynion ac ysprydion drwg. Beth ond grym ei frenhiniaeth sydd yn parhau i ymddiffyn ei Eglwys. Y mae 'n teyrnasu 'n awr ynghalonnau dynion, ac yn dwyn eu chwantau 'n ufudd i'w Efengyl. Fe ddaw 'r amser pryd y bydd ei frenhiniaeth yn fwy amlwg fyth, pryd y daros-

tyngir pob gelyn iddo. Yn y cyfamser, gan fod ei awdurdod frenhinol wedi ei hamlygu o amser bwygilydd, fel yr oedd achosion yn gofyn, y mae sail i ni gredu y bydd ei frenhiniaeth i'w gweled ryw bryd yn ei chyflawnder oll, yn darostwng tywysogaethau uffern, yn darostwng angeu, yn cyfodi 'r meirw i fyw, yn barnu pawb oll, yn danfon y duwiol etholedig i'r nef, a'r annuwiol i uffern.

Wele, ynteu, fel y llwydda y Brenhin hwn. Ac y mae 'r Prophwyd sanctaidd yn dywedyd ymhellach am dano, y gwnai farn a chyfiawnder ar y ddaiar. A hynny a wnaeth ef yn sicr: y rheolau a roes ef i'w ddisgyblion oeddynt gyfiawn a pherffaith, ei siampl yn gyfiawnaf, yn cyflawni 'n hollawl ac yn ddi-dor bob dyledswydd i Dduw a dynion. Y mae 'n cyflawni ei swydd frenhinawl mewn cyfiawnder, gan roddi llwyddiant a bendith i ddynion a chymdeithasau duwiol a chyfiawn; ac o'r diwedd, fe a farna 'r byd mewn cyfiawnder.

"Yn ei ddyddiau ef," medd y Prophwyd, "Iuda a achubir, ac Israel a breswylia yn ddiogel." Y brophwydoliaeth yma a geiff gyflawniad cyfan, mae 'n debygol, yr amser y dychwelir yr Iuddewon i gorlan Crist, yr hyn sydd i'w ddisgwyl yn ol yr hysbysiadau, amryw yn yr Hen Destament a'r Newydd. Ond,

mewn ystyr arall, fe ellid arwyddocau wrth Iuda ac Israel, y gwir Grist'nogion, y rhai a achubir trwy 'r Brenhin hwn, ac a fyddant ddiogel dan ei nawdd ef. Y mae efe 'n wastad yn cyfrannu iddynt o'i râs i ddiwallu eu hangenrheidiau; y mae 'n rhag-ddarbod drostynt, yn gorchymyn i'r Angylion weini iddynt, i'w nerthu a'u hymddiffyn, yn cadw draw ysprydion drwg oddi wrthynt, ac yn trefnu fod pob dim yn gweithio er daioni iddynt; ac felly y gellid dywedyd eu bod yn trigo yn ddiogel. Ond y mae un ystyr arbennig ymha un yr achubir hwy ac y gwneir hwy yn ddiogel, sef, o herwydd bod Crist Yr Arglwydd (Jehofa, fel y dywedir yn yr Hebraeg) eu Cyfiawnder. Nid oes mo 'r ammeu nad yw 'r holl adnod yma, fel yr adnod o'r blaen, yn perthyn i Grist, yr hwn a elwir yma yn Jehofa ein Cyfiawnder, yr hyn sy 'n profi ei Ddwyfol Anian, fel y mae 'r adnod o'r blaen ei ddynol natur. Bod yr Arglwydd, neu Jehofa, yn gyfiawnder i'r ffyddloniaid yw 'r peth sy 'n gwneuthur iddynt fod yn ddiogel, ac yn esmwyth, ac yn hyfryd eu calonnau. Ac ar y testyn pwysfawr mi a ymhelaethaf beth, testyn ni fydd byth yn flîn gan wir ddisgyblion Crist glywed traethu am dano.

Chwi a gydnabyddwch yn hawdd, fy mrodyr, na fedrasech gael iechydwriaeth trwy 'r ddeddf,

oblegid, yn awr, er i chwi hyd yn oed gael eich nerthu gan râs, a'ch hannog ymhob ffordd, ni fedrwch ei chyflawni yn ddi-dor: ac er i chwi gynnyddu 'n helaeth mewn duwioldeb, ni fedrwch, o honoch eich hunain, ddiangc rhag y farn a draethir yn erbyn ei throseddwyr, chwaithach o lawer haeddu dim gwobr. Mor llwyr analluog ynteu oeddych yn eich cyflwr anianol i gael bywyd trwy ddeddf sy 'n bygwth marwolaeth am ei throseddu yn y gradd lleiaf.

Tra sanctaidd ei natur ydyw 'r Hollalluog, ac nid yw 'n bosibl y byddai cyfraith a roed ganddo ef amgen nag yn sancteiddiaf, ac yn gorchymyn purdeb yn y meddwl cystal a'r weithred. Wrth y gyfraith gan hynny nid oedd iechydwriaeth i'w chael, yn hytrach gellid dywedyd ei bod yn damnio, o herwydd ni ddarfu i neb, ond un, ei chadw yn ddi-dor. Ni ddarfu i neb arall wneuthur cymmaint ag y gallasai. Ni welwch ddim crybwyll yn y gyfraith am bardwn ar edifeirwch, lle yr annogir i edifeirwch yn y Prophwydi; yna y mae 'r Efengyl raslonaf yn ymagor, dydd gras yn dechreu gwawrio. Ond yn y gyfraith, sef deddf Moses, nid oes mo 'r fath beth i'w weled. Yr oedd aberth anifeiliaid yn adferu troseddwyr mewn mân gamweddau i wladwriaeth Israel a'u breintiau amserol; ond nid oedd bosibl, fel y

dywed St. Paul, i waed teirw a geifr ddileu pechod a glanhau 'r gydwybod. Yr oeddid yn addaw gwobr i ufudd-dod perffaith, Gwna hyn a byw fyddi, medd y ddeddf; ond, melldigedig fydd y neb a droseddo. Y mae dynion yn ddigon parod i rwgnach yn rhyfygus yn erbyn Duw, a rhai yn beio ar y ddeddf megis creulon a chaled. Mor anrhesymmol yw 'r cyhuddiad yma, chwi a gydnabyddwch yn ebrwydd, ond i chwi ystyried funud awr sutt y mae'n bod gyd â chyfreithiau dynol. Beth a feddyliech chwi am gyfraith yn eich gwlad a fyddai 'n gwahardd gwneuthur rhyw beth, ond ar yr un amser yn dywedyd, y neb bynnag a'i troseddai a geiff faddeuant. Byddai addaw pardwn neu faddeuant i droseddwr yn anghyson â natur cyfraith. Ni wnai un deddfwr doeth ddatgan cyfraith yn y fath fodd; canys ni fyddai cyfraith yn addaw felly bardwn i droseddwyr gwirfodd yn debygol o gael ufuddhau iddi: yn wir ni chlywodd neb erioed am y fath beth. Ac a ddisgwyliech chwi i Dduw doethaf gyhoeddi cyfraith o'r fath. Y mae sanctaidd gyfraith Dduw yn bygwth dial ar bawb a'i throseddo hi, ac fe ddarfu i chwi ac i minnau a dynion oll ei thorri; ac os ydym yn chwennych cael pardwn, nid at y gyfraith a droseddwyd y rhaid i ni edrych am dano, ond ei geisio gan rad drugaredd y deddfwr;

yn y gyfraith ei hun y mae 'n anrhesymmol i'w ddisgwyl, y mae 'n amhosibl i'w gael.

Ond eraill a achwynant, mai peth tost ydyw ein bod ni yn ol y gyfraith, ondodid er i ni gadw rhyw rannau yn ddi-dor, yn myned am un troseddiad yn ddarostyngedig i'r penyd neu y gospedigaeth. Ond nid ydyw hyn amgen nag y gwelir mewn cyfreithiau dynol. Os bydd mewn gosodiad y Senedd-dy yn ein gwladwriaeth ni amryw bethau wedi eu gorchymyn neu wedi eu gwahardd, a marwolaeth wedi ei gosod yn benyd am anufuddhau, er bod dyn wedi cadw 'r pwyntiau eraill oll nid hwyrach, ond gwedi troseddu mewn un, y mae 'n euog o farwolaeth, ac ni wneir cam ag ef os rhoir ef i farwolaeth. Ac nid oes fodd arall i drefnu cyfreithiau: rhaid bod penyd i roi grym i'r gyfraith, ac i gymmell ufudd-dod. A rhaid i'r troseddwr edrych am bardwn nid at y gyfraith, yr hyn beth nis gall fod ynddi, ond at drugaredd y llywodraethwr. Gan hynny na achwynwn os ydyw 'r Goruchaf yn ymddwyn felly wrth osod cyfraith i ni, yn ymddwyn yn yr unig fodd y gellid ymddwyn wrth osod cyfraith. "Pwy bynnag a gadwo 'r gyfraith ac a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl." Nid am fod y sawl a fo 'n euog o ladratta yn euog o herwydd hynny o ladd; ond wrth droseddu

mewn un pwngc y mae ef yn dianrhydeddu 'r awdurdod a osododd bob gorchymyn ; trwy un troseddiad y mae 'n euog o anufuddhau i awdurdod Duw, yn colli 'r gwobrwyon, ac yn myned yn ddarostyngedig i'r penyd. Ac felly y mae wrth droseddu cyfreithiau dynol.

Ond dadleuir ymhellach, fod y trueiniaid a lithrasant mewn un peth, os cadwasant y gyfraith yn gyffredin, yn cael eu pardynu aml weithiau ymysg dynion o herwydd eu diniweidrwydd gynt. Y mae hynny yn bod: ond yn mha fodd y maent yn cael pardwn? nid trwy gleimio maddeuant megis hawl, nid yn y gyfraith, ond trwy ei erfyn ar law 'r llywydd, fel trugaredd heb ei haeddu. Ond sylwch yma, fel y mae trugaredd y Goruchaf yn ymddisgleirio 'n rhagorol ; y mae efe 'n ewyllysgar i faddeu pob trosedd, nid arosodd i gael erfyn arno, ond cynnygiodd faddeuant o honaw ei hun: ond goddefwch iddo ei gynnyg yn ei ffordd ei hun. Os ydych yn chwennych maddeuant, na cheisiwch ef yn y ddeddf, lle nid yw 'n bosibl i'w gael; ceisiwch faddeuant trwy ei Fab ; ceisiwch ei gael ef, yr Arglwydd, neu Jehofa, yn gyfiawnder i chwi, ac yna preswyliwch yn ddiogel heb ddim i'ch haflonyddu.

Echrydus iawn oedd cyflwr dynion yn ymddifaid o'r gwarediad yma. Yr oedd pawb oll

wedi dyfod yn fyr, wedi bod yn wirfoddol droseddwyr. A phan ystyriwn sancteiddrwydd y Duwiol Anian, ac ardderchawgrwydd yr awdurdod Ddwyfol, ni a fyddwn barod i lefain yn ngeiriau St. Paul, a roddwyd ganddo yngenau y dyn anianol oedd wedi ei argyhoeddi o bechod, "Ys truan o ddyn, pwy a'm gwared i oddi wrth gorph y farwolaeth hon." Yr oedd Gwaredwr yn barod; yr Arglwydd, Jehofa ei hun, un o'r ogyd dragywyddol Drindod, a aeth yn Iachawdwr: y tragywyddol Fab a deilyngodd fyned yn ddyn, a aned o Forwyn bur, ac yn ein natur ni a foddlonodd gyfiawnder Duw, a haeddodd trwy ei ufudd-dod a'i ddioddefiadau faddeuant i'r sawl a gredent iddo, y rhai ni allent fyth gael hynny trwy 'r gyfraith. O ffydd, nid o weithredoedd, y mae cyfiawnhad yn dyfod. Nid trwy ddim a ddarfu i ni haeddu y pardynir ni ac y cyfiawnheir ni; ond o wir rad râs Duw, yn trugarhau wrthym er mwyn cyfryngdod ei Fab, Duwiol Anian yr hwn a roes ddigonol werth i'w gymmod, a'i Ddynol Anian a'i gwnaeth yn gymmwys dros ddynion.

Sylwn funud awr, frodyr anwyl, ar deilyngdod a chariad yr Iachawdwr hwn tu ag at ddynion colledig wrth y gyfraith. Nid oedd y dioddefiadau yr oedd yn rhagweled y byddai raid iddo megis meichniwr fyned danynt yn ei

attal. Gwyddai y dodid arno ef anwiredd y byd, ac mai trwy ei gleisiau ef yr oedd dynion i gael iachâd; rhagwelai yr holl loes a syrthiai arno, rhagwelai y fflangell a'r groes; ond ni throdd hynny mono oddi wrth ei amcan graslonaf; ïe, er ei fod yn ffurf Duw, efe a'i dibrisiodd ei hun, a'i gael mewn dull dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu 'r groes. Felly trwy ei ufudd-dod hyd angeu, y cymmod mawr a wnaed; porth y nef a agorwyd i ddynion, maddeuant a chyfiawnhad trwy waed Crist, sancteiddiad trwy 'r Yspryd Glan, a thragywyddol wynfyd yn y byd a ddaw a gynnygiwyd, megis wedi eu prynu trwy aberth Crist, i bawb oll a ffoant atto ef am ymwared. Yn gymmwys, ynteu, y gosododd yr Eglwys y llannerch yma o'r Ysgrythur lân i'w darllen ar y Sul nesaf i'r Adfent, pryd y troir ein myfyrdod ar ddyfodiad Crist i'n barnu. Canys y ffyddloniaid sy ganddynt yr Arglwydd yn gyfiawnder a allant fyfyrio ar y testyn pwysfawr gyd â chysur yn lle braw; heb hynny ni fedr neb feddwl am ddydd barn yn ddiarswyd, oni byddant yn llwyr ddideimlad.

Cydnabyddwch, gan hynny, bawb o honoch, mai trwy ffydd yn unig y ceir cyfiawnhad, trwy yr Arglwydd ein cyfiawnder. Ni wiw sôn am weithredoedd a wnaed cyn cyfiawnhad, gan

mai o achos eu bod mor ddiffygiol yr oedd Cyfryngwr yn angenrhaid; ac ni fedrwn roi pwys yn y byd ar weithredoedd a wnaed ar ol cael cyfiawnhad fel yn haeddu gwobr, canys "gwedi gwneuthur y cwbl a fedrem gweision anfuddiol ydym."

Ond pan ddywedir mai trwy ffydd yn yr Iachawdwr, neu trwy geisio cael iechydwriaeth trwy 'r Iachawdwr, y cyfiawnheir ni, mae 'n amlwg gan bawb y gwna 'r ffydd yma, os cywir, weithio ar galonnau dynion. Os ydych yn credu mewn gwirionedd ddarfod i Grist Iesu fyned yn ddyn a marw i gadw 'ch heneidiau, y grêd yma a bair ddiolchgarwch gwresog a chariad dwys i'r Iachawdwr trugarog yma, a pharodrwydd mawr i wneuthur ei ewyllys. Ond ei ewyllys ef yn amlwg ydyw, bod i ddynion wneuthur eu goreu trwy râs i gadw 'r gyfraith foesol, a'r gorchymynion sanctaidd a roed ganddo ef. Ac, felly, y mae Crist'nogion cywir, bellach, yn ufuddhau i'r gyfraith, nid fel pettaent yn disgwyl iechydwriaeth o herwydd hynny, ond o herwydd ni fedrant fod yn wir ddisgyblion iddo ef, a brynodd iechydwriaeth i ddynion, heb sancteiddrwydd; ac oni byddant wir ddisgyblion, ni chant gyfran yn ei iechydwriaeth, ni chant ef i fod "Yn Arglwydd eu cyfiawnder." Ffydd yn gweithio trwy gariad

yw 'r ffydd a geiff afael i ni yn haeddiant yr Iachawdwr. A chofiwch nad oes dim mwy haeddiant yn y ffydd yma nag sydd yn y gweithredoedd yn tarddu o honi; yr haeddiant sydd yn yr Iachawdwr yn unig. Ffydd gywir yw'r offeryn trwy ba un y ceir gafael yn yr haeddiant yma: a gweithredoedd da a chariad helaeth i Dduw a dynion yw 'r dystiolaeth o gywirdeb ffydd. Fe all pawb wybod nad i ffydd anghywir y rhoddwyd yr addewid o faddeuant neu gyfiawnhad; gan hynny ofer ydyw hyder, a disylfaen ydyw gobaith y sawl sy 'n meddwl eu hunain mewn ystad o gyfiawnhad, heb dystiolaeth gweithredoedd crist'nogaidd am gywirdeb eu ffydd. Edrychwch ynteu, frodyr, am flaenori mewn gweithredoedd da, yn ol cyngor yr Apostol Paul, heb hyderu arnynt hwy, ond ar eich Hiachawdwr.

Mi ddiweddaf gyd â geiriau 'r unrhyw Apostol sanctaidd, a'r Hollalluog a'u hargraffo ar eich calonnau. "Wrth hynny, a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? Na atto Duw; eithr yr ydym yn cadarnhau y ddeddf. Am hynny, fy mrodyr anwyl, wedi eich cyfiawnhau trwy ffydd yn ein Hiachawdwr bendigedig, byddwch sicr a diymmod a helaethion yngwaith yr Arglwydd yn wastad, a chwi yn gwybod nad ydyw eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd."

PREGETH V.

YMDDANGOSIAD CRIST YN Y CNAWD.

HEBREAID IX. 26.

Eithr yr awrhon unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd efe, i ddilëu pechod trwy ei aberthu ei hun.

Y MAE 'r testyn yn galw arnom i ystyried pedwar peth cynnwysedig ynddo, a chymmwys iawn i fyfyrio arnynt y pryd yma.

I. Ymddangosiad ein Hiachawdwr.

II. Amser ei ymddangosiad, sef, "yn niwedd y byd."

III. I ba berwyl yr ymddangosodd efe, "i ddilëu pechod."

IV. Y moddion trwy ba rai y cyflawnodd yr amcan yma, "trwy ei aberthu ei hun."

Dechreuwn gyd a'r pwngc cyntaf, sef ei ymddangosiad. A than y gaingc yma o'm traethawd, ystyriwn pwy a ymddangosodd, a dull ei ymddangosiad. Efe, yr hwn a ymddangosodd, oedd yn Dduw ac yn ddyn; yr oedd y ddwy

anian ynddo ef, ac o honynt yr oedd un person yn hanfod; efe oedd Emanuel, fel y dywedodd yr Angel yn y bennod gyntaf o St. Matthew, yr hyn o'i gyfieithu ydyw, Duw gyd â ni; efe oedd y Gair ar a oedd gyd â Duw, a Duw ydoedd, a thrwyddo y gwnaethpwyd pob peth ar a wnaethpwyd; efe, y Gair hwn, fel y dywed St. Ioan, a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith; efe oedd, ebr St. Paul yn ei Epistol cyntaf at Timotheus, Duw yn ymddangos yn y cnawd. Hwn oedd efe a ymddangosodd, sef Mab Duw yn y ddynol anian. Duw o sylwedd y Tad wedi ei genhedlu cyn na'r oesoedd, a dyn o sylwedd ei fam wedi ei eni yn y byd: perffaith Dduw a pherffaith ddyn, ac er hynny yn un person. Canys fel y mae 'r enaid rhesymmol a'r cnawd yn un dyn, felly Duw a dyn sydd un Crist, fel y dywedir ynghredo St. Athanasius.

Y mae hyn yn ein harwain at ei swydd. Y Dwyfol Berson yma, yr hwn, ebr y testyn, a ymddangosodd, oedd wrth ei swydd yn Grist, neu 'r Messiah, h. y. yr Enneiniog, gweinidog ardderchog y Tad, y Brenhin, a'r Offeiriad, a'r Prophwyd enneiniog gan yr Yspryd, yr hwn er dechreuad y byd, yr addawodd efe ddanfon i lawr i'r byd er iachawdwriaeth dynion. Yr hwn a gredwyd ynddo gan y Patrieirch, a gys-

godwyd gan y ddeddf, a ragfynegwyd gan y Prophwydi, a ddisgwyliwyd gan holl Israel, ac a fawr ddymunwyd gan y goreu o'r cenhedloedd. Y Person yma, yr hwn a arwisgwyd â'r weinidogaeth hon, o'r diwedd a ymddangosodd, ac ymha ddull chwi a wyddoch oll oddi wrth ei hanes yn yr Efengyl. Efe a gaed trwy yr Yspryd Glan ym mru yr Wyryf bur, megis y rhagfynegwyd am dano gan y Prophwydi, ac un o'r Angylion uchaf yn y nef a ddatganodd y rhyfedd beth i'r Forwyn ei hun. Yr Wyryf hon, trwy ragluniaeth mor rhyfedd, pan nesaodd amser ei thymp, a arweiniwyd o'i dinas a'i thrigfa ei hun yn Ngalilea, i Bethlehem, dinas yn Iuda, lle yr esgorodd ar y Plentyn Dwyfol; ac felly a gyflawnodd brophwydoliaeth arall am dano, sef y genid ef ym Methlehem, a hynny yr oedd yr Ysgrifenyddion hefyd yn gydnabod.

Nid oedd yn sicr dim rhwysg na mawredd i'w gweled yn ei enedigaeth: yr oedd ei fam yn dlawd a dieithr, mor ymddifad o ffrindiau na's gallai gael gwell lletty na stabl gan gymmaint y dorf yn y ddinas, a phreseb oedd y lle cyntaf a dderbyniodd Arglwydd y gogoniant! Fel hyn y dangosodd y Goruchaf ar yr achos yma mor wâg yn ei olwg ef ydyw 'r disgleirdeb bydol sy 'n serennu golwg dynion gymmaint. Ond nid oedd yr Hollalluog yn ol o amlygu ar-

dderchawgrwydd y Baban Nefol trwy arwyddion sicr a hynod. Nid ydyw yngallu araithyddiaeth ddynol ddarlunio y datgeiniad cyntaf o'i enedigaeth. Tra 'r oedd y bugeiliaid yn gwylied eu praidd liw nos, wele gogoniant yr Arglwydd yn disgleirio o'u hamgylch, ac Angel a gyhoeddodd y newyddion da, ac yn ebrwydd wele liaws o lu nefol yn llenwi 'r awyr, yn moliannu Duw ac yn dywedyd, "Gogoniant i Dduw yn y goruchaf, ac ar y ddaiar tangnefedd, i ddynion ewyllys da." Er mwyn codi syniad o fawredd y peth, dychymyged dyn ei fod yn y fan a'r lle, ac yn nistawrwydd y nos ei fod yn gweled yr entrych yn ebrwydd yn gyflawn o Angylion gogoneddus a disglair, ac yn clywed lleisiau nefol yn moliannu Duw. O! mawredd digymmar a thra rhyfedd i feddwl am dano. Y doethion hefyd a gyfeiriwyd o'r dwyrain gan seren ddieithr gynt iddynt, ac a arweiniwyd at y fan lle y ganwyd Brenhin nef a daiar: yno 'r offrymmasant iddo eu hanrhegion, aur, a thus, a myrr. Offrymmwn ninnau iddo foliant, a chariad, ac ufudd-dod ewyllysgar a ffyddlawn.

Fy mrodyr, yn y cyfryw ddull, mewn gwaelder a mawredd yn gymmysg, yr ymddangosodd yr Iachawdwr ar ei enedigaeth; a chyffelyb agos oedd ei fuchedd ganlynol. Buchedd dlod-

aidd i'r golwg oedd hi, ond buchedd gyflawn o ryfeddodau, o'r dechreu i'r diwedd, os ystyried a wnawn ei ddaioni a'i diriondeb, yr ewyllys da i ddynion, a'r duwioldeb tu ag at Dduw, y siampl ragorol a amlygwyd yn ei ymarweddiad oll, ei ymadroddion a'i bregethau buddiol, ei wyrthiau tra rhyfeddol, yr hysbysiadau amlwg a roed o'r nef mai Mab Duw ydoedd, a chreulondeb dynion tu ag atto, y digwyddiadau mawrion a ganlynodd ei ymadawiad i'r nef, a disgyniad yr Yspryd, sef ymdaenu o'i Efengyl ymysg cenhedloedd lawer, er gwaethaf diafol a'i ddeiliaid.

Ond ei ymddangosiad cyntaf yn y cnawd a goffheir y pryd hwn. Ac ni fu erioed gan ddynion destyn mwy ardderchog i fyfyrio arno. Pan ystyriwn pwy oedd efe, mai tragywyddol Fab Duw ydoedd, O fel y dylem synnu a rhyfeddu wrth anfeidrol deilyngdod a chariad y Goruchaf, O fel y dylem ymwresogi o hoffder a diolchgarwch iddo ef am ei drugaredd a'i gariad tu ag at ddynion colledig, yr hwn, ebr St. Ioan, felly a garodd y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol. Pan ystyriwn hefyd ddarfod i Fab Duw gymmeryd ein cnawd ni a'n natur arno, ac felly gysylltu 'r Ddwyfol a'r ddynol anian, O mor

deimladwy y dylem fod o'r anrhydedd a roed i'n hanian ni, ac o'r ardderchawgrwydd i ba un y dyrchafwyd hi trwy 'r fath gyfundeb a chysylltiad: dylem ofni a gochelyd hefyd halogi a diwyno trwy ddrygioni ac amhurdeb yr anian hon y teilyngodd Mab Duw ei chymmeryd i berthynas cyn agosed iddo ei hun. Pan ystyriwn ddarfod i'r Duw hwn ddyfod yn y corph, fel y Messiah neu 'r Enneiniog, sef yr Iachawdwr a addawsid er's oesoedd o'r blaen ac a ddisgwyliwyd gymmaint, O fel y dylai 'r ystyriaeth lenwi ein calonnau o lawenydd a diolchgarwch, ein cyffroi i dywallt allan deimlad ein heneidiau mewn bendith a moliant i Dduw am ymweled a phrynu ei bobl; O fel y dylem foliannu 'r Arglwydd am ein rhoddi dan yr oruchwyliaeth hono y darfu i dduwiolion lawer, mewn amryw oesoedd, ewyllysio ei gweled, ac nis gwelsant; yr hon y chwennychai 'r Angylion edrych arni; ac o herwydd ymwrthod â hi, ar ei chyhoeddiad cyntaf, a chroeshoelio ei hawdwr, y cafodd yr Iuddewon eu gwasgaru trwy y ddaiar, ac ydynt yn siampl parhaus o ddial y nef ar yr annuwiolion.

Os ystyriwn yr amrafael dystiolaethau a roes ein Hiachawdwr ar ei ymddangosiad o'i fod yn wir Grist neu 'r Messiah, mor fanwl y cyflawnodd yn ei enedigaeth, ac yn amryw rannau o'i

fuchedd, y rhagfynegiadau aml a'i rhagflaenent ef, ac mor sicr y dystiolaeth a roes Duw i wirionedd ei grefydd, trwy arwyddion a rhyfeddodau; O fel y dylai ystyried hyn gadarnhau ein ffydd yn yr Iachawdwr yma! ein gwneuthur yn ddiymmod ac yn wrol hyd angeu i'w gydnabod ef am ein Hiachawdwr yngwrthwyneb i gabledd yr anffyddloniaid oll.

Yn ddiwaethaf. Pan ystyriwn y cyflwr isel a thlodaidd y rhyngodd fodd i'n Hiachawdwr ymddangos ynddo, cyflwr mor isel, ac mor anheilwng o'r fath dywysog tra mawr, na chafodd plentyn i'r cardottyn tlottaf erioed un mor anniddan ar ei enedigaeth i'r byd; O fel y dylai ystyried hyn attal ynom bob balchder a gwagogoniant, peri i ni feddwl llai am rwysg a gorwagedd y byd, ìe, megis dibrisio holl ddisgleirdeb bydol, gan ddarfod i'r Goruchaf ddangos, wrth ddanfon ei Fab i'r byd mewn angen a thlodi, mor wael yn ei olwg ef ydyw rhwysg a mawredd y byd.

Ystyriwn yn nesaf yr amser yr ymddangosodd Crist yr Arglwydd, sef "yn niwedd y byd." Yr ymadrodd yma a ddylid ei gyfieithu, "yn niwedd yr oesoedd," h. y. yn yr oes ddiwaethaf. Hyn yw ystyr y Groeg. Yr Iuddewon a fyddent arfer a rhannu 'r histori sanctaidd dan yr enw oesoedd, a'r oes ddiwaethaf oedd amser

neu oruchwyliaeth y Messiah. Y mae deunaw can mlynedd wedi myned heibio er pan ymddangosodd y Messiah, ac nid ydyw diwedd y byd wedi dyfod etto, ac ni wyddom ni ddim pa bryd y daw ef. Y mae oes y Messiah, y dyddiau diweddaf hyn, yn terfynu ar yr oesoedd oll. Y mae 'r gennadwri ddiwaethaf hon yn rhagori hefyd mewn ardderchawgrwydd ar bob datguddiad o'r blaen o eiddo 'r Arglwydd, gan ddarfod iddo lefaru wrth ddynion y pryd yma, nid trwy Angylion na Phrophwydi, eithr trwy ei unig-anedig dragywyddol Fab ei hun. A chofiwn hefyd na fydd mo 'r un datguddiad nag aberth mwyach dros bechod.

Pa addysg, ynteu, a gasglwn ni oddi wrth y gwir pwysfawr yma? Yr un, mi dybygwn, ag a gasglodd yr Apostol, "Am hynny, y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom," sef athrawiaeth yr Efengyl, "rhag i ni un amser eu gollwng hwy i golli; canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angylion, ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth, pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymmaint?"

Mae ymresymmiad yr Apostol yn nechreu 'r Epistol yma at yr Hebreaid yn myned ymlaen o un pwngc i'r nesaf. Y mae 'n dangos fod datguddiad ewyllys Duw wedi bod yn raddol,

neu megis yn rhannau neulltuol, er bod un gadwyn yn eu cysylltu drwyddynt. Yn gyntaf, fe lefarodd wrth ddynion trwy 'r Patrieirch, y rhai oeddynt oleuadau tanbaid yn eu cenhedlaeth. Gwedi hynny neulltuodd yr Israeliaid i fod yn bobl a chenhedl arbennig dan ei ddarbodaeth: fe roes iddynt ddeddf ysgrifenedig yn llaw cyfryngwr, sef Moses, a'r gyfraith neu 'r oruchwyliaeth yma oedd gysgod a phortreiad pethau da i ddyfod. Gwedi hynny fe ddanfonodd y naill Brophwyd ar ol y llall, y rhai a ragfynegasant ddyfodiad y Messiah yn fwy amlwg, y rhai a alwent ddynion i edifeirwch a sancteiddrwydd, gan ddatgan yn gyffrous lid a dial y Goruchaf ar bechaduriaid cyndyn. Yn eu llyfrau ysprydoledig, rhai o honynt yn enwedig, y mae dyfodiad Crist yn cael ei draethu am dano yn hynod o'r eglur, ac yn hynod o'r prydferth; eu rhagfynegiad ardderchog sy megis y wawr-ddydd disglair yn rhagflaenu cyfodiad Haul Cyfiawnder. Ac o'r diwedd, fel y danfonodd Arglwydd y winllan y naill was ar ol y llall, a chennadon o amryw raddau ar ol eu gilydd, nes o'r diwedd y danfonodd ei Fab ei hun, felly y darfu i Oruchaf Lywydd nef a daiar, pan ddaeth cyflawnder yr amser, ddanfon ei Fab ei hun megis cennad i'r byd; ei Fab ei hun, yr hwn oedd yn ddisgleirdeb ei ogoniant,

ac yn wir lun ei Berson ef. Os, ynteu, fel y mae 'r Apostol yn ymresymmu, yr oedd Duw mor fanwl-dost yn yr amseroedd gynt, pryd yr amlygodd ei ewyllys trwy Angylion neu ddynion yn unig, na adawodd mo 'r un trosedd yn ddi-gosp, pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymmaint? os esgeuluswn yr oruchwyliaeth olaf hon, ymha un y mae goludog râs Duw mor amlwg, os esgeuluswn Fab Duw yn disgyn i lawr o'r uchel-nef i gynnyg, ïe, i brynnu iechydwriaeth i ni? Yn enw Duw, beth ychwaneg y myn dynion? a fynnant hwy ychwaneg o oleuni, ychwaneg o gynnorthwy, ychwaneg o annogaeth? a fynnant hwy i Fab Duw ddisgyn eilwaith, ac ail-ddioddef ar y groes drostynt? O! cofiwch, frodyr, nad oes aberth dros bechod wedi ei adael mwyach, ni fydd cymmod mwyach; pan ddelo Crist yr ail waith, ni ddaw i gymmodi, ond i farnu. Ni fydd bellach i'r anghrediniaid a'r anufudd, ond rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân.

Ystyriwn yn nesaf, ac yn olaf, i ba berwyl yr ymddangosodd Crist, "i ddilëu pechod trwy ei aberthu ei hun."

Y mae dilëu pechod yn arwyddocau dau beth tra phwysfawr a pherthynol i ni megis perchenogion eneidiau anfarwol. Yn gyntaf,

symmudiad euogrwydd pechod, a gwarediad rhag y gospedigaeth ddyledus o'i herwydd. Yn ail, ein hachub rhag grym ac arglwyddiaeth pechod. Pe bai un o'r ddau beth yn ddiffygiol, ni fyddai fodd i ni gaél ein cadw a'n dwyn i'r nef.

Ni wiw i mi y pryd yma sôn am yr amrafael destynau sy 'n cadarnhau gwirionedd yr athrawiaeth yma, gan fod y testynau mor aneirif, ac o herwydd ddarfod i mi yn fynych draethu yn ei gylch. Eu sylwedd ar y pwngc cyntaf, sef symmud euogrwydd pechod, ydyw hyn, mewn ychydig eiriau,—pechaduriaid ydyw dynion oll, nid oes neb byw na ddaeth yn fyr o ogoniant Duw; ni wnaeth neb o honom gymmaint o ddaioni ag y gallasai, os mynai. Yr oedd gogoniant a chyfiawnder Duw yn galw am gospedigaeth; a'r pryd hynny, pan nad oedd neb arall nag ag ewyllys, na gallu ganddo i achub, y cyfryngodd Mab Duw yn drugaroccaf rhwng Duw a dynion, a thrwy ei aberthu ei hun, a dynnodd ymaith euogrwydd y sawl oll a wir gredont ynddo, ac a'u gwaredodd rhag cospedigaeth. Ac y mae 'r cymmod nid yn unig wedi ei wneuthur, ond y mae Duw trugarog yn ei gynnyg i ni, ïe, y mae 'r Goruchaf megis yn erfyn arnom ni, greaduriaid gwael, i dderbyn ei drugaredd yn Nghrist: fe ddywedir fod

yr Angylion yn y nef yn llawenychu ar droedigaeth pechadur. O newyddion cysurlawn! eli i'r galon glwyfus, meddyginiaeth i ddadebru y gydwybod archolledig. O bechadur, na anobeithia, ond prysura ddyfod at yr hwn sy ganddo faddeuant i'r edifeiriol a'r dychweledig: bid sicr gennyt mai gwir yw 'r gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid. Ond na thrig ditheu bechadur mewn pechod, fel yr amlhao grâs; ond brysia 'n ddioed, rhag dy galedu trwy gyfiawn farn Duw, neu gael dy gipio ymaith yn dy bechodau.

Canys, yn ail, Crist a ymddangosodd i ddilëu pechod mewn ystyr arall, sef i ddirymmu arglwyddiaeth pechod a satan ar ddynion, i'w ddilëu fel na theyrnaso mwyach yn eu corph marwol, fel na roddont eu haelodau yn weision i bechod mwyach, ond i gyfiawnder, ac fel y byddo eu ffrwyth yn sancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol. I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, medd St. Ioan, fel y dattodai weithredoedd diafol. Ac medd St. Paul, ddarfod iddo ei roddi ei hun drosom, fel y prynnai ni oddi wrth bob anwiredd, h. y. ein cyfiawnhau, neu ddilëu pechod yn yr ystyr gyntaf; yn bobl briodol iddo ei hun, yn awyddus i weithredoedd da, yr hyn yw dilëu pechod yn yr ail ystyr.

Pan fydd cymmundeb rhwng y goleuni a'r tywyllwch, neu gymdeithas rhwng Duw a Belial, yr hyn, fe ŵyr pawb o honoch, sydd amhosibl, yna, ac nid cyn hyn, y bydd dichon i bechaduriaid cyndyn anedifeiriol gyfrannu o'r dedwyddwch a brynnodd Crist trwy fyned yn ddyn ac aberthu ei hun. Gan hynny, garedigion, moliannwn bawb o honom deilyngdod a thrugaredd ein Hiachawdwr Crist, a dangoswn ein diolchgarwch, nid â'n gwefusau yn unig, eithr yn ein bucheddau.

Yrwan, gogoniant a fyddo i Dduw Dad, yr hwn a ymfoddlonodd ynghymmod ei dragywyddol Fab; ac i'r Mab, am deilyngu myned yn gnawd er ein mwyn ni; ac i'r Yspryd Glan tragywyddol, trwy weithrediad yr hwn y caed ef ymru y Forwyn bur, ac y gwnaethpwyd yn ddyn o'i sylwedd hi, a hynny heb ddim pechod, i'n gwneuthur ni yn lân oddi wrth bob pechod; gogoniant a fyddo i Dduw yn yr uchelder, ar y ddaiar tangnefedd, i ddynion ewyllys da.

PREGETH VI.

Y FLWYDDYN GYMMERADWY.

ESAY LXI. 1, 2.

Yspryd yr Arglwydd Dduw sydd arnaf; o herwydd yr Arglwydd a'm henneiniodd i efangylu i'r rhai llariaidd; efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sy yn rhwym; i gyhoeddi blwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd.

YN y geiriau deffrous hyn, y mae 'r Prophwyd Esay yn mynegi y bendithion mwya gwerthfawr y geill rhagluniaeth grasusol eu rhoddi i ddynion. Blwyddyn ryfeddol o râs, rhyddid a dedwyddwch a gyhoeddir yma. Y mae ef yn ei chyffelybu i'r Jubili, sef pob degfed flwyddyn a deugain, pan y byddai, yn ol cyfraith Moses, (Lef. xxv. 8.) ryddid yn cael ei gyhoeddi yn y wlad i'w holl thrigolion.

Nid allai 'r Prophwyd hwn ddim llai na rhagweled y llifeiriant o drueni oedd i ddylifo trwy gyfiawn farnedigaethau Duw ar genedl yr Iuddewon; ond yn gymmaint a'i bod yn fwy

hoff ganddo fyfyrio ar y dyddiau dedwydd oeddynt ar ddyfod, y mae ef megis yn troi ei olygon rhag gorphwys ar aflwyddiant a helbulon Israel, ac yn eu gosod hwy ar ddisgleirdeb y gogoniant hwnnw pan y byddai i Haul Cyfiawnder ail-gyfodi ar fynydd Sion â meddiginiaeth yn ei esgyll. Yr oedd y darluniad yma yn fwy arbennig yn berthynasol i ddyfodiad y Messiah, y mae efe wedi eu cymmwyso atto ei hun, wrth lefaru yn y Synagog a llygaid pawb yn craffu arno, "Heddyw," medd ef, "y cyflawnwyd yr Ysgrythur hon yn eich clustiau." Yn lle cyfaddasu 'r geiriau at ryw waredigaeth dymhorol, y mae ef yn eu cymmwyso hwynt at iechydwriaeth ysprydol a chyffredinol y byd. Yspryd yr Arglwydd, yr hwn oedd gynt ar Esay, yn awr a dywalltwyd, mewn mesur helaethach, ar yr Iesu bendigedig; enneiniwyd ef mewn modd rhagorol; yr oedd ganddo ef newyddion amgenach i'w mynegi, a gwaredigaeth mwy pwysfawr i'w chyflawni; ac atto ef yr oedd y Prophwyd Efangylaidd yn cyfeirio. Yr Iuddewon oeddynt yn arferol o edrych ar yr Ysgrythyrau yn eu hystyr llythyrenol yn unig; ond yn awr, dyma Ddysgawdwr o'r nef wedi cyfodi yn eu plith, yr hwn a dynnodd ymaith y llen-gêl oddi wrth y gyfraith a'r Prophwydi. Fe a'u hesponiodd hwynt yn eu cyflawn ystyr, sef yn ar-

wyddo 'r cyfammod Efangylaidd, gwaredigaeth ysprydol yr holl fyd trwy Iesu Grist oddi wrth gadwynau pechodau ac angeu; yn arwyddo sefydliad Sion ysprydol, dinas y Duw byw, y Ganaan nefol, gwir wlad yr addewid i etholedigion yr Arglwydd.

Gallwn feddwl mai felly yr oedd deongliad ein Hiachawdwr ar y testyn yn y Synagog, er nad ydyw wedi ei adrodd gan St. Luc, yr hwn sydd wedi sylwi 'n bennodol ar yr effaith a gafodd ar ei wrandawyr. Mor nerthol, mor eglur oedd ei esponiad, fel ag i'w cymmell hwy i gyfaddef, er gwaethaf eu rhagfarn yn ei erbyn o herwydd ei ymddangosiad tlodaidd, mai hwn oedd y Prophwyd oedd i ddyfod i'r byd. "Yr oedd pawb yn dwyn tystiolaeth iddo, ac yr oeddynt yn rhyfeddu am y geiriau grasusol a ddeuai allan o'i enau ef."

Mae 'r gennadwri hon o râs yn dechreu gyd ag hysbysiad o awdurdod yr hwn a'i cyhoeddodd, " Yspryd yr Arglwydd sydd arnaf," medd Esay am y cennadwr. Yr oedd Yspryd yr Arglwydd wedi bod ar y Prophwydi gynt am yspaid hir o flynyddoedd, trwy hwn yr oeddynt yn rhoddi addysg, yn gwneuthur gwyrthiau, ac yn rhagfynegi pethau i ddyfod. Ond arno Ef y tywalltwyd yr Yspryd heb fesur, ynddo Ef yr oedd holl gyflawnder y Duwdod yn pres-

wylio 'n gorphorol; yn ei holl weithredoedd yr oedd yn dangos doethineb a gallu Duw; ac am hwn y tystiolaethodd yr Iuddewon, pan glywsant ei athrawiaeth, "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn," a phan welsant ac a deimlasant ei wyrthiau, "Ni welwyd y cyffelyb, na ddo, yn yr Israel."

Ein Harglwydd a enneiniwyd, nid âg olew, yn ol defodau y gyfraith Iuddewig, eithr â'r Yspryd Glan ac â nerth, fel y gallai efe gyflawni 'r swyddau ardderchog yr oedd efe i gymeryd arno, sef swydd Prophwyd i roddi addysg, swydd Offeiriad i aberthu ei hun, a swydd Brenhin i lywodraethu ei Eglwys. I'r swyddau hyn byddid dan oruchwyliaeth y ddeddf yn enneinio âg olew. Enneiniwyd ein Hiachawdwr â'r Yspryd: o herwydd hynny y mae 'r enwau dan y rhai y gelwir ef mewn amryw ieithoedd yn arwyddocau yr un peth, sef y Messiah, y Crist, neu 'r Enneiniog.

Ar ol datgan ei awdurdod, y mae 'r Prophwyd yn myned ymlaen i adrodd y bendithion yr oedd ef i'w cyfrannu: "Efe a'm hanfonodd i efangylu i'r rhai llariaidd," i'r rhai gostyngedig o galon. A chan fod y cyfryw feddwl isel yn amlach i'w gael yn y rhai sy mewn isel gyflwr, ein Hiachawdwr, pan ddechreuodd ddatgan ei Efengyl, a aeth heibio i'r rhai mawrion, a'r rhai

doethion yn y cnawd, y rhai oedd ganddynt ormod awydd i bethau y byd hwn i ymddarostwng i dderbyn cennad o'r nef. Fe a ymwelodd âg anneddau a phreswylfeydd y rhai llariaidd; efe a ymddiddanodd â'r werin bobl; efe a etholodd ei ddisgyblion oddi wrth y graddau mwya anllythyrennog o'i gyd-wladwyr, a hynny nid o ran eu tlodi, ond o herwydd fod y cyflwr hwn yn meithrin y dymmer fwyaf cyfaddas i'w Yspryd ef, a thu ag at dderbyniaid o'i Efengyl O achos hynny rhaid i ni feddwl, tra 'r oedd efe yn agoryd trysorau ei râs nefol i bawb, ei fod ef yn gwneuthur y cynnygiad cyntaf i'r tlodion a'r rhai llariaidd.

Fy mrodyr, y mae 'r dymmer hon yn angenrheidiol bob amser tu ag at ein gwneuthur ni yn ddisgyblion iddo ef mewn gwirionedd. Pa fath bynnag ydyw ein gradd a'n sefyllfa, pa un ai uchel ai isel, cyfoethog neu dlawd, dysgedig neu annysgedig, os mynnwn gyfrannu o drysorau ei râs ef, mae 'n rhaid i ni ddysgu ganddo i fod yn addfwyn a gostyngedig o galon, mae 'n rhaid i ni feithrin meddyliau isel am danom ein hunain, a'n doniau, a'n cynheddfau; ymostwng yn ufudd i ymweliadau rhagluniaeth, ac ufuddhau i'w holl orchymynion.

Yr ail beth am ba un y danfonwyd ein Hiachawdwr oedd, "i rwymo y rhai ysig eu calon." Tra yr aeth efe oddi amgylch gan

wneuthur daioni, cafodd amryw achosion i arferu ei garedigrwydd a'i dosturi wrth ysgafnhau gofidiau yspryd drylliedig, megis y gwelwn yn bennodol pan oedd chwaer yn galaru wrth fedd ei hanwyl frawd, a phan oedd y weddw ofidus yn canlyn elor ei hunig fab at borth y ddinas; ar y cyfryw achos yr oedd efe yn barod i estyn ei drugaredd oruwch-naturiol: wrth yr hwn oedd yn gorwedd yn nistawrwydd y bedd efe a ddywedodd, "Tyred allan;" wrth y mab ieuangc, yr hwn a ddygid allan yn farw, efe a ddywedodd, "Cyfod." Fel hyn, fe a sychodd eu dagrau, ac a drodd eu galar yn llawenydd.

Eithr nid oedd y cysur yr hwn oedd efe yn ei gyfrannu ar achosion o'r fath yma, ond ernes o'r diddanwch mwy helaeth ac effeithiol yr hwn yr oedd efe yn barod i roddi i'r sawl oeddynt ysig eu calon, dan deimlad dwys o'u pechodau, a than ofn digofaint yr Hollalluog. I'r cyfryw rai yr oedd efe yn dra hael o'i drugareddau. Cyn gynted ag yr oeddynt yn ufudd i'w râs rhagflaenol, ac yn dangos arwyddion o galon ddrylliog, wedi ei hargyhoeddi o bechod, ynghyd âg edifeirwch tu ag at Dduw, a ffydd ynddo ef ei hunan, yr oedd efe yn barod i ymddiddan â hwynt yn iaith trugaredd a maddeuant; yr oedd yn barod hefyd i chwannegu at eu hedifeirwch a'u ffydd.

Yr unrhyw gymmorth iachäol y mae efe yr awr'on yn barod i gyfrannu i bawb oll sy 'n friwedig o galon, yn cydnabod ac yn ymofidio dros eu hamryw bechodau ac anwireddau, ac yn gwybod ofn yr Arglwydd. A phwy yn ein plith a eill ryfygu dywedyd ei fod yn ddieuog yngolwg Duw? Pwy a feiddia ddywedyd, "Glân wyf oddi wrth fy mhechod." Os ydym yn adnabod ein hunain mewn gwirionedd, fe fydd gan laweroedd achos i betruso; ni a welwn bawb gymmaint amherffeithrwydd ynom, a bod rhaid i ni wrth deilyngdod un mwy perffeith ac haeddol i'n diogelu. Ni a fyddwn oll yn barod i lefain yn iaith gwynfanus ein Heglwys, "nad oes dim iechyd ynom." Ac i'r sawl sydd fel hyn yn myned yn edifeiriol a gofidus at Grist, y mae efe yn ymddangos iddynt y gwir feddyg enaid. Y mae efe trwy ei Yspryd yn llefaru wrth bob rhai o honynt, "Eich ffydd a'ch iachaodd, ewch mewn heddwch."

Y rhan nesaf o gennadwri Crist oedd, "cyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sy 'n rhwym." Pan ddechreuodd efe ar ei weinidogaeth, yr oedd pob clefyd ac afiechyd y rhai oeddynt yn caethiwo ac yn gwanhau 'r corph, yn ffoi o'i ŵydd, ac yn ufuddhau i'w air. Yr un awdurdod ag oedd ganddo ar y corph, yr oedd ganddo hefyd dros

yr enaid, i'w rhyddhau hi oddi wrth gadwynau pechod. Pan ganfyddent arwyddion fod ganddo awdurdod o'r nef i ddywedyd wrth y llesg ac analluog, "Cyfod, rhodia," ac wrth y claf, "Bydd iach," nid allent hwy ammeu effaith y gollyngdod, pan y dywedodd wrth yr hwn oedd mewn perthynas i'r bywyd ysprydol yn gaethwas i bechod, "Maddeuwyd i ti dy bechodau." I'r bobl oll oeddynt yn rhwym dan bwys eu pechodau, ac ni dderbyniasant na chymmorth nag ysgafnhad oddi wrth y rhai oeddynt yn eistedd ynghadair Moses, ac yn tra arglwyddiaethu arnynt, i'r cyfryw rai y mae Crist yn dywedyd, "Deuwch attaf fi bawb ag sydd yn flinderog ac yn llwythog, ac mi a esmwythaf arnoch."

Y mae efe etto yn parhau i roddi gollyngdod i ninnau oll sy 'n teimlo 'r baich tan ba un yr ydym yn gwyro ac yn crymmu, ac sy 'n gweddio arno ef megis achubydd yr enaid. Yr ydym ni oll mewn rhyw fesur yn gaeth-weision i'n nwydau a'n trachwantau, ac yn goddef iddynt gael yr oruchafiaeth arnom, a niweidio ein heddwch. Gan gymmeradwyo yn ein calonnau y peth sy dda, nid ydym yn wastad yn teimlo yn ein corph dueddiad i'w gyflawni. Ein rheswm sydd yn ein cymmell i garu a choleddu cyfraith Dduw; ond gyd â mwy nerth y mae

nwydau llaweroedd o honom yn ein tynnu at wasanaeth pechod: fel y dyn anianol heb ei adnewyddu, a ddarlunir gan St. Paul megis yn llefain, "Mi a wn nad oes ynof fi, hynny yw, yn fy nghorph, ddim da yn trigo; o blegyd yr ewyllysio sydd barod gennyf, eithr cwblhau yr hyn sydd dda, nid wyf yn medru arno."

Yn y cyflwr truenus hwn nid ydym wedi ein gadael heb gyfaill galluog ac ewyllysgar. Ein Harglwydd bendigedig sy 'n cynnyg ei hun i ni, megis moddion i'n gwaredu oddi wrth y caethiwed peryglus hwn. Os erfyniwn yn ddiwyd am ei gymmorth ef trwy ffydd ac edifeirwch, cawn fod yn rhyddion oddi wrth bechod. Os cymmerwn ei iau ef arnom, ac os dysgwn ganddo, nyni a gawn orphwysdra i'n heneidau. Nyni a gawn ei Yspryd sanctaidd i'n goleuo, a'n puro, a'n cadarnhau fwy-fwy; ac felly y gwaredir ni oddi wrth euogrwydd ac oddi wrth allu pechod: heblaw ein cyfiawnhau, cawn ein sancteiddio.

Y rhan olaf o'r gennadwri hon, a'r peth sy'n cynnwys yr holl fendithion eraill, oedd, "i gyhoeddi blwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd," neu mewn geiriau eraill, blwyddyn o dderbyniad gyd â'r Arglwydd. Megis yr oedd cyhoeddiad y Jubili dan gyfraith Moses yn rhoddi i'r Iuddewon ollyngdod oddi wrth bob gwasanaeth,

maddeuant am bob dyled, ac adferiad i bob etifeddiaeth; felly y mae cyhoeddiad yr Efengyl yn mynegi i bawb o feibion dynion, nid yn unig ryddhad oddi wrth gaethiwed y ddeddf, a maddeuant am eu pechodau er mwyn Crist, trwy ffydd ac edifeirwch, eithr gyd a hyn, adferiad o'r breintiau a gollasom trwy ymddieithrio oddi wrth ewyllys Duw, a llygredigaeth naturiol,—sef mabwysiad a grâs.

O'r achos yma, ar enedigaeth ein Harglwydd, llu o angylion a ganasant fawl i'r Goruchaf am dani megis y wawr-ddydd "o dangnefedd ar y ddaiar, ac ewyllys da i ddynion." Yr oedd ei Efengyl yn gyhoeddiad o râs, o ran ei bod yn darlunio Duw, nid megis meistr yn dost i ddirgeisio pob gwasanaeth dyledus iddo, a thra pharod i gospi pob esgeulusdra, eithr fel Tad gyd ag ymysgaroedd o drugareddau tu ag at feibion dynion, yn gofalu am eu heddwch a'u dedwyddwch; yn gofyn yn wir ffyddlondeb ac ufudd-dod cywir iddo, eithr ewyllysgar i faddeu eu hamryfusedd, ac i roddi ei râs yn gymmorth cyfamserol iddynt. Yr oedd hi hefyd yn gyhoeddiad o wirionedd, yn gymmaint a'i bod hi nid yn unig yn rhoddi mwy o eglurdeb ynghylch priodoliaethau 'r Creawdwr, a natur ac amgylchiad y Creadur; eithr hefyd o herwydd ei bod hi yn dwyn i oleuni eglur y peth

a ddeallwyd o'r blaen dan y gyfraith, trwy gysgodau ac arwyddion, sef y tragywyddol etifeddiaeth yn nheyrnas nefoedd, yr hon a addawyd mewn geiriau amlwg yn yr Efengyl, ac a sicrhawyd trwy weithredoedd ac amryw nerthoedd yr Yspryd Glan.

Yr etifeddiaeth hon yw sylwedd a diben ein holl fendithion yn Nghrist Iesu, ac at yr etifeddiaeth hon y mae 'r holl brophwydoliaeth yma yn ei chyflawn ystyr yn cyfeirio. Tra bo hi yn darlunio ein cyflwr o râs, y mae hi yn ein sicrhau ni o'n cyflwr o ogoniant. Ymhob trugaredd bresennol yr arwyddir yr ystad ogoneddus a fydd gyfran y ffyddloniaid: megis pan y pregethir yr Efengyl i'r rhai llariaidd, canys eiddynt ydyw trysorau 'r nefoedd; pan y rhwymir y rhai ysig eu calon, canys eu tristwch presennol a droir i lawenydd tragywyddol; pan y cyhoeddir rhydd-did i'r caethion, canys hwy a gant eu rhyddhau oddi wrth gaethiwed llygredigaeth i rydd-did gogoniant plant Duw; pan y bydd caffaeliad golwg i'r deillion, canys gorchudd tywyll y byd hwn a symmudir ymaith, a hwy a adwaenant Dduw, megis ac y mae yn oleuni bywyd; pan y gollyngir y rhai ysig mewn rhwydd-deb, canys ein Gwaredwr arderchog a dyrr wialen y gorthrymmydd, a ysiga ben y gelyn ysprydol, ac a esyd ei holl

elynion dan ei draed. A phan ddechreuo y flwyddyn gymmeradwy honno o dangnefedd tragywyddol a dedwyddwch didrangc i holl waredigion yr Arglwydd, yn y cyflawn ystyr, hwy a gyfodant i'r fuchedd anfarwol trwyddo ef, ac a gant deyrnasu gyd ag ef yn oes oesoedd.

Fy mrodyr, y mae 'r oruchwyliaeth Grist'nogaidd, yr Efengyl drugarog, yn helaethlawn o gysuron ac addewidion, yn ein cefnogi ac yn ein cynnorthwyo i fyned trwy 'r byd hwn yn grefyddol ac yn gysurlawn, ac yn gosod ger ein bron y gamp ardderchog o fywyd tragywyddol i'w chael gan bob un a wasanaetho yr Arglwydd Iesu yn gywir ac yn ffyddlawn; canys efe a brynnodd yr etifeddiaeth ogoneddus i'w weision. Ymegniwn ninnau â'n holl awyddfryd am ei chael; ac i'r diben yma, ceisiwn yn gyntaf faddeuant a chyfiawnhad, trwy edifeirwch a ffydd; ymbiliwn am ei gynnorthwy ysbrydol i'n cadarnhau, i'n llewyrchu, a'n sancteiddio. A thra bom ni yn ymddiried yn ei haeddiant ef yn unig am dderbyniad ein hufudd-dod gwael, dangoswn ein cariad iddo ef a'n carodd ni gymmaint, trwy ufuddhau i'w orchymynion sanctaidd, a rhoddi moliant diolchus iddo, a mawrygu ei drugareddau anfeidrol tu ag attom.

Beth yw 'r byd hwn, ei fawredd, a'i bleserau, ond siomgar a darfodedig? O bydded i ni ofalu

yn benna dim am y byd ni fydd byth derfyn iddo, am y byd lle y mae dedwyddwch perffaith yn oes oesoedd, lle ni bydd na phechod na thristwch mwyach, ond y gymdeithas ddedwydd o angylion a seintiau yn mwynhau presennoldeb Duw, ac yn canfod ac yn gogoneddu yr Iesu yn ei gorph gogoneddus. Yr hwn wynfyd teilynged Duw ei roddi i ni er ei fwyn ef. Ac yn awr, i'r Drindod ogyd dragywyddol y byddo'r mawl a'r gogoniant yn oes oesoedd.

PREGETH VII.

Y BUGAIL DA.

St. Ioan x. 14.

Myfi yw y bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi.

NID oes un enw mwy caredig, nag a roir yn amlach i'n Hiachawdwr, na'r enw, y bugail. Y Prophwydi sy 'n ei alw ef felly yn fynych; fe a elwir gan St. Pedr, "y pen-bugail," a chan St. Paul, "bugail mawr y defaid;" ac yma yn y testyn y mae efe yn dywedyd am dano ei hun, "Myfi yw y bugail da; ac a adwaen yr eiddo fi, ac a'm hadwaenir gan yr eiddo fi." Ystyriwn, yn gyntaf, ym mha fodd y mae Crist, neu 'r bugail da, yn adnabod y defaid; ac, yn ail, ym mha fodd y mae 'r defaid yn ei adnabod ynteu.

I. Wrth y defaid hyn yr ŷm ni i ddeall, nid y rhai oll sy 'n galw eu hunain felly, ond y rhai sy Grist'nogion "mewn yspryd a gwirionedd," y rhai er iddynt, fe allai, fyned ar gyfeiliorn,

ydynt yn awr wedi dychwelyd at fugail ac esgob eu heneidiau. Am y cyfryw rai y mae Crist yn dywedyd, "Myfi a adwaen yr eiddo fi." Efe mewn un ystyr a adwaen bob rhyw ddyn, canys iddo ef, megis Duw o sylwedd y Tad, y mae pob calon yn agored, a phob deisyf yn gydnabyddus, a rhagddo ef nid oes dim dirgel yn guddiedig. Ond y mae Crist yn adnabod ei eiddo ef mewn tri modd yn neulltuol.

1 Y mae efe yn edrych arnynt, ac yn eu gwahaniaethu hwy gyd â sicrwydd diamheus. Y mae dyn yn aml yn camgymmeryd, ond i olwg Crist y mae pob peth yn amlwg; o herwydd nid edrych Duw fel yr edrych dyn, canys dyn a edrych ar y golwg, ond yr Arglwydd a edrych ar y galon. Efe a wêl y rhagrithiwr dan ffug a gorchudd crefydd, mor amlwg ag y gwêl efe y Cristion cywir pan fyddo 'n gruddfan dan orthrymder neu adfyd; ac a ddidola 'r naill oddi wrth y llall yn hawsach nag y didola y bugail y defaid oddi wrth y geifr. Ym mysg miloedd o drigolion Sodom, efe a wahaniaethodd Lot gyfiawn, ac a'i gwaredodd ef yr hwn oedd mewn gofid trwy anniwair ymddygiad yr anwiriaid. Ac ymysg yr holl fyrddiwn o bechaduriaid yn yr hen fyd, efe a gydnabu ac a achubodd Noah dduwiol. Yn yr ystyr hwn gan hynny y mae Crist yn dywedyd, "Myfi a

adwaen yr eiddof fi." Ymha fodd bynnag y byddont wasgaredig ar hyd y ddaiar. er eu bod yn gymmysgedig gyd â gwatworwyr annuwiol a rhagrithwyr golygus, mewn tai brenhinoedd neu ym mwth y tlawd, yn y gynnulleidfa luosog neu 'r 'stafelloedd dirgelaf, Nathaniel dan y ffigysbren neu Jonah ym mol y pysgodyn, myfi a adwaen fy mhobl gyd â sicrwydd diogel.

2. Y mae Crist hefyd yn edrych ar ei bobl fel rhai y mae ganddo gyfrif mawr o honynt. Ynddynt hwy o lafur ei enaid y gwêl ac y diwellir, sef ffrwyth ei ddioddefiadau a'i gyfryngiad. Mae 'r byd yn aml yn diystyru ac yn dirmygu gweision yr Arglwydd, ac yn eu cyfrif hwynt megis ysgubion y byd; ond etto eu Hiachawdwr a'u hedwyn hwy, ac a'u cyfrifa yn werthfawr. Trwy syniad dwys o'u ffaeledigaethau, y maent ambell waith yn edrych arnynt eu hunain yn anheilwng o'i ffafr; ond yr Arglwydd, gan ganfod eu cywirdeb, ni anghofiodd monynt, ond gorfoleddu y mae o herwydd mai pobl ei borfa ydynt, a defaid ei ddwylaw. Yn y cyfryw fodd hefyd nyni a allwn ystyried ein Prynwr bendigedig yn llefain, "Myfi a adwaen yr eiddof fi."

3. Ac ymhellach Crist a ŵyr am ysprydol ystad ei bobl, ac y mae ganddo ofal tyner am eu llwyddiant a'u dedwyddwch. Efe a wêl yn

eglur amgylchiad pob un o honynt, ei angen a'i drallodau, ei wendid a'i brofedigaethau ; canys efe a ddywed, "Diau fy mhobl ydynt hwy, meibion ni ddywedant gelwydd." Felly fe aeth yn lachawdwr iddynt. Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd, ac Angel ei gydrycholdeb a'u ceidw hwynt, yn ei gariad ac yn ei drugaredd y gweryd efe hwynt. Mae efe yn barod i drugarhau wrthynt, ac i'w cynnorthwyo hwynt yn eu holl brofedigaethau, "yn gymmaint a dioddef o hono ef, gan gael ei demptio." Efe a ŵyr wendid eu natur, o blegid gan fod y plant yn gyfrannogion o gig a gwaed, ynteu hefyd yr un modd a fu gyfrannog o'r un pethau ; ac felly, ond etto heb bechod, yr oedd efe ym mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr. Fel hyn hefyd y gall Crist ddywedyd, "Myfi a adwaen yr eiddo fi."

II. Awn yr awrhon at yr ail ran o'r testyn, "ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi." A pha beth y mae 'r geiriau hyn yn ei arwyddocau? Nid yn unig wybodaeth o'i hanfod, ei berson, a'i swyddau ydyw, na 'n cyd-syniad â'r pethau hyn ac amryw bethau eraill y rhai a ddarllennwn yn yr Ysgrythur am ein Hiachawdwr Crist. Mae 'n hawdd i laweroedd, y rhai nid ŷnt yn perthyn iddo, ei adnabod yn y cyfryw fodd. Eithr gwybodaeth yr ŷm yn awr yn sôn am

dani, tarddu y mae o'r galon, ac yn ymddangos mewn gweithredoedd da, gan gymmeryd ei dechreuad, yn wir, oddi wrth gymmorth yr Yspryd Glan. Ac yn yr ystyr hwn nid oes neb yn ddiau, ond ei eiddo ef, yn adnabod yr Iachawdwr bendigedig. Gadewch i ni ystyried ychydig o'r pethau ymha rai y mae 'r fath wybodaeth yn gynnwysedig.

1. Y mae pobl Crist yn ei adnabod ef megis eu doethineb. Hwy a wyddant eu bod yn gallach mewn pethau ysprydol nag oeddynt o'r blaen: canys yr oeddynt hwy gynt yn dywyllwch, ond yr awrhon goleuni ydynt yn yr Arglwydd. Heb oleuni 'r Efengyl hwy a fuasent fel y cenhedloedd eraill. Rhai trwy ymddygiad Crist'nogol a gawsant eu hyfforddio yn gynnar mewn gwybodaeth am Dduw, a'u heneidiau, ac iachawdwriaeth dragywyddol, a chyd â hynny a gawsant argraffu y cyfryw wirionedd ar eu calonnau gan yr Yspryd Glan. Llawer oedd o honynt a fuont yn crwydro mewn anwybodaeth, ac yn dilyna heb ddim crefyddol deimlad; ond cyfnewidiad mawr a weithredwyd ynddynt, a'u llygaid hwy a agorwyd: y mae ganddynt feddwl newydd am eu Hiachawdwr, ac am eu heneidiau. A phwy a ddygodd y weithred hon ymlaen ynddynt hwy? Crist Iesu, trwy ei air a'i Yspryd, canys efe a gym-

merodd ymaith y llen oddi ar eu golwg, ac a ïrodd hefyd eu llygaid âg eli llygaid, fel y gwelent. Y mae ganddynt yn awr wybodaeth o'u mewn am eu Prynwr na fu ganddynt erioed o'r blaen, ïe, y rhyw wybodaeth, y rhyw dangnefedd, a'r na ddichon y byd eu rhoddi. A phe bai rhyw ddynion annuwiol yn ceisio eu taeru hwy allan o'r cyfryw wybodaeth gysurlawn, hwy a ddywedent wrthynt fel y dywedodd y dyn a anesid yn ddall, ac a gawsai ei olwg gan ein Hiachawdwr, wrth y Phariseaid cyndyn, "Un peth a wn i, lle 'r oeddwn i yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled."

2. Pobl Crist a'i hadwaenant ef megis eu tangnefedd. Hwy a wyddant am allu ei waed ef yn glanhau eu cydwybod oddi wrth euogrwydd, ac yn llefaru tangnefedd i'r galon gystuddiedig. Hwy a wnaed yn deimladwy o'u perygl megis pechaduriaid, o'r digofaint a'r gospedigaeth a ddygasant arnynt eu hunain, a hwythau, fel Felix, a ddychrynasant wrth feddwl am y farn a fydd. Yn y cyflwr hwn hwy a edrychasant o'u hamgylch am gynnorthwy, ac nid oedd cynnorthwy i'w gael, ond yn Nghrist yn unig. Wrth edrych arno ef y maent yn teimlo eu hofn yn diflannu, a'u baich yn ysgafnhau. Yn ei aberth gwerthfawr ef dros bechod, hwy a welsant gymmod dros eu holl bechodau.

Trwy ffydd hwy a'i canfuant ef yn dwyn eu pechodau yn ei gorph ar y pren; ac felly, trwy effaith y groes, y maent hwy yn cydnabod Crist megis eu cysur a'u tangnefedd. Efe yw eu hunig noddfa, at ba un y maent bob amser yn ffoi am nawdd a chynnorthwy, oddi wrth gyhuddiad Satan, a bygythiad y gyfraith. Hwy a'i hadwaenant ef megis y ffynnon bur, ymha un y maent yn glanhau eu heneidiau oddi wrth euogrwydd pechod. Hwy a'i hadwaenant ef megis yr unig Iachawdwr, a chan roddi eu hymddiried yn ei haeddiant ef, y maent yn gallu dioddef taith drom y bywyd hwn, "gan fyned ar hyd eu ffordd yn llawen."

3. Pobl Crist sydd yn ei adnabod hefyd megis eu sancteiddrwydd. Er eu bod ymhell oddi wrth berffeithrwydd, etto nid ydynt yn awr nag yn caru pechod, nag yn byw mewn esgeulusdra gwirfodd o un o'u dyledswyddau. Llaweroedd o honynt y rhai oeddynt heb ymddygiad duwiol, wedi eu cyfnewidio, yn awr ydynt yn ymddigrifo yn yr arferion sanctaidd a oeddynt gynt yn anhyfryd ganddynt, neu 'n ddibris yn eu golwg. Pwy gan hynny a weithiodd hyn oll ynddynt? Crist yn unig. "O'r Arglwydd y daeth hyn." Hyn sydd ryfedd yn ein golwg. Gan eu bod yn edrych ar Grist megis oll yn oll, hwy a allant sefyll yn ei nerth

ef. Ond y mae ganddynt etto deimlad o'u gwendid eu hunain, sy 'n peri iddynt ammeu eu digonedd eu hunain, ac ymddiried iddo ef yn gwbl am gynnorthwy, ac am râs i'w sancteiddio. Ac y maent, yn wir, yn gallu pob peth trwy Grist, yr hwn sydd yn eu nerthu. Felly hefyd yr adwaenant Grist, a grym ei adgyfodiad.

4. Pobl Crist ymhellach ydynt yn ei adnabod ef megis eu diddanwch. Llawer, ondodid, ydyw eu trallodau, ond ynddo ef y maent yn cael cysur a chynnorthwy yn amser adfyd. Pethau eraill a allant eu siomi; golud yn fynych sydd yn ehedeg ymaith; cyfeillion daearol sy weithiau yn troi allan yn dwyllodrus, ac yn aml yn cael eu taraw i lawr gan ddyrnod angeu; gobaith bydol sy 'n diflannu: ond nid yw Crist byth yn newid, yr un ddoe, a heddyw, ac yn dragywydd. Llawer gwaith, ysgatfydd, y buant hwy mewn drygioni a blinderau, etto Crist a'u gwaredodd hwy oddi wrthynt oll, ac a'u llawenychodd hwy â llawenydd â'i wynebpryd. Pob un o honynt, gan hynny, a all ddywedyd yn hyf gyd â St. Paul, "Mi a wn i bwy y credais, ac y mae yn ddiammeu gennyf ei fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais atto erbyn y dydd diweddaf." Ac yna bydd un gorlan ac un bugail. Fel hyn, ac mewn amryw foddion eraill,

y gallai Crist ddywedyd yn rhwydd, "Ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi."

Arhoswn yma, a gofynwn gan ein calonnau, a ydym ni yn adnabod Crist? Nid cwestiwn ysgafn ydyw hwn, eithr un sy'n perthyn yn agos i bob un o honom ni. Crist ei hun, gan weddio ar y Tad, a ddywedodd, "Hyn yw'r bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti Iesu Grist." Ac, ebr St. Paul, "Yr wyf yn cyfrif pob peth yn golled o herwydd ardderchawgrwydd gwybodaeth Iesu Grist fy Arglwydd."

Ac yma, frodyr, cyn diweddu, gofynwn i'n hunain, a ydym ni yn adnabod Crist megis ein doethineb? A argyhoeddodd efe nyni o bechod, gan amlygu i ni ddrygioni ein calonnau wrth natur, a'n dysgu i weled pa gyfaddasrwydd sy yn ei Efengyl ef i'n hadnewyddu? A ydym ni hefyd yn ei adnabod ef megis ein tangnefedd? A ydyw ein holl obaith yn sefyll arno ef yn unig? a ydym ni yn cydnabod nad oes dim arall a rydd heddwch i'n heneidiau, ond gwir ymddiried yngwaed yr Iesu? Ac ymhellach ydym ni yn adnabod yr Iesu hwn megis ein sancteiddrwydd? Wrth chwilied ein calonnau yn ddyfal, na atto Duw i neb o honom ryfygu ymddiried yn ei weithredoedd ei hun. Ond os darfu i ni feistroli ein chwantau, ac ymddwyn

yn addas i'n galwedigaeth, rhoddwn y clod iddo ef a roes i ni allu a goleuni, yr hwn a'n gwnaeth ni yn abl ac yn ewyllysgar i ufuddhau i'w orchymynion. Eithr yn ddiweddaf, a adwaenom ni yr Arglwydd megis ein diddanwch? Yn ein siommedigaethau a'n trallod, a ŷm ni yn ffoi atto ef am gysur a chynnorthwy? a fedrwn edrych i fynu atto ef megis at y mynydd o'r lle y daw ein cymmorth? gan fwrw ein holl ofal arno ef, a ydym ni yn teimlo rhywfaint o dangnefedd Dduw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall, yn sirioli ac yn bywhau ein calonnau?

Y bugail da yn ddiammeu a roddodd i lawr ei einioes dros y defaid; ond ni ddichon neb heb y cyfryw wybodaeth am dano, fod yn un o'r defaid hynny. Gwyn ei fyd y dyn a gaffo yr wybodaeth hon, "Canys gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth arian, a'i chynnyrch hi sydd well nag aur coeth. Gwerthfawroccach yw hi na gemmau, a'r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi. Hir hoedl sydd yn ei llaw ddehau hi, ac yn ei llaw aswy y mae gogoniant a chyfoeth," gogoniant tragywyddol a chyfoeth nefol. Er bod eich cyflwr yn isel ac yn wael, etto, os gwnewch eich hamryw ddyledswyddau yn ddiwyd ac yn gyfiawn, yr ydych dan ofal y bugail da yr hwn a edwyn ei eiddo ef, ac a roddodd ei einioes dros y de-

faid. Os yn y byd gorthrymder a gewch, etto, cymmerwch gysur, canys Crist a orchfygodd y byd. Na thralloder eich calon. Efe a ddaw drachefn, ac a'ch cymmer atto ei hun, a chyd ag ef y byddwch yn mwynhau gwynfyd nef yn oes oesoedd. Yn eich amynedd, gan hynny, meddiennwch eich heneidiau. A Duw 'r heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfammod tragywyddol, a'ch perffeithio ymhob gweithred dda i wneuthur ei ewyllys ef, gan weithio ynoch yr hyn sydd gymmeradwy yn ei olwg ef, trwy Iesu Grist, i'r hwn gyd a'r Tad, a'r Yspryd Glan, y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

PREGETH VIII.

DRWS Y DEFAID.

St. Ioan x. 9.

Myfi yw y drws: os â neb i mewn trwof fi, efe a fydd cadwedig.

WRTH ddysgu i ddynion athrawiaeth yr Efengyl, yr oedd ein Hiachawdwr yn mynych-arfer â chyffelybiaeth yn ei ymadroddion. Yr oedd hynny yn gwneuthur ei addysg yn fwy eglur i'w wrandawyr, gan ei fod yn cymmeryd pethau cyffredin yn eglurhad o'i addysg. Y gyffelybiaeth yn y testyn sy un o'r fath; trwy ddrws y ceir mynediad i ryw fan neu le. Y mae Crist yn traethu yn y bennod yma am ei ddefaid ac am ei gorlan, sef am ei ddisgyblion ac am ei deyrnas, yr hon a elwir mewn man arall o'r Ysgrythur yn deyrnas nef, y deyrnas y mae efe wedi ei gosod ar y ddaiar, sy 'n gyffelyb mewn rhyw fodd i deyrnas nef, ac yw yn ddechreuad o'r nef ar y ddaiar. Deiliaid y deyrnas hon, sef aelodau ffyddlawn Eglwys

Crist ydynt ddinasyddion o'r Jerusalem nefol: y mae ganddynt berthynas agos i'r nefol. Teyrnas Crist yn y nef a'i deyrnas ar y ddaiar, nid ydynt amgen na rhannau o'i gorlan helaeth. O fewn y gorlan hon y mae diogelwch, llonyddwch, a gorphwysdra; tu allan iddi y mae perygl, a thrueni, a distryw. O'i mewn y mae tangnefedd a maddeuant i'r edifeiriol; tu allan i'r gorlan y mae llid a chospedigaeth, halogrwydd a marwolaeth. Paham, ynteu, nad ydyw pob pechadur yn ceisio diangfa yn y gorlan hon? Onid oes lle a diogelwch a chynhaliaeth i bawb a elont i mewn? Oes y mae, ond nis gallant fyned i mewn oddi eithr trwy 'r drws a agorwyd iddynt: y mae 'r lle sanctaidd wedi ei gau o'i amgylch, ac nid ellir myned i mewn ond trwy 'r porth a agorwyd iddynt; y mae priodoliaethau Duw yn amgylchu 'r annedd, y mae ei fawredd, ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, ei ffyddlondeb, a'i wirionedd; yn cadw draw bechaduriaid; ni ddichon iddynt fyned heibio i rhai'n; rhaid ei gymmodi ef, y Goruchaf, tu ag attynt, rhaid boddloni ei gyfiawnder, ymddiffyn ei awdurdod a'i sancteiddrwydd, cyn y caffont fyned i mewn. Pechaduriaid a ffoant ac a ymguddiant rhagddo yn hytrach na beiddio neshau atto, nes ei heddychu ef tu ag attynt; ac efe yr hwn sydd yn effeithio hyn iddynt yw 'r drws

neu 'r porth, sef Iesu Grist. Trwy ei offrymmu ei hun yn aberth dros bechod, y mae efe wedi gwneuthur perffaith a chyflawn iawn drostynt, ïe, efe a ogoneddodd briodoliaethau Duw, fel nad ydynt yn ymddangos un amser mor brydferth a phan fwrir golwg arnynt trwy Grist; Er ei fwyn ef, ac er mwyn y weithred a gyflawnodd efe, y mae 'r Goruchaf bellach yn ewyllysgar i dderbyn pechaduriaid i'w ffafr, i agoryd teyrnas nef, sef Eglwys Crist, iddynt. Felly y darfu i Grist fod yn ddrws, trwy ba un y gallai y sawl oedd gynt yn ddieithriaid, ac wedi eu cau allan o'r gorlan, ddyfod yn awr i gymdeithas a chymundeb â Duw, mwynhau ei ffafr a'i nawdd yn y byd hwn, a gwynfyd perffaith tragywyddol gyd ag ef yn y byd nesaf.

Ystyriwn yn nesaf paham y mae Crist yn ei alw ei hun y drws. Pe dywedasai, Yr wyf yn ddrws, deallid ei fod yn un o amryw foddion eraill i fod yn fynediad; ond pan ddywed, "Myfi yw 'r drws," ei feddwl ydyw, mai efe yw 'r unig ddrws i fyned drwyddo i'r gorlan, ac nad oes un arall heblaw ef. Ac y mae 'r ystyr yma yn gyson âg ymadroddion eraill, ac âg athrawiaeth gyffredinol yr Ysgrythur lân drwyddi. Beth y mae Crist yn ei ddywedyd mewn man arall? "Myfi yw 'r ffordd, nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi." Pa beth a

ddywedodd Pedr, yn gyflawn o'r Yspryd Glan, am Iesu Grist? "Nid oes iechydwriaeth yn neb arall, canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ym mhlith dynion, trwy 'r hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig."—Act. iv. 12.

Ond nid rhaid dal ar y pwngc yma ddim ym mhellach. Crist yw 'r drws, yr unig ddrws, trwy ba un y dichon pechaduriaid fyned i mewn i Eglwys Dduw; canys nid oes iawn arall dros bechod, ond yr iawn a wnaed ganddo ef; nid oes fodd arall trwy ba un y dichon Duw fod yn gyfiawn ac yn cyfiawnhau 'r pechadur, ond trwy yr iawn gymmeradwy ac anfeidrol am bechod a wnaeth Crist yn ei gorph ei hun ar y groes: trwy ei waed ef yn unig y gwnaed ein heddwch a'n cymmod. Yn y dechreuad yn ddiau yr oedd drws arall i'r gorlan, yr hwn a ellid ei alw yn ddrws diniweidrwydd. Pan grewyd dyn gyntaf, fe grewyd yn ddiniwaid, sanctaidd, a dibechod; adwaenai Dduw ac a'i hoffai, byddai yn gwbl ufudd iddo, ac a'i haddolai. Ac yn y cyflwr hwn yr oedd ganddo hawl wedi ei chaniattau iddo gan Dduw i fwytta o bren y bywyd, gwystl o ddedwyddwch tragywyddol. Trwy'r drws hwn, sef ei ddiniweidrwydd, yr âi i mewn, ac yr oedd iddo ddyfodfa helaeth a dirwystr at y Tad a'r nefol deyrnas. Ond pan gwympodd trwy bechod, y drws yma a gauwyd yn ei erbyn

dros byth; Cerubiaid â chleddyf tanllyd ysgwydedig a'i gwrthsafent ef, perffaith briodoliaethau Duw a attalient fynediad pechaduriaid y ffordd honno. A dyna 'r amser y darparwyd drws arall, y drws a grybwyllir yn y testyn. Dyna 'r pryd y darparodd Crist ffordd gysegredig newydd i bechaduriaid, ar hyd yr hon y caent eu derbyn a'u gwaredu rhag y llid sydd ar ddyfod. Dyma yn awr, gan hynny, yr unig ffordd, yr unig ddrws, iddynt fyned i mewn i'r gorlan a bod yn gadwedig.

Y mae dynion yn ddiau wedi ceisio ffyrdd eraill i fyned i mewn drwyddynt: ond ofer yw pob ymgais o'r fath; y mae 'n tarddu oddi wrth falchder neu anghrediniaeth, ac yn dangos rhyfyg, anwybodaeth, a chyndynrwydd calon dyn yn ei chyflwr cwympiedig. Rhai a gymmerent weithredoedd da yn ddrws, ac a ddisgwylient gael eu derbyn i ffafr Duw drwyddynt hwy, ag i'w deyrnas. Drws gan eraill yw elusengarwch, a thrwy y rhai'n hwy a obeithiant yn ofer fyned i mewn. Ac eraill trwy edifeirwch, trwy ba un y gallent fodloni 'r priodoliaethau Dwyfol, a chael mynediad i'r gorlan. Ond nid drysau ydyw 'r un o'r rhai'n, nid y ffordd i ymgymmodi â Duw: er hynny nid pethau i'w dibrisio nag i'w meddwl yn ysgafn o honynt ydyw gweithredoedd da ac edifeirwch, y maent yn

cyd-fyned âg iechydwriaeth, nid ydyw iechydwriaeth i'w chael hebddynt; ond nid oes ynddynt na haeddiant i brynu, na grym i ymgymmodi; Crist yn unig a ddichon gyflawni hyn oll: ynddo ef yr oedd y gallu i foddloni cyfiawnder Duw, ac efe gan hynny yw 'r unig ddrws. Y credadyn edifeiriol sy 'n myned i mewn trwyddo ef a wna gwblhau wedi hynny weithredoedd da trwy ei gymmorth, a fydd yn helaeth haelionus yn ol ei allu, ac a ychwanega at ei edifeirwch. Dyma 'r ffrwythau a ddwg efe yngwinllan yr Arglwydd; ond nid trwyddynt, nag erddynt, yr â i mewn, ond trwy Grist, yr unig ddrws, y ffordd, a'r porth, yr hwn a'i gwna ef yn ffrwythlon mewn daioni a duwioldeb, er gogoniant Duw Dad.

Ystyriwn, yn nesaf, pa sutt yr eir i mewn trwy Iesu Grist. Dywedwyd eisoes mai myned i mewn i'r gorlan ydyw myned drosodd o farwolaeth i fywyd, o gyflwr euog darostyngedig i ddigofaint, i ystad o faddeuant a thangnefedd. Hyn a wneir trwy Iesu Grist; ganddo ef y prynwyd y bendithion hyn i ni, a thrwyddo ef yn unig y ceir eu meddiannu. Ond pa beth sydd i'w wneuthur ar ein rhan ni i gael meddiant o honynt? I'r ymofyniad pwysfawr yma nid oes ond un atteb i'w roddi, os attebwn yn ol yr Ysgythyrau. Yr Efengyl a'n dysg mai er

mwyn myned i mewn trwy Grist, nad oes ond un peth i'w wneuthur gennym, sef credu ynddo o'r galon. Trwy ffydd y'ch cedwir, medd gair Duw. Ni chollir pwy bynnag a gredo ynddo ef. A'r galon y credir i gyfiawnder. Trwy hwn y cyfiawnheir pob un sydd yn credu oddi wrth yr holl bethau. Trwy ffydd, gan hynny, yr ydys yn myned i mewn: trwy gredu yn Nghrist yr ydys yn myned trwy ddrws y gorlan, ac y ceir derbyniad i'r fan lle y mae tangnefedd a diogelwch.

Ond cynnwysir amryw bethau yn y ffydd hon. Er mwyn cael myned i mewn, rhaid i ni ddyfod at y drws a churo, ac ymegnio am gael mynediad i mewn, a bwrw oddi wrthym bob rhwystr. Credu o'r galon yn Nghrist am faddeuant pechodau sy 'n arwyddoccau, ein bod ni 'n neshau atto dan syniad dwys o'n heuogrwydd a'n trueni megis pechaduriaid; ein bod ni yn erfyn yn daer arno i'n pardynu, i'n derbyn, a'n hachub; ein bod yn parhau yn ein herfynion, er y digwydd na cheir mo 'u cyflawni 'n ebrwydd; ein bod ni yn bwrw ymaith y pechodau sy hoffa gennym, ac yn ymroi â'n holl egni i gael cyfran yn iechydwriaeth yr Efengyl. Y sawl a geisiant fel hyn, a gant; i'r sawl a gurant, yr agorir iddynt, a hwy a ânt i mewn: a bid sicr gennych, os bydd dyn wedi

myned i mewn trwy ffydd fywiol, fe ddug ei ffydd ffrwythau cyfattebol.

Yn nesaf, ystyriwn y sylfaen sydd gennym i gredu, mai os elo dyn i mewn trwy Grist, a pharhau i gredu ynddo, y bydd Duw yn sicr a diball o'i ran ef i'w gynnal a'i ymddiffyn. Trwy Grist yn unig y mae iechydwriaeth, ac ynddo ef y mae helaeth a chyflawn iechydwriaeth, felly y dywed gair Duw. Priodoliaethau Duw, y rhai sy 'n amgylchu 'r gorlan, ac yn cau allan yr anghrediniaid, a sicrhant i bob un sydd i mewn noddfa a diogelwch. Yma y mae eu diogelwch yn sefyll, ar berson ac addewidion Crist, ar berffeithrwydd y Duwdod, ac ar air yr Arglwydd. Os parhant yn ffyddlawn, sicrheir hwy trwy wirionedd Duw y cant hwy bob peth angenrhaid er iechydwriaeth, sef nerth, diddanwch, a llewyrch ei lân Yspryd; ni thyn neb hwy allan o ddwylaw 'r Tad, na dichell dynion na malais a grym yr yspryd drwg. Annogir, gan hynny, y sawl oll sy heb fyned i mewn, i brysuro 'n ddioed, tra bo derbyniad iddynt i'w gael. Ystyriwch mor happus yw 'r sawl a gawsant fynediad: diogel ydynt; y mae iddynt heddwch a chymmod gyd â Duw; eu pechodau a olchwyd ymaith trwy waed Crist; y maent dan ofal y bugail da, y pen bugail; porthir a dadebrir hwy yn awr, ac y mae ganddynt a-

ddewid o etifeddiaeth dragywyddol, yr hon a gant yn sicr, oddi eithr iddynt syrthio ymaith trwy anghrediniaeth. I'r sawl sy tu allan i'r gorlan, yn estroniaid i'r Eglwys anweledig, nid oes un o'r breintiau yma yn perthyn, nid oes ddiogelwch iddynt, na maddeuant, na heddwch â Duw, na chysur yn awr, na gobaith o wynfyd ar ddyfod. Y maent yn anniddan ac yn anhyfryd, ar gyfrgoll yn y diffeithwch, ac wedi ymddyrysu ynddo; y maent yn noeth-agored i beryglon a gelynion, y rhai ni fedr na 'u nerth na 'u doethineb eu hunain eu hymddiffyn a'u hachub rhagddynt, ysglyfaeth i ryw un o honynt a fyddant, oddi eithr iddynt ffoi a diangc i'r gorlan, trwy 'r unig ddrws, Iesu Grist.

O na byddai eu llygaid yn agored i ganfod y llew rhuadwy sy 'n rhodio oddi amgylch, gan geisio eu llyngcu, y maglau a daenwyd gan y byd ar eu llwybrau, a'r pydewau enbyd sydd o bob tu iddynt. O na chredent air Duw sy 'n mynegi iddynt y gwirionedd yma, ac yn eu rhybuddio o'u perygl, canys felly yr ymgeisient i fyned i'r gorlan, gan guro am dderbyniad fel y byddent ddiogel rhag pob enbydrwydd a pherygl; ni chloffent rhwng dau feddwl, ni oedent i ddibennu a dewis y ffordd a gymmerent. Mi ddywedwn wrth bawb o'r fath yma, ffowch i'r ymddiffynfa a ddarparwyd i chwi; gweddiwch

am ffydd i gredu yn yr Arglwydd Iesu; nag oedwch, na fyddwch hwyrfrydig; atgofiwch gyhyd amser a gollwyd eisoes, pa sawl blwydd- yn y buoch yn cyfeiliorni, ac yn myned ar gyfr- goll, fel defaid heb fugail, ac ymhell oddi wrth y gorlan nefol. Ai yn y cywair truenus yr ar- hoswch etto fyth? Chwi a ellwch gael myned- iad a chadwedigaeth: y drws, trwy ba un yn unig y medrwch fyned i mewn, sydd yn awr yn barod i ymagor i chwi. Curwch, ac fe a- gorir i chwi. Ond ystyriwch y bydd amser pryd y cauir y drws hwn; ac fe fydd bellach yn rhy hwyr i chwi geisio mynediad. Ffowch, ynteu, rhag y llid a'r digofaint sydd ar ddyfod; a thra bo syniad o'ch perygl yn dangos bod Ys- pryd yr Arglwydd etto yn ymryson â chwi, di- engwch i'r gorlan; ceisiwch hawl yn Nghrist trwy ffydd ac edifeirwch, gan erfyn arno eich derbyn megis pechaduriaid dychweledig: ond gwnewch hyn yn ddioed, rhag eich cymmeryd ymaith gan angeu cyn eich derbyn.

Ac mi ewyllysiwn, yn ddiwaethaf, gyfeirio y- chydig eiriau at y sawl sy wedi ffoi rhag pechod a thrueni at y gobaith a osodwyd o'u blaen yn yr Efengyl hon. Gobeithiwn ddarfod i lawer- oedd o honoch ddyfod o hyd i ddrws y gorlan, fyned i mewn drwyddo, a'ch bod yn awr mewn tangnefedd dan syniad o ffafr Duw. Dedwydd,

tra dedwydd ydych ; y mae gennych wir achos i ymhyfrydu, canys yr Arglwydd yw eich bugail, ni fydd arnoch eisiau dim daioni ; gwna efe i chwi orwedd mewn porfeydd gwelltog, fe a'ch tywys ger llaw y dyfroedd tawel ; fe a'ch diwalla â phob diddanwch ysprydol. Atgofiwch fyth ddau beth, y drws y darfu i chwi fyned drwyddo, ac i ba bwrpas a diben yr aethoch i mewn. Os ydych mewn gwirionedd wedi myned i mewn, yr ydych wedi myned trwy 'r Iesu ; nag anghofiwch eich dyled iddo ef, trwy yr hwn y cawsoch ddyfodfa i'r gras, yn yr hwn yr ydych yn awr yn sefyll ; dyledus ydych iddo ef am yr hyn oll sydd gennych yn awr, yr holl ddaioni yr ydych yn ei ddisgwyl, a'r holl wynfyd a gewch chwi fyth ei fwynhau. Bydded i chwi deimlo, a dangos eich bod yn deimladwy o'r rhwymedigaeth a'r ddyled sydd arnoch. Cawsoch fynediad i mewn trwy Grist, y drws, ac i ba bwrpas ? fel yr amlygoch ei fawl, fel yr addurnoch ei athrawiaeth, gan ymfucheddu i'w ogoniant, a dangos yn eich buchedd a'ch hymarweddiad odidawgrwydd a grym egwyddorion a gobaith Cristion.

I'r diben a'r pwrpas yma y'ch dygwyd i mewn i'r gorlan ; gofalwch, ynteu, am gyflawni y diben yma, dan hyfforddiad Yspryd a gair Duw, gan dreulio buchedd dduwiol, gyfiawn,

a sobr; felly y byddwch yn ddiau yn bobl ei borfa, a defaid ei ddwylaw; chwi a fyddwch gyfrannogion o'i ddiddanwch a'i gynnorthwy yn y bywyd presennol, ac o'i wynfyd yn y nesaf.

PREGETH IX.

Y MAB AFRADLON.

St. Luc xv. 32.

Rhaid oedd lawenychu, a gorfoleddu: oblegid dy frawd hwn oedd yn farw, ac a aeth yn fyw drachefn; ac a fu golledig, ac a gafwyd.

Y MAE calon falch yr anianol sydd heb ei hadnewyddu yn cymmeryd rhad râs yr Efengyl am beth sydd yn gostwng ormod ar ddyn. Os cynnygir rhad râs iddo ei hun megis i un heb haeddu dim, ond yn dyfod at Grist am gyfiawnhad, y mae ei falchder yn ymwrthod ag ef: os gwêl ef eraill yn ei gael, dyna fe yn ebrwydd yn tybied bod Duw yn anghyfiawn yn cyfrannu ei ffafr. Felly yr oedd y Phariseaid, y rhai ni dderbynient eu hunain râs yr Efengyl, yn grwgnach am fod yr Arglwydd yn cynnyg trugaredd i bechaduriaid hynod, ac yn addaw iddynt dderbyniad ar eu hedifeirwch a'u troedigaeth. A dyma 'r achos i'n Harglwydd adrodd y ddammeg o ba un y cymmerwyd y tes-

tyn, lle y mae 'n darlunio ymddygiad afresymmol ac angharedig y mab hynaf ar dderbyniad yr ieuangaf gan ei dad, ac wrth hynny yn gosod allan fryntni yr luddewon oeddynt yn sorri wrth weled derbyniad y cenhedloedd a phechaduriaid eraill.

Y cyfryw yw prif ddiben ac ansawdd y rhan athrawiaethus hardd hon o'r Ysgrythur sanctaidd. Ond y mae addysg ychwaneg i'w gasglu oddi wrth y ddammeg yma, a phwysfawr iawn. Gellir dysgu tri pheth :

I. Naturiaeth a dilyniadau pechod.

II. Natur ac effeithiau gwir edifeirwch.

III. Parodrwydd Duw i dderbyn a phardynu 'r troseddwr edifeiriol.

I. Dechreuwn gyd â'r cyntaf, sef naturiaeth a dilyniadau pechod. Darllennwn yn yr 11eg adnod o'r bennod, " Fod gan ryw wr ddau fab, a'r ieuangaf o honynt a ddywedodd wrth ei dad, fy nhad, dyro i mi y rhan a ddigwydd i mi o'r da. Ac efe a rannodd iddynt ei fywyd. Ac ar ol ychydig ddyddiau, y mab ieuangaf a gasglodd y cwbl ynghyd, ac a gymmerth ei daith i wlad bell ; ac yno efe a wasgarodd ei dda, gan fyw yn afradlon. Ac wedi iddo dreulio 'r cwbl, y cododd newyn mawr trwy 'r wlad honno, ac efe a ddechreuodd fod mewn eisiau. Ac efe a aeth ac a lynodd wrth un o ddinaswyr y wlad

honno, ac efe a'i hanfonodd ef i'w faesydd i borthi moch. Ac efe a chwennychai lenwi ei fol â'r cibau a fwyttai 'r moch, ac ni roddodd neb iddo." Yma y gwelir, fel y dywedais, natur a dilyniadau pechod. Sylwn ar ymddygiad y dyn ieuangc yma. Yn nhŷ ei dad caredig nid oedd arno eisiau dim. Yr oedd y gweision cyflog yn dda eu cyflwr, fel y gwelwn wrth y ddammeg; yr oedd y mab felly yn ddiammeu. Ond er ei fod yr amser hwnnw yn mwynhau pob cysur yn nhŷ tad mor dringar, yr oedd ei gyflwr yn ddiflas ganddo, yr oedd yn flin ganddo yr ymarfer duwiol a'r drefn weddus yn nheulu y tad, ac yr oedd yn chwennych, fel amryw wyr ieuaingc o'i flaen ef ac ar ei ol, ychwanneg o rwysg i ddilyn pleserau ofer a chwantau pechadurus. O'r diwedd, fe ddeisyfodd gan ei dad ran o'i dda, ac yn ddioed a aeth i wlad bell; ac yno yn ebrwydd fe gollodd bob coffadwriaeth o'i dad a'r addysg dda a gawsai ganddo, ac heb waeth ganddo gymmaint y galarai yr hen wr, os clywai ryw bryd am ei ddrygioni; fe ymroes yn unchwant i bechod, gan soddi yn nyfnder chwantau drwg a chnawdol.

Dyma bortreiad i'r byw o bechod, ac o feddyliau ac ymarweddiad y pechadur. Feallai yntau fod yn ddedwydd yn nheulu a ffafr ei Dad nefol. Fe wahoddir i ddewis llwybrau

crefydd, ac fe sicrheir ef y byddant iddo yn llwybrau hyfrydwch ac heddwch; dywedir iddo, ar ei awdurdod ef yr hwn yw 'r Gwirionedd ei hun, os ofna ef Dduw a chadw ei orchymynion, na fydd arno eisiau dim daioni. Ond nid oes ganddo flâs ar ddim o'r fath bethau, ei feddwl a duedda ffordd arall; y mae iau ysgafn Crist yn rhy drom ganddo; chwennych y mae fod yn feistr arno ei hun, ac i ddilyn chwantau ei galon ei hun. Y mae 'n ceisio, gan hynny, ymbellhau oddi wrth Dduw; fe a ymwrthyd â meddyliau difrifol, ni wrendy ar lais cydwybod, fe dry 'r glust fyddar ar gynghorion gweinidogion Duw, a'i gyfeillion duwiol, ac felly a ddywed wrth yr Arglwydd, "Cilia oddi wrthyf, canys nid ydwyf yn chwennych gwybod dy ffyrdd." Felly yn ddiattal, ac wedi bwrw ofn Duw oddi wrtho, y mae 'n cerdded y llwybr ar hyd pa un y mae ei ewyllys lygredig yn ei arwain. Ond fe all ef, er hynny, gymmeryd ffordd arall yn ei yrfa ddrygionus, ac nid yr un ag a gymmerodd yr afradlon, yr hwn a wasgarodd ei dda trwy anghymmedroldeb. Y mae amryw lwybrau yn y ffordd lydan sy 'n arwain i ddistryw. Nid hwyrach nad yw 'r pechadur ddim yn ymroi i gnawdolrwydd, ond fod ei duedd at gybydd-dod neu anrhydedd bydol; er hynny mae fe 'n anghofio Duw ac yn ymddieithrio oddi

wrtho, y mae ei serch ar bethau daearol, y mae yn ceisio dedwyddwch oddi wrth y creadur, ac nid y Creawdwr, yn darparu dros y corph bregus, ac yn llwyr-esgeulus o'r enaid, ac o dragywyddoldeb.

Y cyfryw ydyw naturiaeth pechod. Deliwch sylw ar y dilyniadau: beth a ddygodd yr afradlon arno ei hun trwy ei ynfydrwydd a'i fryntni? Cyfyngdra a chywilydd; dyma 'r holl ffrwyth a fedodd oddi wrth bechod a ffolineb. Am dro, yn wir, yr oedd ei ffordd yn ddigon hyfryd ganddo, ac fe a roddai y rhwysg i'w chwant; ond yn fuan iawn y bu diwedd ar hyn, fe wasgarodd ei dda ac a aeth mewn eisiau. Fe ddigwyddodd hefyd, yr un pryd, bod newyn mawr yn y wlad, ac fe chwannegodd hynny lawer at ei gyfyngdra. Heb arian, heb gyfeillion, (canys y sawl oedd yn cymmeryd arnynt fod yn ffrindiau iddo hyd y parhaodd ei arian, a droesant, bid sicr, eu cefnau arno yn awr), mewn gwlad anghysbell; dirfawr oedd ei gystudd. Ond pa ffordd a gymmerodd efe? a oedd efe yn meddwl am ddychwelyd at ei dad? O yr oedd balchder a chywilydd yn ei rwystro; Buasai yn well ganddo ddioddef yr eithaf, gymmaint cywilydd oedd ganddo wynebu ei dad a'i hen gydnabod; gan hynny, er mwyn ei gadw ei hun rhag llewygu, fe aeth i wasanaeth, gwasan-

aeth anhyfryd iawn gan Iuddew, i borthi moch. Ond nid dyma eithaf ei gystudd: er iddo ymrwymo yn y fath wasanaeth, ni chafodd mo 'r digon o fwyd i dorri ei newyn; a dieithr fel yr oedd ef, mae yn llwyr ddigymmorth ac yn eithaf cyfyng arno. Gan doster y newyn, nid hwyrach, ac o achos ei afradlondeb gynt, nid oedd neb yn teimlo wrtho fymryn. "Ni roddodd neb iddo." Ac felly chwennychai ymborthi â'r cibau a fwyttai 'r moch. Pa gyfnewidiad echrydus! a dyma 'r ffrwyth a gafodd am ymadael â thŷ ei dad, a chymmeryd ei rwysg mewn pechod! Ond, yn ddiau, dyma ddilyniad pechod: nid ydyw ei bleserau ond am ychydig amser, y mae 'n dwyn ar ei ol gyfyngdra, a chywilydd, a distryw. Fe all y pechadur fyned rhagddo dros ychydig amser yn ddiofn ac yn ddideimlad; ond y mae digofaint Duw yn ei aros ef, y mae melldith pechod yn hongian uwch ei ben, ac fe all ddisgyn y munud nesaf arno. Pa gan amled y canfyddwn ddynion "yn cael bwytta ffrwyth eu ffordd eu hunain, a'u llenwi â'u cynghorion eu hunain."—Diar. i. 32. Nid hwyrach bod afiechyd, ffrwyth eu pechod eu hunain, yn eu cythryblu; nid hwyrach bod anghlod a chywilydd yn canlyn eu drwg-weithredoedd, ac yn eu hamgylchu yn eu holl ffyrdd: ac os ydynt heb yr arwyddion hyn

o ddigofaint Duw, er hynny, wrth y siommedigaethau a'r blinder a gawsant yn dilyn pleserau bydol, hwy a welsant eu hynfydrwydd yn gadael Duw, ffynnon y dyfroedd byw, ac yn cloddio iddynt eu hunain bydewau wedi eu torri, ni ddaliant ddwfr.

Ond a ydyw 'r pechadur yn canfod mai effaith ei droseddau yw hyn, ac a gymmellir ef wrth ei ystyried i ymadael â'i yrfa ddrygionus, a dychwelyd at ei Dad nefol? Yn rhy aml, gymmaint ydyw twyll pechod, a gelyniaeth y meddwl cnawdol tu ag at Dduw a sancteiddrwydd, yn lle dychwelyd y mae yn myned rhagddo, yn fwy ei awydd at bleserau drwg, yn fwy ei serch i'r byd, wedi ei ddallu gan Dduw y byd anwir hwn, yn soddi ei hun yn ddyfnach mewn aflendid, yn trysori iddo ei hun ychwanneg o ddigofaint beunydd erbyn dydd y digofaint. Mor alarus, mor druenus ydyw 'r fath gyflwr, nad ydyw 'r afradlon truan yn chwennychu ymborthi ar y cibau, ac yn disgwyl beunydd i farw o newyn, ddim yn wrthrych mor echrydus i sylwi arno, ag ydyw 'r pechadur dideimlad a digyffro hwn sy 'n debygol i fod yn golledig yn dragywydd. Ond y mae 'n digwydd ambell waith bod y cyfryw un yn cael ei attal yn ei ddrygioni, ac fel yr afradlon yn dyfod atto ei hun, i weled a chanfod ei drueni.

II. Ystyriwn, ynteu, natur ac effeithiau edifeirwch, fel y gosodir hwy allan yn yr Ysgrythur sanctaidd, ac yn y ddammeg hon. Ni a ddarllennwn am yr afradlon, ddarfod iddo, pan ddaeth atto ei hun, ddywedyd, "Pa sawl gwas cyflog o'r eiddo fy nhad sydd yn cael eu gwala a'u gweddill o fara, a minnau yn marw o newyn? mi a godaf, ac a âf at fy nhad, ac a ddywedaf wrtho, Fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau; ac mwyach, nid ydwyf yn deilwng i'm galw yn fab i ti: gwna fi fel un o'th weision cyflog. Ac efe a gododd ac a aeth at ei dad." Yr oedd eithaf angen, ac ofn rhag marw o newyn, wedi dyfod ag ef atto ei hun, wedi gostwng ei falchder, a pheri iddo ganfod a chydnabod ei drueni. Daeth i weled ei ynfydrwydd yn ei ddistrywio ei hun wrth ddilyn mwyniant darfodedig. Y mae 'n ystyried mor happus y buasai ef gynt yn nhŷ ei dad, a chymmaint mwy dedwydd ydyw 'r gweinidogion isaf yn y teulu nag ef, yn estron anghenus, newynog. Galarus ganddo feddwl am garedigrwydd ei dad, a'i anniolchgarwch ei hun tu ag atto. Ond er bod yn gywilydd ac yn dristwch iddo feddwl am y camarfer a wnaeth ef o'r caredigrwydd yma, etto tynerwch ei dad ydyw 'r peth sydd yn ei annog i ddychwelyd atto; y caredigrwydd yma sydd yn cynhyrfu ei obaith, a'r

gobaith hwn o dderbyniad sy 'n codi peth ar ei galon. "Ac fe a gododd ac a aeth." Yr oedd y ffordd yn faith, yr oedd wedi myned i wlad bell, ac heb ddim i'w gynnal ar ei daith, yn gorfod cardotta ar y ffordd. Fel yr oedd yn tynnu yn nês i'w gartref, mae 'n debygol fod amheuaeth ac ofn yn codi yn ei feddwl, a bod yn swil ganddo wynebu ei gyfeillion a adwaenent ef gynt yn hoyw a bonheddig, yn awr mewn dull cardottyn. Ond yn bennaf dim, y mae efe ar droiau hefyd yn ofni edliwiad ei dad a'i wedd ddig: ond etto, onid ymlaen, i ba le yr êl ef? oni wna ei dad ei dderbyn, pwy arall a wna? a fedr tad mor hawddgar ei wrthod?—amhosibl oedd hynny. Y mae meddwl am hyn yn rhoddi calondid iddo; a rhwng ofn a gobaith, mae e 'n mentro ymlaen.

Gwelwn yn yr hanes cyffrous yma, ddarluniad bywus o deimlad ac ymsyniad y pechadur dychweledig. Y mae yntau wedi dyfod atto ei hun: dygwyd ef trwy râs i ganfod ei drueni, a'i ymddygiad ynfyd ac afresymmol; agorwyd ei lygaid; y mae Yspryd Duw, un o swyddau yr hwn yw argyhoeddi 'r byd o bechod, wedi ei ddeffroi i ymsyniad o'i ddrygioni a'i annedwyddwch; y mae 'n gwybod ac yn cydnabod ei fod yn bechadur, ac y mae 'n crynu wrth feddwl am yr euogrwydd a ddarfu iddo ddwyn ar

ei enaid. Fe a wêl y farn sydd yn hongian uwch ei ben, ac y mae 'n edrych yn brysur o'i amgylch am le i ddiangc Ond ymhle y ceiff ef un? Difrodwyd ei dalentau, odfeydd gwerthfawr a gollwyd, blwyddyn ar ol blwyddyn a dreuliwyd mewn oferedd, tra bu yn chwannegu beunydd at rifedi ei gamweddau, ac yn helaethu grym a gallu pechod yn ei galon. Mor ddygn y mae 'n teimlo yn awr, mor ddwys y mae 'n wylo am ei ynfydrwydd gynt, a'i drueni presennol; mor daer y mae 'n dymuno yn awr i'w gael o nifer pobl Dduw, y sawl y buasai fe yn ddiweddar yn eu dirmygu, ac, ysgatfydd, yn eu cablu. "Y maent hwy," medd ef wrtho ei hun, "yn happus, mewn heddwch á Duw; hwy a rodiant yn ei lwybrau ef, ac a ganfyddant eu hunain yn ddiogel dan ei adenydd. Y mae ganddynt ynddo ef gyfaill, tad, ac Iachawdwr, yn yr hwn y gallant ymddiried. Ond am danaf fi, ni ddarfu i mi wasanaethu Duw na rhodio yn ei ffyrdd; yr wyf fi yn gyfiawn dan ei ddigofaint: beth, gan hynny, a wnaf fi." Megis fel hyn y mae 'r pechadur a argyhoeddwyd o'i bechod yn ymresymmu âg ef ei hun, ac yn galaru am ei gyflwr. Ond nid ydyw ei gyflwr, er gwaethed, ddim yn anobeithiol; y mae lle fyth iddo ddiangc; y mae Efengyl Crist fyth yn agor ffordd, trwy ba un y gellid ei ddychwel a'i

adferu ef i heddwch ac happusrwydd : y mae 'n cynnyg cysur i'r galarwyr: y mae 'n " cyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sy 'n rhwym."—Esay lxi. 1. Y mae 'n seinio yn ei glustiau yr amcan graslawn o herwydd pa un y daeth Mab Duw i'r byd, sef i achub pechaduriaid, a'r gwahoddiad trugarog trwy 'r hwn y mae 'n galw pawb i ddyfod am orphwysfa: y mae 'r pechadur yn clywed y sain ogoneddus. Fe genfydd bod trugaredd gyd a Duw y'Nghrist hyd yn oed i'r pennaf o ddrwg-weithredwyr; ac y mae 'n dechreu ystyried onid oes trugaredd iddo yntau. Y mae grâs Duw, heb yr hwn ni fedrwn ddychymygu yr hyn sydd dda a llesiol i ni, yn maethu 'r eginyn yma, ac y mae 'n ymroi i wneud ei oreu. " Mi a âf i ofyn, beth bynnag," medd ef, " mi adawaf fy nghyfeillion drygionus, er gwaethaf eu gwawd; mi dorraf ymaith, trwy gymmorth Duw, fy arferion pechadurus; mi a geisiaf Dduw, cyfaddefaf fy mhechod, ac a blediaf ei addewidion y'Nghrist; er nas gallaf gleimio bara 'r plant, mi ymbiliaf am y briwsion dan ei fwrdd ef. Mi a edrychaf beth a allaf fi wneuthur trwy weddi, ac amynedd, a gostyngedig egni." Y fath ydyw meddyliau ac ymddygiad y pechadur; ac felhyn y mae 'n codi ac yn myned at ei Dad, mewn cyfyng gynghor, ond nid yn anobeithiol.

III. Ystyriwn barodrwŷdd Duw i dderbyn a phardynu 'r troseddwr edifeiriol. Hyn a ddysgwn oddi wrth y modd y derbyniwyd yr afradlon gan ei dad. "Canys pan oedd efe ym mhell oddi wrtho, ei dad a'i canfu ef, ac a dosturiodd, ac a redodd, ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd ef. A'r mab a ddywedodd wrtho, fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau; ac nid ydwyf mwyach deilwng i'm galw yn fab i ti. A'r tad a ddywedodd wrth ei weision, Dygwch allan y wisg oreu, a gwisgwch am dano ef, a rhoddwch fodrwy ar ei law, ac esgidiau am ei draed; a dygwch y llo pasgedig a lleddwch ef, a bwyttawn, a byddwn lawen. Canys fy mab hwn oedd farw, ac a aeth yn fyw drachefn, ac efe a gollesid, ac a gaed."

Y mae pob peth yn y rhan yma o'r ddammeg yn dangos yn hynod garedigrwydd a thynerwch ei dad. Y mae 'n canfod ei fab dychweledig, ac efe etto ymhell oddi wrtho: gynted ag y cenfydd ef, yn anghofus o'i holl euogrwydd, nid yw 'n teimlo dim ond tosturi wrtho yn ei gystudd presennol. Er ei fod yn oedranus, y mae 'n rhedeg i'w gyfarfod ef, ac yn lle edliw iddo ei feiau, yn syrthio ar ei wddf ef, ac yn ei gusanu: ïe, pan oedd y mab yn myned i gyhuddo ei hun yn dost, fel y dywedasai y gwnai ef, y mae 'r tad yn torri ar ei chwedl, ac er ym-

ddangos o honaw mor wael a thlodaidd, y mae yn y fan yn ei gydnabod am ei fab ei hun, ac ymhob modd ar a allo yn dangos ei lawenydd am ei ddychweliad. Fel hyn y mae Duw yn derbyn y troseddwr edifeiriol sy 'n dyfod atto yn enw Iesu Grist. Y mae efe yn canfod o bell, pan gyntaf y bo 'r galon yn meddalu, y tueddiad cyntaf yn yr enaid i dyneru a dychwelyd atto, ac y mae 'r golwg yn hyfryd ganddo. "Efe a edrych ar ddynion," medd Job, "ac os dywed neb, Mi a bechais, ac a wyrais uniondeb, ac ni lwyddodd i mi, efe a wared ei enaid rhag myned i'r clawdd, a'i fywyd a wêl oleuni."—xxxiii. 27. Ac fel hyn y mae 'n ymddwyn tu ag at bob pechadur edifeiriol. Fe a'i derbyn yn raslawn, fe a faddeua iddo yn rhâd, fe a'i gesyd ymhlith ei blant. Pan gystuddir y galon, pan llefain y bo am drugaredd, ac yn dadleu dim ond gwaed Crist, y mae 'r cŵyn rhwng yr Arglwydd a'r pechadur drosodd. Ac mae 'r pechadur yn ymostwng i gyfiawnder Duw; ac yna y mae 'r Hollalluog, sy 'n hoff ganddo dosturio, yn medru trugarhau heb fyned yn groes i'w briodoliaethau gogoneddus eraill. Cauwyd yr adwy; tangnefedd a adferwyd; y pechadur a ollyngwyd yn rhydd, ac a dderbynir yn yr Anwylyd; holl fendithion a breintiau gogoneddus yr Efengyl a roddir iddo, a'r côr nefol sy 'n llawenychu o'i

herwydd, ac yn rhoddi gogoniant i'r Drindod fendigedig. O na fydded i unrhyw bechadur ymwrthod â'r cyfryw anfeidrol drugaredd- rhag iddo gael ei dorri ymaith o dir y rhai byw heb edifarhau; ond brysied trwy edifeirwch a ffydd at Grist, fel y caffo gysur yn ei fywyd, llonyddwch wrth farw, a dedwyddwch dros fyth yn y byd nesaf.

PREGETH X.

Y DEG GWAHANGLEIFION.

St. Luc xvii. 17, 18.

A'r Iesu gan atteb a ddywedodd, Oni lanhawyd y deg? ond pa le y mae y naw? Ni chaed a ddychwelasant i roi gogoniant i Dduw, ond yr estron hwn.

DYMA y tro diwaethaf i'r Iesu fyned o Galilea i Jerusalem. A bu fel yr oedd ef yn myned, fyned o hono ef trwy ganol Samaria a Galilea; h. y. trwy gyffiniau y ddwy wlad; yn lle myned yn uniawn rhagddo, fe gymmerodd gylch, er mwyn, mae 'n debygol, gochel ymrafaelion gyd â'r Samariaid. Un o yspryd addfwyn llonydd oedd ein Hiachawdwr, ym mhell iawn oddi wrth fod yn ymrysongar. A phan oedd efe yn myned i ryw dre, cyfarfu âg ef ddeg o wŷr gwahangleifion, y rhai a safasant o hirbell, a hwy a godasant eu llef gan ddywedyd, Iesu Feistr, trugarha wrthym. A phan welodd efe hwynt, efe a ddywedodd wrthynt, Ewch a dangoswch eich hunain i'r offeiriaid. A bu fel

yr oeddynt yn myned, fe a'u glanhawyd hwynt. Ac un o honynt, pan welodd ddarfod ei iachau, a ddychwelodd, gan foliannu Duw â llef uchel. Ac efe a syrthiodd ar ei wyneb wrth ei draed ef, gan ddiolch iddo: a Samariad oedd ef. A'r Iesu gan atteb a ddywedodd, Oni lanhawyd y deg? ond pa le y mae 'r naw? Ni chaed a ddychwelasant i roi gogoniant i Dduw, ond yr estron hwn. Ac efe a ddywedodd wrtho, Cyfod a dos ymaith, dy ffydd a'th iachaodd.

Y mae 'r gwahanglwyf etto i'w weled yn ngwledydd y dwyrain, ac yn ol hanes y sawl a'i gwelsant, y mae 'n glefyd cystuddiol a blîn. Clwyf ydyw ef yn ymdaenu dros y corph i gyd, ac yn ei anharddu yn druenus, yn ysu 'r cymalau, yn ffiaidd gan yr holl synwyrau, anhyfryd gan y golwg a'r arogl, ac yn llygru mwy ar y corph na dim arall tu yma i'r bedd. Yn gyfattebol, yn ol cyfraith Moses, fel y gwelwn yn y 14 bennod o Lefiticus, gorchymynwyd i'r cyfryw gleifion fyw yn wahanol oddi wrth eraill, fel y mae 'r gair cymraeg, chwi a wyddoch, yn arwyddoccau. Gwaharddwyd iddynt fod o fewn gwersyll yr Israeliaid; a phan adeiladwyd dinasoedd, ni chaent fod o fewn y rhei'ny ychwaith: ac yr ydym yn darllen yn llyfrau yr Iuddewon, gorfod iddynt fod a'u pennau yn noethion, a'u dillad yn rhwygedig, gael i bobl eu

hadnabod o bell, a'u gochel; a phan welent rai yn neshau, yr oeddynt rwymedig i'w rhybuddio o'u perygl, ac i lefain allan, "Aflan! aflan!" Wrth sylwi ar hyn fydd haws gennych ddeall amryw fannau yn y Testament newydd a'r hen. Ac felly y digwyddodd ddarfod i'r deg truanddyn yma gyfarfod ein Hiachawdwr yn myned i'w tre, h. y. cyn iddo fyned i mewn, ond tra 'r oedd yn neshau atti; canys yr oedd gorfod iddynt druain, o achos eu clwyf, drigo yn unig, neu gyd â rhai eraill clwyfus, yn ymddifaid o gwmpeini eu cyfeillion a'u teuluoedd: oherwydd hynny, fel y mae 'r hanes yn traethu, y safent o hirbell ar yr achos presennol, gan godi eu llef: hwy a lygrwyd â chlwyf, ac nis gallent neshau at bobl eraill, rhag iddynt daenu eu haflendid yn eu plith. Ond er y bwrid hwy ymaith o fysg cymdeithas dynion, hwy a glywsent am yr Iesu a'i ryfeddodau, ac a geisiasant gymmorth a meddyginiaeth ganddo: yna o'r fan y safent, a hynny o hirbell, y codasant eu llef, gan ddywedyd, "Iesu Feistr, trugarha wrthym." Ac felly y dylem ninnau ei geisio ef, nid yn unig ymhob clefyd corphorol a chystudd, ond yn enwedig pan glwyfir yr enaid gan bechod, clwyf mwy gorthrwm, mwy ffiaidd, mwy truenus, a mwy dinystriol nag yr un arall. Ond i fyned rhagom yn ein sylwad ar y testyn: yr oedd yn

ddigon amlwg wrth y golwg ar y dull oedd arnynt pa drugaredd yr oedd y dynion yma yn ei cheisio: ac yn ddilynol, yr Iesu, yr hwn a fuasai yn gwybod, heb ddim arwyddion, pa fath ar ddynion oeddynt, h. y. ymha gywair, pan eu gwelodd, a ddywedodd wrthynt, "Ewch a dangoswch eich hunain i'r offeiriaid." Yr oedd yn rhan o swydd yr offeiriad ymhlith yr Iuddewon, (fel y mae i'w weled yn amlwg yn y bennod a grybwyllais o'r blaen), ddeall nodau 'r gwahanglwyf, barnu ai oedd dyn yn lân oddi wrtho ai nag oedd; ac yn ol barn yr offeiriad yr oedd ef i gael ei ail dderbyn i gymdeithas dynion, neu i aros etto yn neulltuol oddi wrthynt. Gan hynny, pan draethodd ein Hiachawdwr y geiriau yma, "Ewch a dangoswch eich hunain i'r offeiriaid," yr oedd yn rhoddi iddynt yn ei ffordd addfwyn ddi-orchest ef, addewid o'r peth, yr hyn yn ebrwydd a ganlynodd, sef eu hiachad trwy ei hollalluog air a'i ewyllys ef. Canys fel yr oeddynt yn myned yn ol ei air ef, yr iachad a effeithiwyd, y ffiaidd glwyf a'u gadawodd, hwy a lanhawyd, aethant megis yn ddynion newydd, eu cnawd a ddychwelodd iddynt fel cnawd dyn bach.

Sylwn yn nesaf, gyd â pha deimlad y darfu iddynt dderbyn y cyfryw drugaredd ar law Duw. "Ac un o honynt, pan welodd ddarfod

ei iachau, a ddychwelodd gan foliannu Duw â llef uchel; ac efe a syrthiodd ar ei wyneb wrth ei draed ef, gan ddiolch iddo, a Samariad oedd ef." Yr Iuddewon, heb feddwl mwyach am y drugaredd a gawsant, megis trugaredd, nag am eu cymmwynaswr, a frysiasant at yr offeiriaid â mawr awydd i gael symmud eu anghlod, a mwynhau cymdeithas eu cyfeillion, y byd, a'i fasnach, a'i felysdra; ond y Samariad truan dirmygus, dyma efe yn dychwelyd, yn cydnabod y fendith, yu syrthio wrth draed yr Iesu, ac á llef uchel yn gogoneddu Duw Israel. "A'r Iesu gan atteb a ddywedodd, Oni lanhawyd y deg? ond pa le y mae 'r naw? Ni chaed a ddychwelasant i roi gogoniant i Dduw ond yr estron hwn."

Och! fel y mae llaweroedd, fel y mae pawb o honom, yn derbyn bob awr yn ddibaid fendithion hynod ar law Duw, ac anamled y derbynir hwy fel y dylid. Nid ydym yn teimlo fel y dylem, nid ydym yn ystyried caredigrwydd Duw. Ac mor syn ydyw meddwl mai ymhlith y rhei'ny y gwelir mwyaf oerni, ac anystyriaeth, ac anniolchgarwch, y sawl a dderbyniasant y bendithion amlaf a mwyaf. Dyma 'r gwahangleifion Iuddewig, rhai o'r bobl etholedig, briodol, plant Abraham ffyddlawn, yn ddistaw ar yr achos yma, heb son dim am haelioni 'r Arglwydd tu

ag attynt; a'r estron o Samariad yn ei foliannu ef; ïe, yr oedd agos holl genhedl yr Iuddewon yn ymwrthod â'u Messiah. Ond a oddefir i hynny fod yn ddigerydd? Ni oddefwyd y pryd hwnnw, ac ni oddefir yn awr. Y deyrnas a ddygir oddi ar yr anffrwythlawn, ac a roddir i'r sawl a ddygant ffrwyth. Y sawl ni wnant ddeunydd o'r doniau a'r breintiau sy ganddynt, a'u collant; ni fyn Duw mo'i siommi yn ddiddig: a'r sawl sy 'n deimladwy o ffafr Duw, ac yn barod i'w gofleidio, o ba radd bynnag y bont, neu o ba wlad bynnag, cymmeradwy fyddant; canys nid ydyw Duw dderbyniwr wyneb. "Dy ffydd a'th iachaodd," meddai ein Hiachawdwr wrth y Samariad, dyn dirmygedig yngolwg rhai a safent gerllaw: a phwy bynnag sy 'n awr yn meddiannu 'r rhodd nefol, bydded fyth mor ddibris yngolwg dyn, a dderbynir gan yr Iesu yn garedig, ac a lanheir o'i holl afiendid trwy ei waed a thrwy ei Yspryd. Nis gwaeth pa mor dlodaidd ei gyflwr, pa mor gymmaint ei bechadurusrwydd, pa liw bynnag ar ei wedd, pa un ai gwyn ai du, pa un ai caeth ai rhydd; os bydd ganddo ffydd ac edifeirwch, fe a gyfiawnheir, ac a sancteiddir, a'r diwedd fydd bywyd tragywyddol; ac os bydd ffyddlawn hyd angeu, fe a dderbyn y goron. Dy ffydd a'th iachaodd, meddai ein Hiachawdwr, er dang-

os mai hynny yn unig a dueddai 'r Hollalluog i ddangos trugaredd ac i iachau 'r briwedig o galon, ac na thyccia breintiau yn y byd, na gwladol nag eglwysig, i gael hyn heb ffydd.

I sylwi ymhellach ar yr hanes athrawiaethus yma: mor hynod y gosodir allan ynddi ddwyfol allu 'r Iesu. Trwy 'r holl hen Destament, ni ddarllennir ond am un yn cael ei iachau o'r gwahanglwyf mewn ffordd oruwch-naturiol, a hwnnw oedd Naaman yr Assyriad, gan air Duw trwy Eliseus y prophwyd. Ond dyma 'r Iesu yn iachau deg o'r fath drueiniaid, trwy adrodd yn unig y geiriau di-orchest yma, "Ewch a dangoswch eich hunain i'r offeiriaid." Am a berthyn i'n hunain, frodyr, y mae dilyniad y fath ddwyfol weithred, megis rhyfeddod, yn amhosibl i ni: bydded ddigon gennym ei chlodfori a'i mawrygu yn ostyngedig, a moliannu Duw yr hwn a roes y cyfryw allu i'w unig-anedig. Ond y drugaredd a gynnwysir yn y weithred, ni a allwn, bawb o honom, ei dilyn. Nid oes un dyn byw, er ised y bo, ac er gwaeled ei gyflwr, na fedr ryw ffordd neu gilydd wneuthur cymmwynas i'w gyd-greaduriaid cystuddiedig. Nid ydyw Duw yn gadael neb o honom heb ryw ddawn, rhyw dalent, er lleied. Na fydded i neb o honom ei chuddio a'i chladdu yn y ddaiar. Fe all y tlottaf wneuthur cymmwynas i

gymmydog yn ei gystudd, pettae ond gair o gysur, pettae ond ymgeledd heb gostio dim i'r rhoddwr; a'r gymmwynas leiaf, os tardda o galon ewyllysgar ac o gariad i'r Prynuwr, a fydd mwy cymmeradwy gan ein tad nefol nag aur lawer. Dyma 'r modd y dilynwch yr Iesu yn myned oddi amgylch gan wneuthur daioni. Dysgwn, ynteu, bawb o honom, yn ol y caffom adeg, i gyfrannu i eraill, gelynion a chyfeillion, Samariaid ac Iuddewon, h. y. pa un bynnag ai o'r sect a fyddont ai o un arall, canys dyna 'r cariad llydan, ehang, a diduedd y mae siampl Crist yn ei ganmol i ni. A pha un bynnag ai mawr ai bychan y bo 'n gallu, y mae 'r dalent o aur a rhodd y weddw y naill fel y llall, os cyfrennir hwy o gariad diragrith, yn gymmeradwy gan Dduw er mwyn ein Hiachawdwr. "Os," medd yr Apostol Paul, "bydd parodrwydd meddwl o'r blaen, yn ol yr hyn sydd gan ddyn y mae 'n gymmeradwy, nid yn ol yr hyn nid oes ganddo."

Dysgwn ymhellach oddi wrth yr hanes yma er ein cysur hyderu ar yr Iesu, ar ei barodrwydd a'i awyddfryd i'n helpu yn amser angenoctyd. Yr oedd y deg gwahangleifion yn llefain â llef uchel ar yr Iesu, "Iesu Feistr, trugarha wrthym." Ac felly yr ydym ninnau yn gweddio yn ein defosiwnau dirgel a chyhoedd

ar Grist i drugarhau wrthym, "Mab Dafydd, trugarha wrthym," ond bydded i ni weddio mewn ffydd, heb ammeu dim. Na feddyliwch, frodyr, bod ei fraich wedi ei byrhau, na'i ewyllys da yn llai na phan oedd ef ar y ddaiar, yn rhodio ymhlith dynion, ac yn dywedyd wrth y gwahangleifion, "Mynnaf, byddwch lân."— Canys y mae 'n eistedd yn awr wedi ei amgylchu â gogoniant, ar ddeheulaw Duw, a phob gallu yn y nef a'r ddaiar a roddwyd iddo. Fe wêl ein holl angenrheidiau, ac a dosturia wrth ein gwendid; ac y mae yn ein gwahodd yn dyneraf ac yn raslonaf, i neshau at orsedd y grâs, ac i alw arno ef. Bid sicr gennych, ynteu, mai os chwi a deimlwch eich diffyg a'ch angen, gan ei gydnabod ef, yr hwn sydd a gallu ganddo i achub, a gweddio arno mewn ffydd, fe a'ch gwrendy, ac a dywallt i lawr arnoch ei ddoniau nefol; bid sicr gennych y gwna efe iachau eich clefydau, os gwêl ef hynny yn oreu i chwi er lleshad ysprydol; ond yn bennaf fe a lanha lygredigaeth eich heneidiau, gan roddi iddynt iechyd nefol, a diddanwch ei lân Yspryd.

Fel hyn y dysgwn oddi wrth yr hanes yma i berchi ac anrhydeddu ein Harglwydd a'n Hiachawdwr, i fawrygu ac addoli ei allu a'i ddaioni, i ddilyn ei addfwynder a'i garedigrwydd, ei hael-

ioni a'i dosturi, a'i barodrwydd i gymmorth yn amser angenoctyd; i fod a ffydd gennym, ac i weddio arno mewn ffydd yn ein holl gystudd. Oddi wrth ymddygiad ein Hiachawdwr yn yr achos yma, y cyfryw yw 'r addysg y gellid derbyn.

Sylwn yn nesaf, pa sutt y mae 'r hanes yma yn amlygu ac yn dangos ymddygiad a natur dynion, eu beiau a'u gwendid. Chwi a welsoch mai Iuddewon oedd naw o'r deg a lanhawyd. Yr oedd yr Iuddewon, chwi a wyddoch, yn meddiannu breintiau arbennig; ond yn lle cymmeryd achlysur oddi wrth hynny i ddangos mwy o ddiolchgarwch i Dduw, a bod yn fwy awyddus i amlygu gogoniant Duw yn y byd trwy wir dduwioldeb a charedigrwydd i ddynion, hwy a gam-arferent ei ffafr i fagu rhagfarn a balchder ynddynt eu hunain, gan dybied, o herwydd eu bod yn meddiannu ei ffafr, eu bod yn haeddol a honi, yngwrthwyneb i gyngor Moses dduwiol. Ac felly y naw gwahangleifion yma y rhai a lanhawyd, ni feddylient am ddychwelyd at yr Iesu i gydnabod eu rhwymedigaeth iddo, ond i ffordd â nhw at eu hoffeiriaid i gwblhau y peth yr oedd y gyfraith yn gofyn, heb ofalu ychydig am dalu 'r ddyled a roesai cymmaint graslonrwydd arnynt; cyflawni 'r seremoni yn unig, ac yna at y byd, a'i

bleserau, yn ebrwydd y cyrchent. Yr ydym ninnau, frodyr, megis cenhedl a gwlad o Grist-'nogion, yn mwynhau amryw freintiau ar law Duw. Tra y bu teyrnasoedd eraill yn gruddfan dan ei farnedigaethau, y mae ef wedi cadw 'r wlad hon yn rhydd oddi wrth yr amryw helbulon a syrthiodd ar y gwledydd o'n hamgylch. Ond a ydym ni yn deimladwy fel y dylem o'i garedigrwydd? ai atgof gennym nad o honom ein hunain y mae 'r llwyddiant a'r diogelwch, ond oddi wrth Dduw, ein tarian a'n hymddiffynfa? Ydym ni yn cymmeryd achlusur oddi wrth ein llwyddiant a'n diogelwch, ac yn enwedig oddi wrth aml foddion grâs yn ein plith, i gynnyddu mewn purdeb, ffydd, a duwioldeb, ymostyngiad ac hyderwch ar Dduw? Nid ydwyf yn cymmeryd arnaf ddywedyd sutt y mae 'r peth yn bod, ond hyn a ddywedaf, mai beius iawn fyddwn oni ddysgwn oddi wrth hyn oll, a holl addysg gair Duw, i chwilio ein hunain, a gochelyd syrthio i'r un ddamnedigaeth a'r Iuddewon, sef balchio o achos ein breintiau a'n bendithion, a'u cam-arferu fel y darfu iddynt hwy, a'u troi felly yn felldith i ni. Ond heblaw ein dysgu mor anniolchgar y mae cymdeithasau o ddynion, gwledydd, a theyrnasoedd, am y breintiau a deilyngwyd iddynt, gellid ystyried hefyd mor anniolchgar ydyw dynion

neulltuol am gymmwynasau 'r Hollalluog; dysgwn ynteu edifarhau lle y darfu i ni droseddu, a gochelyd troseddu rhagllaw. Yr oedd y deg gwahangleifion oll yn gorwedd dan yr un gystudd, ac a lefasant oll am drugaredd; hwy oll a iachawyd mewn modd goruwch-naturiol: ond un yn unig a ddychwelodd i roddi diolch i'r Iesu a gogoniant i Dduw. Dysgwn, gan hynny, trwy 'r siampl yma, i ofalu pan ddangoso Duw ryw amser i ni drugaredd, trwy ein gwaredu oddi wrth ryw glefyd trwm neu ryw gystudd blin arall, i ofalu, meddaf, rhag bod yn anniolchgar ac anystyriol fel yr Iuddewon yma, ond diolchus fel y Samariad, ar ol eu hiachau. Cyngor a rhybudd angenrhaid i bawb o honom ydyw hwn: canys oni ddarfu i laweroedd o honom, pan oeddynt yn gorwedd ar eu clafwely, weddio ar i Dduw eu cymmorth, ac er mwyn hyn goffau eu drwg-weithredoedd, wylo o'u herwydd, ac amcanu gwellhau? Ac ar ol i Dduw yn raslawn eich harbed, pa faint y darfu i chwi, frodyr, gyflawni o'ch haddunedau? a fuoch chwi yn wir ddiolchgar, a ddarfu i chwi gydnabod eich rhwymedigaeth yngwydd yr holl bobl? Uwchlaw pob dim, a ddarfu i chwi ddysgu o hynny allan ogoneddu Duw trwy fuchedd mwy sanctaidd, gan edrych arnoch eich hunain megis pererinion a dieithriaid ar y ddai-

ar, megis rhai y gorfydd iddynt cyn bo hir fyned oddi yma i atteb am y cwbl a brofasoch, am y trugareddau a'r barnedigaethau? Ysywaeth, yn lle hynny, oni ddarfu i chwi anghofio 'n ebrwydd eich bwriad i edifarhau ac i fyw yn dduwiolach; ïe, oni ddarfu i chwi gwedi hynny ymroi amryw o honoch yn fwy eich hawydd i'r byd, a byw fel pe tybiech nad oes mo'r un Duw a'i olwg arnom, yr hwn a eilw bechaduriaid gwrthnysig i gyfrif tost ar eu mynediad oddi yma?

PREGETH XI.

CROESHOELIAD CRIST.

St. Ioan xix. 30.

Yna pan gymmerodd yr Iesu y finegr, efe a ddywedodd, Gorphenwyd: a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fynu yr yspryd.

DIODDEFAINT Mab Duw, garedigion, er chwerwed ac mor boenus ydoedd, a gafodd i ni y fuddugoliaeth. Y peth mwya hynod a rhyfedd oedd hyn a ddigwyddodd erioed ar y ddaiar, a buddiol iawn ydyw myfyrio arno: peth a wnaed ond unwaith, ond i feddwl am dano byth ac yn dragywydd. Nid oes un ran na dim yn perthyn i'r digwyddiad hynod yma, na fyddai 'n destyn anniben i'w draethu am dano. Y rhan a ddewisais yr adeg yma, megis cymmwys i'r amser presennol, ydyw gair diwaethaf ein Hiachawdwr, megis yn canu 'n iach i'r byd hwn a'i ddioddefiadau, "Gorphenwyd," a'i weithred olaf, "Efe a roddes i fynu yr yspryd." Y gair melusaf a lefarodd Crist erioed,

a'r weithred fwya o gariad a wnaeth ef, sy 'n ymgyfarfod yn ei anadl ddiwaethaf. Yn y gair hwnnw gwelwch ef yn orfoleddus, ac yr un amser yn ymollwng fel pe bai yn colli 'r dydd modd y gallai ei ennill. Tybiwch, ynteu, eich bod yn canfod Crist Iesu yn nydd ei ddioddefaint yn cymmeryd golwg megis gorchfygwr o'i gerbyd ar y pethau a orchfygwyd ganddo ar ol hir ymdrech a loesau trymion, gwawd a chreulondeb dynion, llid y Tad, y gyfraith, pechod, marwolaeth, ac angeu, a chwi a welwch gyd â pha yspryd y dywed ef, "Gorphenwyd." Pa beth a orphenwyd? Gellir atteb yn fyr, yr holl brophwydoliaethau am dano, yr holl seremoniau oedd yn ei bortreiadu, ei ddioddefiadau ef, a'n hiechydwriaeth ni: y prophwydoliaethau a gyflawnwyd, y seremoniau a ddilëwyd, ei ddioddefiadau ef a ddibenwyd, ein hiechydwriaeth ni a ynnillwyd. Sylwn ar y prophwydoliaethau yn gyntaf. "Y mae diben i'r pethau a ysgrifenwyd am danaf," meddai Crist. Pa ddiben? Hyn, sef gorphenwyd; yma y diben a brophwydwyd am dano a ddibenwyd; ac nid y diwedd yn unig, ond y cwbl a ysgrifenwyd am Grist gan y Prophwydi. Gorchwyl anniben fyddai cymharu 'r Prophwydi gyd â'r Efengylwyr drwyddynt, y rhagfynegiad a'r cyflawniad, ac ymhelaethu ar eu cysondeb. O'r pedwar E-

fengylwr rhyngodd fodd i'r Yspryd Glân beri i St. Matthew fod yn fanylaf yn hyspysu 'r cysondeb rhwng gweithredoedd a bywyd Crist a'r prophwydoliaethau; "Fel y cyflawnid," medd ef yn fynych iawn. Yr ydys yn rhifo deuddeg man ar hugain yn Efengyl St. Matthew, lle y mae ef yn dangos y cyfryw gyflawniad am enedigaeth, bywyd, a marwolaeth Crist: ac y mae yn St. Ioan amryw rai heblaw hwy. Ond y pryd yma mi grybwyllaf y rhei'ny yn unig sy 'n perthyn i'w ddioddefiadau. Rhaid oedd ei ddal ef, rhagfynegwyd hynny, "Enneiniog yr Arglwydd," meddai Jeremi yn ei Alarnad iv. 20. "a ddaliwyd yn eu rhwydau hwynt." Ond pa sutt? Ei werthu am ddeng darn ar hugain o arian oedd raid; a pha beth oedd i'w wneuthur â nhw? prynu maes; a hyn a ragfynegwyd yn bennodol, "A'm gwerth a bwysasant yn ddeg ar hugain o arian;" "A dywedodd yr Arglwydd wrthyf," medd Zechariah, iv. 12, 13. "Bwrw ef i'r crochenydd, prîs teg â'r hwn i'm prisiwyd ganddynt." Ond pwy oedd i wneuthur hynny? Mab y golledigaeth, fel y prophwydwyd, "Yr hwn a fwyttaodd fara gyd â myfi," medd y Psalmydd, "a ddyrchafodd ei sawdl i'm herbyn." A pha beth a wnaeth ei ddisgyblion? Hwy a ffoisant. "Tarawaf y bugail," medd Zechariah, "a'r defaid a wasger-

ir." Ei holl ddioddefiadau canlynol a rag-fynegwyd: "Fy nghorph a roddais i'r curwyr; ni chuddiais fy wyneb," medd Esay, "oddi wrth waradwydd a phoeredd." "Trywanasant fy nwylaw a'm traed," ebr y Psalmydd. "Fel y dyrchafwyd y sarph yn y diffeithwch, felly y dyrchefir Mab y dyn," medd Crist am dano ei hun. "Fe a gyfrifwyd gyd â'r troseddwyr," ebr Esay; ac felly fe groeshoeliwyd ef rhwng dau leidr. "Y maent yn rhannu fy nillad," medd y Psalmydd, "ac ar fy ngwisg yn bwrw coelbren." "Edrychasant arno ef a wanasant," medd Zechariah. Ond er ei draddodi i'w creulondeb, ni fedrent dorri asgwrn o hono, oblegid felly y prophwydwyd am dano; ac o blegid mai efe oedd y gwir oen pasg, ac ni byddid yn torri asgwrn o'r oen pasg, yr hwn oedd gysgod o'n haberth mawr ni.

Yn ddiwaethaf, ei holl eiriau olaf a brophwydwyd am danynt, hyd yn oed ei gwynfan, "Eli, Eli, lama sabachthani, fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist." Ei ymostyngiad i ewyllys Duw, "I'th ddwylaw di y gorchymynaf fy yspryd," meddai 'r Psalmydd, yn bwrw at Grist. "Eiriolodd dros y troseddwyr," meddai Esay, yn rhagfynegi ei eriolaeth dros bechaduriaid eraill, ac hefyd dros ei lofruddwyr yn arbennig, pan ddywedai ar drengi, "canys ni wyddant pa

beth y maent yn ei wneuthur." "O Dad, maddeu iddynt," meddai 'n Hiachawdwr, yn gweddio dros ei erlidwyr, Yrwan, ein Hiachawdwr yn gwybod cyflawni 'r holl brophwydoliaethau hyn, a welodd bod un ar ol, "Hwy a'm diodasant yn fy syched â finegr." Ynteu a ddolefodd, "Mae arnaf syched." Nid o herwydd nad allasai efe yr hwn a ddioddefodd artaith corphorol a dwysaf gyfyngdra yspryd, ddioddef syched; ond ni fedrai ddioddef i'r Ysgrythur fod heb ei chyflawni, i amcan ei Dad fod heb ei ddibennu. Ac yn awr, pan gymmerodd y finegr, fe a ddywedodd, yn canfod cyflawniad o'r cwbl, "Gorphenwyd: a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fynu yr yspryd."

Y mae 'n beth rhyfedd, frodyr, yn beth gresynol i feddwl am dano, bod amryw rai yn y dyddiau hyn, fel yr Iuddewon, yn gwadu, yn anghredu i'r Iachawdwr yma, yr hwn y mae cynnifer o brophwydoliaethau wedi eu cyflawni ynddo, megis yn gwarantu ei ddyfod oddi wrth Dduw. Pwy arall ond Yspryd Duw a fedrasai rag-fynegu hyn oll? a phwy ond Mab Duw a allasai eu cwblhau? Ni a allwn yn hyfion ddywedyd y gwyddom i bwy y credasom; ac, os ar ol cynnifer o dystiolaethau, y mae rhai yn dewis y tywyllwch yn rhagor na 'r goleuni, byddant anathema, yn felldigedig yn

ol eu dewis: ond glynwn ni wrth yr Iachawdwr a fu farw drosom.

Bellach, y mae 'r gair gorphenwyd yn arwyddoccau ddarfod dibennu a chyflawni 'r gyfraith. Crist yw diwedd y ddeddf. Pa ddeddf? Y ddefodol a'r foesol: y foesol a gadwyd yn fanwl ganddo, ac a gyflawnwyd yn berffaith drosom ni. Y ddeddf defodau, yn cyfeirio atto ef ac yn ei gysgodi, a gadwyd, a gyflawnwyd, ac a ddiddymwyd ganddo. Hawdd fyddai dangos y modd y mae 'r holl seremoniau Iuddewaidd yn cysgodi Crist, yr enwaediad, y pasg, yr arch-offeiriad, ei urddo, ei enneiniad, ei wisg, y llen, y tabernacl, yr allorau, yr offrymmau, y golchiadau, taenelliad gwaed; y cwbl yn cael eu rhinwedd oddi wrtho ef, yn cyfeirio atto ef, ac yn dibennu ynddo. Buont feirw megis gyd â Christ; y llen a rwygwyd, y cysgodau a roesant le i'r sylwedd, ac nid ydys yn rhwymedig i gadw 'r ddeddf seremoniol ddim yn hwy; o herwydd ymddangos yn awr o'r Efengyl yr hon yr oedd hi yn rhag-flaenu; o herwydd hefyd nad oes achos bellach fod un genhedl yn neulltuol oddi wrth genhedloedd eraill. Rhyddhawyd ni, gan hynny, oddi wrth y ddeddf seremoniau oll; ac nid ydym rwymedig i gadw dim, heblaw 'r ddau sacrament, ond a fyddo angenrhaid er cadw trefn dda a gwedd-

aidd yn addoliad Crist'nogol, ac sy fuddiol er adeilad ysprydol.

Beth arall a orphenwyd? Ei ddioddefiadau, ei ddioddefiadau diwaethaf. Yn wir dioddefaint oedd ei holl fywyd drwyddo; ond anniben fyddai adrodd y cwbl i chwi. Trown ein golwg ynteu at ei awr olaf, cawn ei weled ef yn cael ei roddi i farwolaeth yn y modd mwya poenus, a phob peth yn cyd-weithio i chwannegu at ei gyfyngdra. Fe a ddygwyd i farwolaeth: i ba fath un? I farwolaeth y groes, y fwya poenus a ellid meddwl am dani, ac etto byddai trueiniaid, er dwysed y boen, oriau a dyddiau heb farw! Marwolaeth o'r waradwyddusaf oedd hi hefyd; ni byddai 'r Rhufeiniaid yn ei chymmell ar neb ond caeth-weision, a melldigedig a alwyd hi hefyd gan yr Iuddewon. Po cyhoeddaf y fath beth, mwya gwarthus ydyw ef; ond cafodd Crist ei ddihenyddio, nid mewn congl, ond yn Jerusalem, lle megis llygad y byd, y fan y darfu iddo ei anrhydeddu â'i bresennoldeb, eu dysgu â'i athrawiaeth, gwneuthur rhyfeddodau yn eu mysg, a thywallt dagrau drosti. Ar ol cymmaint caredigrwydd ar ei ran ef, yr oedd hi yn fwy galarus ganddo ddioddef yno yn anad un lle. Ond nid yn sicr o fewn y ddinas, ond ar Galfaria, ymysg esgyrn drwg-weithredwyr neulltuol, fe

a groeshoeliwyd; ac ar ŵyl gyhoeddaf y pasg y digwyddodd hyn, pryd y cyd-gyrchai 'r Iuddewon oll i Jerusalem. Pryd yr oeddynt ar fedr derbyn y cysgod, y maent yn ymwrthod á'r sylwedd; pryd y dylasent ladd a bwytta 'r oen pasg, y sacrament, mewn ffydd a diolchgarwch, y maent yn lladd oen Duw, y gwir oen pasg, yn greulon ac yn ddirmygus. A chyd â phwy y dioddefodd ef? Gyd â lladron; yr oedd hynny yn chwannegu at y gwarth. Er nad oedd twyll yn ei enau chwaithach yn ei ddwylaw, dyma efe yr hwn a dybiasai ei hun heb drais, h.y. yn gyfiawn, yn ogyfuwch â Duw, yn cael ei gyfrif gyd â lladron dihiraf, ei gyfrif yn sicr yn waeth na nhw, gan ei roi yn y canol megis y pen. Yr oedd y drwg-weithredwyr hyn yn cael eu trin hefyd gyd â llai dirmyg na Christ: nid oedd dim gwawdio arnynt hwy, nag edliwiad, nag argraph uwch eu pennau; nid oedd dim ond poen iddynt hwy ddioddef, iddo ef poen a gwaradwydd o bob math: ac yr oedd melldith y groes hefyd yn fwy echrydus agos na 'r artaith, a'r gwawd, a'r gwatwor a fwriwyd arno. Yr oedd yr Iuddewon, y milwyr, hyd yn oed un o'r lladron yn ei wawdio; nid oedd ei waed yn eu boddloni heb ei amherchi ganddynt. Pa un o'i synhwyrau nid oedd yn awr megis ffordd i alar a phoen ddyfod i mewn

iddo? Ei lygaid sy 'n canfod dagrau ei fam a'i gyfeillion, ymddygiad creulon ac anniolchgar y bobl, a dirmyg ei elynion; ei glustiau yn clywed eu gogan a'u cabledd; ei deimlad, yr hoelion; ei archwaeth, y bustl. Edrychwch a gwelwch oes un rhan o'i gorph yn rhydd oddi wrth boen: y pen a addolir gan angylion a glwyfwyd â drain; y gwynebpryd, am yr hwn y dywedwyd, "Teccach wyt na meibion dynion," a boerwyd arno; ei lygaid, sydd ddeng mil eglurach na 'r haul, a dywyllwyd gan gysgod angeu; y clustiau sy 'n awr yn clywed hymnau yr ysprydion gwynfydedig, a lanwyd o wawd a melldithion y dorf; y gwefusau a lefarodd fel na lefarasai dyn erioed, a gawsant eu mwydo 'n ddirmygus â bustl a finegr; ei draed, sy 'n sathru yn awr ar holl alluoedd y tywyllwch, a hoeliwyd wrth y groes; a'i ddwylaw, sy 'n awr yn dwyn teyrnwialen y nefoedd, a ddygent y gorsen ac a hoeliwyd wrth y pren melldigedig; ei holl gorph, yr hwn a gaed gan yr Yspryd Glan, a fflangellwyd, a faeddwyd, a archollwyd.

Hyn oedd ei ddioddefiadau megis oddi allan. Ond am gyfyngdra ei enaid, pwy a fedr ei amgyffred? parodd iddo chwysu megis defnynau o waed: nid y drain na 'r hoelion, ond arswyd, a phoen, ac ymdrech ei galon a effeithiodd gymmaint arno. Yr oedd efe wedi cymmeryd

baich ein pechodau ni oll arno, yn gwynebu llid y Tad yn ein lle; nid oedd neb i'w gynnorthwyo, sathrodd y gwinwryf ei hun; nid oedd neb i'w gysuro, ei fam a rhai o'i gyfeillion yn edrych arno heb fedru gwneuthur dim i'w helpu, ond yn hytrach y golwg arnynt yn chwannegu at ei alar ef; ei ddisgyblion wedi ffoi ymaith; yr oedd angel wedi ymddangos iddo yn yr ardd i'w gyfnerthu yn ei ymdrech yn nhrymder ei ofid, ond yn awr ni feiddiai un angel o honynt ymddangos iddo pan oedd Duw yn eu gwahardd hwy, ac yn ei daraw. Ië, o'r diwedd, fe ymneulltuodd y Goruchaf Dad ei hun oddi wrtho, ac a'i gadawodd i ruddfan dan orthrymmaf bwys a chospedigaeth pechod yn ddiswcwr ac yn ddigysur: "Fy Nuw, fy Nuw, paham i'm gadewaist?" Nid anoddefadwy o beth yw 'r boen a'r cystudd trymmaf, os bydd Duw yn cynnal; ond dyma 'r anwyl Fab yn cael ei adael gan y Tad a foddlonwyd ynddo, yr hwn a ogoneddasai efe. Pa ryfedd fod yr holl greadigaeth yn cynhyrfu ar y golwg, yr haul yn tywyllu, a'r ddaiar yn crynu, wrth edrych ar Fab Duw yn dioddef cymmaint, ac yn trengi ar y groes.

O Grist'nogion! fel y dylai ein calonnau celyd ni grynu a thoddi wrth fyfyrio ar hyn; yr holl ddolefain, yr artaith, yr ymdrech, y chwys

gwaedlyd, a'r chwerw-loes hyn oll oedd o'n hachos ni, ac oni alarwn ni ein hunain o'u herwydd; a geiff ef chwysu gwaed drosom, a ninnau heb deimlo o'n hachos ein hunain? a geiff ef ddolefain mor alarus, ac oni chrynwn ni? a geiff y nef a'r ddaiar megis gyd-ddioddef âg ef, a ni heb ddioddef mymryn? Nid i ryw ofer dosturi o'n Hiachawdwr yr wyf yn eich galw; y mae 'r ymdrech drosodd gyd âg ef: "Merched Jerusalem, wylwch o blegid eich hunain ac o blegid eich pechodau." Mor orthrwm oeddynt a gorfod i Fab Duw ddioddef cymmaint i'w dileu. Pettasai dy enaid di, O bechadur, yn lle ei enaid ef, pa beth a ddaethai o honaw? ac ar dy enaid di y gwna 'r cyffelyb gyfyngdra ddisgyn yn sicr, oni bydd i ti trwy edifeirwch a ffydd gael i ddioddefiadau 'r Iachawdwr fod yn effeithiol drosot; bydd y trueni i ti yn ddiorphen; yn ein Hiachawdwr cafodd ddiwedd, gorphenwyd, ofnadwy oedd tra y parhaodd, ac ofnadwy iawn i'w feddwl am dano, ond y mae y cwbl drosodd, y dymhestl wedi ei thawelu ar ol ysgwyd holl nerthoedd y byd. Yr henuriaid, y milwyr, y gau-dystion, y barnwr, y diawliaid, a ymflinasant oll ar eu malais; gorfoleddodd arnynt ar orsedd-faingc ei groes. Ei elynion a orchfygwyd, ei Dad a gymmodwyd, ac ynteu sy wedi esgyn i'w ogoniant ac mewn

heddwch. Gorphenwyd y cwbl: nid oes dim mwy bradychu, dim mwy fflangellu, na gwawdio, nag ymdrech meddwl, na dychryn, na chroeshoelio, gorphenwyd y cwbl.

Fel hyn, ei ddioddefiadau ef a orphenwyd, a chyd â hwy prynedigaeth dyn, Pwy ni ŵyr mai dyledwyr oeddym trwy bechod i farwolaeth; y ddyled a dalwyd, y farwolaeth a ddioddefwyd, y clefyd marwol a iachawyd; trwy ei waed ef y mae i ni brynedigaeth, cyfiawnhad, mabwysiad, sancteiddiad, a mynediad i ogoniant. Clyw hyn, O enaid cystuddedig, os wyt yn edifeiriol ac yn credu, nid oes un o'th bechodau a aeth heibio heb ei ddileu, nid oes un o'th ddyledion heb ei chroesi allan, nid oes un ffyrling o'th bwrcas anfeidrol heb ei thalu. Wel, ynteu, yr hwn wyt yn archolledig gan y sarph yma, sef dy bechod, mewn ffydd edrych at yr Iachawdwr croeshoeliedig a gysgodwyd gan y sarph brês, ac iach fyddi. Nid oes mwyach gyhuddiad yn dy erbyn di, na barn, na marwolaeth, nag uffern, os parhei yn ffyddlawn. Pwy a gondemnia? Crist a fu farw: ond cred yn ffyddlawn, edifarha yn gywir. Mi wn mor barod ydym ni oll i feddwl yn dda am danom ein hunain, o herwydd ein bod yn hoffi ein hunain gymmaint. Llaweroedd, heb iawn gredu ac edifarhau, nid ydynt er hynny yn tybied eu

hunain yn anghymmwys i gael lleshad oddi wrth Grist; nid ydynt yn meddwl unwaith mai er nad oes diffyg yn Nghrist, y gall fod diffyg ynddynt eu hunain: y mae amryw galon ryfygus yn cleimio Crist, fel pe gorphenasid y prynedigaeth i bawb, fath bynnag y bont. Ti a ddywedi bod Duw yn drugarog, yr lachawdwr yn raslawn, ei ddioddefaint yn berffaith: gwir ydyw hyn; ond ti a elli er hynny fod yn golledig. Y mae Duw yn drugarog, ond nid yn anghyfiawn; yn hael, nid yn afradus; yr iechydwriaeth yn ddigonol dros bawb, ond nid effeithiol i bawb. Sutt bynnag ydyw Duw, pa fath un ydwyt ti? dyna 'r cwestiwn. Da y dywedid, mai 'r bugail da ydyw Crist; a pha ham? o blegid rhoddi o hono ei einioes dros ei ddefaid; ond beth yw hynny i ti, oni wrandewi di ar ei Efengyl, a'i wahoddiad, a gwrando yn y fath fodd ac i ufuddhau iddo, a throi a dychwelyd atto: canys y mae ei ddefaid (ei ddefaid a achubir ganddo) yn gwrando ar ei lais. Ei lais ydyw ei orchymynion: os ydwyt wedi dyfod i ymhoffi ynddynt, ac i'w cadw oreu ar a ellit trwy ei râs, ac i ymegnio gwellhau beunydd, y mae i ti yn sicr gyfran yn yr iechydwriaeth hon. Ië, os ydwyt yn chwennych dyfod atto, yn hiraethu am dano, os archollwyd ti gan syniad o'th euogrwydd, a galar am bechod a

chasineb iddo yn dryllio dy fynwes; os wyt ti yn sychedu am gyfiawnder a sancteiddrwydd, gwybydd bod heddwch i ti yn y nefoedd, a thrugaredd yn barod i'th gofleidio. Y gyfraith yr hon ni allasit ti byth ei chyflawni, Crist a gyflawnodd drosot; yr iechydwriaeth, yr hon ni allasit ti fyth ei gweithredu dy hun, (canys beth a fedrwn ni, gweiniaid fel yr ŷm, wneud tu ag at gael y nef, y rhai ni fedrwn ymsymmud ar y ddaiar ond ynddo ef,) yr iechydwriaeth hon, meddaf, y mae Crist wedi ei gweithredu drosot ti. Edrych, gan hynny, yn hyf at orsedd grâs, ac erfyn gynnorthwy i berffeithio dy edifeirwch, ac i hwylio ymlaen dy gynnydd. Dywed wrth dy enaid am ddychwelyd i'w gorphwysfa; ac fel Dafydd wrth ei enaid, "O fy enaid, mola di 'r Arglwydd. Pa beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi? Phiol iechydwriaeth a gymmeraf, ac ar enw 'r Arglwydd y galwaf." Ac yn awr dechreua ar y gân yma gyd â'r seintiau mewn gogoniant, yr hon ni fydd fyth ddiwedd iddi, "I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhydedd. a'r gogoniant, a'r gallu yn oes oesoedd."

Yn ddiwaethaf, garedigion, mynnwn i chwi ystyried geiriau olaf ein Hiachawdwr yn trengi, O Dad i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy yspryd. Gwynfyd y sawl a fedrant ddywedyd yr un

geiriau ar drancedigaeth. Ond cofied pawb fod yn rhaid gwneuthur Duw yn gyfaill i ni cyn y gallom orchymyn ein heneidiau iddo : ni thâl rhoddi 'r enaid hyd eich holl fywyd i satan, ac yn y diwedd ei orchymyn i Dduw. Rhoddwch yr enaid iddo yn Nghrist, tra byddo yn galw am dano trwy ei air, ei ragluniaeth, ei foddion grâs ; onid ê, ni dderbyn Duw mono o'r diwedd, ond yn unig i'w roddi i'r poenwyr. Beth a wna Duw gyd âg enaid amhur, annuwiol, balch, gloddestgar, neu gybyddlyd? Ni cheir gweled Duw heb sancteiddrwydd : ewch oddi wrthyf, y dywed ef wrth y drygionus a'r annuwiol, ewch at y duwiau y dewisasoch.

Yn awr gan hynny, garedigion, yn amser iechyd mae 'n rhaid i chwi wneuthur eich heneidiau yn barod trwy râs, os mynnwch i Dduw eu derbyn ar eich gwely angeu ; yna gorchymynwch hwy yn ostyngedig iddo fel y gwnaeth eich Hiachawdwr, fe a'u derbyn hwy yn groesawus er ei fwyn ef, ïe, fe ddenfyn ei angylion i'w harwain i'w ogoniant. O melus a hyfryd yw 'r gobaith sy 'n deilliaw oddi wrth y fath barodrwydd ; gobaith a ddichon ein sirioli pan fyddai pob cysur arall yn ofer, sef yn awr angeu, a symmud ymaith bob ofn. Mor ddiogel yr â yr enaid trwy borth angeu heb gyhuddiad, os bydd yn llaw yr Arglwydd : byddwn felly

yn gallu rhoddi i fynu ein heneidiau i'r Duw a'u creodd, a'u dododd ynom, a'u prynodd, a'u hadnewyddodd. O ddedwydd gyflwr a gwynfyd y duwiol; yn byw yn rhyddion oddi wrth ofn angeu, ac wrth drengi yn gorchymyn yr yspryd i Dduw! O ogoneddus gyfnewidiad! yma y mae 'r enaid yn ddarostyngedig i amryw flinderau, i amryw brofedigaethau, i amryw chwantau; yno nid oes dim mwyach yn ei flino. Ac yn wir pa sutt y gall fod amgen; canys yma yw ein pererindod, yno ein cartref; yma ein diffeithwch, yno teyrnas ein gogoniant. Pan roddwyd yr enaid unwaith i fynu i Dduw, ac yntau wedi ei dderbyn, ni ddichon dim drwg gyrhaedd atto na 'i ddrygu bellach. Anwybodaeth neu ddiffyg ffydd sy 'n gwneuthur i ddynion fod yn anfoddlon i'w rhoddi i fynu. Nid felly y fu gyd â'r ffyddloniaid cadarn: yr oedd St. Paul yn ocheneidio am gael dattod ei babell ddaiarol, a chartrefu gyd â'r Arglwydd. "Gwasanaethais di, credais i ti, ac yn awr yr wyf yn dyfod attat ti," meddai Luther; llef seintiau yn hytrach na dynion. Os medr dy galon dithau, O Gristion, ddywedyd felly, nid rhaid i ti ddywedyd fel un o dadau 'r Eglwys, "Dos, fy enaid, beth yr wyt ti yn ei ofni;" ond fe a eheda ymaith ei hun yn fywus ac yn gyflym, gan roddi ei hun ymreichiau Duw

megis Creawdwr a Phrynwr ffyddlawn. Nid y ddaiar hon yw cartref dy enaid, y nef yw ei wlad enedigol; ni fydd ef ddim yn gwbl ddedwydd nes myned yno. O ystyriwch hyn, bawb o honoch. Y mae angeu, cennad Duw, ar waith, yn taraw o bob tu i ni: tro pwy fydd nesaf nis gwyddom; ond os parod fyddwn, ni ddaw yn rhy fuan. Ymbarottowch, ynteu, a chyffrowch eich heneidiau i hyfryd barodrwydd i ymadael ar alwad Duw: fel eich Hiachawdwr rhoddwch i fynu yn foddlon i Dduw yr yspryd a roes efe i chwi, ac efe a'i hail-una ef â'r corph gyd â gogoniant a dedwyddwch anrhaethol ac anherfynol. Felly, Arglwydd Iesu, tyred ar frys.

PREGETH XII.

EI ADGYFODIAD.

PHILIPIAID III. 10.

Fel yr adnabyddwyf ef, a grym ei adgyfodiad.

Y MAE 'r Apostol yn y testyn yn mynegi ei ddymuniant i adnabod Iesu Grist, a thrwy yr adnabyddiaeth yma y deallir nid yn unig gwybodaeth o'i athrawiaeth a phroffes o'i grefydd, ond y cyfryw brofiadol ac ysprydol wybodaeth o hono ar a'i cyfnewidiai i yspryd a thymmeriad Iesu Grist. Adnabod grym ei adgyfodiad sydd ddymuniant o'r un fath, sef ar fod iddo brofi ynddo ei hun holl effaith ei adgyfodiad ar ei enaid, sef trwy fod yn marw beunydd i bechod, ac adgyfodi i fuchedd newydd, sanctaidd, a nefol.

Yr ŷm ni oll sy yma yn bresennol yn proffesu credu adgyfodiad ein Hiachawdwr, a'n gorchwyl y pryd hwn ydyw ei goffhau: ond na orphwyswn ar hynny; na feddyliwn mai peth i'w gredu, neu ei broffesu, neu ei goffhau yn

unig ydyw adgyfodiad Crist, neu yn perthyn iddo ei hun yn unig. Y mae 'n perthyn yn agos i ninnau hefyd; yr Apostol a ddywed fod yn adgyfodiad Crist rym mawr, sef gallu i'n cyfodi ni o bechod i fywyd sanctaidd a duwiol. Fe all ac fe ddylai fod yn egwyddor bywyd newydd ynom, fel ag y bu yn ddechreuad buchedd newydd yn Nghrist. Y grym, yr effaith, y rhinwedd yma ni a ddylem ymegnio 'n ddwys ac yn ddyfal i'w brofi: a bydded i ni fyfyrio arno y pryd presennol.

Os sylwn ar yr Ysgrythur, cawn weled fod gan adgyfodiad Crist bedwar math ar effaith ar ein buchedd, yn hytrach fe ddylai fod.

I. Megis y mae yn gosod arnom rwymedigaeth i fod yn sanctaidd ac yn ddaionus. Canys fel hyn y mae sanctaidd awdwyr yr Ysgrythur yn ymresymmu yn fynych, ac yn dysgu:— Os croeshoeliwyd Crist dros ein pechodau, yna y dylem ni eu croeshoelio a'u lladd yn ein haelodau; os adgyfododd Crist y trydydd dydd, yr ŷm ninnau yn rhwymedig i adgyfodi i newydd-deb buchedd, i arwain buchedd ysprydol a duwiol. Dysgir i ni hyn gan ein bedydd, "Claddwyd ni gyd âg ef," medd St. Paul, gan fwrw at drochiad mewn bedydd, "trwy fedydd i farwolaeth; fel megis ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom

ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd." Ac yn ei Epistol at y Colosiaid y mae 'r Apostol yn gwneuthur yr un deunydd o adgyfodiad Crist: "Am hynny," medd ef, "os cyd-gyfodasoch gyd â Christ, ceisiwch y pethau sydd uchod, lle y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw." Y mae hyn yn dangos yn amlwg ddarfod i'r Apostolion draethu am adgyfodiad Crist megis athrawiaeth yn annog ac yn rhwymo Crist'nogion i farwolaethu eu gwendidau, i farw i'r byd, i roddi eu serch ar bethau uchod, i fod a'u hymarweddiad yn y nef, lle y mae Crist ein pen yn eistedd yn awr ar ddeheulaw Duw.

II. Mawr a ymddengys grym a gallu ei adgyfodiad i weithio ar ein buchedd, pan ystyriwn mai y cadarnaf dystiolaeth am wirionedd y grefydd Grist'nogol ydyw adgyfodiad Crist, ac nad oes dim arall mor effeithiol i'n gwneuthur yn sanctaidd ac yn dduwiol ag ydyw crêd gadarn yngwirionedd ein crefydd. Ond y mae adgyfodiad Crist o feirw yn gwarantu gwirionedd ei grefydd yn anad dim; ac os credwn yr Efengyl, rhaid i ni o angenrhaid gredu fod ei haddewidion a'i bygythion yn wir; a phwy a fedr gredu hyn heb fod gan ei grêd effaith ar ei foesau? Wrth adgyfodi Crist o feirw y mae Duw ei hun wedi gwarantu gwirionedd yr Efengyl, sef crefydd ei Fab Iesu Grist. Canys gellid

rhesymmu a phrofi 'r peth fel hyn: Rhag-fynegodd Crist wrth ei Apostolion yn fynych, y rhoddid ef i farwolaeth, ond gwedi hynny yr adgyfodai o feirw fewn tridiau; ïe, mynegodd hynny nid i'r Apostolion yn unig, ond i'r bobl oll. Fe grybwyllodd am ei adgyfodiad oedd ar ddyfod, megis arwydd, neu dystiolaeth sicr mai efe oedd Mab Duw, a'r Iachawdwr, a'r Prophwyd mawr a ddisgwylid am dano. Yn wir, ei wyrthiau oll oeddynt dystiolaeth o'i wirionedd, ond ei adgyfodiad oedd y bennaf a'r olaf. Fel hyn fe adawodd ar law Duw ddangos ac amlygu pa un ai gwir oedd ef ai anwir. Os twyllwr oedd ef, nid oedd raid i Dduw ond gadael iddo lygru yn y bedd fel y mae dynion eraill, ac fel y gwnaethai yntau heb hollalluog gymmorth, ac fe fuasai ei dwyll yn amlwg i'r holl fyd. Ond gan yn lle hynny, yn lle llygru mewn bedd, yr adferwyd ef fewn tridiau i fywyd, megis y rhag-fynegasai i'r bobl, ïe, i fywyd gogoneddus ac anfarwol, beth a farnwn ni bellach? onid ydyw Duw ei hun, Duw 'r Gwirionedd, wedi gwarantu ei gywirdeb, wedi gwarantu nad twyllwr oedd ef, ond dyfod o hono oddi wrth Dduw, ac mai gwirionedd Duw oedd yr athrawiaeth y traddododd ef? Ni fedr un dyn sy 'n credu fod Duw yn ffyddlawn, a chyfiawn, a gwir, a'i fod yn rheoli 'r byd mewn cyfiawn-

der, ni fedr neb goelio y gwnai y Duw hwn roddi megis ei sêl i warantu anwiredd, ac i gadarnhau celwydd. Fe fyddai hynny yngwrthwyneb i'w wirionedd, a'i gyfiawnder, ac i'w holl briodoliaethau hyspys. Gan hynny, y mae adgyfodiad Crist trwy allu Duw o feirw yn oleu-fynag sicr o wirionedd ei grefydd sanctaidd, ac yn y modd yma yn effeithiol tu ag at ein gwneuthur ni 'n sanctaidd.

III. Ond ymhellach, grym a gallu adgyfodiad Crist i'n gwneuthur yn sanctaidd a daionus, a ganfyddir yn hyn, sef o ran ei bod yn wystl o'n hadgyfodiad ein hunain. Canys os cyfododd Crist, yna ninnau a gyfodir trwyddo ef: canys ni adgyfododd Crist iddo ei hun, ond megis blaen-ffrwyth y rhai a hunent. Uniawn, gan hynny, yr ymresymmodd St. Paul yn yr unrhyw bennod, "Os pregethir Crist, ei gyfodi ef o feirw, pa fodd y dywed rhai yn eich plith, nad oes adgyfodiad y meirw?" Yn lle hynny, fel y mae efe yn barnu ac yn maentumio mewn man arall, "Os ydym yn credu farw o Iesu a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn yr Iesu, a ddwg Duw hefyd gyd âg ef."—1 Thes. iv. 14. Yn adgyfodiad yr Iesu y dangosir yn sicr fod adgyfodiad yn bosibl: ac nid hynny yn unig, Efe, yr hwn a gyfododd ei hun a chyrph rhai duwiolion i ganfod ei orfoledd ar angeu, a a-

ddawodd yn hyspys ein cyfodi ninnau trwy 'r un gallu, a'n dyrchafael i'r gogoniant y mae ef ei hun yn meddiannu. Onid moddion galluog ac effeithiol yw rhai'n i wellhau ar foesau dynion, ac i'w gwneuthur yn grefyddol a sanctaidd? Gan fod gennym y fath sicrwydd o anfarwoldeb ynghadw i'r ffyddloniaid, beth a ddichon ein troi oddi wrth ganlyn y pethau sy 'n arwain at ddedwyddwch nefol?

Bod yn sicr gennym, mai os dilynwn ni ol yr Iesu, y cawn ni lewyrchu fyth yn yr un disgleirdeb nefol ac y mae ef yn awr ar ddeheulaw Duw. Bod yn gallu dywedyd, " Mi a wn fod fy mhrynnwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaiar;" ac mi a wn, os ymfucheddaf hyd oreu fy ngallu fel y darfu iddo ef fyw, y caf fi fyw byth gyd âg ef; pa ddwysder ymhlaid y gwirionedd y mae 'r fath ystyriaeth yn gweithio ynom? pa hiraeth am y nôd uchel? Pa anhawsdra a ddichon ein brawychu, pa rwystrau ein digalonni, pa brofedigaethau ein gorchfygu, a ninnau yn canfod y gogoniant ardderchog a ddarparwyd i ni, ac a sicrhawyd i ni gan ein Harglwydd Iesu? Bendigedig fyddo ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol trwy 'r adgyfodiad o feirw.

IV. Ond, yn ddiwaethaf, y mae modd arall trwy ba un y mae bendith yn tarddu i ni oddi

wrth adgyfodiad Crist o feirw, sef y fendith o gael ein gwneuthur yn sanctaidd ac yn ddaionus. Canys i adgyfodiad Crist yr ŷm yn ddyledus am yr holl gymmorth ysprydol sydd yn ein gwneuthur ni yn abl i feistroli ein trachwantau, ac i ymfucheddu yn ol gorchymynion ein crefydd.

Crist, yn gyntaf, trwy ei adgyfodiad, a'n rhwymodd i arwain buchedd newydd: yn ail, trwy ei adgyfodiad, fe gadarnhaodd wirionedd ei grefydd sy 'n annog i sancteiddrwydd: yn drydydd, trwy ei adgyfodiad ei hun, fe sicrhaodd ein hadgyfodiad ni, yr annogaeth gadarnaf i fuchedd dda: ac, yn bedwaredd, trwy yr unrhyw adgyfodiad, fe feddiannodd allu i roddi i ni râs a nerth ysprydol, trwy ba gymmorth yr ydym yn abl i dreulio bywyd newydd, sanctaidd. A phan ddelom i ymfucheddu yn sanctaidd ac yn dda, dyna 'r pryd y cawn ni adnabod Crist a grym ei adgyfodiad mewn gwirionedd. Crist a gymmododdd ddynion â'i Dad trwy ei ddioddefaint a'i farwolaeth, ond cyfrennir lleshad y cymmod yma i bob un yn neulltuol trwy ffydd ac ufudd-dod yn tarddu o honi: ond trwy ei adgyfodiad yn fwy arbennig, fe wisgwyd Crist, megis Duw a dyn, â'r swydd o ganiattau 'r grâs, trwy ba un y credwn ac yr ufuddhawn. Pan ddyrchafodd i'r uchelder, ac

a gaethgludodd gaethiwed, hynny ydyw, pan orchfygodd angeu, yr hwn oedd wedi gorchfygu yr holl fyd o'r blaen, dyna 'r pryd, medd yr Ysgrythur, y derbyniodd roddion i ddynion: ni roddwyd yr Yspryd nes gogoneddu 'r Iesu. Ac felly y mae 'r Ysgrythur yn fynych yn cyfrif ein cyfiawnhad i'w adgyfodiad, megis mewn mannau eraill i'w farwolaeth. Prynnwyd cyfiawnhad trwy ei angeu, ond trwy ei adgyfodiad y gwarantwyd bod cyfiawnhad i ni i'w chael, a thrwy ei adgyfodiad hefyd y cafwyd grâs i ni i gredu er cyfiawnhad, ac i rodio yn deilwng o'r fath ddawn. "Crist a draddodwyd," ebr St. Paul, "dros ein pechodau, ac a gyfodwyd er ein cyfiawnhad. Pwy," medd ef, "a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw? Duw yw 'r hwn sydd yn cyfiawnhau; pwy yw 'r hwn sy 'n damnio? Crist yw 'r hwn a fu farw, ïe, yn hytrach yr hwn a gyfodwyd hefyd, yr hwn hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni."

Yn hyn, gan hynny, sef yn y cymmorth ysprydol a gaffer i ni drwyddi, yr adnabyddir yn enwedig rym adgyfodiad Crist i'n gwneuthur yn sanctaidd. Crist wedi adgyfodi sy 'n meddiannu gallu yn y nef a'r ddaiar. "Duw," medd St. Paul wrth yr Ephesiaid, (i. 22.) "a ddaros tyngodd bob peth dan ei draed ef, ac a'i rhoddes

ef yn ben uwchlaw pob peth i'r Eglwys," h. y. er lleshad i'w Eglwys. Yn awr, ynghyflawnder y gallu, â pha un y gwisgwyd ef megis Cyfryngwr, y mae ef yn eiriol dros ei Eglwys a phob aelod o honi, âg effaith ddiball a sicr; ac hefyd yn cyfrannu cymmaint grâs ag a fo digonol i Grist'nogion oll, fel na methont a chyflawni y cwbl a ofynir ganddynt, a meddiannu felly y breintiau goludog y prynnodd ef i ddynion trwy ei angeu a'i ddioddefiadau. Trwy ei adgyfodiad y mae Crist wedi myned yn Arch-offeiriad ac yn Frenhin i ni, ein Dadleuwr a'n Harglwydd. Megis ein Harch-offeiriad y mae 'n gorchymyn ni a'n heiddo i ddarbodaeth a nawdd ei Dad, ac yn erfyn grâs i ni; megis ein Brenhin a'n Harglwydd y mae yn ein rheoli, yn gofalu drosom, yn rhag-ddarbod i ni, yn diddymmu ymgais ein gelynion ysprydol yn ein herbyn ac, yn ddiwaethaf, yn ein diwallu â chymmaint mesur o'i Yspryd ag a fyddo angenrhaid i ni

Os hyn oll, ynteu, ydyw effaith adgyfodiad ein Hiachawdwr, fel ag y mae mewn gwirionedd, ai nid rhaid i ni gydnabod fod grym mawr ynddi i wneuthur dynion yn sanctaidd a daionus? Pa esgus a ddichon un dyn gynnyg sy 'n proffesu 'r Efengyl, am barhau mewn pechod? a ddywed efe fod profedigaethau yn rhy gryfion, nad oes ganddo allu i orchfygu ei arferion

drwg? Wrth iddo ddadleu felly, mi dybiwn ei fod wedi anghofio ddarfod i Grist adgyfodi, pe amgen byddai atgof ganddo fod gallu wedi ei brynnu trwy farwolaeth Crist, a'i sicrhau i ni trwy ei adgyfodiad, na phalla ef ddanfon i lawr i bob Cristion a'i herfynio yn ostyngedig ac yn ddyladwy. Cymmaint cysur a chefnogaeth a ddylai meddwl am hyn fod i bawb a chwennychant ac a ymroant i fyw yn dduwiol. Fe all y cyfryw oll neshau yn hyderus at orsedd grâs, a gwneuthur eu hangenion yn hyspys. Ein Hiachawdwr, yr hwn a'n hoffodd gymmaint a bod iddo farw er ein mwyn, a gyfodwyd, ac sydd yn eistedd ar ddeheulaw Duw. A ydym ni lwythog o bechodau, oes arnom eisiau nerth i wrthsefyll profedigaethau, i gael y goreu ar ein llygredigaeth? ffown a diangwn atto ef am gymmorth: ni fedrwn ammeu ei allu, dyrchafedig fel y mae ef i'r awdurdod a'r ardderchowgrwydd orucha yn y nefoedd a'r ddaiar: ac ni fedrwn ammeu ei ewyllys da ychwaith, pan ystyriwn ac atgofiwn ei ddioddefiadau drosom. Ei gariad anfeidrol a'i dygodd ef i lawr o'r uchel-nef i gymmeryd arno ein salwedd ni, i farw ar y groes drosom ni greaduriaid truain, gwrthryfelwyr diriaid. Na phallwn, na thralloder ein calonnau, na anobeithiwn mewn cyfyngdra o'r mwya, nag ofnwn elynion ein heneidiau, tra

bo Crist ar ein hochr. Ein Hiachawdwr a adgyfododd, ein Harch-offeiriad sy wedi myned tu fewn i'r llen, ein Harch-offeiriad tosturiol, tyner-garedig, yr hwn a ŵyr am ein gwendid, a'r ymdrech dost y gorfydd i ni ei gwynebu; efe ei hun a ymdrechodd ac a orfoleddodd, ac sydd abl i achub hyd yr eithaf y sawl oll a ddelont at Dduw drwyddo ef.

O bydded i ni oll, bawb ac un, lynu wrtho ef yn ddisigl, a pharhau yn ffyddlawn hyd angeu, fel y derbyniom y goron er ei fwyn ef.

PREGETH XIII.

EI ESGYNIAD.

ACTAU I. 9.

Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, a hwynt-hwy yn edrych, efe a ddyrchafwyd i fynu.

SYLFAEN ein crefydd ni ydyw yr hanes Ysgrythyrol a'r prophwydoliaethau am gnawdoliaeth, gwyrthiau, buchedd, a marwolaeth Crist, ei adgyfodiad, a'i esgyniad, ei eisteddiad ar ddeheulaw 'r Tad; a'r athrawiaeth berthynol i'r rhai'n yw swm y ffydd Grist'nogol. Nid oes dim mwy buddiol ynteu i ni na chael agor ac esponio 'r amryw bwyntiau hyn, a myfyrio 'n ddifrifol arnynt, bob un yn arbennig, ar brydiau. Ystyriwn, yr amser yma, esgyniad Crist i'r nefoedd: ac y mae yma dri pheth neulltuol i'w trin.

I. Yr hyn a ddigwyddodd pan oedd ef ymron ag esgyn. Cyn ymadael â'i ddisgyblion, ein Hiachawdwr bendigedig, yr hwn oedd yn parhau i ofalu 'n dyner am danynt, a ddymunodd

arnynt aros yn Jerusalem nes iddynt dderbyn "addewid y Tad, a glywsoch," ebr ef, "gennyf fi," Gwedi i'n Hiachawdwr roddi 'r gorchymyn yma iddynt, er hynny ni fedrent beidio a gofyn iddo, a roddai ef y pryd hwnnw drachefn y frenhiniaeth i Israel; yr oedd eu meddyliau yn rhedeg fyth ar fawredd y byd hwn, a disgwyl yr oeddynt y deuai Crist i deyrnasu ar y ddaiar, yn Judea, ac y byddent hwy yn wyr mawr dano. Er bod ein Hiachawdwr wedi dywedyd wrthynt o'r blaen nad oedd ei frenhiniaeth ef o'r byd hwn, er hynny fe attebodd iddynt yn bur arafaidd, nid hwyrach bod yn fawr ganddo eu ceryddu 'n llym ac yntau ymron ymadael â hwy, a gwyddai hefyd y deuent i synied yn well ar ol derbyn goleuni o'r nef; "Ni pherthyn," meddai ef, "i chwi wybod yr amseroedd na 'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun." A'r atteb yma a ddylai attal rhai yn ein dyddiau ni sy 'n chwilied ac yn cymmeryd arnynt derfynu prydiau a phethau tucha eu cyrhaedd. Yn lle eu boddloni am bethau nid oeddynt yn perthyn iddynt wybod, y mae eu Harglwydd yn traethu am beth oedd yn perthyn yn agos iddynt, sef pa fodd y gwnelid hwy yn abl, a modd y danfonid hwy i bregethu 'r Efengyl i'r holl fyd: "Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Yspryd Glan,

wedi y delo ef arnoch, ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac holl Judea, ac yn Samaria, ac hyd eithaf y ddaiar. Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, efe a ddyrchafwyd i fynu."

II. Ystyriwn yn nesaf ei ddyrchafiad, neu ei esgyniad. Yn 1af, dyrchafwyd yr Iesu tra 'r oedd yn bendithio ei ddisgyblion. Nid ydyw St. Luc, yr hwn a ysgrifennodd yr Actau, yn sôn am hyn yn y bennod yma, yr oedd wedi crybwyll am yr un peth yn ei Efengyl, " Ac efe a'u dwg hwynt allan hyd ym Methania, ac a gododd ei ddwylaw ac a'u bendithiodd." Dyrchafu dwylaw oedd seremoni ymhlith yr Iuddewon wrth fendithio 'r bobl. Dywedir yn Lefiticus, ix. 24. " A chododd Aaron ei law tu ag at y bobl, ac a'u bendithiodd." Yr un wedd y gwnaeth ein Hiachawdwr, a gysgodwyd gan Aaron a'r Arch-offeiriaid ar ei ol ef. Os ydyw ewyllys da i ddynion yn fendith, yn sicr fe ddatganwyd bendith ar enedigaeth Crist: os bendith ydyw gweddio dros elynion, fe drengodd Crist a bendith ar ei wefusau; ac fe ymadawodd â'i ddisgyblion pan esgynodd, gan eu bendithio. Ac yn wir, bendith i ddynion oedd ei fuchedd oll, ei weithredoedd, ei ddioddefiadau, ei ddyfodiad i'r byd, a'i ymadawiad o hono. " Duw a'i hanfonodd i'n bendithio, gan droi pob un o honom oddi wrth ein drygioni."—Act.

ii. 26. Ewyllysiai 'n dda i ddynion yn wastad, ac yr oedd yn gwneuthur da ar bob achosion; "fe aeth oddi amgylch gan wneuthur daioni." Siampl rhagorol i ni "fel y canlynem ei ol." A ninnau yn ol y pattrwm odiaeth yma a ddylem geisio bod yn fendith i'n cymmydogion; a bid sicr y gwna ein gweithredodd ein canlyn i'r byd nesaf yn dystiolaeth o'n ffydd a'n hufudd-dod.

Ond i fyned ymlaen â'r testyn. Crist a esgynodd yngolwg ei ddisgyblion, a hwynt-hwy yn edrych yn ddyfal tu a'r nef, medd St. Luc yn yr Actau. Ar ol i'r Apostolion gael sicrwydd o'i adgyfodiad trwy ei fynych ymddangosiad iddynt, fel y byddent ymhellach yn hyspys ddarfod iddo ddyfod oddi wrth Dduw, a myned atto, fe a gymmerwyd i fynu i'r nef yn eu golwg hwy tra 'r oedd yn ymddiddan â hwy. A chadarnhad sicr o wirionedd yr Efengyl ydyw, nid yn unig ddarfod i'n Hiachawdwr weithredu 'r gwyrthiau hynottaf yn ei fywyd, ac adgyfodi, ac ymgyfeillio gyd â dynion ar ol ei adgyfodiad, ond heblaw hynny esgyn i'r nef yn weledig; amhosibl oedd rhoddi ychwaneg tystiolaeth o'i ddanfoniad oddi wrth Dduw. Fe ddysgodd y gwirionedd i ddynion gyd âg awdurdod; fe weithiodd y fath ryfeddodau, na allasai neb heb nerth Duw eu gweithredu; ac yn amyneddgar a ymostyngodd i ewyllys Duw,

gan ddioddef poenau anferthol ar y groes; gwedi hynny fe adgyfododd o feirw, ac a esgynodd i'r nef yn weledig, ar ol boddloni ei ddilynwyr ei fod wedi adgyfodi yn sicr.

Wedi eu nerthu oddi uchod, a'u sicrhau mor gadarn bod eu Meistr a'u Harglwydd wedi dyfod oddi wrth Dduw, y mae 'r Apostolion oddi wrth fod yn ofnus yn troi 'n wrol ac yn galonnog, yn pregethu 'r lachawdwr croeshoeliedig trwy 'r gwledydd oll, ac yn selio eu ffydd â'u gwaed. Nid oeddynt bellach yn synied pethau daiarol, yn breuddwydio am fawredd a disgleirdeb bydol, ond yn cyfrif pob peth yn ddiddim wrth y gogoniant a ddatguddir. Yr oeddynt wedi gweled mai gwir oedd yr Iesu trwy dystiolaeth ar dystiolaeth, trwy lawer o ryfeddodau mawrion, yn enwedig trwy ei adgyfodiad a'i esgyniad, a bod ei athrawiaeth yn wir; gwelent gan hynny ei fod ef yn un â Duw, gan ddarfod iddo ddywedyd felly. Yr oeddynt bellach yn edrych am deyrnas nid o'r byd hwn, am ddedwyddwch gyd â'u Harglwydd dyrchafedig, yr hyn yr oedd yn wiw ganddynt ymgeisio am dano trwy eithaf poen a dioddefaint. Bydded i ninnau dderbyn ei Efengyl am wirionedd diamheuol, a threfnu ein buchedd yn ol ei rheolau sancteiddiaf, gan edrych at yr Iesu, pen tywysog a pherffeithydd ein ffydd.

III. Y peth nesaf i ystyried ydyw 'r man lle 'r esgynodd, sef i'r nefoedd, i eistedd ar ddeheulaw Dduw. Nid ydym i feddwl fod gan y Duwdod aelodau megis dynion, ond yn yr Ysgrythur yr ydys yn llefaru yn ol dull dyn, fel y byddai pethau nefol yn amlwg i ddynion. Megis mai 'r cryfaf o'r dwylaw yw 'r ddeheulaw, felly y mae deheulaw Duw yn arwyddoccau nerth a gallu Duw; ac felly pan ddywedir am Grist ei fod yn eistedd ar ddeheulaw Duw, y mae hynny mewn perthynas i'r llywodraeth a'r gallu goruchaf y derbyniodd Crist yn y nefoedd gan Dduw Dad yn ei ddynol natur. Drachefn, y ddeheulaw ymhlith dynion ydyw 'r lle mwya anrhydeddus, fel y cymmerodd Solomon ei fam Bathseba i eistedd ar ei ddeheulaw pan aeth hi i mewn atto; ac yn gyfattebol dywedir ddarfod i Grist eistedd ar ddeheulaw Duw o herwydd yr ardderchowgrwydd mawr a gafodd ef yn y nefoedd: "Wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, efe a eisteddodd ar ddeheulaw y mawredd yn y goruwchleoedd." Drachefn, fel ymysg dynion y derbynir rhoddion o ddwylaw 'r rhoddwr; ac y mae pob rhodd berffaith yn dyfod oddi wrth Dad y goleuni, gan hynny, deheulaw Duw ydyw 'r fan lle y mae dedwyddwch nefol a pherffaith wynfyd, yn ol geiriau 'r Psalmydd. "Ar

dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd." Ac yn ol yr ystyr yma y gellir dywedyd bod Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw; o herwydd ar ol ei holl lafur a blinder, ei ddoluriau a'i farwolaeth boenus a gwarthus, y mae 'n gorphwyso yn awr mewn llawenydd anrhaethol a dedwyddwch anherfynol.

Bellach, er nid ydyw 'r ymadrodd "eistedd" yn arwyddoccau ond yr un peth a meddiannu lle yn y nefoedd, etto nid anghymmwys ydyw ef, yn ol dull dynol, i arwyddoccau fod ef yno megis Brenhin, ac yn enwedig megis Barnwr. Heblaw 'r gorphwysdra a'r llonyddwch ar ol llafur blin y mae 'r gair eistedd yn arwyddo, y mae 'n arwyddoccau hefyd llywodraeth a brenhiniaeth, a hawl i draethu barn; canys y cyfryw rai a eisteddant ar orseddfeydd. "Eistedd ar fy neheulaw," ebr y Psalmydd yn prophwydo am Grist, "hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfaingc i'th draed." Ac felly yr esponiodd St. Paul ei eiriau, "Rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed." Ac y mae eistedd yn fwy priodol fyth yn arwyddoccau awdurdod i farnu, megis y dywedir am Grist gan Esay, "A gorseddfaingc a ddarperir mewn trugaredd; ac arni yr eistedd efe mewn gwirionedd, o fewn pabell Dafydd, yn barnu ac yn ceisio barn, ac yn prysuro cyfiawnder."

Felly Crist, yr hwn a esgynodd i'r nefoedd, wrth gael ei ddatgan yn eistedd ar ddeheulaw Duw yno, a ddatgenir ei fod yn Farnwr uchel ar y byw a'r meirw. A phob gallu a roed iddo ef yn y nef ac ar y ddaiar, fel y dywed ef ei hun: ac yn sicr, "teilwng oedd yr oen a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith." A thra bo'r lluoedd nefol yn talu teyrnged o fawl ac anrhydedd iddo, bydded i ni ei aelodau ar y ddaiar fawr berchi a gogoneddu ei enw ardderchoccaf â'n gwefusau ac yn ein bucheddau.

Cyn dangos i chwi pa athrawiaeth y dylem gasglu oddi wrth esgyniad a dyrchafiad Crist yn y nefoedd, mi a ddangosaf sutt yr addawsid y cyfryw ddyrchafiad i Grist yn Nafydd. I Ddafydd yr oedd addewid hyspys wedi ei gwneud, "Dy dŷ di a sicrheir, a'th frenhiniaeth yn dragywydd o'th flaen di; dy orseddfaingc a sicrheir byth." Nid oedd yr addewid ond dan ammod, a'r ammodau a welir mewn man arall o'r Ysgrythur, sef Psalm cxxxii. 12. "Os ceidw dy feibion fy nghyfammod a'm tystiolaeth, y rhai a ddysgwyf iddynt, eu meibion hwythau yn dragywydd a eisteddant ar dy orseddfaingc." Collasant eu hawl i'r addewid trwy droseddu, a'r frenhiniaeth a gymmerwyd

ymaith oddi wrthynt. Ond mewn ystyr gwell ac helaethach ar ol eu dietifeddu hwy o'r frenhiniaeth ddaiarol am eu pechod, er hynny gorsedd-faingc Dafydd a barhawyd yn ysprydol, ac a roed i un na phechodd erioed, ac felly ni fedrai mo 'i cholli; a chan ei fod ef, sef Crist Iesu, o dylwyth Dafydd yn ol y cnawd, brenhin-faingc Dafydd a barhawyd ynddo ef yn ddidor. Am dano ef y llefarodd yr Angel Gabriel fel hyn, "Iddo y rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd; ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd." Galwyd yr orseddfa yr oedd Crist i'w chael yn orseddfa Dafydd, o herwydd ei gaddaw i Ddafydd yn gyntaf, o herwydd tarddu o Grist yn ol y cnawd oddi wrtho, ac o herwydd bod brenhiniaeth Dafydd yn dyp neu yn gysgod o'i frenhiniaeth ef. Yn wir, o herwydd y berthynas amrafael rhyngddynt, Crist ei hun a elwir yn fynych wrth yr enw Dafydd, megis yn Jeremiah xxx. 9. "Eithr hwy a wasanaethant yr Arglwydd eu Duw, a Dafydd eu Brenhin, yr hwn a godaf fi iddynt:" ac yn Ezeciel, "A'm gwas Dafydd fydd brenhin arnynt, ac yn fugail iddynt:" a thrachefn, "Minnau yr Arglwydd a fyddaf yn Dduw iddynt, a'm gwas Dafydd yn dywysog yn eu mysg." Yr oedd Dafydd frenhin yn dyp o'n Hiachaw-

dwr Crist mewn modd hynod arall. Dafydd nid yn unig a amcanwyd, ond hefyd a enneiniwyd yn frenhin ar Israel, a hynny saith mlynedd cyn cael meddiant o'r frenhiniaeth, yr oedd ef dros saith mlynedd ymhellach yn frenhin ar lwyth Judah yn unig yn Hebron; o'r diwedd fe a dderbyniwyd gan yr holl lwythi ac felly a feddianodd gyflawn awdurdod, ac a eisteddodd ar ei orsedd yn y ddinas frenhinawl Jerusalem. Ac felly Crist, er ei eni yn frenhin yr Iuddewon, er bod cysylltiad ei Dduwdod gyd â'i ddyndod, a disgyniad yr Yspryd arno yn enneiniad i'w swydd frenhinawl, er hynny ni awdurdododd ddim ar ddynion yn y byd yma, gan ddywedyd nad oedd ei frenhiniaeth o honaw; ond ar ol ei adgyfodiad, fel Dafydd yn Hebron wrth ei lwyth ei hun, fe ddywedodd wrth ei ddisgyblion ei hun, "Pob gallu a roddwyd i mi;" ac yn ol yr awdurdod yma a roes iddynt hwy orchymynion. Ond ar ol ei esgyniad, y mae 'n myned i'r Jerusalem uchod yn orfoleddus, yno yn eistedd ar ddeheulaw gorseddfa Duw, ac yn cymmeryd megis rhwysgfawr feddiant o'i lywodraeth ar bob peth; yr Angylion a'r seintiau yn gorfoleddu ar y golwg. Yna y gallai St. Pedr ddywedyd yn wir "Ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu hwn a groeshoeliwyd." Ar ei deyrnas ni fydd

trangc, medd ein Heglwys yn un credo: ac nid ydyw hyn yn anghyttun â'r peth a ddywed St. Paul, y rhydd efe y deyrnas i Dduw a'r Tad wedi iddo ddileu pob pendefigaeth a nerth, sef gallu pechod, marwolaeth, ac ysprydion drwg, a holl elynion ei grefydd. Y mae Crist megis Cyfryngwr, yn Brophwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenhin. Ar ol cyflawni diben ei gyfryngdod, fe a rydd i fynu ei gyfryngdod a'r swyddau cynnwysedig ynddi: canys ni raid i'w Eglwys neu ei etholedigion wrth Brophwyd i'w dysgu, pan ddelont i'r nef, ac y troir ffydd yn weledigaeth; ni fydd raid iddynt wrth Ddadleuwr neu Offeiriad, ar ol cael mwyniant o wynfyd nef; nag wrth Frenhin i'w hymddiffyn yn erbyn gelynion eu hiechydwriaeth, pan fyddont yn llwyr ddiogel rhag pob gelyn. Ond er peidio o'i gyfryngdod a'r swyddau cynnwysedig dan hynny, o herwydd ni byddant ddim hwy yn angenrheidiol; er hynny fe deyrnasa mewn gogoniant yn undod y Tad hyd dragywyddoldeb. Ei frenhiniaeth a roed iddo megis y dyn Crist Iesu, nid yn unig er ymddiffyn ei bobl, ond yn wobrwy am ei ddioddefiadau; ac, yn sicr, ni phaid y gwobr ar ol cyflawni 'r gorchwyl. Addawodd Crist wneuthur ei etholedigion yn frenhinoedd ac yn offeiriaid; ac y maent yn credu, fel y dywed St. Paul yn ei ail Epistol at

Timotheus, ii. 12. "y teyrnasant gyd ag ef." "Ac efe a deyrnasa," medd St. Ioan yn y Datguddiad, "yn oes oesoedd." Fe a deyrnasa, nid yn unig hyd ddiwedd ei gyfryngdod, ond tra parhao ei ddyndod, yr hon sydd yn awr yn ogyd-dragywyddol â'i Dduwdod: efe a deyrnasa, gan hynny, yn undod y Goruchaf Dad yn dragywydd, ac ar ei deyrnas ni bydd trangc.

Y mae amryw fath ar leshad ddirfawr wedi tarddu oddi wrth esgyniad a dyrchafiad Crist. Ar ol ei esgyniad, fe ddanfonodd i lawr yr Yspryd Glan ar yr Apostolion, i'w llewyrchu a'u cadarnhau, i'w cynnysgaeddu â gallu i wneuthur rhyfeddodau, ac â dawn tafodau, fel y gallent lefaru ymhob iaith. Bendigedig effaith ei esgyniad a'i dderchafiad oedd sefydlu 'r grefydd Grist'nogol ymhlith y cenhedloedd, ac yn ein gwledydd ni ymhlith eraill oedd yn crwydro mewn tywyllwch ac anwybodaeth. Ac er peidio o anghyffredinol ddoniau 'r Yspryd, y mae 'r Diddanydd etto fyth yn parhau i gynnorthwyo 'r ffyddloniaid, i'w cysuro a'u nerthu, ac efe a drig gyd â hwynt yn wastad hyd ddiwedd y byd.

Lleshad ddirfawr, a bendith anfeidrol arall, yn canlyn ei esgyniad, ydyw ei fod wedi myned i'r nefoedd i eiriol dros ei bobl. O mor fuddiol a chysurlawn o beth ydyw bod gennym y fath

Ddadleuwr i bledio drosom, y fath gyfaill yn llys y nef, mewn cymmaint ffafr gyd â'r Goruchaf, yr hwn a ddichon trwy rinwedd ei aberth offrymmu ein gweddiau ac hyspysu ein hangenrheidiau oll iddo. Hyn a gysgodwyd dan y ddeddf: yr Arch-offeiriad a âi unwaith bob blwyddyn â gwaed yr aberth i'r sanctaiddiolaf. Ac fe ddywed yr Apostol (Heb. ix. 24.) "Nid i'r cysegr o waith llaw, portreiad y gwir gysegr, yr aeth Crist i mewn, ond i'r nef ei hun, i ymddangos ger bron Duw drosom ni." Ym mhob trallod, a chyfyngdra, a phrofedigaeth, bydded yn gysur gennym feddwl, "Nad oes i ni Arch-offeiriad heb fedru cyd-ddioddef â'n gwendid ni; ond wedi ei demptio ym mhob peth, yr un ffunud a ninnau, etto heb bechod." Y mae ystyried hyn yn lleshol i'n cefnogi i weddio gyd â hyder y gwrendy Duw ar ein gweddiau wedi eu hoffrymmu ganddo ef; ac felly y mae 'r Apostol yn ei unrhyw Epistol, sef at yr Hebreaid, yn ymresymmu, "Gan fod wrth hynny i ni," medd ef, "Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, awn yn hyderus at orsedd-faingc y grâs, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom râs yn gymmorth cyfamserol." Gall hyn ein cefnogi ni yn erbyn holl elynion ein hiechydwriaeth, sef ystyried a chredu "fod ef yn gofalu ac yn dar-

bod drosom," a'i fod yn byw bob amser i eiriol drosom, fel y dywed yr Apostol; ystyried ei fod ef ar ddeheulaw Duw yn teyrnasu, ei fod ef yn ben uwchlaw pob peth i'w Eglwys: nid rhaid i ni, gan hynny, ofni gelynion ein hiechydwriaeth, tra bo Mab Duw yn ein hymddiffyn.

Yn ddiwaethaf, gan gredu ddarfod i'n Hiachawdwr esgyn i'r nef, dylem ni ei ddisgyblion osod ein serch a'n gobaith ar y fan lle y mae ef yn awr, a lle yr ydym yn gobeithio y cawn ni ei ganlyn ef ar fyrder. Crist ein pen a ddyrchafwyd i'r nef, ein natur ni ei aelodau a ddyrchafwyd yno hefyd ynddo ef. Hoffwn, ynteu, y fan, ac na halogwn yr uchel anrhydedd a roed i'n naturiaeth yn Nghrist trwy amhurdeb, ond fel dinasyddion o'r nef, arferwn â'r diniweidrwydd a'r sancteiddrwydd sydd gymmwys i'r fan, heb yr hyn hefyd ni cheiff neb dderbyniad yno.

PREGETH XIV.

YR YSPRYD GLAN.

2 Corinthiaid xiii. 13.

A chymdeithas yr Yspryd Glan a fyddo gyd â chwi oll.

WRTH ganu 'n iach i'r Eglwys yn Nghorinth, yn niwedd ei Epistol, y mae 'r Apostol yn hyspysu ei ddymuniant, neu ei weddi, ar fod o gymdeithas yr Yspryd Glan gyd â hwy oll. Nid allai ei ewyllys da ddymuno dim gwell er eu lles. Llwyr angenrhaid ydyw cymundeb hwn i bob Cristion ymhob oes, a'r deisyfiad yma yn ddilynol sy 'n terfynu ein gwasanaeth Eglwysig cyffredin, ac a arferir yn fynych yn ein haddoliad neulltuol. Ni cheir iechydwriaeth i eneidiau dynion heb gymmundeb yr Yspryd Glan; canys ei waith ef ydyw sancteiddrwydd, ac heb sancteiddrwydd ni cheiff neb weled yr Arglwydd; ac, medd yr un Apostol, "Od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef." A'r sawl nid yd-

ynt yn perthyn i Grist, eu gadael fydd raid i ddistryw tragywyddol.

Y mae pob un a fedyddier i grefydd Crist yn cael ei fedyddio yn enw 'r Yspryd Glan, fel ac yn enw 'r Tad a'r Mab. Un erthygl bennaf o eiddo ein Heglwys ydyw credu yn Nuw yr Yspryd Glan, yr hwn sydd yn ein sancteiddio ni ac holl etholedig bobl Dduw. Y mae ein Heglwys yn erfyn ei gymmorth ef yn fynych iawn yn ei haddoliad cyhoedd, ac yn diweddu y Psalmau a'r Odlau oll trwy roddi gogoniant i'r Yspryd Glan, fel ag i'r ddau Berson eraill yn y Drindod fendigedig. Wrth draethu ar gymdeithas yr Yspryd Glan, dangosaf

I. Mor angenrhaid ydyw ei gymmorth a'i gymdeithas i ni oll.

II. Pennodaf y ffrwythau sy 'n tarddu o'i gymdeithas, trwy ba arwyddion y gwelwn pa gymmaint a gawsom o'i rinwedd. Ac yn

III. Mi a'ch cyfeiriaf at y moddion effeithiol er cael ei gymmorth a'i radau.

I. Angenrheidiol yw cymmorth yr Yspryd Glan, o herwydd gwendid a llygredigaeth ein natur. Y mae 'r Ysgrythur yn darlunio anianol ystad dyn fel un o wendid a phechadurusrwydd. Yr ydym yn darllain fod drygioni dyn yn fawr ar y ddaiar, a bod holl fwriad meddylfryd ei galon yn ddrygionus bob amser; ac

y llygrasai pob cnawd ei ffordd ar y ddaiar. Dyma 'r desgrifiad a roir o'n natur a'n cyflwr ymhrif oesoedd y byd, o flaen y diluw, a hyn, sef y drygioni cyffredinol, a ddygodd i lawr y dinystr ofnadwy. Ac o beth arall y tarddai 'r cyffredinol ddrygioni hwn, amgen nag oddi wrth naturiaeth lygredig a thueddiad at hynny? "Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd," medd Dafydd; ac mewn man arall, "Yr Arglwydd a edrychodd i lawr ar feibion dynion, i weled a oedd neb deallgar, yn ymgeisio â Duw." A pha olygiad a gafodd ef? "Ciliodd pawb, cyd-ymddifwynasant; nid oes a wnêl ddaioni, nag oes un." A Solomon ei fab doeth, a ddywed yr un peth, gan ddarlunio meibion dynion yn yr un lliw athrist, "Canys nid oes dyn cyfiawn ar y ddaiar a wna ddaioni, ac ni phecha,"—Preg. vii. 20. A'r Prophwyd Esay, yn enw meibion dynion, sy 'n gwneuthur y gyffes yma, "Nyni oll a grwydrasom fel defaid, troisom bawb i'w ffordd ei hun." Ac er mwyn cymmodi y cyfryw droseddwyr âg ef ei hun, rhyngodd fodd i'r Goruchaf roddi ar ei Fab ei hun eu hanwireddau hwy i gyd, fel yr ychwannegai 'r Prophwyd. Ond y mae gweithrediad yr Yspryd Glan yn angenrhaid i'w cymmwyso hwy i deyrnas nef, ar ol cael agor y ffordd iddynt trwy iawn ac aberth Crist.

Yn yr un modd y mae 'r Testament Newydd yn paentio ein cyflwr pechadurus ni wrth ein naturiaeth lygredig. Ein Hiachawdwr a St. Paul ei Apostol sy 'n darlunio ein tuedd anianol ni trwy 'r ymadroddion "y cnawd," a'r "hen ddyn:" ac y mae 'r naill yn hyspysu i ni na ddichon y rhai sydd yn y cnawd, neu heb eu cyfnewid o'u hystad anianol, ryngu bodd Duw; ac, ebr Crist, bod goleuni wedi dyfod i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na 'r goleuni; o herwydd fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg. Ac yn yr hynod fan lle mae St. Paul yn darlunio nid ei gyflwr ei hun, yr hyn a ddarlunir yn y bennod nesaf, ond cyflwr y dyn anianol, cyflwr dyn heb ei adnewyddu, "Eithr myfi sydd gnawdol, wedi fy ngwerthu dan bechod; canys yr hyn yr wyf yn ei wneuthur nid yw foddlon gennyf, canys nid y peth yr wyf yn ei ewyllysio, hynny yr wyf yn ei wneuthur; eithr y peth sydd gâs gennyf, hyn yr ydwyf yn ei wneuthur." A thrachefn medd ef, gan ddarlunio 'r dyn anianol, "Canys mi a wn nad oes ynof fi, hynny yw, yn fy nghnawd i, ddim da yn trigo; o blegid yr ewyllysio sydd barod gennyf, eithr cwblhau yr hyn sydd dda nid wyf yn medru arno." A sylwch, fod y dyn anianol o'r diwedd, ar ol llefain yn chwerwder ei galòn, "Ys truan o ddyn wyf fi! pwy

a'm gwared i oddi wrth gorph y farwolaeth hon?" yn dyfod o hyd i un a fedrai ei achub a'i iachau, "Yr wyf yn diolch i Dduw trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Yn y bennod nesaf, sef yr wythfed, y mae 'n adrodd breintiau y rhai a sancteiddiwyd ac a adnewyddwyd, ac yn darlunio dedwyddwch eu cyflwr.

Fy mrodyr, mae hanesion pob oes, hanesion llawn o bob drygioni, yn tystio llygredigaeth dynion: ond ni cheir mo hanes a chrybwyll gwreiddyn y clwyf yn un lle arall heblaw gair Duw. Ac nid rhaid i neb ond edrych i mewn a chwilied ei fynwes ei hun, ac fe all y goreu gael ynddo ei hun aml ddiffyg ac amryw wallau, er cymmaint addysg a gawsom ac er cymmaint cynnorthwy o'r nef; ac y mae 'r amherffeithrwydd a'r ffaeledigaethau hyn yn profi fod rhyw ddrwg yn y gwreiddyn. Barner, ynteu, pa mor lygredig yn eu cyflwr anianol ydyw dynion, heb gael hyfforddiad yr Ysgrythur, heb glywed am ei gwobrwyon a'i chospedigaethau. Gwir ydyw y dichon i ddyn heb gymdeithas yr Yspryd ofalu am ei air da, ei iechyd, ei lwyddiant bydol, ei esmwythdra, a'i lonyddwch, ac amlygu llawer o weddeidd-dra yn ei foesau; ond ni ddichon iddo, heb y cymmorth yma, fyned yn sanctaidd ac yn dduwiol, yn ddaionus yn y fath fodd ag a ryngo fodd Duw.

Nid o egwyddorion da y mae ei foesoldeb yn tarddu, sef o gariad i Dduw : fe ymddengys yn dêg oddi allan, ond y gwreiddyn sy ddrwg ; ac am hynny nid oes dim sylweddol na sefydlog yn y ffrwythau, nid oes dim a wna addfedu i iechydwriaeth. Ni ddylifa dyfroedd bywiol allan o ffynnon amhur ; ac nid dim ond yr Yspryd Glan a lanha 'r galon, ac a bair iddi ffrwytho mewn rhadau a rhinweddau duwiol, cymmeradwy gan Dduw er mwyn y Prynwr. Oddi yma y mae 'r angenrheidrwydd am gael cymmorth yr Yspryd Glan ; ac o achos hyn y dywed ein Hiachawdwr, " Oddi eithr geni dyn drachefn o ddwfr ac o'r Yspryd Glan, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw." Ac o achos hyn y mae 'r Apostol yn fynych yn cynghori 'r troedigion i " ymadnewyddu yn yspryd eu meddwl, a gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Yn gyfattebol, y mae Colectau 'r Eglwys yn cydnabod breuolder y dynol anian, na fedrom heb gymmorth dyfal râs Duw amgen na syrthio, mai ei râs rhag-flaenol ef sy 'n rhoddi meddyliau da ynom, a'i barhaus gymmorth yn eu deunyddio ac yn eu dwyn i ddiben llwyddianus.

Egwan a gwael fel yr ydym, a pheryglon ysprydol a chorphorol o'n hamgylch, etto grâs

Duw sy ddigonol i ni, a'i nerth ef a berffeithir yn ein gwendid ni. Y duwiolion yn y prif-oesoedd, yr hynod mewn duwioldeb, nid oeddynt yn ddigymmorth ac yn ymddifad o borth yr Yspryd Glan; ond etto cyfrennir ef yn fwy helaeth a chyffredin dan yr Efengyl. Crist'nogion cywir yn gyffredin a allant gael helaeth gyfran o rad ysprydol; a hyn a rag-welodd ac a rag-fynegodd y Prophwyd Ezeciel pan ddywedodd, "Rhoddaf hefyd fy Yspryd o'ch mewn, a gwnaf i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau a'u gwneuthur." Arwyddion sicr y rhain o egwyddorion sanctaidd, ysprydol. Ein Harglwydd Crist ychydig ennyd cyn ei farwolaeth, yn un o'i ymddiddanion caredig gyd â'i ddisgyblion a ddywed, "Mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyd â chwi yn dragywyddol: Yspryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nag yn ei adnabod ef; ond chwi a'i hadwaenoch ef, o herwydd y mae yn aros gyd â chwi, ac ynoch y bydd ef," Ac felly y mae St. Paul yn llefaru am gyrph Crist'nogion megis temlau yr Yspryd Glan.

II. Ni a awn rhagom bellach i ystyried ffrwythau priodol yr Yspryd Glan, yr effeithiau a ganlynant oddi wrth ein bod yn cyfrannu o'i

gymdeithas neu ei gymmundeb ef. Ac fe hyspysir yn bennodol i ni gan St. Paul, "os rhodio y byddwn yn yr Yspryd, ni chyflawnwn drachwant y cnawd." Hefyd, pa rai yw gweithredoedd y cnawd sy 'n amlwg; fe adroddir amryw o honynt gan St. Paul yn yr unrhyw bennod, "Godineb, aflendid, anlladrwydd, delwaddoliaeth, swyn-gyfaredd, casineb, cynhennau, gwynfydau, llid, ymrysonau, ymbleidio, heresiau, cynfigennau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn; am y rhai yr wyf fi yn rhag-ddywedyd, megis ag y rhag-ddywedais, na chaiff y rhai sy 'n gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw." Y mae'r holl chwantau a'r gwyniau hyn yn dangos nad gan Yspryd Duw yr arweinir ac y rheolir dyn. Pechodau o aflendid ynt yn enwedig yn anghyttun â'i burdeb ef, yr hwn a ddisgynnodd unwaith ar yr Iesu ar wedd colommen ddiwair. Meddwdod hefyd sy drachwant amhur, yn llwyr anfoddus ganddo, ac os glynir wrth yr arfer, a wna yn ddiffael dristau 'r Yspryd Glan a'i yrru ymaith. Llid hefyd sydd gyd-drigianydd anghymmwys i'r Yspryd tangnefedd, ni ddichon iddynt gyd-gyfaneddu yn yr un fynwes. Cybydd-dod hefyd, yr hyn yw gwreiddyn anonestrwydd a lladrad, a waherddir. Y mae y cyfryw feiau, fe ddywed rheswm cystal

a gair Duw, yn gâs gan Dduw, a chan ei Yspryd ef yn ddilynol; ac nid oes, os credwch chwi yr Ysgrythur, i'r sawl a'u dilynant etifeddiaeth yn nheyrnas Crist a Duw.

Y mwya arbennig o ffrwythau 'r Yspryd ydyw ffydd, ffydd fywiol yngwaredigaeth y byd trwy farwolaeth Crist. Y mae 'r gwir ffydd yma yn tarddu oddi wrth rinwedd Yspryd Duw: y mae 'r Yspryd yn ein hargyhoeddi ni o'n pechadurusrwydd, yn gostwng ein hunan-dyb a'n balchder, yn symmud rhagfarn a thueddiad bydol, ac yn geni ynom barodrwydd ac awydd i dderbyn ac i gredu un yn dangos, neu wedi dangos, trwy wyrthiau ei ddanfoniad oddi wrth y Tad, a'i allu i achub eneidiau dynion. Ac felly medd St. Paul, "Ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, eithr trwy 'r Yspryd Glan.

Yspryd defosiwnol sydd ffrwyth arall arbennig o eiddo 'r Yspryd; 'un o'r addewidion Efengylaidd ydyw ef a rag-fynegwyd yn y Prophwydi, "A thywalltaf," medd Zechariah, "ar dŷ Ddafydd, ac ar breswylwyr Jerusalem, yspryd grâs a gweddiau." Os oerllyd ac esgeulus, gan hynny, y bo dynion yn eu haddoliad, y mae 'n amlwg na ddarfu i'r yspryd hwn weithio 'n effeithiol ynddynt. Y mae ein Harglwydd bendigedig yn hyspysu i ni mai cariad i Dduw yw 'r gorchymyn pennaf a mwyaf yn y gyfraith.

Ond nid llawer o groesaw a gaiff yr egwyddor nefol yma ynghalon y dyn anianol, nes bo wedi ei dywallt ynddi, i arfer ymadrodd St. Paul, trwy 'r Yspryd Glan. Yn y llannerch a grybwyllwyd allan o'i Epistol at y Galatiaid, fe adroddir amryw radau a rhinweddau da, ymhlith y rhai y mae cariad yn rhagflaennu: "ffrwyth yr Yspryd," medd ef, "yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest." Efe, yr hwn yr adnewyddwyd ei galon trwy 'r Yspryd Glan, yn geni ffydd yn gyntaf ynddo, a lenwir o gariad i Dduw ac o wir ewyllys da i ddynion, yr hyn a ddengys ef trwy gymmwynasau fel y bo 'r achos yn gofyn. Y rhadau eraill a rifir yma ydyw llawenydd, sef hyfrydwch crefyddol yn tarddu o hyder gostyngedig ar drugaredd Duw yn Nghrist: tangnefedd, sef heddwch cydwybod yn dyfod oddi wrth yr un peth, tangnefedd Dduw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall, gyd a thueddiad ac ymddygiad heddychlawn tu ag at ddynion eraill: hir-ymaros, addfwynder, daioni, sef gwneuthur da, a orchymynir yn fynych gan ein Harglwydd a'i Apostolion megis arwyddion hyspysol o bresennoldeb yr Yspryd; ac fe 'n hannogir i gael tynnu oddi wrthym bob chwerwedd, a llid, a dîg, a llefain, a chabledd, gyd â phob drygioni, ac i fod yn

gymmwynasgar i'n gilydd. Ffydd, ymhlith y rhinweddau da a adroddwyd yn yr adnod o'r Epistol at y Galatiaid a ddarllennais, nid yw 'n arwyddoccau crêd ysprydol, fel y mae yn gyffredinol yn arwyddoccau, ond yn hytrach ffyddlondeb, a chyfiawnder, ac onestrwydd yn ein masnach rhyngom â phobl eraill; ac yn ddiau, os bydd gan yr Yspryd rinwedd effeithiol arnom, ni a fyddwn yn ffyddlon, yn eirwir, ac yn gyfiawn ymhob peth a wnelom: heb onestrwydd a didwyll ymdriniad, ni bydd ond ffuant a rhagrith i ddyn gymmeryd arno fod dan reolaeth Yspryd y Duw cyfiawn. Yn nesaf, y mae dirwest yn arwyddoccau hunan-lywodraeth, a chymmedroldeb ymhob peth; sef ymgadw oddi wrth anniweirdeb, gloddest, a meddwdod, oddi wrth falchder, ariangarwch, a phob drygchwant; a bod i ni o'r tu arall ymgadw yn wastadol o fewn terfynau gweddeidd-dra Crist'nogol. Y mae amryw fannau eraill yn yr Epistolau, yn enwedig yn y rhei'ny at yr Ephesiaid a'r Colosiaid, sy 'n rhoddi arwyddion diddadl o'r hen ac o'r dyn newydd, sef o hwnnw sy dan reolaeth ei natur anianol ei hun, ac o hwnnw a arweinir gan yr Yspryd Glan. Wrth fanwl ystyried y mannau hyn, gellwch farnu drosoch eich hunain pa un ai ydych ai nid ydych yn cael eich rheoli gan yr Yspryd. Hol-

wch chwithau eich hunain yn dêg ac yn gydwybodol pa cymhelled y cawsoch chwi y gorfod ar eich chwantau anianol, a pha cymhelled yr ydych yn dangos yn eich tueddfryd a'ch hymarweddiad ffrwythau 'r Yspryd.

III. Nid oes dim ar ol, bellach, ond i mi eich hyfforddio yn y moddion pennaf i gael, i gadw, ac ychwanegu ynoch rinwedd a chymdeithas yr Yspryd Glan. Gan mai Yspryd gwybodaeth ydyw 'r Yspryd Glan, dylech chwilio am wybodaeth o hono yn y llyfrau Ysgrythyrol y darfu i wyr sanctaidd gynt eu hysgrifenu trwy ei ysprydoliaeth ef. Os medrwch, dylech eu darllain yn fanwl, neu ynteu wrando ar eu darllain a'u hesponio yn ostyngedig, ac yn awyddus am gael hyfforddiad yn llwybrau tangnefedd. Ond gweddi ddyfal a thaer yw 'r moddion anhepgor gyd â darllain a gwrando, heb yr hyn ni fydd na darllain na gwrando ond yn anfuddiol. Y sacramentau ydynt foddion arbennig i gael grâs. Trwy 'r cyntaf y'n derbyniwyd i freintiau gwerthfawr megis Crist'nogion; ninnau a ddylem atgofio ac ystyried y breintiau 'n ddiolchus, ac hefyd y rhwymedigaethau a roed arnom: heb gyflawni 'r rhwymedigaethau ac ymadawyddu beunydd i sancteiddrwydd, ofer y try ein holl freintiau. Sacrament swpper yr Arglwydd a ordeiniwyd yn arbennig er coffadwr-

iaeth am aberth marwolaeth Crist, ac er cryfhau a diddannu ein heneidiau. Ac at y wledd nefol yma y dylem ddyfod yn fanwl ac yn ddefosiwnol, er mwyn cael chwanegiad rhadau 'r Yspryd ynom, sy 'n angenrheidiol i gadw ynom fywyd ysprydol yn y byd hwn, ac i'n gwneuthur ni yn gymmwys i wynfyd y nesaf, a brynwyd i ni trwy ufudd-dod a marwolaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

PREGETH XV.

EDIFEIRWCH.

ACTAU III. 19.

Edifarhewch gan hynny, a dychwelwch, fel y dileer eich pechodau.

TRWY edifeirwch a ffydd yr ydys yn myned yn ddisgyblion Crist Iesu, ac wedi cwympo ar ol myned, dychwelir ni atto ef trwy'r cyffelyb fodd. Gan hynny, nid oes un athrawiaeth yn Eglwys Dduw mor angenrhaid ag yw athrawiaeth edifeirwch a gwellhad buchedd. Ac yn wir fe gysylltodd gwir bregethwyr Efengyl teyrnas nef, yn eu holl bregethau duwiol i'r bobl, y ddau hyn ynghyd, sef edifeirwch a maddeuant pechodau, fel yr appwyntiodd ein Hiachawdwr ei hun, gan ddywedyd, "Rhaid oedd i Grist ddioddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd, a phregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef. Ac am hynny y mae'r Apostol yn yr Actau yn dywedyd fel hyn, "Chwi a wyddoch dystiolaethu o honof

i'r Iuddewon ac i'r Groegiaid hefyd yr edifeirwch sydd at Dduw, a'r ffydd sy tu ag at ein Harglwydd Iesu Grist." Mi allwn yma osod llawer o leoedd o'r Prophwydi yn y rhai yr addysgir yn dra difrif yr athrawiaeth iachus hon o edifeirwch megis y peth angenrheidiaf i bob gradd o ddynion, gan fod y goreu yn cwympo yn fynych: ond y mae un lle yn ddigon i'w adrodd ar hyn o bryd, sef hynod a chyffrous eiriau Joel yn yr eilfed bennod, "Ond yr awr hon, medd yr Arglwydd, dychwelwch attaf fi â'ch holl galon, âg ympryd hefyd, ac âg wylofain, ac â galar. A rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw; o herwydd graslawn a thrugarog yw efe, hwyrfrydig i ddigofaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg." Trwy hyn y deallwn y gosodwyd i ni reol dragywyddol nad oes ffordd arall i fareiddio digofaint Duw, ond trwy ddychweliad edifeiriol atto ef. Ac nid heb achos y mae 'r Prophwyd sanctaidd yn dywedyd, "Ond yn awr, medd yr Arglwydd, trowch attaf fi;" o herwydd ddarfod iddo o'r blaen osod allan yn helaeth echrydus ddial Duw, yr hwn ni allai neb ei ddwyn, am hynny y mae yn eu cyffroi i edifeirwch, fel y mwynhaent drugaredd: megis pe dywedasai, ar ol traethu dychryniadau 'r Arglwydd, ni fynnaf i chwi

gymmeryd hyn fel pe na byddai ddim gobaith am râs; o blegid er i chwi am eich pechodau haeddu eich llwyr ddistrywio, ac er i Dduw yn ei gyfiawn farn ordeinio danfon arnoch ddistryw mawr, etto yn awr, a chwi agos ar fin y cleddyf, os trowch yn ebrwydd atto ef, efe a'ch derbyn yn dirion iawn i'w ffafr eilwaith. Trwy yr hyn y'n rhybuddir nad yw edifeirwch un pryd yn rhy hwyr, os bydd yn wir ac yn ddifrif. Ond enbyd iawn ydyw oedi, o herwydd ansicred ydyw hoedl dyn, a'r gydwybod yn ymgaledu fwy-fwy wrth gellwair â phechod, ac wrth ymwrthod âg argyhoeddiad Yspryd Duw. Sylwn, ynteu, ar y ddyledswydd o edifeirwch: a Duw trugarog a'ch cynhyrfo trwy ei Yspryd i edifarhau yn ddiffuant, a chofleidio 'n ddiolchus ei drugaredd yn Nghrist Iesu.

Y mae pedair rhan i edifeirwch: y gyntaf yw drylliad y galon; yr ail yw gwir gyffes a chyfaddefiad o'n pechodau ger bron Duw; y drydedd yw ffydd, trwy 'r hon y cymmerwn afael ar addewidion Duw yn Nghrist o faddeuant; y bedwaredd yw gwellhad bywyd, neu fywyd newydd yn dwyn allan ffrwythau teilwng o edifeirwch.

Ystyriwn y rhan gyntaf, sef drylliad y galon: o herwydd rhaid fod yn flin gennym o ddifrif am ein pechodau, a galaru yn ddiragrith am i

ni drwyddynt hwy ddigio mor dost Dduw mor hael ac mor drugarog. Y Duw hwn a ddarfu i ni anufuddhau, a'n carodd ni gymmaint fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab i oddef marwolaeth chwerw ac i dywallt gwaed ei galon i'n rhyddhau ni. Ac y mae y galar hwn oddi fewn yn y galon, pan yn deillio o wir ymsyniad, yn aberth i Dduw, yn ol tystiolaeth Dafydd, "Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig, calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi." Ond fel y bo i hyn gymmeryd lle ynom, rhaid i ni ddarllain a gwrando gair Duw yn ddyfal, yr hwn sydd yn darlunio yn oleu ger bron ein llygaid ein haflendid naturiol, a ffieidd-dra ein buchedd ddrygionus. O blegid oni byddwn yn clywed ein pechodau yn faich arnom, pa fodd y gallwn dristau 'n ddifrif am danynt? Pa dristwch, attolwg, oedd gan Ddafydd am y godineb a'r llofruddiaeth a wnelsai, cyn clywed o hono air yr Arglwydd trwy enau 'r Prophwyd Nathan? gellid dywedyd gysgu o hono, fel llaweroedd, yn ei bechodau. Yr ydym yn darllain yn Actau 'r Apostolion, ar ol i'r bobl glywed pregeth Pedr, eu cyd-bigo hwy yn eu calonnau. Ni buasai hyn, oni buasai iddynt glywed St. Pedr. Nid oes gan hynny ond ychydig obaith am y rhai nid oes ganddynt feddwl nag am wrando nag am ddarllain gair Duw, y dychwel-

ant at lwybr iechydwriaeth, ond soddi yn ddyfnach ddyfnach mewn pechod a distryw. Ac os bydd ant hwy ar ryw amser trwy bigiad eu cydwybod, yn clywed trymder o'u mewn am eu camweddau, etto am fod arnynt eisiau eli a diddanwch gair Duw, yr hwn y maent yn diystyru, ni bydd hynny ond modd i'w dwyn hwy i lwyr anobaith yn hytrach na dim arall.

Yr ail ran, neu'r cam nesaf mewn edifeirwch, yw gwir gyffes o'n pechodau ger bron Duw, yr hwn y darfu i ni ei ddigio bawb o honom o amser bwygilydd, gymmaint ag y gallai ef yn gyfiawn ein dinystrio. Etto, os â chalonnau trist y gwnawn ein cyffes ddiragrith at Dduw, efe a faddeua i ni yn rhwydd ac yn rhad, ac a ollwng megis dros gof ein holl anwireddau. Medd yr Apostol Ioan, " Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder." Ond deallwch na orchymynir i ni gyfaddef ond i Dduw yn unig, nid rhaid eu hagor i ddynion eraill, oddi eithr er mwyn cael eu cynghor mewn amryfusedd ; neu os darfu i neb o honom ddigio cymmydog yn ddiachos, y mae 'n gymmwys, er mwyn cymmodi, addef ei fai ; neu os dygwyd drwg-weithredwr i gosp am dorri cyfraith y wlad, y mae'n iawn gydnabod ei euogrwydd, er rhybuddio eraill, a dwyn ei

dystiolaeth i gyfiawnder cyfraith y wlad a ffyddlondeb y barnwyr.

Y drydedd ran o edifeirwch ydyw ffydd, trwy 'r hon y cymmerwn afael ar addewidion Duw am bardwn rhad o'n pechodau, a'r addewidion hyn a seliwyd i ni â thywalltiad gwaed ei Fab ef Iesu Grist. O blegid pa fudd a fyddai i ni, er tristau ac ochain am i ni ddigio Tad mor hael a thrugarog, neu gyfaddef ein beiau, er difrifed y gwneir hyn, oni chredwn ni yn sicr a pherswadio ein hunain y maddeua Duw i ni ein holl bechodau er mwyn ei Fab. Pwy bynnag, gan hynny, a ddysgant edifeirwch heb ffydd fywiol yn ein Hiachawdwr Iesu Grist, nid ydynt yn dysgu i ni amgen edifeirwch nag edifeirwch Judas. Yr oedd ffydd yn eisiau ynddo ef, ac o ddiffyg hynny fe gyfrgollwyd yn druenus. Sylwch, frodyr, yr oedd yn y gwr hwn dristwch chwerw, fe gyffesodd ei bechod cyn ymgrogi, "Pechais," meddai ef, "gan fradychu gwaed gwirion." Gwnaeth hefyd ryw fath ar daledigaeth pan daflodd yn eu hol yr arian i'r Arch-offeiriad. Ni wnaeth Pedr ddim cymmaint ar olwg ar ol gwadu ei Feistr; fe aeth allan ac a wylodd; yr ydym yn darllain am ei ddagrau ef, ond nid ydym yn gweled pa iawn y talodd efe. Ond pa fodd y derbyniwyd y naill edifeirwch i râs Duw a'i

ffafr, ac y gwrthodwyd y llall? Ond am i'r naill trwy ffydd fywiol yn yr hwn a wadasai efe gymmeryd gafael ar drugaredd Duw, a bod y llall heb ffydd, ac felly yr anobeithiodd am ddaioni a thrugaredd Duw. Eglur, gan hynny, a goleu yw, er difrifed y tristaom am ein pechodau ac y cydnabyddom hwy, ni bydd y cwbl oll ond moddion i'n dwyn i lwyr anobaith oni byddwn yn credu 'n ddiogel y pardyna ein Tad nefol ni er mwyn Iesu Grist: ni fyddai 'r fath edifeirwch yn fwy effeithiol i iechydwriaeth nag edifeirwch Cain a Judas. Bydded gennych ynteu yn anad dim ffydd yn Nghrist Iesu a grym ei haeddiant, a gweddiwch am ei ychwanegu ynoch trwy Yspryd Duw.

Y bedwaredd ran ydyw gwellhad buchedd, neu fywyd newydd yn dwyn allan ffrwythau teilwng o edifeirwch. O herwydd rhaid bod y gwir edifeiriol gwedi eu newid a'u symmud yn hollol, rhaid iddynt fod yn greaduriaid newydd, nid oes iddynt fod bellach yr hyn oeddynt o'r blaen. Am hynny, ebr ein Hiachawdwr, "dygwch ffrwythau addas i edifeirwch." Trwy 'r hyn y'n dysgir, os chwennychwn lonyddu llid Duw, nad oes i ni ragrithio, ond troi atto ef eilwaith trwy edifeirwch ddiffuant, yr hyn a ellir ei hadnabod trwy ffrwythau da megis arwyddion anhwyllodrus. Y rhai sydd o waelod eu

calonnau yn teimlo eu pechodau ac yn wir ddrwg ganddynt am eu beiau, hwy a daflant ymaith bob rhagrith, ac a wisgant am danynt wir ostyngeiddrwydd ac iselder calon. Ni dderbyniant hwy yn unig feddyg yr enaid, ond hwy a'i chwenychant ef yn awyddus iawn; nid ymattaliant hwy yn unig oddi wrth eu pechodau gynt, ac oddi wrth bob beiau bryntion eraill, ond hwy a giliant hefyd rhag eu holl achosion hwy, gan eu gochel a'u cashau: ac fel yr ymroisant o'r blaen i aflendid bywyd, felly o hyn allan hwy a ymroddant â phob dyfalrwydd i ddiniweidrwydd, bywyd pur, a gwir dduwioldeb. Felly y gwnaeth y Ninifeaid, y rhai ar bregeth Jonas ni chyhoeddasant ympryd yn unig, a gorchymyn i bawb oll wisgo sachliain, ond hwy a droisant oll oddi wrth eu ffyrdd drygionus. Ond uwchlaw pawb eraill godidog yw hanes Zaccheus, o blegid ar ol iddo ddyfod at ein Hiachawdwr Crist efe a ddywedodd, "Wele hanner fy nâ, O Arglwydd, yr ydwyf yn ei roddi i'r tlodion; ac os dygais ddim trwy gamachwyn, yr wyf yn ei dalu ar ei bedwerydd." Yma y gwelwn, ar ol ei edifeirwch, nad oedd efe mwyach y gwr a fuasai o'r blaen, ond ei fod ef wedi ei gwbl newid: yn lle parhau yn ei drachwant, a dwyn dim oddi ar neb ar gam, yr oedd yn barod i wneuthur iawn i bawb a wnel-

sai efe gam â hwy. At y siampl yma y gallwn gysylltu y wraig bechadurus, yr hon pan ddaeth at ein Hiachawdwr a ollyngodd ddagrau o'r llygaid â'r rhai yr hudasai hi lawer i ymfydrwydd, gan olchi traed yr Iesu â nhw, a'u sychu â gwallt ei phen, yr hwn y gosodai allan mor hoyw a'i wneud yn rhwydau i'r diafol.

Trwy hyn oll y dysgwn pa daledigaeth y mae Duw yn ei ofyn gennym, hynny ydyw, peidio â drygioni, a gwneuthur yr hyn sydd dda; ac os gwnaethom gam â neb, ymegnio â'n holl allu i wneuthur gwir iawn. Hwn oedd y peth a osododd Crist yn gyffredinol ar bechaduriaid, "Dos, na phecha mwyach." Ond hyn ni allwn, frodyr anwyl, byth mo'i gyflawni heb ei hyspysol râs ef, yr hwn sydd yn dywedyd, "Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim." Ein rhan ni, gan hynny, o leiaf ydyw chwennychu ein Hiechydwriaeth ein hunain, a gweddio 'n ddifrif ar ein Tad nefol ein cynnorthwyo â'i ras, fel y gallom wrando ar leferydd y gwir Fugail, a'i ganlyn âg ufudd-dod dyledus.

Ar ol gosod o'ch blaen, garedigion, er mwyn eich hyfforddio, rannau gwir edifeirwch, mi geisiaf eich hannog i'w deunyddio allan o law, trwy ddangos i chwi ar fyr eiriau rai achosion a ddylent eich cyffroi chwi i edifeirwch.

Y cyntaf yw gorchymyn Duw, yr hwn mewn

cynnifer fannau o'r Ysgrythyrau sy 'n gorchymyn i ni droi atto. Allan o lawer o fannau crybwyllaf un trwy enau Ezeciel, un yn dangos mawr ddymuniant ein Duw graslawn bod i bechaduriaid droi atto a gochelyd distryw, "Dychwelwch, dychwelwch, oddi wrth eich ffyrdd drygionus, canys, ty Israel, paham y byddwch feirw?" Dyma eglur orchymyn i ni edifarhau; gochelwn, gan hynny, wrth dorri 'r gorchymyn hwn, chwanegu at ein heuogrwydd gynt, a dyblu ein haeddiant o gospedigaeth. Dirfawr yn sicr ac anrhaethol o'r echrydus rhaid i benyd yr anedifeiriol fod, pan ymostyngai 'r Goruchaf i'w gwahodd mor daer i'w gochel trwy edifeirwch, ïe, pan ddarparai 'r fath foddion i'w hachub. Arswydwn y perygl, a chywilyddiwn fod mor anniolchgar tu ag atto ef sy 'n gofalu cymmaint drosom ni.

Yr ail achos i ni edifarhau yw 'r addewidion diddanol y cyssylltodd ein Duw graslonaf at y gorchymyn hwn o'i wir drugaredd. Nid ydyw ef yn dywedyd yn unig, Tro attaf fi, O Israel, ond hefyd, Os troi di, a rhoi heibio dy ffieiddra oddi ger fy mron, yna ni 'th symmudir: ac mewn amryw fannau y mae 'n addaw pardynu ac megis anghofio ein holl bechodau ni, fel nad edliwier hwy i ni, os gan fod yn ufudd i'w orchymyn, a chymmeryd ein llithio gan ei adde-

widion peraidd ef, y trown ni atto ef yn ddiffuant.

Y trydydd achos yw bryntni pechod, yr hwn yw 'r fath ffiaidd beth yngolwg Duw, fel hyd y byddom yn aros ynddo ni all y Goruchaf na chasao ni, ac ni ddichon bod un gobaith y deuwn ni byth i'r Jerusalem newydd oddi eithr ein glanhau oddi wrtho; a hyn ni bydd byth, oni thrown ni â'n holl galon at yr Arglwydd ein Duw, ac oni chiliwn at ei drugaredd ef â llwyr fryd gwellhau ein buchedd, a chymmeryd gafael ddiogel arni trwy ffydd yngwaed ei Fab ef Iesu Grist. Fy mrodyr, pe tybiem fod un aflendid ynom am yr hwn y byddai 'n gâs gan dywysog daearol yr olwg arnom, pa boen a gymmerem i symmud hwnnw? Pa faint mwy y dylem yn ddiesgeulus ac ar frys droi heibio ein bryntni câs yr hwn sy 'n gwahanu rhyngom â Duw? A gellid barnu pa mor frwnt o beth ydyw pechod, am na ellir ei olchi ymaith mewn un modd arall onid trwy waed unig-anedig Fab Duw. Ac oni ffieiddiwn ef o ddyfnder ein calonnau, ac oni chiliwn yn ddifrif rhag y ffieiddbeth y costiodd i Fab Duw waed ei galon i'n glanhau oddi wrtho? Ond etto nid yw hyn ddim wrth ofidiau a thragywyddol boenau uffern, yr hwn a orfydd i bawb ei oddef sydd yn eu caledrwydd a'u calonnau diedifeiriol yn

pentyrru iddynt eu hunain ddigofaint erbyn dydd y digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw. Lle hynny, os edifarhawn yn ddifrifol, ac os â llawn fwriad i wellhau ein bywyd, y ciliwn at drugaredd Duw, ac os cymmerwn a-fael ddiogel arni trwy ffydd yn ein Hiachawdwr ar ddwyn ffrwythau teilwng o edifeirwch, yr Arglwydd a dywallt ei aml fendithion arnom yn y bywyd hwn, ac ar y dydd diwaethaf, ar ol llafur lluddedig y bywyd hwn, efe a'n gwobr-wya ni âg etifeddiaeth ei blant, sef teyrnas nef-oedd, a bwrcaswyd i ni trwy farwolaeth ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd, i'r hwn, &c.

PREGETH XVI.

FFYDD.

St. Ioan xx. 31.

Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef.

Y MAE dau reswm arbennig paham y dylem ddarllain, parchu, ac hoffi 'r Bibl sanctaidd,—Duw yw ei awdur, ac a'i bwriadodd er iechydwriaeth dynion: "Yr holl Ysgrythyrau sydd wedi eu rhoddi gan ysprydoliaeth Duw," medd St. Paul yn ei Epistol at Timotheus, "ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder." Hyn sy 'n dyrchafu gwerth yr Ysgrythur lân uwchlaw pob llyfr arall yn anfeidrol. Nefol yw dechreuad y llyfr sancteiddiaf hwn, a'i ddiben ydyw ein gwneuthur ni yn happus yma ac yn dragywydd; ein hyfforddio pa sutt i dreiddio trwy 'r byd yn ddiogel ac yn gysurlawn, a'n dwyn i ddedwyddwch perffaith a

thragywyddol yn y byd a ddaw. Y diben a'r bwriad hwn a fynegwyd yn y testyn, "Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd," ebr St. Ioan, "fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef." Wrth drin y testyn, ystyriwn gyd a chynnorthwy Yspryd Duw,

I. Y diben neu 'r bwriad y rhoddwyd y gair, sef fel y caffom fywyd yn enw Crist.

II. Y ddau beth angenrheidiol i'r diben, sef gwybodaeth am Grist, a chred fywiol ynddo.

III. Y cysylltiad rhwng y pethau hyn a'r diben, sef yr angenrheidrwydd o wybodaeth am Grist, a ffydd ynddo, er mwyn cael bywyd trwyddo.

I. Y diben o ddatguddiad Ysgrythyrol ydyw cael o honom fywyd trwy Grist. A pha beth yw ystyr yr ymadrodd "bywyd" yn y fan yma? Y mae 'n arwyddoccau bywyd tragywyddol, bywyd yn y nef, cyflawn o berffaith orphwysdra, hyfrydwch, a gogoniant, yn oes oesoedd: rhyddid oddi wrth ofalon a blinder y bywyd hwn, oddi wrth ddolur a chlefyd, oddi wrth ofn a phrofiadau, oddi wrth bechod a llygredigaeth. Bod yn cyfanneddu gyd â Duw, ac yn canfod ei ogoniant; bod yn mwynhau llewyrch ei wynebpryd yn ddibaid, yn cael llawndra o bob peth a ddichon ein gwneuthur a'n cadw yn hap-

pus, gyd â sicrwydd na leiheir byth ar ein gwynfyd; dyma ran o ddedwyddwch nef, a rhan fechan iawn, chwi a allwch dybied; canys, gwedi myfyrio hyd yr eithaf, ni fedrwn ni ddim amgyffred y pethau a ddarparodd Duw i'r sawl a'i carant ef. Y mae gwynfyd nef yn beth ni ddichon y rhai sy yn y corph fyth mo 'i ddeall, ond mewn rhan; y mae 'n cynnwys pob peth boddus gan y meddwl ysprydol, ac anfeidrol ychwaneg na hyn. Ond fath bynnag yw 'r gwynfyd anrhaethol a didrangc hwn, diben yr Ysgrythur ydyw ei gael i ni; ac onid rhwymedig ydym, ïe rhwymediccaf, i barchu ac i hoffi y Bibl? Erom ni ddynion, ac er ein hiechydwriaeth, yr ysgrifenwyd ef. Cofiwn ninnau, frodyr, y gwir pwysfawr hwn, a phrisiwn y gair nefol oreu ar a allom yn ol ei anferth werth: ni fedrwn ni byth mo 'i brisio fel yr haeddai.

Ond ymhellach, y bywyd a grybwyllir yn y testyn, nid yn unig bywyd tragywyddol yn y nef ydyw, ond hefyd bywyd ysprydol ar y ddaiar. A pha beth yw 'r bywyd ysprydol hwn? beth amgen na 'r bywyd nefol wedi ei ddechreu arno yn awr ar y ddaiar? y bywyd nefol ydyw, byw gyd â Duw, yn ei bresennoldeb a'i wasanaeth, gan ganfod ei ogoniant a mwynhau ei gariad a'i ffafr: a pheth amgen na dechreuad o o hyn mewn rhan yw 'r bywyd ysprydol ar y

ddaiar, sef bod yr enaid yn byw i Dduw yma? Ac, mewn gwirionedd, bywyd yr enaid ydyw 'r bywyd ysprydol, canys nes y bo 'r enaid yn fyw i Dduw, marw ydyw. Er bod gan ddyn fywyd anianol ac efe yn fyw i bob gorchwyl bydol, yn ddyn doeth, gwasanaethgar, a pharchus yn y byd, fe all fod yr un amser yn ysprydol farw; fe all ei enaid fod yn farw mewn pechod, yn farw i Dduw, ac felly heb ddim bywyd ysprydol ynddo; fe all fod yn ddieithr hollawl i'r tangnefedd, a'r llonyddwch, a'r dedwyddwch y mae y rhai hynny yn mwynhau sy yn awr yn fyw i Dduw. Peth i'w ystyried yn ddifrifol iawn ydyw hyn, peth yn galw am ddyfal sylw. A ydyw 'n hyspys gennych, frodyr, fod yn bosibl i ddyn fod yn farw mewn un ystyr, ac yn fyw mewn ystyr arall; yn ysprydol farw, ac yn fyw o ran y corph? ac a wyddoch chwi fod dyn, nes iddo gael bywyd ysprydol, yn ymddifad o wir heddwch ac happusrwydd? ïe, ymhellach, a wyddoch chwi na chaiff ef, heb y bywyd ysprydol yma, mo 'r bywyd tragywyddol yn y nesaf? Os na wyddoch hyn, mae 'n bryd, yn llawn bryd i chwi ei wybod; ïe, er i chwi wybod, ac heb ddeunyddio 'ch gwybodaeth, llwyr angenrhaid ydyw eich hatgofio a'ch hannog. Canys yr Ysgrythyrau a roddwyd i ni fel y caffom fywyd; hwy a roddwyd i'r pwrpas ar fod i

ni sy 'n ysprydol feirw wrth natur, gael ein bywhau yn yspryd ein meddwl, ar fod i ni gyfodi o angeu pechod i fuchedd cyfiawnder, yr hyn sy, fel y dywed St. Paul, fywyd a thangnefedd, fel o r diwedd y caffom fywyd tragywyddol. Bid ddiogel a sicr gennych, na roesai Duw mo 'i air i weithio 'r fath effaith, oddi eithr bod yr effaith hon yn gwbl angenrhaid, sef adnewyddiad ein natur, er mwyn i ni gael bywyd ysprydol a bywyd tragywyddol.

II. Ystyriwn y ddau beth rheidiol tu ag at gael adnewyddiad, ac yn ddilynol, tu ag at gael bywyd ysprydol a bywyd tragywyddol, a'r rhai hyn ydynt adnabyddiaeth o Grist, a bywiol grêd ynddo. Ni chrybwyllir yn bennodol am adnabyddiaeth o Grist yn y testyn, ond fe gynnwysir yn yr ymadrodd credu, canys nis gellir credu heb adnabod. Rhaid adnabod Crist yn iawn cyn y gallom gredu yn fywiol ynddo. Fy mrodyr, yr Ysgrythur a amcanwyd i roddi i ni y cyfryw wybodaeth am Grist: a pha wybodaeth ydynt hwy yn ei roddi i ni? Maent yn dysgu i ni mae efe yw Crist Mab Duw: swyddau a natur Crist a gynnwysir dan yr ymadrodd byr yma. Ac am ei gydnabod ef am Grist Mab y Duw byw, y galwyd St. Pedr yn fendigedig gan yr Iesu; a dyma gyffes yr Efnuch wrth Philip, "Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn

Fab Duw;" a'r gyffes yma a dderbyniwyd gan Philip, gan fod yr Efnuch yn credu â'i holl galon, arwydd o'i gyfaddasrwydd i gael ei fedyddio. Fe hyspysir i ni yn addefiad St. Pedr yma, yn gyntaf, mai Iesu yw 'r Crist, neu 'r Messiah, ymadrodd yn arwyddoccau yr enneiniog. Er y dechreuad, sef er yr amser y cwympodd dyn, fe addawsai Duw ddanfon Iachawdwr i'r byd, un a ddistrywiai weithredoedd diafol, ac a agorai ffordd newydd i bechaduriaid edifeiriol at bren y bywyd ac i baradwys Dduw. Hwn oedd i fod yn Brophwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenhin ar ei Eglwys a'i bobl, eu Prophwyd i'w haddysgu, eu Hoffeiriad i aberthu drostynt a chyfryngu yn eu plaid, a'u Brenhin i reoli ynddynt ac erddynt. Yr oeddid dan y ddeddf, yn ol gorchymyn Duw trwy Moses, yn enneinio gwyr i'r swyddau hyn âg olew. A'r Iachawdwr addawedig, er dangos ei fod yntau yn Brophwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenhin, a gyhoeddwyd megis y Crist, neu 'r Messiah, neu 'r enneiniog, yr hyn yw arwyddoccad y gair Crist yn y Groeg, a'r gair Messiah yn yr Hebraeg. Ac fe enneiniwyd ef â'r Yspryd Glan, o'r hyn yr oedd yr olew yn arwydd. Yrwan, mae 'n eglur ac yn amlwg yn yr Ysgrythyr, trwy 'r prophwydoliaethau a gyflawnwyd yn yr Iesu, trwy 'r gwyrthiau a wnaed ganddo, trwy ei a-

ni sy 'n ysprydol feirw wrth natur, gael ein bywhau yn yspryd ein meddwl, ar fod i ni gyfodi o angeu pechod i fuchedd cyfiawnder, yr hyn sy, fel y dywed St. Paul, fywyd a thangnefedd, fel o r diwedd y caffom fywyd tragywyddol. Bid ddiogel a sicr gennych, na roesai Duw mo 'i air i weithio 'r fath effaith, oddi eithr bod yr effaith hon yn gwbl angenrhaid, sef adnewyddiad ein natur, er mwyn i ni gael bywyd ysprydol a bywyd tragywyddol.

II. Ystyriwn y ddau beth rheidiol tu ag at gael adnewyddiad, ac yn ddilynol, tu ag at gael bywyd ysprydol a bywyd tragywyddol, a'r rhai hyn ydynt adnabyddiaeth o Grist, a bywiol grêd ynddo. Ni chrybwyllir yn bennodol am adnabyddiaeth o Grist yn y testyn, ond fe gynnwysir yn yr ymadrodd credu, canys nis gellir credu heb adnabod. Rhaid adnabod Crist yn iawn cyn y gallom gredu yn fywiol ynddo. Fy mrodyr, yr Ysgrythur a amcanwyd i roddi i ni y cyfryw wybodaeth am Grist: a pha wybodaeth ydynt hwy yn ei roddi i ni? Maent yn dysgu i ni mae efe yw Crist Mab Duw: swyddau a natur Crist a gynnwysir dan yr ymadrodd byr yma. Ac am ei gydnabod ef am Grist Mab y Duw byw, y galwyd St. Pedr yn fendigedig gan yr Iesu; a dyma gyffes yr Efnuch wrth Philip, "Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn

Fab Duw;" a'r gyffes yma a dderbyniwyd gan Philip, gan fod yr Efnuch yn credu â'i holl galon, arwydd o'i gyfaddasrwydd i gael ei fedyddio. Fe hyspysir i ni yn addefiad St. Pedr yma, yn gyntaf, mai Iesu yw 'r Crist, neu 'r Messiah, ymadrodd yn arwyddoccau yr enneiniog. Er y dechreuad, sef er yr amser y cwympodd dyn, fe addawsai Duw ddanfon Iachawdwr i'r byd, un a ddistrywiai weithredoedd diafol, ac a agorai ffordd newydd i bechaduriaid edifeiriol at bren y bywyd ac i baradwys Dduw. Hwn oedd i fod yn Brophwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenhin ar ei Eglwys a'i bobl, eu Prophwyd i'w haddysgu, eu Hoffeiriad i aberthu drostynt a chyfryngu yn eu plaid, a'u Brenhin i reoli ynddynt ac erddynt. Yr oeddid dan y ddeddf, yn ol gorchymyn Duw trwy Moses, yn enneinio gwyr i'r swyddau hyn âg olew. A'r Iachawdwr addawedig, er dangos ei fod yntau yn Brophwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenhin, a gyhoeddwyd megis y Crist, neu 'r Messiah, neu 'r enneiniog, yr hyn yw arwyddoccad y gair Crist yn y Groeg, a'r gair Messiah yn yr Hebraeg. Ac fe enneiniwyd ef â'r Yspryd Glan, o'r hyn yr oedd yr olew yn arwydd. Yrwan, mae 'n eglur ac yn amlwg yn yr Ysgrythyr, trwy 'r prophwydoliaethau a gyflawnwyd yn yr Iesu, trwy 'r gwyrthiau a wnaed ganddo, trwy ei a-

ddysg, ei fuchedd, ei farwolaeth, a'i adgyfodiad, mai efe yw 'r Crist, neu 'r Messiah, addawedig hwn, ac yn ddilynol, mai efe ydyw 'r Prophwyd, yr Offeiriad, a'r Brenhin mawr ar yr Eglwys. Ni a ddysgwn fod Iesu yn Fab Duw hefyd. Y gwirionedd yma sy berthynol iddo ei hun yn bersonol, y llall, sef ei fod ef yn Grist, a berthyn i'w swyddau. Efe yw Mab Duw, yr hwn sydd ym mynwes y Tad, a chanddo ogoniant gyd âg ef cyn bod y byd, yr hwn y mae holl angylion Duw yn ei addoli, yr hwn sydd uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd.

Fy mrodyr, dyma ran o adnabyddiaeth neu wybodaeth Crist, a rhan anhepgor-angenrheidiol ydyw hi, er mwyn iawn gredu ynddo, a bod yn gadwedig trwyddo. Cofiwn yn wastad y gwirionedd mawr hwn a ddatguddiwyd mor amlwg yn yr Ysgrythur, nad ydyw 'r Iesu yn ddyn yn unig, ond yn Dduw hefyd, ei fod yn gyfrannog o'r dduwiol cystal ag o'r ddynol anian; ei fod ef, fel yr hyspysir ynghredo St. Athanasius, yn Dduw ac yn ddyn; Duw o sylwedd y Tad, wedi ei genhedlu cyn nâ 'r oesoedd, a dyn o sylwedd ei fam wedi ei eni yn y byd: perffaith Dduw a pherffaith ddyn, o enaid rhesymmol a dynol gnawd yn hanfod. Gogyfuwch â'r Tad, o blegid ei Dduwdod, a llai na 'r Tad,

o blegid ei ddyndod. Yr hwn er ei fod yn Dduw ac yn ddyn, nid ydyw efe ddau, ond un Crist. Dyma 'r wybodaeth at ba un yr amcanwyd yr Efengyl i'n harwain; y wybodaeth yma a ofynir ynddi fel y cam neu 'r radd gyntaf at gael bywyd ysprydol a thragywyddol; ond y cam cyntaf yn unig ydyw; mae un arall, sef ffydd fywiol yn Nghrist Iesu. Yr wyf yn ei galw hi yn ffydd fywiol, i'w gwahanu oddi wrth ffydd farw, ddiffrwyth, a diles; i'w gwahanu oddi wrth y wâg broffes sy heb weithio dim ar y galon a'r fuchedd; i'w gwahanu oddi wrth yr hyder disail a rhyfygus y mae dynion ehud yn fynych yn ei gam-gymmeryd am ffydd iachus; i'w gwahanu oddi wrth gydsyniad y deall âg athrawiaeth yr Ysgrythur, ar ba gydsyniad y mae llaweroedd yn ymfoddloni heb i'w ffydd gyrhaedd y galon, ac felly yn eu twyllo eu hunain er mawr berygl i'w heneidiau.

Fy mrodyr, mae rhagoriaeth rhwng y ffydd at ba un y mae gair Duw yn eich cyfeirio a'r holl bethau hyn. Bid sicr mae proffes o'r gwirionedd ydyw hi, ond teimlad a phrofiad hefyd ydyw hi o'r effaith fywus: cydsyniad y deall â'r gwirionedd ydyw hi yn ddi-ddadl, ond cydsyniad y galon hefyd, yr hyn sy lawer ychwaneg, llawer gyd â chydsyniad y pen neu 'r dealltwriaeth. Ffydd gadwedigol sydd egwydd-

or fywiol yn yr enaid, ac nid ydyw hi yno ychwaith wrth natur, hedyn oddi uchod ydyw hi, peth goruwch-naturiol ydyw hi, peth a blannir yno gan Yspryd Duw yn unig, ni ddichon un Hanfod arall na 'i phlannu na gwneuthur iddi brifio a ffrwythloni, ond Duw trwy ei ogyd-dragywyddol Yspryd. Dyma 'r ffydd at ba un yr amcanwyd yr Ysgrythur i'n tywys, ffydd yr hon a weithreder yn y galon trwy 'r un gallu ag a gyfododd Iesu Grist o feirw; ffydd yr hon yw gweithred a rhodd Duw; Duw sydd yn ei rhoddi ac yn ei bywhau ynom; ffydd ydyw hi yn dyfod oddi wrth yr ymsyniad ar ein pechadurusrwydd y mae 'r Yspryd yn gyntaf yn geni ynom, ac oddi wrth hyder y dichon Iesu Grist, at ba un y mae 'r Yspryd a'r gair yn ein cyfeirio, ein hachub ni a'n gwared. Dyma 'r ffydd angenrhaid er iechydwriaeth, ac a gaffer trwy erfynion, a gwrando, a darllain, ac arfer â moddion grâs. Bid atgof gennym mai o'r dechreu i'r diwedd rhodd Duw ydyw bywyd tragywyddol; y diben a drefnwyd ac a roddwyd yn rhad trwy Iesu Grist; pob cam a droediom at y diben hwn, ei Yspryd yw ein harweinydd, oddi wrtho ef y mae gwybodaeth am Grist yn dyfod, ac oddi wrth ei ysprydoliaeth y mae bywiol ffydd yn tyfu yn y galon. O Dduw y mae ein hiechydwriaeth yn deilliaw,

ei ddawn ef ydyw pob peth perthynol iddi, i'r bywyd ysprydol a thragywyddol. Dywedais mae 'r ddau beth anhepgorol angenrhaid tu ag at ein bywyd ysprydol a thragywyddol ydyw gwybodaeth am Grist yr Iachawdwr, a ffydd fywiol ynddo: yrwan, yn

III. Ystyriwn yr angenrheidrwydd o'r ddau beth hyn. Yr angenrheidrwydd sydd amlwg oddi wrth hyn, sef nad oes foddion eraill i gael bywyd: rhaid adnabod Crist, o herwydd mai efe yw 'r unig Iachawdwr, y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd; yr unig sylfaen a osododd Duw yn Sion; y mae ei enw, ei briodoliaethau, a'i swyddau yn dangos hynny. Ei enw Iesu sy yn arwyddoccau mai meddyg eneidiau dynion ydyw ef, canys ystyr ei enw Iesu ydyw un yn iachau; Crist, neu 'r enneiniog, Mab Duw, Oen Duw, Emmanuel, neu Duw gyd â ni, Duw yn ymwisgo yn ein naturiaeth, er ein cadwedigaeth. A'i swyddau y teilyngodd eu cymmeryd arno, ydynt i'r perwyl yma: yn ei swydd megis Prophwyd, y mae ef trwy ei air a'i Yspryd yn dysgu i ni ffordd y bywyd tragywyddol a llwybrau heddwch; yn ei swydd megis Offeiriad, gwnaeth iawn dros ein pechodau trwy ei aberthu ei hun yn ein lle, a ynnillodd gynnorthwy 'r Yspryd i ni, a hawl yn y nef; yn ei swydd megis Brenhin, y mae yn llywod-

raethu arnom, ac yn darostwng ein gelynion dan ei draed, pechod a diafol, ac yn ddiwaethaf angeu, nes o'r diwedd y cymmer ei etholedigion gorfoleddus i'w deyrnas yn y nefoedd. A thrwy gysylltiad y ddwyfol a'r ddynol anian y mae yn gallu perffeithio a dwyn i ben ei orchwyl gogoneddus a graslonaf. Nis gallai un Iachawdwr arall namyn ef fod yn gymmwys i'n hachos a'n cyflwr, bod yn aberth cymmwys drosom, a haeddu nefol wynfyd i greaduriaid gynt yn golledig. Ond nid digon fyddai i ni adnabod ei briodoliaethau digonol, rhaid i ni, er mwyn bod yn gadwedig, gredu â ffydd fywiol ynddo ef: hynny a hyspyswyd yn eglur yngair y gwirionedd, ac y mae 'n rhesymmol, gyd a'i fod yn angenrheidiol: cymmerwch y geiriau sy 'n canlyn yn dystiolaeth sicr am y gwirionedd hwn, "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol; a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd, canys y mae digofaint Duw yn aros arno."—Ioan iii. 36.

Y mae 'r ffydd y bum i yn ei darlunio i chwi, y ffydd fywiol, gywir, yn angenrhaid er cael bywyd trwy Grist, o herwydd mai trwy ffydd y cysylltir ni âg ef, ac y ceir i ni hawl ynddo. Heb y fath gysylltiad trwy ffydd, yr hyn y mae yr Yspryd yn ei gael i'r ffyddloniaid, ni achubid ni trwyddo ef, heb hyn nid oes gennym berthyn-

as iddo, ac ni fydd dim o'r breintiau a'r rhagorol wynfyd a brynodd ef trwy ei haeddol ddioddefiadau, ddim yn eiddo i ni. Breintiau ydynt yn perthyn i'w bobl a gyfunir âg ef trwy ffydd. Nid oes gan yr anffyddloniaid ddim a wnelont âg ef: hyd yn hyn, y maent yn neulltuol oddi wrtho ef, yn ddieithriaid trwy angrhediniaeth, nid oes ganddynt ran na chyfran yn y gorchwyl hwn. Crist yw 'r gwreiddyn, neu 'r winwydden, trwy 'r hwn yn unig y daw bywyd i'r cangennau. Ond yr enaid sydd heb gredu ynddo, sydd fel cangen wedi ei gwahanu oddi wrth y gwreiddyn, ac felly nid oes bywyd ynddi: trwy ffydd, a ffydd yn unig, y dichon yr enaid fyw. "Y pethau hyn," gan hynny, "a ysgrifenwyd fel y credoch mai Iesu yw Crist Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef."

Fy mrodyr, wrth gymmwyso 'r athrawiaeth hon, athrawiaeth y fwya pwysfawr a all fod, mi ewyllysiwn, trwy gymmorth yr Yspryd Glan, ei gosod hi yn amlwg o flaen cydwybod pob un o honoch, fel y barnoch yn ddiduedd am eich cyflwr ysprydol. A ddarfu i chwi ddeunyddio 'r Ysgrythur i'r perwyl yr amcanwyd hi? a ydyw eich gobaith yn dda ei sail yr ewch chwi ar eich hymadawiad oddi yma i wynfyd nef? Y mae, yn wir, yn dda ei sail, os

oes gennych yr awrhon fywyd ysprydol ynoch, os ydych yn wir-gredu yn Nghrist, yn byw megis yngolwg Duw, yn hyfryd gennych ei wasanaeth, ac á'ch holl galon yn ei hoffi ef, ac yn ceisio ei ogoniant, os ydych ymhob cystudd a chyfyngdra yn ymgysuro yn ei nawdd ef ac yn ei addewidion graslonaf, yn prisio ei ffafr ef uwchlaw pob trysor bydol, yn gweddio arno am gynnydd grâs ac am bob peth daionus, yn enw ei Fab,—bydded ddiogel gennych eich bod mewn ystad grâs. Byddwch chwithau ffyddlawn, canys ffyddlawn ydyw ef a'ch galwodd: ni âd ef monoch, y mae ei ddaioni a brofasoch gymmaint hyd yn hyn yn gwarantu hynny, oddi eithr i chwi gilio yn ol i golledigaeth. Gweddiwch ar Dduw, yn enw ei Fab, am barhaus gymmorth yr Yspryd Glan; deunyddiwch y grâs a rodder i chwi, byddwch ddianwadal a disigl yn y ffydd, a helaethlawn ymhob gweithred dda. Fy mrodyr, gwir ewyllys a dymuniant fy nghalon a'm gweddi ydyw, ar i chwi oll dreulio y fath fywyd ysprydol, ar fod i Grist breswylio ynoch yn oludog ymhob doethineb a daioni; ïe, tyred, Arglwydd Iesu, i galonnau y bobl hyn, teyrnasa trwy dy Yspryd ynddynt, fel y byddont fyw i ti yn y byd trangcedig hwn, a chyd â thi yn y nesaf, yn oes oesoedd.

PREGETH XVII.

GOBAITH.

Esay xxv. 9.

A'r dydd hwnnw y dywedir, Wele, dyma ein Duw ni; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw: dyma yr Arglwydd; gobeithiasom ynddo, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth ef.

YN rhag-weled, trwy ysprydoliaeth, ddyfodiad y Messiah, y mae 'r Prophwyd sanctaidd yn dechreu 'r bennod â llefain ddefosiynol, "O Arglwydd, fy Nuw ydwyt." Dedwydd yw 'r sawl a fedrant ddywedyd fel hyn mewn gwirionedd, a fedrant edrych i fynu tu ar nef gyd â hyder gostyngedig a dywedyd, "O Arglwydd, fy Nuw ydwyt, dyrchafaf di, molianaf dy enw, canys gwnaethost ryfeddodau; dy gynghorion er ys talm sydd wirionedd a sicrwydd." Y mae 'r ymadrodd, y dydd hwnnw, yn bwrw at ddau ddyfodiad Crist, at ei ymddangosiad cyntaf yn y cnawd, a chyhoeddiad ei Efengyl yn Jerusalem, pryd y gwnaeth Ar-

glwydd y lluoedd wledd o basgedigion i'r holl bobloedd, h. y. cynnygiad o rås goludog: y mae 'n bwrw hefyd at beth pwysfawr arall, sef ei ail-ddyfodiad, pryd y llwngc efe angeu mewn buddugoliaeth, ac y sych y dagrau oddi ar bob wyneb, ac a dynn ymaith warthrudd ei bobl oddi ar yr holl ddaiar. Yn yr ystyr cyntaf, sef ei ymddangosiad yn y cnawd, y mae 'r Prophwyd yn darlunio 'r hyfrydwch â pha un y gwnai 'r ffyddloniaid yn y dyddiau hynny, sef yr amser y ganwyd y Messiah, groesawu amlygiad Crist ar y ddaiar; a chyd â'r cyffelyb foddlonrwydd y mae 'r ffyddloniaid ymhob oes yn croesawu amlygiad gallu Crist yn eu calonnau sy yn eu gwneuthur yn abl i lefain, "O Arglwydd, fy Nuw ydwyt." Yn yr ail ystyr, y mae 'r ymadroddion yn dangos ymha fodd y gwna pobl Dduw dderbyn ail-ddyfodiad ein Harglwydd, "pan ddêl ef," fel y dywed St. Paul, "i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sy 'n credu." Gyd â llygaid hiraethus a breichiau estynedig hwy a groesawant ei ddyfodiad gogoneddus, âg un galon hwy a gyd-dorrant allan mewn llef gorfoledd, "Dyma ein Duw ni; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw: dyma yr Arglwydd; gobeithiasom ynddo, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth ef." Y fath fydd llafar-gâu,

gwaredigion yr Arglwydd, gyd â'r cyfryw hyder y dyrchafant eu pennau; a phwy ni ewyllysiai uno gyd a hwy yn y gân yma? pwy ni chwennychai gyfrannu o'r gorfoledd, a dyrchafu ei ben gyd a hyder cyffelyb? Ond ni thal ewyllysion, er dwysed. Er mwyn bod yn gyfrannogion o wynfyd a breintiau 'r saint, rhaid bod gennych eu cynheddfau, rhaid i chwi feddiannu yr un hawl i fod yn hyderus y pryd hwnnw ag y maent hwy yn meddiannu: sail eu hyder hwy ydyw gwybod fod ganddynt hawl yn Nghrist, ddarfod iddynt gael yr hawl yma trwy ddisgwyl am dano. Yn nyddiau eu cnawd hwy a edrychent at Grist megis eu Duw a'u Hiachawdwr, yr oeddynt yn byw mewn disgwyliad o'i ymddangosiad, fe ddarfu iddynt ymbarottoi erbyn ei ail-ddyfodiad; ac o herwydd hynny y byddant yn dyrchafu eu pennau gyd a llawenydd, o herwydd hynny y llawenychant yn ei iechydwriaeth ef. Wrth drin y testyn yn yr ail ystyr yma, mi ddangosaf,

I. Na rydd dim i ni wir orfoledd a hyder ar ddydd y farn, ond gwir hawl yn Nghrist.

II. Na fydd gan neb wir hawl yn Nghrist Iesu, ond y sawl sy yn awr yn disgwyl am dano.

Yn sicr iawn ni rydd dim wir hyder i ni ddydd y farn, ond gwir hawl yn Nghrist; ac mi allaf

chwanegu, er nid ydwyf ar fedr helaethu ar y pwynt, na fedr dim arall roddi i ni foddlonrwydd parhaus hyd yn oed yn y bywyd hwn. Yn ddiau, y mae amryw bethau yn difyrru meddyliau dynion ar brydiau, casglu golud, dyrchafu eu teuluoedd, meluswedd, mawredd bydol, a chlod; ond ni wna 'r holl bethau hyn monynt yn gwbl ddedwydd hyd yn oed yn y byd hwn. Ond bwriwch eu bod yn lled esmwyth yn awr, pá sutt y clywant arnynt eu hunain ddydd y farn? a ddyrchafant hwy y pryd hynny eu pennau â llawenydd? a wna 'r pethau hynny a gyfrifent gynt yn fwya gwerthfawr, roddi iddynt yr amser hwnnw gysur a chymmorth? Pan welont Fab y dyn yn y cymmylau gyd a gallu a gogoniant mawr, pan glywont yr udgorn yn deffroi 'r meirw, pan deimlont y ddaiar yn pallu dan eu traed, y nefoedd yn diflannu, yr elfennau yn toddi gan wir wres; O! a fydd hi y pryd hwnnw yn bleser ganddynt alw i'w cof cymmaint golud y darfu iddynt hel at ei gilydd, neu mor uchel eu gradd oeddynt, neu gymmaint oedd y byd yn eu canmol, neu y meluswedd y darfu iddynt fwynhau yn eu byr amser ar y ddaiar? a lawenychant wrth feddwl mor llwyddiannus y buont yn trin y byd hwn, mor ffortunus y bu eu plant, mor llawen y treuliasant eu hamser? Ow! ni ddwg y fath goffa-

dwriaeth ddim diddanwch y pryd ofnadwy hwn. Yn wir byddant oll wedi darfod; un peth yn unig a fydd bresennol i'w meddyliau un peth yn unig yn wiw ganddynt feddwl am dano. Dydd mawr y cyfrif a ddaeth: sutt y medraf ei gyfarfod? a faddeuwyd fy mhechodau? ydwyf fi mewn cymmod â Duw? a ddarfu i mi gredu ynddo ef yr hwn a groeshoeliwyd, ac felly a estynodd ei ddwylaw fel nofiedydd, ac a ddarfu i mi ddwyn tystiolaeth o'r ffydd yma yn fy muchedd? Y sawl a fedrant foddloni eu cydwybod wrth ymchwilied felly, hwy allant hyderu fod ganddynt hawl yn Nghrist. Ynddo ef yn unig y mae maddeuant i'r pechadur; ynddo ef yn unig, trwy ei waed a'i gyfawnder, y mae Duw yn Dduw trugarog a thosturiol; trwy ffydd yn unig yn yr Iesu y ceir hawl yn ei waed a'i gyfiawnder. Y mae rhai, gormod ysywaeth, yn gwneuthur yn ysgafn o iechydwriaeth trwyddo ef; rhy feilchion i ganfod eu diffyg a'u pechodau, ni ymofynant am ryddhad oddi wrthynt: o herwydd nad ydynt yn rhedeg i'r unrhyw ormodedd pechadurus ag amryw rai, neu o ran eu bod yn ddiniwaid neu yn hynaws eu natur, y maent yn meddwl eu hunain ddigon haeddol, ac ydynt yn ddeillion i ganfod eu hamrafael feiau a phechodau sy heb eu dileu trwy waed Crist a'i Yspryd. Ond er

yn awr yn esmwyth a difeddwl, pa sutt y teimlant ddydd y farn? yna eu camsyniad a dderfydd, yr orchudd a osododd balchder o flaen eu llygaid a dynnir ymaith oddi arnynt, oferedd eu gobaith annuwiol a fydd yn amlwg iddynt eu hunain; hwy a ganfyddant fod Crist oll yn oll, a bod hawl ynddo ef yn fwy gwerthfawr na deng mîl o fydoedd. Hwy a lefant y pryd hwnnw, Pettasai gennym yr hawl yma ynddo, mor hyderus y gallasem sefyll o'i flaen, mor llawen y gallasem ddyrchafu ein pennau: wedi ein golchi yn ei waed, a'n dilladu â'i gyfiawnder, yn lle bod mewn braw rhag ei ddyfodiad, yn lle bod mewn arswyd fel hyn ar ei ymddangosiad, yn lle crynu ger ei fron, gallasem groesawu ei ddyfodiad â chaniadau gorfoleddus, a llawenychu ynddo megis ein Prynwr. Fel hyn, y pryd hwnnw, y bydd i'r anedifeiriol a'r annuwiol, o'u hanfodd, gydnabod mai hawl yn Nghrist yw 'r unig sylfaen gorfoledd a hyder ddydd y farn.

II. Ystyriwn na fydd gan neb hawl yn Nghrist Iesu y pryd hwnnw, ond y sawl a fyddont wedi gobeithio, neu, yn ol y cyfieithiad Saesonaeg, wedi disgwyl am dano a'i ddyfodiad. Y mae 'r ymadrodd disgwyl am Grist a'r cyffelyb yn aml yn y Testament Newydd megis yn nôd y gwir Grist'nogion: dywedir eu bod

yn disgwyl am y Mab o'r nef, eu bod yn disgwyl am ymddangosiad gogoneddus eu Duw a'u Hiachawdwr; a'n Hiachawdwr sy 'n cynghori ei ddisgyblion i fod yn gyffelyb i rai yn disgwyl am eu Harglwydd: ac felly yn y testyn y darlunir y saint megis yn disgwyl am eu Hiachawdwr yn nyddiau eu cnawd. Y mae disgwyl fel hyn am yr Arglwydd yn cynnwys amryw bethau:

1. Disgwyl am Grist sy 'n arwyddoccau crêd gadarn y daw ef eilwaith, a chrêd am ganlyniadau mawr ei ddyfodiad. Y mae 'r gwir Gristion yn rhodio trwy ffydd, ac nid wrth olwg; yn credu yr hyn a ddatguddiwyd yngair Duw, y mae 'n wir-gredu y daw Crist i'n barnu: tra bo rhai yn gofyn yn gableddus ac yn annuwiol, Lle y mae addewid ei ddyfodiad? y mae ef yn ei gymmeryd am wirionedd sicr y daw dydd yr Arglwydd: nid ydyw 'n ammeu ddim mwy y datguddir yr Arglwydd, ar yr amser gosodedig, o'r nef mewn fflam dân i ddial ar ei elynion, na phettasai 'r awr ofnadwy wedi dyfod, a'r Iesu yn weledig yn y cymmylau. Ffydd sy 'n peri iddo edrych tu hwnt i'r yspaid amser a êl heibio cyn ei ddyfod, ac i edrych ar ei ddyfodiad megis yn bresennol. Ond ffydd, heblaw ei bod yn canfod pethau anweledig megis yn weledig, a phethau pell megis yn agos, sy ganddi

gynneddf arall, sef ei bod yn gweithio 'n effeithiol ar y galon: egwyddor fywiol ydyw hi, a sanctaidd; y mae hi yn cynhyrfu dynion i geisio 'r pethau y mae hi yn dangos eu bod yn ddymunol, er o'r golwg, ac i ochel y pethau drwg a ddatguddiwyd eu bod i ddyfod ryw bryd ar y drygionus.

2. Y mae disgwyl am Grist, gan hynny, yn arwyddoccau nid yn unig grêd ddisigl o'i ddyfodiad, ond parottoad hefyd erbyn y pryd hwnnw. Y mae 'r gweinidog sy 'n disgwyl am ei Arglwydd nid yn unig yn disgwyl y daw ef, ond yn ymegnio i fod yn barod erbyn y delo. Fe ddarfu i'r morwynion call, y rhai oeddynt yn disgwyl am ddychweliad y priod-fab, gymmeryd olew yn eu lampau ac yn eu llestri hefyd, fel y byddent barod, deled yr awr a fynnai, i fyned gyd âg ef i'r wledd briodas. A'r rhai hynny a ddarlunir yn y testyn megis wedi bod yn disgwyl am eu Duw, oeddynt yn sicr yn ymbarottoi ar y ddaiar erbyn ei ddyfodiad. Chwiliwn, ynteu, beth yw 'r parottoad yma. Pwy yw 'r rhai hynny sy 'n awr yn ymbarottoi erbyn y delo 'r barnwr mawr? Y sawl ydynt hwy sy 'n byw trwy ffydd ynddo ef, y sawl, gan gydnabod eu mawr wendid a'u pechadurusrwydd, ydynt yn ceisio ganddo ef faddeuant a nerth. Y gwir Gristion ydyw hwnnw (fy

mrodyr, sylwch ar y nodau,) sy wedi ymwrthod â phechod yn ei galon, ac â ffyrdd pechod yn ei fuchedd, er hynny yn cydnabod ei hun yn bechadurus ac yn ddiffygiol, yn cydnabod ei fod wedi gwneuthur amrafael bethau na ddylasai, a gadael aneirif o bethau dyledus heb eu gwneuthur, ac nad oes iechyd ynddo: y mae'n llefain fel y Publican edifeiriol, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur," tra byddo 'r un amser yn dyfod at waed Crist i'w olchi oddi wrth euogrwydd pechod, ac i buro ei gydwybod oddi wrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu 'r Duw byw. Trwy Grist yn unig y mae 'n dyfod yn hyderus at orsedd grâs, arno ef y gosodwyd ei obaith, oddi wrtho ef y mae ei lonyddwch a'i lawenydd yn deilliaw, ar Grist yn unig y mae 'n ymgynnal am râs i wneuthur ei galon yn dda ac yn sanctaidd, ac i fod yn abl i orchfygu 'r diafol, y byd, a'r cnawd. Am y rhad yma mae 'n gweddio beunydd, ac yn ceisio ei chwanegu trwy ddyfal ymarfer â'r moddion gosodedig oll. Y cyfryw yw 'r gwir Gristion: y mae 'n byw trwy ffydd yn Nghrist, yn credu y daw ef, a thrwy ffyddlawn ufuddddod i'w orchymynion, ac yn hyderu ar ei gyfiawnder ef am dderbyniad, y mae 'n ymbarottoi yn egniol erbyn y delo ef.

3. Gellid chwanegu un gynneddf arall a gyn-

nwysir yn yr ymadrodd disgwyl am yr Arglwydd a'i ddyfodiad, hynny yw, amyneddgar barhad yn gwneuthur daioni. Y mae gwir ddisgyblion Crist, nid yn unig yn credu y daw ef, ac yn ymbarottoi, y maent hefyd yn disgwyl mewn amynedd am ei ddyfodiad. Nid ydynt yn anfoddloni dan eu profiadau, nag o herwydd y gwasanaeth a ofynnir ganddynt; y maent yn foddlon i ddioddef pwys a gwres y dydd. Ond hwyrach eu bod yn nychu dan glefyd, neu yn dlodion, neu 'n cael anghlod anhaeddol; ewyllysient wyrach gael terfynu ar eu profiadau; ond y maent yn gadael yr amser a'r moddion ar law Duw, tra bo eu gobaith a'u ffydd yn eu cynnal. Y mae 'n atgof ganddynt hefyd gyhyd y bu 'r Arglwydd yn disgwyl am eu hedifeirwch hwy, ac ni fedrant hwythau amgen nag aros ewyllys da yr Arglwydd. A dybiant hwy 'r amser yn hir i ddisgwyl wrth Grist am ei help i'w cymmorth, ac ynteu wedi disgwyl gyhyd amser wrthynt hwy? Ni wnant felly, ond llefant, Nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di a wneler; yn ol dy ddoethineb ymddwg tu ag attom, pa un bynnag ai ysgafnhau ar ein dioddefiadau ai peidio; ni a ymddiriedwn ynot ti, gan fod yn sicr iawn y troir ein dioddefiadau yn llawenydd ar dy ddyfodiad di i farn, y pryd yr ydym yn gobeithio ac yn disgwyl am dano.

Amlwg yw, gan hynny, nodau 'r gwir Grist-'nogion : y maent yn credu 'n ddiysgog y daw Crist yn farnwr ; ac yn credu hyn, y maent trwy râs yn ymbarottoi erbyn y delo, y maent hefyd yn ddirwgnach ac yn amyneddgar yn parhau 'n ffyddlawn hyd y diwedd. Y rhai'n yw y sawl sy 'n disgwyl am yr Iesu ; ganddynt hwy, a hwy yn unig, y mae hawl yn Nghrist, canys hwy yn unig sy 'n gwir gredu ynddo, yn ei wasanaethu a'i anrhydeddu, ac yn ufuddhau iddo mewn gwirionedd. A phan ddelo eu Hiachawdwr ddydd y farn, mawr fydd eu gorfoledd a mawr eu llawenydd, hwy a lefant, "Wele ein Duw ni ; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw." Ond y rhai oll sy heb fod yn gyffelyb Grist'nogion, hwy a fyddant yn llawn o gywilydd ac o fraw ar ei ddyfodiad ; canys hwy a wyddant nad eu Duw hwy ydyw ef, na ddarfu iddynt obeithio ynddo na disgwyl am dano ar y ddaiar, na chredu 'n ddiffuant y deuai ef i'w barnu ; ni wnaethant eu hunain yn barod erbyn ei ddyfodiad ; yr oeddynt yn caru 'r byd, yn ufuddhau i'w chwantau, yn rhoddi 'r rhwysg i bechod, neu 'n cyfrif eu hunain yn berffaith gyfiawn ; nid oeddynt yn prisio Crist a'i gyfiawnder, nid oeddynt yn ceisio hawl yn ei waed i olchi ymaith eu haflendid, ni weddient am râs i buro eu calonnau halogedig, nid oedd ef

yn eu meddyliau er dim pwrpas effeithiol; a pha sutt ynteu y dioddefant ei bresennoldeb? pa hyder a fydd ganddynt pan ymddangoso ef? a lawenychant hwy a gorfoleddu yn ei iachawdwriaeth? O nid ydyw 'n bosibl i hynny fod. Hwy a fyddant yn orchuddiedig â chywilydd a dychryn, safant yn fud o'i flaen ef, chwennychant, ond chwennych yn ofer a wnant, i'r mynyddoedd a'r creigiau syrthio arnynt a'u cuddio rhag llid yr oen.

O, fy mrodyr, ydych chwi yn disgwyl am Grist? ydych chwi yn credu mewn gwirionedd y daw efe? ydych chwi yn ymbarottoi erbyn y delo, ac felly yn gallu gobeithio am dano? Pe deuai efe yr awrhon, tra 'r ydwyf yn pregethu i chwi, ymha gyflwr y cai ef chwi, feddyliech? a fedrech chwi ddywedyd wrtho yn hyderus, er yn ostyngedig, Fy Nuw i ydwyt, fy Nuw yr hwn yr oeddwn yn ei addoli, yr Iachawdwr yr hwn yr ymddiriedais ynddo? a fedrech chwi ddywedyd wrtho ef yr hwn sydd yn chwilio 'r galon, Gobeithiasom am danat? Os ar ol gofyn y cwestiwnau hyn, eich calon a'ch condemnia, O ystyriwch y perygl anferthol yr ydych ynddo; ystyriwch yr awrhon, tra bo amser gennych: gwnewch eich galwedigaeth a'ch hetholedigaeth yn sicr, tra galloch; ceisiwch fod yn gydnabyddus âg Iesu Grist, ceisiwch ei

adnabod ef a grym ei Efengyl. Os bydd gennych wir wybodaeth o hono, ac o rinwedd ei râs, chwi a ellwch groesawu ei ddyfodiad â gorfoledd. Y mae efe yn agos at y sawl oll sy 'n galw arno, y mae 'n sefyll wrth ddrws y galon ac yn curo am dderbyniad. O derbyniwch ef eich Duw a'ch Brenhin: efe, yr hwn sy 'n disgwyl i fod yn Iachawdwr i chwi, a ddaw ryw bryd yn Farnwr: os gwnewch chwi yn awr gredu ac edifarhau, efe a edrych arnoch chwi y dydd hwnnw gyd â boddlonrwydd, a chwithau a'i canfyddwch ef gyd âg hyfrydwch mawr. Duw a ganniattao ar fod i chwi ymbarottoi yn y cyfryw fodd. A chwychwi sy 'n gobeithio am dano, a chennych sail dda i'ch gobaith, cofleidiwch y gobaith hwn yn awyddus; deliwch eich hyder yn gadarn hyd y diwedd; na ddiffygiwch yn gwneuthur daioni; ceisiwch gynnyddu fwy-fwy beunydd mewn grâs, a phrofiadol wybodaeth am Iesu Grist; ac felly ar ei ddyfodiad, chwi a'i cydnabyddwch ef am eich Duw, ac yntau a'ch cydnebydd chwithau am ei etholedigion.

PREGETH XVIII.

CARIAD.

St. Luc x. 37.

Dos, a gwna dithau yr un modd.

UN peth a fwriadwyd gan ein Hiachawdwr yn traethu 'r ddammeg yma, allan o ba un y cymmerwyd y testyn, oedd dangos fod pob dyn sy mewn eisiau o'n cymmorth, yn lle cymmydog i ni. Yr oedd yr Iuddewon yn gaeth iawn yn eu meddwl ar y testyn yma; yn tybied ei bod hi yn llawn ddigon iddynt garu y rhai o'r un grefydd ac o'r un genedl, ond am eraill, yr oeddynt yn eu cyfrif yn anheilwng o'u hewyllys da a'u cymmwynas. Yr Iuddewon llygredig wrth yr enw cymmydog a ddeallent eu cyfeillion a'u ceraint, eu brodyr wrth natur, eu cymmydogion yn trigo yn agos attynt, a rhai o'r un grefydd. Ein Hiachawdwr, trwy 'r ddammeg yma, a'u dysgodd bod dieithriaid ac estroniaid, ac hyd yn oed gelynion, ïe, pob dyn mewn eisieu o'n cymmorth a'n trugaredd, i'w

cyfrif ac i'w hedrych arnynt megis ein cymmydogion. I ddangos ac i wneuthur hyn yn amlwg, y mae 'n Hiachawdwr bendigedig yn traethu ar ddammeg hanes Iuddew a syrthiasai ymysg lladron, ac wedi ei yspeilio, a'i archolli, ac yn druenus iawn ei gyflwr, a gafodd ei esgeuluso gan ei gyd-wladwyr, a'i adael yn ddigymmorth; ond Samariad, un o'r bobl oedd mewn cymmaint gelyniaeth â'r Iuddewon o achos crefydd, nad oeddynt yn gwneuthur y cymmwynasau lleiaf i'w gilydd, (yn gymmaint a bod y wraig o Samaria yn rhyfeddu ddarfod i'n Hiachawdwr, ac yntau yn Iuddew, ofyn dwfr ganddi,) y Samariad, meddaf, wrth fyned y ffordd honno, a'i gwelodd ac a dosturiodd wrtho; fe aeth yn feddyg iddo gan dywallt olew i'w archollion, fe ddangosodd ei hun yn wir gymmydog iddo gan ei ddwyn i letty, yn cymmeryd gofal ei hun o honaw, ac yn addaw talu i'r llettywr beth bynnag a dreuliai yn ychwaneg o'i achos. Dyma siampl o wir gariad Crist'nogol, frodyr; a chyn dangos i chwi modd y portreiedir ein Hiachawdwr bendigedig, y Samariad da a dosturiodd wrthym ni pan adawsid ni yn ddiymgeledd gan y ddeddf, mi helaethaf ryw ychydig ar yr addysg a geir yn y ddammeg a'r hanes yma ynghylch cariad Crist'nogol i'n cymmydogion, sef i'n cyd-greaduriaid, dyledswydd

bwysfawr iawn ar Grist'nogion, heb ba un nid yw ein ffydd ond marw, a diffrwyth, a diles. Canys, deliwch sylw, er mai un diben o'r gyfraith foesol, cystal ac o'r seremoniau, oedd ein dwyn at Grist, trwy ddangos i ni nad ydyw 'n bosibl i ni gyfiawnhau ein hunain, o herwydd nas gallwn ei chyflawni 'n gwbl ac yn ddi-dor; ond ar ol i ni ddyfod at Grist, a chael ein cyfiawnhau ganddo, a'n cymmorth gan yr Yspryd, rhaid i ni gymmeryd y gyfraith foesol, yn ei phurdeb fel y traethwyd hi gan Grist ei hun, yn rheol i'n buchedd ac yn llusern i'n traed, rhaid i ni ymegnio, trwy gymmorth yr Yspryd, i'w chadw oreu fyth ar a allom, gan gynnyddu beunydd mewn sancteiddrwydd a duwioldeb, heb gleimio dim, ond ymddiried i Grist am dderbyniad, gan gydnabod yn ostyngedig ein haneilyngdod ein hunain. Gan gofio hyn yn wastad, sylwn ymhellach ar yr addysg a roir mewn perthynas i'n dyled tu ag at ein cymmydog: dysgwn, ynteu, yn

1. Fod pob un sydd mewn math yn y byd o helbul i'w edrych arno megis ein cymmydog, ac i'w gynnorthwyo gennym hyd lle gallom. Nid dros un genhedl y bu i'n Hiachawdwr bendigedig farw; fe a garodd ddynolryw oll, ac fe amcanodd achub pawb o bob gwlad a dderbynient ei drugaredd yn ffyddlawn. Ninnau a ddylem

hoffi a dangos ewyllys da i bawb, a pharodrwydd i wneuthur pob daioni ar a allom. Os gwnawn felly o gariad iddo ef, gan lesu ein cyd-greaduriaid, er ei fwyn ef, yn eu cyrph ac yn eu heneidiau, ni chollwn mo 'n gwobr.

2. Ni a ddysgwn oddi wrth y ddammeg yma, nad ydyw gwahaniaeth mewn crefydd yn ein hesgusodi rhag gweithredoedd o gariad tu ag at y sawl a fo mewn eisiau o'n cymmorth ac mewn angen. Ein crefydd sy 'n drugaredd i gyd, ac yn gorchymyn pawb i'n tosturi sy mewn trwbl ac yn ddiymgeledd, pa un ai dieithriaid, ai estroniaid, ai paganiaid, ai hereticiaid, ai cyfeillion, ai gelynion, ïe, pa un bynnag ai da ai drwg, duwiol ai annuwiol, rhaid i ni wneuthur daioni i bawb, rhaid i ni yn hyn ddilyn ein Tad nefol, yr hwn sydd yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Peth rhyfedd iawn i feddwl am dano ydyw, nad oes dim yn magu mwy câs a gelyniaeth rhwng pobl na gwahaniaeth ynghylch crefydd; bid sicr gennych fod naill ai balchder, ai elw, neu hunan-gariad, yn brysur ar waith yn y cyfryw achos, canys sutt amgen y medr un dyn gashau un arall o herwydd ei fod yn cymmeryd y ffordd debyccaf yn ei dyb ei hun i safio ei enaid anfarwol? "Ni wyddoch o ba yspryd yr ydych," meddai ein Hiachawdwr

wrth ei ddisgyblion, pan fynnent alw am dân o'r nef i ddinystrio 'r Samariaid ni dderbynient Grist o herwydd fod ei wyneb yn tueddu tu a Jerusalem. Ac felly y gellir dywedyd wrth y sawl sy 'n cashau yn lle gwneuthur daioni i'r rhai sy 'n anghyttun á hwy mewn opiniwnau crefyddol, ac nid wyrach ar bwyntiau disylwedd ddigon, ar bwyntiau ni fedr synwyr dyn ddibenuu 'r ymrafaelion yn eu cylch. Yr oedd y disgyblion, yn wir, er yn euog o yspryd dialgar a chreulon, yn fwy esgusodol mewn rhan, o herwydd iddynt hwy gynhyrfu wrth weled eu Meistr nefol yn cael ei wrthod a'i ddirmygu; ond, ysywaeth, y mae Crist'nogion yn creuloni wrth eu gilydd, nid o amharch a ddangoswyd i'w Hiachawdwr, ond o achos bod eraill yn esponio rhai o'r ymadroddion nid yn yr un ystyr á nhw, er nid hwyrach yn gyttun mewn pwyntiau sylweddol. Fy mrodyr, ni ddylai hyn mo'r bod, y mae 'n groes i dangnefeddol yspryd yr Efengyl; gellid ei dybied yn zel, ond zel heb wybodaeth ydyw ef yn aml, ac yn sicr iawn heb gariad; gan hynny, dylid edrych yn graff ar ein calonnau, a cheisio trwy gymmorth yr Yspryd Glan ddatwreiddio malais a phob egwyddor ddrwg allan o honynt, a'u llenwi o'r yspryd nefol oedd gan y Samariad da yn y ddammeg. O ddyn, da y gwneir yn tosturio

wrth y sawl yr wyt yn tybied eu bod mewn tywyllwch ac amryfusedd; da y gwneir, os wyt yn ceisio mewn arafwch a charedigrwydd eu dychwelyd oddi wrth eu cyfeiliorni, canys peth dymunol iawn ydyw fod undeb crefyddol yn nheulu Crist; ond na ddigia wrthynt, na chreulona, o herwydd Duw sydd i'w barnu, a nhw eu hunain sydd i sefyll ac i atteb o flaen eu barnwr am eu gweithredoedd ac am eu opiniwnau. Os clywi dy hun yn cyffroi o ddigofaint tu ag attynt, mae lle i ti ofni ddarfod i'r gelyn mawr dy dwyllo i feddwl fod gennyt zel, tra 'r oedd balchder, neu chwant i elw, neu natur ddrwg yn dy gynhyrfu. Ond digon bellach ar y pwngc yma. Yr Arglwydd a roddo i ni oll râs i deimlo ac i ymsyniad yn gywir yn yr achos yma, fel y Samariad da.

3. Ni a ddysgwn oddiwrth y ddammeg yma fod gwir Grist'nogol gariad yn rhinwedd a'n rhydd ni yn brysur ar waith. Nid yw 'n ymfoddloni ar eiriau tosturiol yn unig wrth y cystuddiedig mewn galarus deimlad drostynt, ond mewn gweithredoedd hael a chynnorthwyol. Y mae 'r Samariad yn y ddammeg yn siampl o'r rhinwedd odiaeth hon yn ei pherffeithrwydd: dyma fe yn troi ei olwg ar y dynan truan, un o elynion chwerw ei genhedl, dyma ei draed yn prysuro atto, ei ddwylaw yn tywallt olew a

gwin i'w friwiau, ar ol hynny dyma fe 'n ei osod ar ei anifail ei hun, yn ei ddwyn i'r lletty, yn aros gyd âg ef y noswaith honno, a'r boreu wrth ymadael yn gadael arian gyd â'r llettywr, gan ei siarsio i gymmeryd gofal o hono, ac yn addaw talu yn ol iddo faint bynnag y treuliai ychwaneg yn ei achos. Dyma garedigrwydd teilwng iawn i ni ddilyn, caredigrwydd ni cheir mo 'i fath yn gyffredin; ond dyma 'r egwyddor a ddylai weithio ynghalon pob gwir Gristion, ac hebddi ni thâl na gwybodaeth, na phroffes, na zel, nid ydyw 'r cwbl ond fel efydd yn seinio neu symbal yn tingcian. Gan hynny, O ddyn, dos dithau a gwna yr un modd. Os gweli dy elyn yn newynog, portha ef; os yn sychedig, dyro iddo ddiod; gorchfyga ddrygioni trwy ddaioni: os gweli estron yn gystuddiol ac yn gyfyng arno, O na ddos heibio iddo druan, fel y Lefiad anrhugarog, nid hwyrach yn troi ei olwg yn rhagrithiol tu a'r nef wrth fyned heibio, ac yn meddwl ei hun yn rhy sanctaidd i neshau at y fath un; ond dos di a thrugarha wrtho, a gwna gymmaint ar a elli i esmwythau er ei gystudd. Os rhoddi gwpanaid o ddwfr, y gymmywnas leiaf er mwyn Crist, ni cholli dy wobr. Dilyn, gan hynny, O ddyn, y Samariad daionus, a'th Dad nefol a'th wobrwya yn helaeth er mwyn dy Iachawdwr,

Ar ol dangos i chwi rym ȳ siampl odiaeth yma i'ch hannog i weithredoedd da, mi esponiaf y ddammeg yn ysprydol, ac nid yn ol y llythyren. Ac a wyddost ti, O ddyn, pwy a ddarluniwyd gan y truan yma, yr hwn y bum i yn traethu ei hanes i chwi? Dy enaid dy hun, tydi yw'r gwr! Pan oedd ein cyndad Adda yn meddiannu trysor o anfeidrol werth, sef sancteiddrwydd a diniweidrwydd, y diafol a'r angylion, y lladron rhein'y, a'i hyspeiliodd ef a'i holl heppil o'u cyfiawnder, gan eu clwyfo â phechod, a'u rhwymo mewn anwiredd, a'u gadael yn hanner marw, yn llwyr gystuddiedig, ac yn anabl i achub eu hunain. Yn y cyflwr athrist yma, beth a fedrai dyn wneuthur? nis medrai ddywedyd, Mi wnaf y peth a'r peth os gwnei di fy helpu; nis gallai wneuthur dim at ei iechydwriaeth, ond yn teimlo poen a dolur pechod, ocheneidio hyd ei ddeng mlwydd a thrugain, ar y mwyaf, ac yna drengi dros byth. Pan oedd dyn truenus wedi cwympo ac yn gorwedd yn ddi-ymgeledd fel hyn, fe roes yr Arglwydd oruchwyliaeth Moses, yr hyn a ddeallir yn ysprydol wrth fyned heibio o'r Lefiad a'r Offeiriad. Ofer ydyw offrymmau a gweddiau deng mil o offeiriaid, ofer ydyw brasder anifeiliaid, a gwaed ŵyn a hyrddod (portreiadau 'r aberth mawr) i ddileu, o honynt eu hunain, eu-

ogrwydd y pechadur, ac i'w ddwyn yn ol i'w ystad ddedwydd gynt, yn ofer y mae 'r Lefiad yn darllain y gyfraith, ac yn dymuno ar y pechadur godi a gwneuthur y daioni ar a allo, cadw y gorchymynion a rhodio yn holl ddeddf yr Arglwydd. Wrth natur, llygredig fel y mae hi, nid oes ganddo mo 'r gallu, ni fedr wneuthur dim cymmeradwy yngolwg yr Arglwydd, nes ei fywiogi a'i adnewyddu gan yr Yspryd Glan.

Nid hwyrach bod rhai o honoch yn barod i lefain, Myfi yw 'r dyn sy wedi syrthio ymysg lladron, wedi colli fy holl ddiniweidrwydd a'm cyfiawnder, wedi fy nghlwyfo yn ddwys a'm gadael yn ddiymgeledd; yr wyf wedi ymddieithrio oddi wrth fuchedd Dduw, ac yn hanner marw, a'r moddion oddi wrth ba rai y disgwyliwn ymwared sy wedi myned heibio, gadawyd fi yn enaid noeth, di-gymmorth, ar soddi mewn distryw yn dragywydd; ac yn awr, pa beth a wnaf fi? Wele y Samariad da yn neshau attat! Yr Iesu yw 'r Samariad da yma, yr Iachawdwr yr hwn y darfu i ti ei ddrygu fwy trwy dy bechodau nag y darfu i'r Iuddewon erioed ddrygu 'r Samariaid: etto y mae 'n edrych arnat, yn gweled dy enaid yn barod i'w chyfrgolli, y mae 'n disgyn o'i orsedd yn y nef i ddangos i ti drugaredd. A ydyw dy archollion, dy friw-

iau yn boenus gennyt? Fe a dywallt ei waed ynddynt fel gwin; fe a'th gynnal â'i ddeheulaw, O bechadur truan, di-gymmorth; ei râs a fydd debyg i olew, fe a enneinia dy friwiau âg ef, ac a'th ddadebra.

Ond ti a ddywedi, Fe ddarfu i mi ei wneuthur yn elyn i mi, ac nis gallaf ddisgwyl trugaredd ar ei law, rhyfyg fyddai i mi ei ddisgwyl. Na ddywed felly: mae 'n tosturio wrthyt, onite paham y daethai i lawr attat ti, ac attom ni oll, i ymweled â thrueni dyn? a phaham, os amgen, y mae 'n llefaru mor gysurlawn wrthyt? Ni edliwia i ti dy gamweddau a wnaethost, ac ni chofia dy anwireddau mwy. Wyt ti yn noeth, ac wedi dy yspeilio, ac yn gorwedd yn druenus aruthr dy gyflwr? Darfu iddo ef hongian yn noeth ar y groes, ac y diosgwyd o'i ddillad gan y milwyr, gael i ti ymwisgo yn ei fantell ef, ei gyfiawnder perffaith a phur. A ydwyt ti mewn poen? ei law waedlyd wedi ei dodi wrth dy galon a'th ddadebra. A ydwyt ti yn gaeth mewn rhwymau pechod? efe a'th wna yn rhydd. Na bydd ofnus ynteu, edrych arno ef a ddarfu i ti wanu trwy dy bechodau, a chrêd yn yr Arglwydd Iesu, a chadwedig fyddi. Wrth fel yr ymddygodd y Samariad da, y mae Crist yn dangos sutt y mae ynteu yn ymddwyn tu ag at bechaduriaid: ar ol tendio ar y dyn yn dyner-

garedig ac yn ofalus, a dyfod ag ef mewn rhyw fesur atto ei hun, y mae 'r Samariad yn ei ôsod ar ei anifail ei hun, gan gerdded yn ei ymyl nes dyfod ag ef i'r lletty, yno ar ol aros noswaith gyd âg ef, y mae ef wrth fyned ymaith yn rhoddi arian i'r llettywr ac yn ei siarsio i ofalu drosto, ac yn addaw talu iddo beth bynnag a dreuliai yn ychwaneg. Mor fanwl y cysgodwyd ein Samariad da ni, yr Iesu bendigedig, yn y ddammeg yma. Fe ddiosgodd ei hun o'i ogoniant nefol i orchuddio pechaduriaid, fe droediodd ar hyd y byd hwn yn flin ac yn lluddedig, er cael o bechadurus eneidiau eu dyrchafu yngherbyd ei freichiau ef i'r nef; ac fel y mae 'n siarsio ei weinidogion i gymmeryd gofal o'r eneidiau y darfu iddo alw trwy ei Yspryd, "Cysurwch, cysurwch fy mhobl, medd yr Arglwydd," ac yn gadael gyd á gweinidogion ei Eglwys, yr hon yw ein lletty tu yma i'r bedd, allu, ac annogaeth, a bendith, fe a ddywed, Pa beth bynnag a dreuliech yn ychwaneg, pan ddelwyf drachefn, mi a'i talaf i ti; fel pe dywedasai, Beth bynnag a dreuliech mewn llafur, mewn gofal, a gwyliadwriaeth, ac amynedd, mi dalaf i chwi 'r cwbl y dydd diwaethaf. Ac yma gwelwch hefyd sutt y mae ef yn dyrchafu ei rad râs trwy'r holl ddammeg: nid ydyw ef ddim yn dywedyd ddarfod i'r Offeiriad a'r Lefiad, neu un o'i gy-

feillion, ei helpu, ond Samariad, un a allasai fod yn elyn iddo, a'i adael yn ei gyflwr diymgeledd. A ninnau, er y gallasem edrych am ddial yn lle trugaredd ar law Duw, etto fe fydd gwych ganddo ef gyfiawnhau 'r annuwiol, trugarhau wrth ei elynion, a gogoneddu ei hun trwy ddodi i lawr ei einioes drostynt pan yr oeddynt hwy yn feirw mewn camweddau a phechodau.

Chwy-chwi, gan hynny, sydd wedi dyfod trwy râs i weled eich noethni wrth natur, gwybyddwch fod i chwi fantell i'w chael i'ch gorchuddio, sef cyfiawnder Crist: na cheisiwch eich gorchuddio eich hunain â dim arall, "canys gwae 'r meibion cyndyn," medd y Prophwyd Esay, "a gymmerant gyngor, ond nid gennyf fi; ac a orchuddiant â gorchudd, ac nid o'm hyspryd i." Cyfiawnder Crist yw 'r fantell, y wisg briodas, sydd i'w cheisio gennyt ti yn bennaf dim, yn ol cyngor yr un Duw, "Yr wyf yn dy gynghori i brynu gennyf fi ddillad gwynion, fel y'th wisger, fel nad ymddangoso gwarth dy noethder." Pob un a gredo ynddo ef, ni chywilyddir. Na wrthodwch, garedigion, gyngor yr Arglwydd; ond derbyniwch a chofleidiwch yr iechydwriaeth rad a ddarparwyd i'ch heneidiau. Chwi eneidiau archolledig, sy 'n cwyno, gan ddywedyd, "Fy nghleisiau a

lygrasant ac a bydrasant, gan fy ynfydrwydd : fy archoll a redodd liw nos, fy enaid a wrthododd ei ddiddanu." O paham yr ydych yn cwyno fel pe nad oes balm yn Gilead, ac heb yr un meddyg yno? Chwi a glywsoch am yr Iesu, a modd y darfu iddo iachau llaweroedd o'u clefydau: pe medrech neshau at gyffiniau y wlad dda, ac ymddiddan á'r eneidiau gwynfydedig sy wedi cyrhaedd yno trwyddo ef, dywedai amryw bod hwythau gynt yn eich cyflwr chwi yn archolledig ac yn hanner marw, a darfod i'r Samariad da, wrth fyned heibio, dosturio wrthynt a'u hachub. Ac felly y dywedai llaweroedd sydd etto yn y diffeithwch, yn troedio at y Gaanan nefol, Tlodais, mewn trwbl yr oeddwn, ac efe a'm hachubodd. Na fydded i fawredd eich pechodau eich digalonni; yr ydych hyd yn hyn allan o uffern, O brysiwch i ddychwelyd at Grist cyn cau 'r drws, cyn i nos angeu ddyfod, fe all ddyfod yn bur sydyn a diddisgwyl. A chwy-chwi, eneidiau dedwydd, sy yn cydnabod ddarfod i chwi gael trugaredd, a chennych obaith da, chwy-chwi sy wedi teimlo caredigrwydd y Samariad da yn tosturio wrthych pan oeddych yn gorwedd yn archolledig, nid yn unig yn hanner marw, ond yn llwyr feirw mewn camweddau, y diafol wedi eich diosg a'ch hyspeilio, dangoswch eich diolchgar-

wch i'r Iachawdwr trwy helaethrwydd mewn daioni: cyfododd arnoch chwi â meddyginiaeth yn ei esgyll; y mae gennych chwi y trysor gwerthfawroccaf, sef gobaith o fod mewn ystad grâs, gellwch ddywedyd, Yr Arglwydd yw fy nghyfran yn nhir y rhai byw, fy nhrysor sydd yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, na lladron yn cloddio trwodd ac yn lladratta. Wrthych chwi yr wyf yn dywedyd, ac nid myfi ond yr Arglwydd, Ewch chwithau a gwnewch yn yr un modd, ewch a byddwch mor dyner-garedig, a thosturiol, a da wrth eich cyd-greaduriaid yn eu cystudd a'u cyfyngdra, fath bynnag y bo, pa un bynnag ai yn eu cyrph ai yn eu heneidiau: cynnorthwywch hwy oll, ceraint a chyfeillion yn enwedig, ac oreu fyth ar alloch, estroniaid, ac hyd yn oed eich gelynion pennaf, heb adael i wahaniaeth mewn opiniwnau crefyddol oeri ar eich cariad ac attal eich cymmwynas. Ewch a datgenwch drugaredd yr Arglwydd a dosturiodd wrthych, a gweddiwch am râs i fod yn ffyddlawn hyd angeu, fel y derbynioch y goron.

PREGETH XIX.

GRAS.

2 Corinthiaid xii. 9.

Ac efe a ddywedodd wrthyf, Digon i ti fy ngrâs i: canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid.

YN yr adnodau o flaen y testyn ni a welwn ddarfod i St. Paul gael datguddio iddo bethau nefol uwchlaw eraill, a'i gipio i fynu i baradwys, lle y dangoswyd iddo ddirgeledigaethau arbennig; ond ein Harglwydd, gan nad oedd ei Apostol etholedig ond dyn, ac fel dynion eraill yn ddarostyngedig i wendid, rhag iddo ymfalchio o herwydd y ffafr neulltuol a gawsai ef, a roes arno swmbwl yn y cnawd, yr hyn y mae 'r Apostol yn ei alw yn gennad satan i'w gernodio, fel na thra-dyrchafid ef. Ni wyddom ni ddim yn hyspys beth oedd y swmbwl yma; ond, hwyrach, mai rhyw ddolur, neu anaf, neu wall i'w weled oedd ef, wedi ei roddi arno gan satan, trwy oddefiad Duw. Yr oedd y peth yma, fath bynnag oedd ef, yn peri dir-

myg i'r Apostol, mae 'n debygol, gan nad oedd ef, ac yntau yn Apostol, yn abl i'w iachau, fel y byddai 'n iachau clefydau dynion eraill. Yn ofni ynteu y byddai 'r swmbwl yn rhwystr iddo yn pregethu 'r Efengyl, y gwaith nesaf i'w galon yn wastad, y mae 'n gweddio ar yr Arglwydd i'w symmud. Nid oedd yr Iesu yn gweled yn dda wneuthur felly, ond fe a'i cysurodd trwy addaw iddo a'i sicrhau y byddai ei râs a'i nerth yn ddigonol i gyflawni, trwyddo ef, y gorchwyl o bregethu 'r Efengyl ymysg y Cenhedloedd. Ac felly yn gyffredinol, pan ni wêl yr Arglwydd yn ei ddoethineb ei bod yn lleshol i Grist'nogion ganiattau iddynt ryw archiad arbennig, y mae yn eu llesu trwy ryw fodd arall, mwy buddiol iddynt yn y diwedd. "Fy nerth i a berffeithir mewn gwendid," medd yr Arglwydd wrtho; nid fel pe byddai ein gwendid ni yn chwanegu dim at ei allu ef, ond bod ein gwendid ni yn gwneuthur i'w nerth ef fod yn fwy amlwg a hynod, megis yn achos St. Paul, yr oedd ei barhad dyfal yn pregethu 'r gair, gan drafaelio o wlad i wlad, er bod y swmbwl yma yn ei flino, yr oedd ei amynedd a'i wroldeb yn gwynebu pob math ar galedi a drwg-driniaeth dan wendid cymmaint, yn dangos yn ddiammeu fawr allu 'r nef yn ei gynnorthwyo; am hynny ebr y gweinidog ffyddlonnaf hwn, "Yr wyf fi

foddlawn mewn gwendid, mewn amharch, mewn anghenion, mewn erlidiau, mewn cyfyngderau, er mwyn Crist:" a phabam? "Canys pan wyf wan, yna yr wyf gadarn." Ar ol ystyried y geiriau mewn perthynas i'r Apostol, mi ystyriaf hwynt mewn perthynas i Grist'nogion yn gyffredin, gan ddangos,

I. Bod grâs Duw yn angenrheidiol er iechydwriaeth, ac y gall pob dyn gael y grâs yma.

II. Trwy ba foddion y ceir ef.

III. Dangosaf yr arwyddion trwy ba rai y gellir barnu a ydyw grâs Duw gan Gristion o ddyn ai nad yw.

I. Y mae grâs Duw yn anhepgor-angenrheidiol i iechydwriaeth. Nid rhaid i ni wrth ymresymmiad lawer i brofi hyn: os ydyw meddylfryd calon dyn yn ddrygionus o'i febyd, os ni thrig ynom ddim da wrth natur, os ciliasom bawb o'r ffordd, ac nid oes un cyfiawn, nag oes un, pa sutt y mae sancteiddrwydd i'w gael? pa sutt y gochelwn ddistryw? pa sutt y mae gweinidog pechod i fyned yn was sancteiddrwydd? pa sutt y dychwelir yr enaid, yn awr yn gruddfan mewn cadwynau tywysog y tywyllwch, i ogoneddus ryddid meibion Duw? A attebwch chwi mai trwy edifeirwch, ffydd yn Nghrist, a pharhad mewn pob daioni? bydded felly: ond a ydyw edifeirwch, ydyw ffydd, yd-

yw parhad mewn daioni yn eich gallu eich hunain? gwyddoch pa sutt y mae ein Heglwys ragorol yn gweddio am edifeirwch yngeiriau Jeremi, gan gydnabod wrth hynny nad ydyw edifeirwch yngallu dyn, ond mai rhodd Duw ydyw hi, "Dychwel di ni, a ni a ddychwelir; canys ti yw 'r Arglwydd ein Duw ni." Beth yw deall y geiriau yma yn Actau 'r Apostolion? "Duw a'i dyrchafodd ef á'i ddeheulaw i fod yn Dywysog ac yn Iachawdwr i roddi edifeirwch i Israel a maddeuant pechodau:" a thrachefn, "Fe roddes Duw i'r Cenhedloedd hefyd edifeirwch i fywyd:" ac, ebr St. Paul yn ei Epistol cyntaf at Timotheus, "Mewn addfwynder yn dysgu 'r gwrthwynebus, i edrych a roddo Duw iddynt hwy, ryw amser, edifeirwch i gydnabod y gwirionedd." Onid amlwg a diammeu ydyw, oddi wrth y mannau hyn, bod edifeirwch i'w cheisio megis rhodd gan Dduw, megis rhodd trwy râs Iesu Crist? Chwiliwch ymhellach mewn perthynas i ffydd; "Heb ffydd," medd yr Ysgrythur, "amhosibl ydyw rhyngu bodd Duw; crêd yn yr Arglwydd, a chadwedig fyddi." Ond a ydyw 'r Ysgrythur yn dywedyd y gall dyn gyrhaedd a chael gafael yn ffydd o hono ei hun? a fedr ef o honaw ei hun gredu fel y dylai? Beth a ddywed Mab Duw ei hun? "Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddi

eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynnu ef." Beth a ddywed St. Luc, yr hwn a ysgrifennodd Actau 'r Apostolion? "Yr Arglwydd a agorodd galon Lydia i ddal ar y pethau a lefarid gan Paul." A St. Paul a ddywed mai "ffrwyth yr Yspryd yw ffydd," gyd a rhadau eraill; ac, "Ni ddichon neb ddywedyd fod Iesu yn Arglwydd, ond trwy'r Yspryd Glan;" ac, ebr ef wrth y Philipiaid, "I chwi y rhoddwyd, er Crist, nid yn unig gredu ynddo ef, ond hefyd ddioddef erddo ef." Ymhellach, mewn perthynas i feddwl ac ymarweddiad duwiol, nid ydyw 'r gair yn ein dysgu mai odd ein hunain y cyfyd y fath bethau, ond mai dawn Duw ydyw ein holl ddaioni. "Duw," medd St. Paul wrth y Philipiaid, "yw 'r hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef;" ac medd efe yn ei Epistol at yr Hebreaid, "Duw yr heddwch a'ch perffeithio ymhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef, gan weithio ynoch yr hyn sydd gymmeradwy yn ei olwg ef, trwy Iesu Grist;" a thrachefn, "Bydded gennym râs, trwy 'r hwn y gwasanaethom ef wrth ei fodd:" ac yn ei Epistol at y Galatiaid, ebr ef, "Ffrwyth yr Yspryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest." Ac felly, fy mrodyr, pa un ai chwilied

anianol gyflwr ein calonnau ein hnnain, ai sylwi ar y datguddiad a wneir yn y gair, ai bwrw golwg ar ddynion yn awr, Paganiaid a Christ'nogion, amlwg ydyw y dylem gyfrif pob daioni sy ynom i Dduw, Awdwr pob rhodd berffaith a daionus. Cymheller ni i gydnabod mai megis nid allai St. Paul, o herwydd ei ddihoeni a'i rwystro gan y swmbwl yn y cnawd, bregethu'r Efengyl yn llwyddiannus, ond trwy nerth a chymmorth Crist, felly trwy gynnorthwy grâs Duw yn unig y dichon dynion llygredig yn eu natur, bawb o honom, gael iechydwriaeth. Cymheller ni i gydnabod bod y cyfnewidiad y mae 'r Efengyl mor fynych yn sôn am dano dan amryw enwau, yn hollawl angenrhaid er cael bywyd tragywyddol, a bod y cyfnewidiad yma i'w gael yn unig trwy rinwedd Yspryd Duw a bwrcaswyd i ni trwy iawn ac aberth Crist; canys brwnt ac aflan ydyw anianol naturiaeth dyn, ac i'r nefoedd ni cheiff dim aflendid fynediad; hefyd, analluog a llwyr anabl i ymburo o hono ei hun ydyw ef, gan hynny, y mae cymmorth ysprydol yn anhepgor-angenrhaid.

2. Ystyriwn fod y grâs yma o fewn cyrhaedd pob dyn, lle bynnag y pregethir gair Duw. Y gwirionedd yma a sylfaenwyd ar air Duw ei hun: "Gan ewyllysio a ewyllysiwn i farw yr annuwiol, medd yr Arglwydd Dduw, ac na

ddychwelai oddi wrth ei ffyrdd a byw;" ac, medd St. Paul yn ei Epistol cyntaf at Timotheus, "Duw ein Ceidwad, yr hwn sydd yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd." Ni ddichon y digelwyddog Dduw dwyllo, ac nid yw dderbyniwr wyneb. Buasai megis yn gwatwor ei greaduriaid pettasai wedi cynnyg iddynt oll iechydwriaeth, ond yu gadael y rhan fwya yn anabl i'w derbyn. Os darfu iddo dynnu ymaith y canolfur rhwng yr Israeliaid a'r Cenhedloedd, o'i drugaredd, ai tebygol ydyw y gwnai efosod terfyn, yr hwn nid ellid myned drosto, rhwng aelodau 'r un cyfammod? ai tebygol ydyw y gwnai efe siommi a megis gwatwor ei greaduriaid trwy eu galw, er iddo wybod na fedrent ufuddhau i'r galwad, rhoddi gorchymynion iddynt ni fedrent mo 'u cyflawni, a gwahoddiad nid ydynt yn gallu ei dderbyn? Yn sicr siommedigaeth a math ar watwor y byddai hynny, llwyr anghyson â chyfiawnder y Duw Goruchaf. Cynnygir grâs i bob dyn a glywo sain yr Efengyl, ac ni fydd neb o'r fath yn parhau mewn pechod ac anghrediniaeth, ond trwy ei fai ei hun; gwnaeth Duw yn ddiduedd ac yn dêg â phawb, ac am hynny anesgusodol y bydd y pechadur gwrthnysig.

II. Yn nesaf, ystyriwn trwy ba foddion y

ceir grâs Duw. Y cyntaf ydyw gweddi, "Gofynwch," meddai Crist, "a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi: ond ai am roddiad yr Yspryd y gofynir fel hyn? yn sicr am hynny, fel am bethau gwir ddaionus eraill: "Os chwy-chwi, gan hynny," medd ein Hiachawdwr, "y rhai ydych ddrwg, a fedrwch roi rhoddion da i'ch plant chwi, pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Yspryd Glan i'r rhai a ofyno ganddo." Ond fe ddywed rhyw un, Onis gallwn ni ofyn am yr Yspryd, a methu ei gael? Yn sicr, os gofynwch ar gam, ni chewch mo 'ch deisyfiad; ond, gwir a diffuant weddi a dyccia yn ddiffael. Os neshewch at yr Arglwydd â'ch geneuau, a'i anrhydeddu â'ch gwefusau, a'ch calonnau yn mhell oddi wrtho, chwi a weddiwch yn ofer. Beth, ynteu, sydd angenrhaid er gwneuthur eich herfynion am yr Yspryd yn llwyddianus? Ffydd, yn bennaf, crêd safadwy y gwna 'r Arglwydd gyflawni ei addewid, rhoddi dawn yr Yspryd Glan i'r sawl bynnag a'i gofynnont ganddo mewn modd dyladwy; "Os bydd ar neb o honoch eisiau doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb. ac heb ddannod, a hi a roddir iddo; eithr gofyned mewn ffydd, heb ammeu dim." Heblaw ffyddio, rhaid i chwi fod yn deimlad-

wy o'ch gwendid anianol, ae o werth uchel y fendith yr ydych yn ymbil am dani; heb hynny ni fydd eich gweddi mor ddwys ac mor daer ac y dylai fod er cael llwyddo ynddi: "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn," medd St. Iago. Ymhellach, rhaid i chwi ddyfal-barhau mewn gweddi heb ddiffygio. Na ddigalonner chwi os ni channiatteir eich deisyfiad yn y fan; hwyrach bod eich Tad nefol yn eich profi wrth oedi; ac os chwi ni ddiffygiwch, chwi a gewch y cymmorth yr ydych yn gofyn am dano yn ei iawn bryd, a phan fo arnoch fwya ei eisiau. Teirgwaith yr attolygodd St. Paul gael symmud ymaith y swmbwl oedd yn ei luddias wrth bregethu, ac, o'r diwedd, a gafodd yr atteb cysurlawn y byddai grâs Duw yn ddigonol i gyflawni ei ddiffyg. Chwanegwch at ddyfal weddi, ymarfer â swpper yr Arglwydd yn gydwybodol ac yn edifeiriol, a chwi a fyddwch yn sicr o gynnyddu mewn grâs. Ymhellach, rhaid i chwi fod yn ddiwyd i ddeunyddio 'r grâs a roddwyd i chwi, fel y caffoch ychwaneg; canys i'r neb bynnag a fo ganddo, y rhoddir iddo; i'r sawl a ddeunyddio râs Duw i'r diben y bwriadwyd gan Dduw yn ei roddi, sef er cynnydd mewn duwioldeb a daioni, fe deilynga 'r Arglwydd roddi chwanegiad gras beunydd. Yn ddiwaethaf, yn anad dim rhaid

i chwi erfyn am gymmorth gras yn enw Crist, er ei fwyn ef a thrwy ei gyfryngdod. Trwy haeddiant pwy y mae i ni ddyfodfa at y Tad? Trwy ei haeddiant ef a fu farw drosom. Yn enw pwy y mae i ni gyflwyno ein gweddiau at Dduw Dad? Yn enw ei unig-anedig Fab. Eiddo pwy yw 'r grâs yr ŷm yn ei erfyn? Grâs ein Harglwydd Iesu Grist. Fy ngrâs i, ebr Crist wrth St. Paul, sydd ddigonol i ti. Trwyddo ef, gan hynny, bydded i ni weddio am rinweddau a rhadau ei Yspryd.

III. Yr awrhon, ystyriwn yr arwyddion trwy ba rai y cewch wybod yn sicr bod grâs Duw yn gweithio yn effeithiol ynoch. Pren a adwaenir wrth ei ffrwythau: ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau drwg, na phren drwg ddwyn ffrwythau da. Os ydyw eich tymmer a'ch gweithredoedd yn dwyn ynddynt arwyddion yr Yspryd Glan, gellwch hyderu 'n ostyngedig eich bod dan ei rinwedd effeithiol ef; a dyna obaith Crist'nogol, y trysor mwya gwerthfawr yn y byd hwn, yn codi ynoch. Ond, o'r tu arall, os ni welir y fath ddangosiad yn eich hymarweddiad, ni fydd eich hyder ond siomgar ac ofer. A chyn myned ymlaen i helaethu ar arwyddion effaith yr Yspryd Glan, mi ewyllysiwn eich rhybuddio, mai er bod gweithredoedd allanol ond megis diddim, neu hwyrach yn waeth

na diddim, rhagrith hwyrach, heb fod duwioldeb a chywirdeb yn y galon, er hynny, tra bo gan Gristion o ddyn dystiolaeth o'i gywirdeb yn ei fuchedd, nid rhaid iddo ddim digalonni os na bydd yn clywed ynddo ei hun gymmaint cysur ac ysprydol hyfrydwch ag y bydd rhai: Y mae 'r fath drymder yn tarddu yn fynychaf oddi wrth afiechyd corphorol, ac nid ydyw i'w gyfrif i ddiffyg o'r Yspryd nag i annuwioldeb: hwyrach hefyd bod yr Arglwydd yn rhoddi ar ddynion duwiol fel hyn swmbwl yn y cnawd, i'w cadw rhag ymfalchio, neu i ryw ddiben da yn ei ddoethineb; ond sutt bynnag y bo, efe a fedr, ac a wna, yn ei iawn bryd, iachau 'r gorsen ysig. Mi grybwyllais yr achos yma, o herwydd bod gweinidogion y gair yn aml yn clywed y fath bobl druain yn cwyno yn dost ac yn alarus, ac yn sicr blinder ydyw ef anhawsach o lawer i'w ddioddef na phoen corphorol; a dyma y rheswm, yn ol barn difynyddion, paham y dylid barnu am ein cyflwr ysprydol wrth weithredoedd da, os byddant yn tarddu oddi wrth egwyddor dda, yn hytrach nag wrth deimlad tufewnol; o herwydd fod llaweroedd o rai digon anfoesol yn clywed cynnwrf dwys ynddynt eu hunain, yn enwedig pan wrandawont ar bregethwr grymmus; ac, o'r tu arall, y mae nifer mawr o bobl dduwiol a moesol, diniwaid a go-

nest, y rhai nid ydynt yn teimlo fawr o gysur nag hyfrydwch ynddynt eu hunain, a hyn o achos gwendid corphorol ac ysprydoedd isel. Bid sicr pan fo tangnefedd Dduw ac hyfrydwch yn llonni meddwl Cristion, y mae 'n meddiannu y trysor gwerthfawroccaf sydd i'w gael; ond nid yw 'r Arglwydd yn canniattau hyn i bob duwiol, ond tebygol yw y daw y fath gysur ryw bryd o'i fywyd iddo, ac yn sicr iawn mai heddwch a fydd ei ddiwedd, fe a drenga mewn heddwch er gwaetha poen a doluriau, ac fe a â i fry tangnefedd ar ol marw, at Grist ei Brynnwr.

Yn ddiwaethaf, dychwelaf i ystyried ar fyr eiriau yr arwyddion o effaith yr Yspryd. Yn gyntaf, oes gennych feddwl isel gostyngedig o honoch eich hunain, o'ch pechadurusrwydd wrth natur, ac o'ch hamerffeithrwydd ar ol gwneuthur eich eithaf, ac felly o'ch rhaid am drugaredd a chymmorth nefol? "Ar hwn yr edrychaf," medd yr Arglwydd trwy Esay, "sef ar y truan a'r cystuddiedig o yspryd, ac sydd yn crynu wrth fy ngair i. Gwyn eu byd y tlodion yn yr Yspryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd. Fel hyn y dywed y Goruchaf a'r Dyrchafedig, yr hwn a breswylia dragywyddoldeb, ac y mae ei enw yn Sanctaidd, Preswyliaf gyd â'r cystuddiedig a'r isel o yspryd." A

ydych chwi yn ostyngedig fel hyn? os ydych, y mae 'r Yspryd wedi eich hargyhoeddi; ac os ydych yn cydnabod yn eich hunain wir ddymuniad i ryngu bodd Duw ac i fwrw pechod oddi wrthych, yr ydych wedi cael ganddo ddawn edifeirwch.

Ymhellach, y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd, medd yr Ysgrythur, a ffrwyth yr Yspryd ydyw ffydd. Ydyw 'r ffrwyth i'w ganfod ynoch chwi? ydych chwi yn cwbl-gredu datguddiadau 'r Efengyl, er mor ddirgelaidd, ac yn gobeithio am iechydwriaeth trwy Grist Iesu, a thrwy ef yn unig? ai ydyw 'r ffydd yma yn geni ynoch rinweddau a rhadau duwiol eraill? a ddarfu i ystyriaeth ar ei drugareddau aneirif, heb eu haeddu gennych, gynhyrfu ynoch, trwy gymmorth yr Yspryd, ddwys a diffuant gariad i Dduw a'i Fab Iesu Grist? "Cariad Duw," medd St. Paul, "a dywelltir yn ein calonnau trwy 'r Yspryd, yr hwn a roddwyd i ni." A oes gennych chwi y cyfryw gariad, wedi ei dywallt ynoch gan yr Yspryd? ydych chwi yn caru Duw â'ch holl galon, â'ch holl feddwl, â'ch holl enaid, ac â'ch holl nerth, a'r Arglwydd Iesu Grist yr hwn a ddanfonodd efe? oes gennych nid yn unig deimlad o'r fath gariad, ond hefyd arddangosiad mewn gweithred o hono? a ydych yn ceisio hyfforddio ei ogoniant, yn-

nill clod i'w Efengyl trwy ymddygiad difeius? oes gennych y dystiolaeth amlwg yma o'ch cariad iddo, sef parchus ymarfer â phob ordinhad grefyddol, parch i'w enw sanctaidd, a gwneuthur daioni i eraill er ei fwyn ef? Os felly, amlwg ydyw ddarfod i Dduw roddi i chwi Yspryd cariad, a bod cariad Duw ynoch.

Drachefn, y mae 'r Efengyl yn gorchymyn i chwi garu eich gilydd. Ydyw y rhad yma wedi ei weithio ynoch? ydych chwi yn caru eich cymmydogion fel eich hunain â chalon bur a chariad diffuant? ydych chwi yn gwneuthur hyn o herwydd bod Duw yn gorchymyn i chwi, ac o herwydd dywedyd o un Apostol y dylem ni hoffi naill y llall, o herwydd i Grist roddi ei hun yn iawn drosom ni oll, ac o herwydd ddywedyd o Grist ei hun mai arwydd fyddai hynny eich bod chwi yn ddisgyblion iddo ef? ydych chwi yn caru eich gelynion, a hynny o herwydd i Grist ein caru ni pan oeddym elynion iddo? ydych chwi yn cyflawni 'r rheol hon trwy beidio a'u drygu ar air neu ar weithred mewn modd yn y byd? ydych chwi yn gwneuthur y daioni i eraill y galloch ac y dylech, a hynny fel eich Tad nefol, i'r anniolchgar a'r anghyfiawn, gan ddisgwyl eich gwobr ar law Duw? oes gennych y cariad sydd yn gymmwynasgar, yn hir-ymaros, nad yw yn cynfigennu, nad yw

yn ymffróstio, nad yw yn ymchwyddo, nad yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg?

Un arall o ffrwythau 'r Yspryd, a chaingc o ddyledswyddau dynion, ydyw cymmedroldeb. Y mae 'r Apostol, wrth rifo ffrwythau 'r cnawd yngwrthwyneb i ffrwythau 'r Yspryd, yn crybwyll pechodau affan ymysg y blaenaf: purdeb, gan hynny, bob rhan o honi, purdeb yn y meddwl, yn yr ymddiddanion, a gweithredoedd, ydyw rhodd yr Yspryd. A ydyw purdeb a chymmedroldeb i'w canfod ynoch chwi? os ydynt, sicr ffrwyth yr Yspryd ydynt. Cyn diweddu, goddefwch i mi osod o'ch blaen yr arwyddion a'r dangosiad di-siom y rhoes St. Paul bod ei galon wedi cael effaith Yspryd Duw arni: pa edifeirwch a gostyngeiddrwydd, pa ffydd, pa ddiolchgarwch, pa gariad i Dduw a'r Iachawdwr, a amlygir yn ei ymadroddion, ac yn enwedig, pan ddeallodd mai er gogoniant yr Arglwydd y byddai parhad y swmbwl yn y cnawd? yn ebrwydd dyma fe 'n gorfoleddu yn ei wendid, "Am hynny, yr wyf yn foddlawn mewn gwendid, mewn amharch, mewn anghenion, mewn erlidiau, mewn cyfyngderau, er mwyn Crist." Mor awyddus yr oedd ef dros iechydwriaeth ei frodyr yr Israeliaid; "Mi

ddymunwn," medd ef, "fod fy hun yn anathema oddi wrth Grist dros fy mrodyr." Ac felly am y Cenhedloedd hefyd, "Pe offrymmid fi ar aberth a gwasanaeth eich ffydd," ebr ef wrth y Philipiaid, "llawenhau 'r wyf, a chydlawenhau â chwi oll." Ac mor astud a dyfal yr oedd ef i feistroli chwantau 'r cnawd, "Yr wyf fi yn cospi fy nghorph, ac yn ei ddwyn ef yn gaeth, rhag i mi mewn un modd, wedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymmeradwy." Dyma 'r arwyddion a ddangosodd St. Paul yn ei fuchedd ac yn ei farwolaeth. Chwiliwch, frodyr, ai fel yntau yr ydych chwi yn ceisio iechydwriaeth trwy waed Crist yn unig; chwiliwch a ydych chwi fel yntau yn caru Crist â'ch holl enaid, a ydych chwi yn caru eich cymmydogion yn ddwys ac yn ddiffuant, a ydych chwi yn cospi 'r corph fel y gwnaeth ef. Os ydych, y mae eich cyflwr yn iach: a Duw a roddo i chwi râs i fod yn ffyddlawn hyd angeu, fel y derbynioch y goron.

PREGETH XX.

Y CYMMUN.

1 Corinthiaid xi. 28.

Eithr holed dyn ef ei hun; ac felly bwyttaed o'r bara, ac yfed o'r cwppan.

TEBYGEM na byddai rhaid wrth ddim ychwaneg i barottoi dynion, ac i wneud eu calonnau yn gymmwys i iawn dderbyn y Sacrament bendigedig, na 'r rhybudd difrifol a ddarllennir yn fynych i chwi. Mae ef yn ein hannog ni yn daer i ystyried pa leshad a fydd i ni os nyni a'i derbynniwn ef gyd â ffydd fywiol a chalonnau gwir edifeiriol, a faint y perygl sydd o'i dderbyn yn anheilwng. Mae ef yn ein hannog ni hefyd i roddi mawr ddiolch i'r Drindod sanctaidd am brynedigaeth y byd trwy Iesu Grist, yr hwn a ordeiniodd y dirgeledigaethau sanctaidd hyn megis gwystlon o'i gariad a gwastadol gof am ei angeu, er mawr ac anherfynol ddiddanwch i ni. Etto (fel na byddai dim yn ol a allwn i wneuthur) tybiais na

byddai 'n anghymmwys lawn-ystyried a dal yn fwy enwedig ar y rhan honno o'r rhybudd sydd yn cyttuno á geiriau 'r testyn. Dywedir i ni yn y rhybudd mai 'r ffordd a'r modd i fod yn gyfrannogion teilwng o'r bwrdd bendigedig yw holi ein buchedd a'n hymarweddiad wrth reol gorchymynion Duw, felly y dywed St. Paul, "Holed dyn ef ei hun," &c. Y ddyledswydd hon i holi ein hunain nid dyn sydd yn ei orchymyn i ni, ond Duw trwy St. Paul; gan hynny ni ddylai neb heb ei holi ei hun yn ofalus ddyfod i fwytta o'r bara nag yfed o'r cwppan. Yn Eglwys y Corinthiaid, fel y darllennwn, yr oedd pob un yn rhwymedig i wneuthur hyn, a hynny yn fwy enwedig o blegid fod disgyblaeth yr Eglwys honno gwedi llaccu o herwydd yr ymryson oedd ynddi. Achos da, ynteu, oedd i'r Apostol beri i bob dyn wneuthur hynny iddo ei hun, a hynny nid yn ysmala, yn ol dull rhai yn rhagrithio â Duw, ond chwilied eithaf dyfnder ei galon, modd y gallo felly farnu ai oedd ef gymmwys i ddyfod ai peidio. Ac yn wir mae lle i ofni nad ydys yn holi ein cydwybodau mor ddifrifol ag y dylem ni: pe gwneid hynny, yno y caem weled cyfrif diduedd o'r holl ddaioni y darfu i ni esgeuluso, ac o'r holl ddrwg a wnaethom; yna ni cheid clywed am un a allai ei gyfiawnhau ei hun fel y Pharisead,

gan ddywedyd, "O Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad ydwyf fel dynion eraill, yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwyr, neu fel y Publican hwn." Ond pettaem ni yn holi ein buchedd wrth reol gorchymynion Duw, caem weled achos gyd â'r Publican i guro ein dwyfron, gan ddywedyd, "O Dduw, bydd drugarog wrthym bechaduriaid." Pan welom ein haneilyngdod, ni a fyddwn yn ostyngedig, fel y mae 'n weddus i ni fod. Holwn, gau hynny, ein hunain, ac felly bwyttawn o'r bara, ac yfwn o'r cwppan. Wrth draethu ar y geiriau yma, fy mwriad yw gosod o'ch blaen ei bod yn ddyled arnom holi ein hunain am ddau beth yn enwedig:

I. Am ein gwybodaeth.

II. Am ein harfer o'r hyn a wyddom, h. y. am ein buchedd.

I. Cyn derbyn y sacrament, fe ddylai fod gan bob dyn wybodaeth gymhedrol o byngciau y ffydd Grist'nogol; fe ddylai fod yn wybodus o'r adduned fedyddiol, a'r rhan arall o Gatecism yr Eglwys, nid yn unig adrodd y geiriau, eithr deall eu hystyr. Mi a osodaf o'ch blaen chwi ar fyr eiriau sylwedd yr hyn y dylai ef wybod. Rhaid i bob Cristion wybod fod holl heppil Adda wedi eu geni mewn pechod, yn blant digofaint wrth natur; eu bod hwy wrth natur tan ddigofaint yr Hollalluog Dduw, ac yn ddaros-

tyngedig i gospedigaeth pechod: ond y rhai o honynt a fedyddir, tynnir hwynt yr amser hwnnw allan o'r hen wreiddyn, yr Adda cyntaf, ac fe impir hwy yn Nghrist; wrth hyn y gwneir hwynt yn aelodau iddo ef, ac ynddo ef y derbynnir hwy i gariad Duw, gwneir hwy yn blant iddo ef, a rhoddir iddynt hawl i'r holl fendithion a addawodd ef iddynt yn y byd hwn cystal ac yn y byd a ddaw. Yr addewid yma yn ddiammeu, efe ar ei ran ef a'i cwblha iddynt, os parhant i fyw fel y gweddai i'w blant ef. Er mwyn iddynt fyw felly, rhaid iddynt addaw hynny yn gyhoeddus, cyn y cant eu bedyddio; os byddant o oedran a synwyr, rhaid i bob un addaw trosto ei hun, fel y gwelwch yn ffurf bedydd y rhai a fo mewn oedran a synwyr: ond, i Dduw bo 'r diolch, anaml yw 'r achos i arferu y ffurf hon yn ein gwlad ni, o blegid, fel yr ŷm wedi 'n geni o rieni Crist'nogol, yr ŷm yn cael ein bedyddio yn ein mebyd; yn yr achos yma fe ordeiniodd yr Eglwys i'r cyfryw wneuthur hynny trwy eu tadau a'u mammau bedydd; ond pan ddelont i oedran a synwyr, y maent mor rhwymedig i gyflawni yr hyn a addawyd trostynt a phettasent wedi addaw y peth eu hunain. Yr addewid yma, fel y gosodir yngha-tecism yr Eglwys, sy 'n cynnwys tair rhan, laf, ymwrthod â diafol a'i holl weithredoedd, rhod-

res a gorwagedd y byd anwir, a phechadurus chwantau 'r cnawd. Wrth ddiafol yr ŷm i ddeall yr yspryd drwg, yr hwn, ar lun y sarph, a hudodd ein rhieni cyntaf i fwytta ffrwyth y pren gwaharddedig; wrth hynny, fe a'u tynnodd hwynt a'u holl heppil i'r nn ystad o bechod a thrueni ag yr oedd ef ei hun ynddo: hwn yw 'r gelyn a arglwyddiaethodd fyth o hynny hyd yr awrhon ar ddynolryw, gan eu dal hwy yn garcharorion wrth ei ewyllys, tra parhaont yn eu hystad naturiol. Yn ei fedydd y mae dyn yn newid o'i ystad naturiol i ystad grâs, y pryd y rhoddir gallu iddo i orchfygu 'r diafol; ac y mae ef yr amser hwnnw yn gaddo ymwrthod âg ef, ysgwyd ymaith ei awdurdod, a gwrthsefyll ei brofedigaethau; y mae 'n gaddo ymadael yn hollawl â'i holl weithredoedd ef, h. y. y fath weithredoedd ag y mae efe yn eu gwneuthur ei hun, ac yn hudo dynion i'w gwneuthur, h. y. balchder, gwrthryfel, ymadawiad oddi wrth grefydd, casineb, cynfigen, llofruddiaeth, celwydd, enllib, gogan, rhagrith, a phob math o anghariadoldeb; eiddo 'r diafol yw 'r trachwantau hyn oll; ond y sawl a ewyllysiant fod yn ddisgyblion i Grist, rhaid iddynt ymwrthod â hwynt oll. Felly hefyd y mae 'n rhaid iddynt ymwrthod â'r byd anwir, h. y. yr holl bethau sy arferol o dynnu calonnau dynion

oddi wrth feddwl am y byd a ddaw, ac i'w dal hwynt i feddwl am y byd hwn yn unig neu 'n bennaf. Rhaid i ni hefyd ymwrthod, darostwng, a gochel holl drachwantau pechadurus y cnawd.

2. Y mae dyn yn ei fedydd yn addaw y bydd iddo ef yn ffyddlawn gredu holl byngciau ffydd Crist, h. y. pob athrawiaeth a ddatguddir i ni yn yr Ysgrythur lân, yr hon a roddwyd i ni gan Ysprydoliaeth Dduw i'r pwrpas yma; a'i swm a gynhwysir yn gryno yn y ffurf o broffes Grist'nogaidd a elwir y Credo.

3. Y mae pob dyn a fedyddir yn addaw y ceidw ef wynfydedig ewyllys Duw a'i orchymynion, gan rodio yn yr unrhyw holl ddyddiau ei einioes. Dyma 'r broffes a'r addewid a wnaeth pob dyn yn ei fedydd, a hyn y mae yn ei wneud o newydd bob tro y dêl i gymmuno at fwrdd yr Arglwydd; ac os tyrr ef yr ammod a wnaed y pryd hynny, nid yw ef mwyach, heb wir edifeirwch, yn deilwng i'w alw yn Gristion; o blegid, pan dorro ef yr addunedau a wnaeth ef ei hun, neu a wnaed trosto yn ei fedydd, yr hyn yw y rhan o'r cyfammod sydd o'i du ef i'w chyflawni, yna y mae Duw yn rhydd oddi wrth roi iddo y rhagorfreintiau hyn, h. y. bod yn aelod o Grist, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nef, yr hyn oedd yr addewid o

du Dduw, pan dderbyniwyd ef i'w Eglwys ef trwy fedydd. Fe ddylai pob dyn, gan hynny, ei ddyfal holi ei hun ynghylch ei wybodaeth o'r pethau hyn.

Bellach, y mae 'n angenrheidiol fod gan bob dyn iawn-ddealltwriaeth o ddeunydd a diben sacrament swpper yr Arglwydd, cyn iddo ryfygu dyfod i gymmuno o honaw. Mae St. Paul yn rhoddi cyflawn hanes o'r ordinhad yma: "Myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd," medd ef, " yr hyn a draddodais i chwi, bod i'r Arglwydd, y nos y bradychwyd ef, gymmeryd bara, ac wedi iddo ef ddiolch, efe a'i torrodd, ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttewch, hwn yw fy nghorph yr hwn a dorrir drosoch; gwnewch hyn er coffa am danaf. Yr un modd, fe a gymmerth y cwppan wedi swpperu, gan ddywedyd, Hwn yw 'r testament newydd yn fy ngwaed i, gwnewch hyn cynnifer gwaith bynnag yr yfoch, er coffa am danaf; canys cynnifer gwaith bynnag y bwyttaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwppan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd, hyd oni ddelo," h. y. i farnu 'r byd. Coffhau aberth marwolaeth Crist ydyw pwrpas y cymmun. Er bod y geiriau hyn, pan ddwys ystyrir hwynt, yn ddigon, debygai ddyn, i arswydo pobl rhag dyfod at y bwrdd sanctaidd heb barchedig ddiolch ac ofn, etto er hyn

i gyd, yr oedd ymysg y Corinthiaid rai, naill ai trwy eu cam-ddeall neu eu cam-ystyriaeth, a ryfygent ddyfod atto fel pe na buasai ond rhyw bryd cyffredin, a bwytta ac yfed elfennau corph a gwaed Crist megis bwyd a diod cyffredin. Pan ddeallodd St. Paul mai o eisiau deall yr ordinhad yr oeddynt yn gwneuthur hyn, y mae ef yn eu gwneuthur yn adnabyddus â phob peth a berthyn iddi, o'r dechreu i'r diwedd, yn y geiriau a ddarllennais i chwi; ac yna, er mwyn eu hargyhoeddi o'u camgymmeriad gynt, a'u gwneuthur yn fwy gofalus i ochel yr un peth rhag llaw, fe a ddywed, "Am hynny, pwy bynnag a fwyttao o'r bara hwnnw, ac a yfo o gwppan yr Arglwydd yn anheilwng, euog a fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd;" megis pe dywedasai, Gan mai diben a phwrpas yr ordinhad sanctaidd hon yw 'r hyn a ddangosais i chwi yrwan, am hynny, pwy bynnag a fwyttao ac a yfo yn anheilwng, fel y gwnaethoch chwi hyd yn hyn, a fydd euog o bechod tra mawr, h. y. o halogi corph a gwaed yr Arglwydd. Nid yw yn dywedyd, Pwy bynnag o honom sy anheilwng, (o blegid fod pawb o honom felly, ysywaeth,) ac a ryfyga er hynny fwytta o'r bara ac yfed o'r cwppan hwnnw; ond y sawl a wnelo hynny mewn anheilyngdod, h. y. trwy ryfyg ac amharch, mewn modd anweddus i'r

ordinhad sanctaidd hon, fel y gwnaeth y Corinthiaid gynt, nid yw y fath un yn bwytta nag yn yfed corph a gwaed Crist. Mae 'n resynol i feddwl nad oedd y Corinthiaid annuwiol hyn yn gwneud dim rhagoriaeth rhwng corph yr Arglwydd a bwyd a diod cyffredin; rhai o honynt a ddeuent i'r cymmun a newyn arnynt, ac eraill yn feddwon! Er gwaethed buchedd llawer yn ein mysg, yr wyf yn gobeithio y gellir dywedyd nad oes neb yn euog o'r fath anrhefn anweddus a hyn; etto yr wyf yn ofni fod llawer yn rhy ddiwybod ynghylch y sacrament yma, yn enwedig y rhai anllythyrenog a'r rhai ieuainge, ac at y fath rai yn bennaf yr wyf yn cyfeirio yr ymadroddion yma. Cyn y delo neb at y bwrdd sanctaidd, fe ddylai fod ganddo wybodaeth dda i ba bwrpas yr ordeiniwyd y wledd nefol honno, a'r lleshad yr ŷm i'w dderbyn oddi wrthi. Pan ordeiniodd ein Harglwydd ei swpper diwaethaf, fe a ddywedodd, "gwnewch hyn er coffa am danaf." Wrth hyn fe a roddes orchymyn i'w ddisgyblion a oeddynt yn bresennol, ac ynddynt hwy i'w Eglwys ymhob oes, i gadw 'r ordinhad sanctaidd yma yn barchus er coffa am dano, neu am y farwolaeth yr oedd ef i ddioddef drannoeth am bechodau 'r byd, ac i barhau i wneud felly yn wastadol hyd ei ail-ddyfodiad ef. Felly y dywed yr Apostol

ychydig o flaen y testyn, "Cynnifer gwaith bynnag y bwyttaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwppan, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd, hyd oni ddelo." Hyn, ynteu, y dylem ni wneuthur yn wastad, i'r perwyl yma yr ordeiniwyd y sacrament hwn, er gwastadol gof am ddioddefaint a marwolaeth Crist, ac o'r lleshad yr ŷm yn ei dderbyn oddi wrth ei farwolaeth; a'r lleshad sydd gymmaint nas gwyr neb ei lawn faint, o blegid yr ŷm yn cael maddeuant o'n holl bechodau, ac fe 'n cymmodir â'r Hollalluog Dduw: rhoddion a doniau 'r Yspryd Glan, a'r holl fendithion a gawsom erioed, sydd gennym yrwan, neu a gaffom byth rhag llaw yn y byd hwn neu yn y byd a ddaw, hwy oll a ennillwyd i ni drwy aberth dioddefaint a marwolaeth Crist, trwy rym a rhinwedd yr aberth a offrymmodd ef trosom i Dduw pan oedd ef ar y ddaiar. Yn y sacrament hwn, tra 'r ydym yn coffhau aberth marwolaeth Crist, yr ydys yn cyfrannu i ni yn enwedig y lleshad o'i farwolaeth, sef maddeuant, a grâs, ac, yn ddilynol, fywyd tragywyddol; grâs a chwanegir, a'u pardwn a selir i'r gwir edifeiriol a'r ffyddlawn; ein heneidiau a gryfheir trwy gorph a gwaed Crist a dderbynir yn ysprydol yn y sacrament hwn, o herwydd, fel y dywed St. Paul, wrth hyn yr ŷm yn cael Crist i drigo yn ein calonnau trwy ffydd, mewn

modd arbennig, yn fy marn i, wrth gymmuno; a'n Hiachawdwr ei hun a ddywed, "Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau:" a chan ei fod ef, yr hwn yw ffynnon pob grâs a nerth, yn aros ynom ni, a ninnau ynddo yntau, mae ei râs ef yn ddigon i ni yn wastad. Mae 'n ddiammeu fod y rhai sydd arferol o dderbyn y sacrament bendigedig yn fynych ac yn deilwng, yn gwybod yn dda wrthynt eu hunain y lleshad y maent yn ei dderbyn oddi wrtho; eu bod hwy wrth ei fynych arfer yn derbyn grâs Duw, yn derbyn cymmorth ei Lan Yspryd ef i'w gwared oddi wrth brofedigaethau y byd, y cnawd, a'r cythraul, i'w diddannu a'u cymmorth i fyned yn fodlonus, yn siriol, ac yn llawen drwy bob digwyddiadau a chroesau bydol, ac i'w gwneuthur yn sicr a diymmod yngwaith yr Arglwydd yn wastadol. Ond y sawl nid ydynt yn ei dderbyn ond yn anaml, unwaith neu ddwy ysgatfydd yn y flwyddyn, o ran fod y ffasiwn felly, nid yw rhain yn deall mor angenrheidiol yw, nag ychwaith yn deimladwy o'i leshad; oni bae hyn, hwy a'i harferent yn amlach, ac a gymmerent ofal i'w gwneuthur eu hunain, trwy gymmorth nef, yn gymmwys. Gan hynny, mae i ni wir achos i ofni am y sawl sydd mor ddiofal a difatter am y

cymmun bendigedig, nad ydynt yn iawn-farnu corph yr Arglwydd, na pha leshad yr ŷm yn ei dderbyn oddi wrtho pan fom deilwng gyfrannogion o honaw. Ond bwriwch fod ganddynt, am y tro y deuant, ystyriaeth barchus o'u dyledswydd, etto oni fyddant ofalus am eu buchedd ar ol, cystal ag o flaen, y cymmun, nid rhyfedd nad ydynt yn eu clywed eu hunain fawr well o'i blegid, ac am hynny yn ddifatter am dano; ond pe baent mor ofalus ag y dylent ar ol derbyn y sacrament, diammeu y byddai i'w heneidiau gael eu cryfhau a'u diddannu trwy gorph a gwaed Crist, fel y rhai a grybwyllais o'r blaen, ac felly y byddai arnynt hiraeth am yr adeg nesaf i fod yn gyfrannogion o honynt drachefn. Eithr y cyfryw rai ag sydd yn byw mewn esgeulusdra gwastadol a rhyfygus o'r cymmun bendigedig, fel y mae gormod ysywaeth, mae y rhain yn newynu eu heneidiau truain, maent yn byw yn wrthnysig mewn pechod gwirfodd, h. y. mewn troseddiad o'r gorchymyn dwys a roes ef ei hun, ymron ar ei ymadawiad, i'w ddisgyblion, ac ynddynt hwy i ninnau, "Gwnewch hyn er coffa am danaf." Ni buasai iddo fyth orchymyn hyn i ni, oni buasai yn wir angenrheidiol i'w wneuthur er mwyn ein hiechydwriaeth ni, fel y byddem yn gadwedig trwyddo ef.

Hyd yn hyn ŷ traethais am wybodaeth o'r fath bethau ag a ddylai pob dyn holi ei hunan yn ddifrifol am danynt, cyn y delo i'r cymmun. Fe a ddylai ddeall natur a phwrpas y ddau sacrament, yr addewid a'r broffes a wnaeth yn ei fedydd pan wnaed ef yn Gristion, a'i fod yn adnewyddu neu 'n ail wneud yr addewid honno wrth dderbyn swpper yr Arglwydd, a'r mawr lês, sef grás a maddeuant, sydd yn deilliaw oddi wrth gyfrannu 'n ffyddlawn. Yr ail beth a ddylai dyn ei holi ei hun am dano yw, pa ddefnydd a wnaeth ef o'i wybodaeth. Ond gan na wasanaetha 'r amser i ystyried hyn yn helaeth yrwan, mi a'i hegluraf, trwy gennad yr Arglwydd, y Sul nesaf. Yn y cyfamser, gadewch i mi ddymuno arnoch ddwys ystyried y moddion a osodais o'ch blaen, fel y galloch fod yn gyfrannogion teilwng o'r cymmun bendigedig. Wrth fod felly chwi a gewch eich diwallu â phob daioni ysprydol yn y byd presennol, ac yn y byd a ddaw cewch deyrnasu gyd â Christ yn oes oesoedd.

PREGETH XXI.

Y CYMMUN.

1 Corinthiaid xi. 28.

Eithr holed dyn ef ei hun; ac felly bwyttaed o'r bara, ac yfed o'r cwppan.

MI a ddechreuais ddangos i chwi y tro diwaethaf mor angenrheidiol ac mor ddyledus yw hunan-ymholiad, ac fel y gwneler hyn yn y modd y dylid, rhaid i ni wybod am ba beth y dylem holi ein hunain am dano cyn beiddio dyfod at fwrdd yr Arglwydd, a hynny yw, am ddau beth yn enwedig; yn gyntaf, am ein gwybodaeth o seiliau a phrif byngciau crefydd; a hyn a wnaethum y tro diwaethaf.

II. Yr ail beth a ddylai dyn ei holi ei hun am dano yw, pa arfer a deunydd a wnaeth ef o'i wybodaeth, pa fodd y cyflawnodd ef ei addun ed fedyddiol, pa fodd y cadwodd orchymynion Duw, a fu ei fuchedd yn ol ei grediniaeth. Yr wyf yn ofni nad oes fawr, ïe, neb o honom ni a eill atteb y cwestiwn fel y dymunem; rhaid

i ni gyfaddef gyd â'r Apostol, mai mewn llawer o bethau yr ŷm ni bawb yn llithro; o herwydd hynny ni a ddylem holi ein hunain beunydd, bob amser, i ddiwygio yr hyn a wnaethom ar fai, y mae hyn yn dra angenrhaid, yn fwy enwedig, cyn y delom at fwrdd yr Arglwydd; nid oes i neb ddyfod i'r wledd honno heb y wisg briodas: rhaid i ni holi ein hunain, nid yn unig nes y gwelom ein pechod, ond hefyd nes i ni ei gashau ac amcanu ymadael âg ef, o blegid â'r hardd wisgoedd hyn y gwneir eneidiau yn gymmwys i'r gymdeithas nefol a gyfarfyddir yn y wledd yma. Nid trwy ychydig goeg-chwiliad y mae 'r gwisgoedd i'w cael, ni wasanaetha dim llai na chwbl-holiad a llwyr edifeirwch i'r pwrpas yma. Rhaid i ni, ynteu, lawn-ystyried y wir ffordd a'r modd i gyflawni hynny: Cyfraith Dduw yw 'r rheol sydd i'n cyfarwyddo i wneuthur hyn; "Llusern yw dy air i'm traed a llewyrch i'm llwybr;" dyma 'r gwir lewyrch i oleuo ein tywyllwch, ac i'n cyfarwyddo ar y ffordd union i happusrwydd tragywyddol. Ond os cymmerwn arnom ein cyfarwyddo ein hunain, a galw yn dda yr hyn y mae Duw yn ei alw yn ddrwg, dewis yr hyn y mae ef yn gorchymyn i ni ei wrthod, a gwneuthur yr hyn y mae ef yn peri i ni adael heb ei wneuthur, yna yr ŷm yn ymwrthod â chyfreithiau Duw i'n cyfarwyddo, ac felly yn myned ar

gyfeiliorn ar hyd gam lwybrau ein meddyliau ein hunain. Holwn, gan hynny, ein hunain wrth reol cyfraith Duw, h. y. y deg gorchymyn y rhai yr ŷm yn clywed eu hadrodd o leiaf bob Sul. Mae 'r gorchymynion wedi eu rhannu yn ddwy lêch, y pedwar cyntaf, neu 'r llêch gyntaf, sy 'n cynnwys ein dyled tu ag at Dduw, a'r chwe' olaf, neu 'r ail lêch, ein dyled tu ag at ein cymmydog. Am ein dyled tu ag at Dduw, holwn ein hunain yn gyffredin a ydym yn credu ynddo, yn ei ofni a'i garu â'n holl galon, â'n holl feddwl, â'n holl enaid, ac â'n holl nerth. Ond yn fwy enwedigol, ystyriwn bob gorchymyn yn arbennig.

A ydym, yn ol y gorchymyn cyntaf, yn credu ynddo mai efe yw 'r unig a'r gwir Dduw? a ydym ni yn ei ofni, ac yn talu iddo 'r parch a'r anrhydedd sydd ddyledus iddo? a ydym ni yn llawn fodloni i'w rasusaf ragluniaeth ef, pa beth bynnag a ddigwyddo i ni? a ydym yn diolch iddo am y bendithion yr ŷm beunydd yn eu derbyn? canys ynddo ef yr ŷm yn byw, symmud, ac yn bod; heb ei ofal a'i gennad nis gallwn fyw funud awr. A ydym yn ei glodfori ef am ei holl drugareddau i ni yn y byd yma, ac yn fwy enwedig am brynedigaeth y byd trwy ein Harglwydd Iesu Grist, am foddion grás, ac am obaith gogoniant yn y byd a ddaw?

A ydym, yn ol yr ail gorchymyn, nid yn unig heb addoli delwau, ac heb addoli 'r gwir Dduw mewn gau fodd trwy eulun yn y byd, ond a ydym, pan fyddom yn gweddio, yn ei addoli ef yn ddefosiynol â'n holl galon, heb adael i'n calonnau wibio a myfyrio ar wagedd ac oferedd, neu ddim arall yn y byd, ond eu sefydlu hwy ar y goruchaf Dduw, fel pe baem yn siarad âg ef wyneb yn wyneb?

A ydym, yn ol y trydydd gorchymyn, pan fom gwedi ein rhoi yn gyfreithlawn ar ein llw, bob amser yn dywedyd y gwir? Gobeithio yr wyf ein bod oll yn gwneud hyn; ond a ydym ni 'n euog o ofer a byrbwyll dyngu, Myn Duw, neu, Ar ein heneidiau, nag myn dim arall, na chwaith rhegu eraill neu ni 'n hunain? A ydym ni un amser yn cymmeryd enw Duw yn ofer? a ydym ni un amser yn arferu 'r enw bendigedig hwnnw â'n geneuau, ond pan fom yn ddefosiynol yn meddwl am y Goruchaf yn ein calonnau?

A ydym ni, yn ol y pedwerydd gorchymyn, yn gwasanaethu Duw ac yn anrhydeddu ei air ef yn gywir bob dydd o'n heinioes, yn enwedig ar ei ddydd sanctaidd ei hun, ei Sabboth? a ydym ni yn ei wasanaethu ef yn gywir ar y dydd hwn drwy gyrchu 'n ddyfal i wrando ei air ef yn ei dŷ, ac yno yn ei wasanaethu ac yn ei addoli 'n

ddefosiynol, yn barchus, ac yn ostyngedig? a yw 'n hawdd gennym wneud rhyw wâg-esgus rhag dyfod yno? a yw neb o honom yn halogi dydd yr Arglwydd, drwy orchwyl yn y byd, neu chwareu ac ofer-gampiau? a oes yma rieni neu ben-teulu yn gwybod fod ei blentyn neu ei weinidog yn arferol o halogi 'r dydd hwn? ac a ydynt hwy yn cymmeryd gofal ar iddynt eu hunain a'u tylwyth dreulio 'r dydd hwn mewn gweithredoedd o gariad ac eluseni, yn gwasanaethu Duw ac yn gwneuthur daioni i ddyn? Ystyriwn a myfyriwn, ac os ŷm ar fai, byddwn fwy gofalus a gweddiwn am ras i'w ochel rhag llaw.

Mae 'r chwe gorchymyn diwaethaf, neu 'r ail lêch, yn cynnwys ein dyled tu ag at ein cymmydog, ac er mwyn gwybod a ydym ni yn cyflawni hyn, holwn ein hunain yn gyffredin a ydym ni 'n caru ein cymmydog fel ni 'n hunain, ac a ydym yn dangos y cariad yma trwy wneuthur i bob dyn megis y chwennychom iddo yntau wneuthur i ninnau. Ond yn fwy enwedigol, ystyriwn yma hefyd bob gorchymyn yn arbennig.

A ydym ni, yn ol y pummed gorchymyn, yn caru ac yn anrhydeddu 'n rhieni naturiol, trwy ymddygiad parchus, ufudd, a gostyngedig iddynt? a ydym ni yn eu cymmorth hyd eithaf ein

gallu am bob peth a fo angenrhaid iddynt hyd eu holl oes, yn enwedig yn eu henaint? A ŷm yn ufuddhau i'r Brenhin a'i swyddogion, drwy gadw eu cyfreithiau yn ostyngedig, yn fodlon, ac yn ddirwgnach? a ydym yn ymostwng ac yn ymddwyn yn barchedig tu ag at ein llywiawdwyr, dysgawdwyr, a bugeiliaid ysprydol? a ŷm yn dyfal wrando, ac yn ymegnio i gofio eu holl addysg dda a'u cynghorion? A ydym, os ydym weinidogion, yn ufudd, ac yn ostyngedig, yn onest, yn gywir, ac yn ffyddlawn i'n meistriaid yn ein gwaith a'n gorchwyl, yn gystal allan o'u gŵydd ag o flaen eu llygaid? ac a ydym yn ymddwyn ein hunain yn ostyngedig, gan berchi pawb o'n gwell, ac yn gariadus, ac yn addfwyn tu ag at bawb o bob grâdd yn gyffredin? Ac am gyflawni hyn (heblaw 'r gwobr a bery byth) mae i ni addewid o hir oes a llwyddiant ar y ddaiar.

A ydym, yn ol y chweched gorchymyn, heb wneud niwaid i neb, nag ar air nag ar weithred, eithr yn ol a allom yn gwneud ein goreu i faentumio heddwch, cariad, a llonyddwch? a oes na châs na digasedd yn ein calonnau i neb? o blegid nid ydym yn unig i fod yn ddieuog o dywallt gwaed wrth y gorchymyn hwn, ond i gadw ein calonnau yn lân oddi wrth ddrwgfwriad, digofaint, casineb, malais, cynfigen, ym-

ryson, llid, ac ymddial, a phob cyfryw bechod.

A ydym, yn ol y seithfed gorchymyn, yn cadw ein cyrph mewn cymmedroldeb, sobrwydd, a diweirdeb, fel y bom bur, glân, a dihalog aelodau corph Crist a themlau 'r Yspryd Glan? a ydym yn ymgadw nid yn unig oddi wrth y pechod o odineb mewn gweithred, ond hefyd oddi wrth bob aflendid meddwl cystal a gweithred, oddi wrth bob deisyfiadau, geiriau, ac ymddygiad aniwair, ac oddi wrth bob peth a eill ein hannog i'r unrhyw, meddwdod, cwmpeini drwg, a phob ymadrodd ac ymddygiad brwnt a serthedd?

A ydym, yn ol yr wythfed gorchymyn, nid yn unig yn cadw ein dwylaw rhag lladratta, eithr yn gywir ac yn union ymhob peth a wnelom, fel na bo i ni gam-attal dim o eiddo arall, yn dywyll nag yn oleu, trwy dwyll na thrwy drais? ac os buom mor annedwydd a thwyllo neb, neu gam-attal y peth sydd yn gyfreithlawn i arall, a wnaethom ni iawn a diwygiad hyd eithaf ein gallu am ei golled a'r cam a wnaethom âg ef? A ydym yn ddidwyll ac yn onest yn ein bargeinion, heb arfer twyll yn y byd i beri colled i eraill ynddynt? Y mae 'r gorchymyn hwn hefyd nid yn unig yn gwahardd i ni gymmeryd o eiddo arall, ond yn ein rhwymo hefyd i fod yn haelionus. Nid yw 'r Goruchaf

Dduw yn rhoddi ei fendithion i ni i'w treulio arnom ein hunain yn unig, eithr y mae efe yn gorchymyn i ni fod yn elusengar hyd eithaf ein gallu ar bob achos; ac oni byddwn felly, yr ŷm yn lladratta megis y rhan y mae efe yn gorchymyn i ni ei rhoddi i arall. Nyni a ddylem, ynteu, fod yn elusengar ar bob achos wrth y tlawd a'r anghenus.

A ydym, yn ol y nawfed gorchymyn, nid yn unig heb ddwyn cam-dystiolaeth yn erbyn ein cymmydog pan fom ar ein llw, eithr a ydym yn cadw 'n tafodau bob amser rhag dywedyd celwydd, cabl-eiriau, a drwg absen am neb? a ydym yn euog o gario chwedlau er niwaid i enw da eraill, nag yn hoffi clywed y cyfryw? a ydym yn euog o enllibio neu roi drygair i eraill yn eu habsen? ynteu a ydym yn hygoel i obeithio gwell pan glywom enllib i neb, ac i'w ymddiffyn hyd lle gallom trwy wirionedd.

A ydym, yn ol y degfed gorchymyn, nid yn unig heb wneud niwaid i'n cymmydog yn ei gorph, ei feddiannau, a'i enw da, eithr a ydym ni hefyd heb chwenych ei dŷ, ei ŷch, neu ei asyn er mwyn ein budd, ei wraig neu ei forwyn er mwyn ein pleser, na dim ar sydd i'w eiddo er mwyn ein budd na 'n trachwant? ac a ydym yn fodlon i'n cyflwr a'r hyn sydd gennym ein hunain, ac yn dysgu llafurio 'n gywir mewn rhyw

alwedigaeth onest, i'n cadw 'n hunain a'n teulu, ac i roddi i'r sawl a fo mewn diffyg neu eisiau, yn ol y cyflwr i'r hwn y rhyngodd bodd i Dduw ein galw.

Hyn oll a ddylem ni 'n holi ein hunain yn eu cylch, ac os gwelwn ein bod yn feius mewn dim a gynhwysir tan y gorchymynion hyn, fel y gwnawn yn sicr y goreu o honom, dylem amcanu 'n ddifrifol i'n diwygio ein hunain, a gweddio ar Dduw i roi i ni ei râs i'n helpu, fel y dilynom fuchedd well, ac yr ymadawom oddi wrth y fath bechodau rhag llaw; onite, heb y fath fwriad, ein cydwybodau ein hunain a fyddant yn dystion i'n herbyn nad ydym yn gymmwys i neshau at fwrdd yr Arglwydd, nad ydym yn haeddu dim ar ei law ef ond y poenau tragywyddol a addawodd ef i bechaduriaid gwrthnysig. Mae ein Heglwys ni, yn niwedd y Catecism, yn dysgu i ddynion i holi eu hunain am dri pheth yn bendifaddef cyn y delont i swpper yr Arglwydd; ynghylch eu hedifeirwch, eu ffydd, a'u cariad perffaith. Rhaid iddynt, ynghyntaf, eu holi eu hunain a ydynt hwy yn wir edifeiriol am eu pechodau a aethant heibio, y rhai a wnaethant yn erbyn gorchymynion Duw, y rhai a adroddais i chwi yr awrhon, ac yn sicr yn amcanu dilyn, trwy râs Duw, buchedd newydd rhag llaw; canys oni bydd-

ant wir deimladwy ac edifeiriol o'u pechodau, nid all fod ganddynt mo'r parch dyledus i'r ordinhad sanctaidd, ni all fod ganddynt deimlad dwys o'u mawr raid wrth lachawdwr: ac ni wasanaetha iddynt yn unig ofidio a galaru, a bod yn drwm ac yn drist am eu pechodau, ond rhaid iddynt felly edifarhau am danynt, fel y bo iddynt sicr amcanu ac ymroi o ddifrif, trwy nerth a grâs Duw, i ddilyn buchedd newydd rhag llaw, ac onite nid ydynt addas i dderbyn y maddeuant a'r gollyngdod a gynhygir iddynt yn y sacrament hwn. Mae i ni wir achos i ofni fod llaweroedd yn ddiffygiol yn y parrottoad yma i dderbyn swpper yr Arglwydd, ac oni bae hynny, ceid gweled ei effaith yn fwy eglur yn eu buchedd: hwy a fyddant, ysgatfydd, beth sobrach a difrifach ychydig cyn cymmuno nag amseroedd eraill, ond gwedi hynny nid ydynt yn cymmeryd gofal yn y byd, ond dilyn eu hên ffyrdd heb feddwl am wellhad. Ac nid rhyfedd hyn, canys y mae 'n eglur na ddarfu iddynt erioed amcanu edifarhau, o blegid pe buasent, hwy a geisient ymgadw yn fynych oddi wrth eu pechodau rhag llaw; heb hynny, sef argyhoeddiad o'u pechod, nid oes dim ynddynt gymmwys i gorph a gwaed Crist weithredu arnynt, ïe, nid ydynt addas i dderbyn grâs Duw i'w helpu: ar air, rhaid i'r sawl sy 'n dyfod i swpper yr Ar-

glwydd, chwilied eu calonnau yn fanwl, holi eu buchedd a'u hymarweddiad yn ddwys ac yn gyfan; rhaid iddynt ystyried yn ddifrifol ymha beth y torrasant yr adduned gyhoedd a wnaethant â Duw yn eu bedydd, a phan ddelont yno rhaid iddynt ail-wneuthur yr adduned honno, ac ymroi o ddifrif, trwy râs Duw, i'w chadw 'n fwy gofalus fyth rhag llaw trwy ddilyn buchedd newydd.

Gyd â'r gwir edifeirwch yma, rhaid iddynt yn nesaf eu holi eu hunain a oes ganddynt ffydd fywiol yn nhrugareddau Duw trwy Grist, gyd â diolchus gof am ei angeu; canys heb ffydd nid yw bosibl iddynt dderbyn corph a gwaed Crist yn deilwng. Pan fom, ynteu, wrth ein holi ein hunain yn gweled ein bod yn wir edifeiriol am ein pechodau, ac yn wir, yn sicr, ac yn ddifrifol yn amcanu dilyn buchedd newydd, neshawn trwy ffydd fywiol at fwrdd yr Arglwydd, gan gredu yn ddiammeu, cyn sicred a'n bod ni yno yn bwytta ac yn yfed yr elfennau gweledig o fara a gwin, ein bod yr un amser cyn sicred yn derbyn cwbl faddeuant o'n pechodau trwy 'r moddion hyn, sef corph a gwaed Crist; cyfrennir hwy mewn modd ysprydol i ni yno 'r amser hwnnw, gwedi ei dorri a'i dywallt drosom. Ac nid yn unig maddeuant o'n pechodau gynt trwy anfeidrol drugar-

eddau Duw yn Nghrist, ond grâs a nerth i gyflawni ein hamcanion a'n haddunedau sanctaidd, fel y gallom fyw mewn newydd-deb buchedd.

Yn ddiwaethaf, dylai dynion eu holi eu hunain, cyn dyfod i swpper yr Arglwydd, a ydynt hwy mewn cariad perffaith â phob dyn, heb fod ganddynt na digofaint, na malais, na drwgfwriad i neb, o blegid dywedyd o Dduw ei hun, "Oni faddeuwch i ddynion eu camweddau, ni faddeu eich Tad nefol eich camweddau chwithau." Oni faddeuwn i bawb bob camwri a wnaethant erioed â ni, nid allwn fyned at y sacrament â dim gwir ffydd yn nhrugaredd Duw am faddeuant i'n pechodau, canys rhybuddir ni o flaen llaw na faddeua efe monynt; am hynny y dywed ein Hiachawdwr, "Os dygi dy rodd i'r allor, ac yno dyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim i'th erbyn, gad yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith: yn gyntaf cymmoder di â'th frawd, ac yna tyred ac offrwm dy rodd." Ymha eiriau y mae ef yn dywedyd yn eglur, mor eglur nad oes modd eu cam-ddeall, na dderbyn ef na rhodd nag un gwasanaeth arall gennym a offrymmwn iddo ar ei fwrdd, oni byddwn mewn cariad perffaith â phob dyn. Am hynny, pa le bynnag y bo syrthiad allan rhwng pobl, rhaid iddynt gymmodi â'u gilydd, cyn y gallont ddisgwyl cymmod â Duw, fel y

bont gyfrannogion teilwng o gorph a gwaed Crist er maddeuant iddynt am eu pechodau: ac os yw un o honynt yn ewyllysgar i gymmodi, a'r llall yn parhau yn ei ddigter, mae ef yr hwn sydd ewyllysgar i gymmodi yn rhydd i ddyfod: 1 ddiweddu: pwy bynnag, ar ol dwys holiad arno ei hun, a welo ei fod yn edifeiriol am ei bechodau a aethant heibio, yn amcanu dilyn buchedd newydd, a chanddo ffydd fywiol yn nhrugaredd Duw trwy Grist, a'i fod mewn cariad perffaith â phob dyn, fe a eill ddyfod yn hyderus i fwytta o'r bara ac i yfed o'r cwppan yn y cymmun, heb ddim arswyd o wneuthur hynny yn anheilwng: canys pan ddêl yno â dwys a gwir deimlad o'i bechodau gynt, nid all lai na bod yn edifeiriol o'u plegid, ac felly ymddwyn â gostyngeiddrwydd a pharchedig ofn; gan ddyfod â ffydd fywiol, nid all lai na iawn-farnu corph yr Arglwydd, a hyderu 'n gyfiawn yn ei addewidion ef; gan ddyfod hefyd mewn gwir Grist'nogol gariad, mae efe 'n gwbl gymmwys ac yn addas i dderbyn corph a gwaed Crist, i gyfrannu hefyd o'r lleshad dirfawr a'r fendith a roddir i'r ffyddloniaid yn swpper yr Arglwydd, a hynny ydyw, maddeuant am a basiodd, a chwanegiad o ras rhag llaw, i'w llewyrchu, a'u cryfhau, a'u cysuro, ac i hwylio ymlaen eu hedifeirwch a'u gwellhad.

PREGETH XXII.

CYMMUN Y SAINT.

1 Ioan i. 3.

Yr hyn a welsom ac a glywsom, yr ydym yn ei fynegi i chwi, fel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas gyd â ni: a'n cymdeithas ni yn wir sydd gyd â'r Tad, a chyd â'i Fab ef Iesu Crist.

FY mwriad yr amser yma ydyw esponio erthygl o'n credo, sef cymmun y saint. Wrth y gair saint fe ddeallir yn fynych yn yr Ysgrythur, Grist'nogion yn gyffredin, y sawl oll a fedyddiwyd yn ffydd Crist, ac ydynt yn proffesu ei grefydd ef; ond yn yr ystyr manylaf, ac yn y credo, y deallir wrth yr enw seintiau, Grist'nogion duwiol sanctaidd; a'r enw yma sy 'n perthyn nid yn unig i Grist'nogion a ymadawsant á'r byd, ond hefyd i'r holl ffyddloniaid er y dechreuad. Ystyriwn, ynteu, gyd â phwy a pha rai y mae i'r saint ar y ddaiar gymmun neu gymdeithas.

1. Y mae ganddynt, a hwy yn byw yn Eg-

lwys Crist, gymmun neu gymdeithas â Duw 'r Tad. Yr achos i'r Apostolion ysgrifennu oedd, fel y byddai i'r rhein'y, at ba rai yr oeddynt yn ysgrifennu, gymmundeb â nhw; "Yr hyn a welsom ac a glywsom yr ydym yn ei fynegi i chwi, fel y caffoch chwithau gymdeithas gyd â ni," ac y mae ef yr un amser yn mynegi bod eu cymdeithas hwy gyd â'r Tad: trwy dderbyn athrawiaeth yr Apostolion mewn ffydd fywiol, yr oeddynt yn myned i gymdeithas â'r Apostolion; a chan fod gan yr Apostolion gymdeithas â Duw 'r Tad, yr oedd yn canlyn fod gynddynt hwythau hefyd. Megis mae cangennau 'r winwydden ydynt, a'r Tad yw 'r llafurwr, y mae'r saint felly oddi tan ei olygiad a'i ofal arbennig. St. Iago a ddywed ddarfod i Abraham gredu i Dduw, a chyfrifwyd hynny yn gyfiawnder iddo, a chyfaill Duw y galwyd ef. Gan hynny, y sawl bynnag a gredont yn ffyddlawn yn Nuw, fel bid sicr y mae 'r saint yn gwneuthur, cyfeillion ydynt hwy i Dduw, yn hoff ganddo ef yr hwn yw 'r cyfaill goreu, a hynny mewn gradd uwch na phawb yn yr holl fyd, ac yn alluog i helaethu gwynfyd y sawl y bo ef yn ewyllysio yn dda iddynt; y maent yn myned hefyd yn feibion iddo, yn cael y ddawn werthfawr o fabwysiad, "Gwelwch," medd yr Apostol Ioan "pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y'n

gelwid yn feibion i Dduw." Y maent hefyd trwy rym yr addewidion gwerthfawr a roed iddynt, yn cael eu gwneuthur yn gyfrannogion o'r duwiol anian, yn ymgyffelybu mewn rhyw fesur i ddaioni a sancteiddrwydd y Goruchaf; a pha tebyccaf yr elont iddo, o hynny yn fwy cymmeradwy ganddo. Y mae cymmundeb rhwng dwy blaid yn cyfrannu mewn rhyw fesur o'r naill i'r llall: yn yr achos yma, Duw 'r Tad yw awdwr cyntaf a ffynnon holl radau a gwynfyd y saint; efe a drefnodd Iachawdwr iddynt, efe sy 'n cyfrannu rhad iddynt hwy, a hwythau gwedi ei dderbyn, yn talu iddo ef eu teyrnged o ddiolch, a chlod, ac ufudd-dod: efe sydd yn rhoddi iddynt hwy fywyd a galluoedd ysprydol, hwythau a ddeunyddiant y galluoedd yn gogoneddu ei enw ac yn mawrygu ei briodoliaethau; y mae efe yn cyfrannu o'i gariad iddynt hwy gan ei dywallt yn eu calonnau, hwythau a'i carant ef ac a offrymmant iddo yr arogl mwyaf gwerthfawr ganddo, calonnau cywir a diolchgar; hwy a arferant gymmundeb âg ef trwy eu gweddiau dyfal ger bron gorsedd grâs, yntau sy 'n teilyngu rhoddi iddynt hwy y rhadau a ofynant a'r drugaredd sy angenrhaid iddynt. A dyma 'r cymmundeb sydd i'r saint ar y ddaiar gyd â'r Tad nefol.

2. Y mae iddynt gymmun, neu gymmundeb,

gyd â'r Mab: "Ein cymdeithas ni sydd gyd â'r Tad a'r Mab," medd St. Ioan yn y testyn, ac medd Apostol arall, St. Paul, "Trwy yr hwn y'ch galwyd i gymdeithas ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd ni." Y cymmundeb yma rhwng Crist a'i aelodau sydd agos iawn, a sylfaen y cymmundeb ydyw ef rhyngddynt hwy â'u gilydd; y maent yn un â'u gilydd, o herwydd eu bod yn un âg ef: fe a gymmerodd arno eu natur, gan fyned megis yn asgwrn o'u hesgyrn a chnawd o'u cnawd, gan ei wneuthur yn gyffelyb iddynt hwy ymhob peth, oddi eithr pechod; fe a gymmerodd arno eu camweddau, a'r felldith oedd yn gorwedd arnynt o'u herwydd; y mae yntau yn cyfrannu iddynt hwy o'i fendithion a'i râs, a hwythau felly yn myned yn gyfiawnder Duw ynddo ef: y mae 'n teimlo dros eu gwendid, yn gwybod eu hangenrheidiau, ac yn eu diwallu; y mae 'n cyd-ddioddef a'u dioddefiadau hwy, yn gymmaint a phan erlidiai Saul ei aelodau ar y ddaiar, yr oedd Crist eu pen yn llefain yn y nef, "Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?" Y mae 'n cadw cymmundeb gyd a'i Eglwys, a'i Eglwys gyd ag ef, trwy ordinhadau gosodedig, trwy ba rai y mae yn cyfrannu iddynt o'i ras: sacrament swpper yr Arglwydd a elwir yn arbennig yn gymmun ei gorph a'i waed; trwy ei weinidogion hefyd a

phregethiad y gair y mae cymdeithas rhwng pen yr Eglwys a'i aelodau ; megis y mae ef, felly y maent hwy ; byw yw efe, a byw fyddant hwythau ; y maent yn cyfrannu o'i ddioddefiadau, sef ei haeddiant, ac o'i ogoniant, ac yn enwedig o'i eiriolaeth gyd a'r Tad : y cyfryw ag ydyw'r undeb rhwng brodyr a chyd-etifeddion, rhwng y priod-fab a'i briod, rhwng y pen a'r aelodau, rhwng y winwydden a'r canghennau, y fath yw cyfundeb Crist a'r saint trwy ei Yspryd : derbyniant oll o'i gyflawnder a gras am ras.

3. Y mae gan saint Duw yn Eglwys Crist gymdeithas gyd a'r Yspryd Glan, ac y mae 'r Apostol wedi mynegi hyn ddau fodd, trwy ddull ymadrodd fel pettai 'n ammeu, "Od oes," medd ef, "ddim cysur cariad, od oes dim cymdeithas yn yr Yspryd Glan," a thrwy weddio yn ddefosiynol am dano, "Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glan, a fyddo gyd â chwi oll." Gelwir y saint wrth yr enw yma o herwydd eu bod yn sanctaidd, a sancteiddir hwy trwy 'r Yspryd yn gweithredu ynddynt. Heblaw hynny, y gymdeithas rhyngddynt gyd a'r Tad a'r Mab a effeithir trwy 'r Yspryd ; canys y maent yn myned yn feibion i Dduw trwy dderbyn yspryd mabwysiad, trwy 'r hwn y maent yn llefain Abba Dad ; ac os meibion, yn gyd-etifeddion a

Christ. "Ac oni wyddoch," medd St. Paul, "mai teml Dduw ydych, a bod Yspryd Duw yn trigo ynoch." Yr undeb neu 'r gymdeithas yma a amlygir ac a feithrinir o du 'r Yspryd trwy gyfrannu i eneidiau 'r saint ddeisyfiadau sanctaidd, a geni ynddynt lewyrch nefol, a gwybodaeth, a gobaith, a thangnefedd, a phob diddanwch ysprydol. Ar eu plaid hwy y cedwir y gymdeithas yma trwy fyfyrdod, a gweddi, trwy ymarfer a'r ordinhadau gosodedig, trwy ddeunyddio 'r rhinwedd a gyfrannwyd iddynt, ac ymegnio dilyn holl orchymynion Duw yn ddifeius. "Os car neb fi," ebr Crist, "a chadw fy ngorchymynion, fy Nhad a'i car yntau, a nyni a ddeuwn atto, ac a wnawn ein trigfa gyd ag ef." Fel hyn ni a welwn y gwneir enaid credadyn yn drigfa Duw 'r Tad a'r Mab, ac ni bydd yr Yspryd yn absennol lle byddant hwy, sef y Tad a'r Mab; "Canys od oes neb heb Yspryd Crist, nid ydyw hwnnw yn eiddo Crist," medd yr Apostol. Yr Yspryd Glan yw y cwlwm a'r gadwyn sydd yn cysylltu y gymdeithas yma rhwng y saint a'r Personau eraill o'r Drindod, a rhyngddynt a'u gilydd. Ac ymegnied pawb i faentumio yr undeb trwy achlesu yr Yspryd yn eu mynwes, a gochelant ei ddigio a'i yrru ymaith trwy fath yn y byd o amhurdeb ac anfoesoldeb.

4. Ond, ymhellach, y mae i'r saint gymmun, neu gymdeithas, a'r angylion yn y nef. Er nid gweledig yw 'r gymdeithas yn gyffredin, nid llai gwir ydyw hi o herwydd hynny: "Chwi a ddaethoch at fyrddiwn o angylion," medd St. Paul, wrth bennodi amryw rannau o deulu Duw; ac yn fynych y gwelir hanes yn yr Ysgrythur am eu dyfodiad at ddynion, pan ymddangosent iddynt ar orchwyl a danfoniad y Goruchaf. Ymddangosodd angel yr Arglwydd i Abraham ac i Ddaniel, angel a rag-fynegodd eni Ioan Fedyddiwr, rhag-flaenor Crist, angel a fynegodd i Fair Forwyn y genid y Messiah o honi, llu o honynt a ddatganent i'r bugeiliaid enedigaeth yr Iachawdwr nefol, angylion a ddygasant Lazarus i fynwes Abraham, angylion a ddaethant i gysuro 'r Iesu yn ei ymdrech meddwl yn yr ardd, hwy a fynegasant ei adgyfodiad, gan ddangos y fan lle y dodwyd ei gorph ef; angel a agorodd ddrws y carchar i Pedr, ac felly a'i gwaredodd; angylion a wahanant y drwg oddi wrth y cyfiawn y dydd olaf, ac a gasglant ynghyd yr etholedigion; hwy a lawenychant ar droedigaeth pechadur; ïe, onid ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, medd St. Paul, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gant etifeddu iechydwriaeth? O y darbodaeth rhyfeddol sy gan y Goruchaf am

iechydwriaeth dynion! yr anrhydedd a geir wrth fod yn seintiau, yn wir Grist'nogion, cael yr angylion yn gweini iddynt! y gymdeithas sanctaidd a ddarparwyd iddynt ar eu hymadawiad, angylion ac arch-angylion! Dysged pawb o honoch wneuthur ewyllys Duw ar y ddaiar fel y gwna 'r angylion ufuddgar yn y nef, fel y byddoch gymmwys i'w cymdeithas wynfydedig.

5. Yn nesaf, ystyriwn y cymmun neu 'r gymdeithas sydd rhwng y saint a dynion eraill. Y mae gan y saint, neu 'r gwir ffyddloniaid, fath ar gymdeithas neu gymmun gyd a'r duwiolion a ymadawsant a'r byd; "Canys chwi a ddaethoch," medd yr Apostol, "at ysprydoedd y rhai cyfiawn a berffeithiwyd." Aelodau ydyw y duwiolion a ymadawsant a'r byd o'r un teulu, er eu symmud i drigfan arall o'r tŷ; yr un Yspryd sydd yn eu llonni hwy yn y nef ag sydd yn cysuro ac yn nerthu y saint ar y ddaiar; pan oeddynt ar y ddaiar, yr Yspryd oedd yn eu cysylltu â'u brodyr yn y ffydd, ac nid oes lle i feddwl y terfynnir y gymdeithas ar eu hymadawiad oddi yma. Pa beth ydyw effaith y cymmundeb yma o'u tu hwy, ni ddatguddir yn yr Ysgrythur; amryw gau ddychymygion sy ymhlith y Papistiaid yn ei gylch, ond amlwg ydyw ei bod hi yn ddyledus a buddiol ar y

saint berchi eu coffawdwriaeth hwy a dilyn eu siamplau da yn awyddus, gan obeithio, trwy haeddiant yr Iachawdwr, ddyfod i fwyniant o'r un gwynfyd a nhwthau; ymgysuro wrth feddwl mor happus ydynt, a disgwyl yn ddiofn, ïe, yn hyfryd am yr awr y gwneir hwythau 'n rhyddion oddi wrth alar a phechod.

6. Ymhellach, y mae math ar gymdeithas rhwng y saint â holl broffeswyr yr Efengyl: y maent yn gyfrannogion o'r un bedydd, o'r un allor, o'r un addoliad; ond cymmundeb allanol, gweledig, ydyw hyn yn unig; y rhinwedd ysprydol sy 'n perthyn i'r gwir grefyddol yn unig, a rhwng y rhai hyn â'u gilydd y mae 'r gymdeithas yn bod mewn gwirionedd; "Os rhodiwn yn y goleuni," medd St. Ioan, "megis y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd." Yr un Yspryd sydd yn gweithio yaddynt, er cymhelled oddi wrth eu gilydd, cyfrannant o'r un ordinhadau a hynny er lleshad ysprydol, yr un addewidion i'w hannog a'u cysuro, yr un Ysgrythyrau i'w cyfeirio, yr un rhadau i'w bywhau, yr un gobaith i'w cyffroi, yn ganghennau o'r un gwreiddyn, yn aelodau o'r un pen, yr un nef yn nod i'w hegni, yr un Arglwydd a'u prynodd, yr un Duw a'u cyfiawnhaodd, yr un Yspryd yn eu sancteiddio ac yn bywhau 'r holl gorph. Ystyried hyn sydd yn eu rhwymo mewn cariad â'u gilydd; cyf-

rannant o lawenydd a llwyddiant yspрydol eu gilydd, a chyd-deimlant á chystuddiau eu gilydd; meddwl bod yr Iachawdwr cyffredinol wedi marw drostynt oll sy 'n geni ynddynt deimlad i'w gilydd, tosturiant wrth yr aelodau gweiniaid, a gwnant eu goreu i'w cymmorth a'u diddannu; gwych ganddynt ymddiddan am drugareddau 'r Arglwydd tu ag attynt, ac adrodd siamplau arbennig o ofal yr Hollalluog drostynt, yn eu nerthu yn erbyn profedigaethau, ac yn eu gwaredu rhag amryw beryglon. Yn ddiwaethaf, y maent oll yn tywallt eu calonnau o flaen yr un orsedd-faingc grâs, gweddiant am gynnyddu o honynt oll mewn grâs, a hyn sydd yn bywhau eu caredigrwydd i'w gilydd a'u hewyllys da: ac felly, ar y dydd sanctaidd hwn, pa finteioedd ymhob ardal sydd yn ymgrymmu o flaen eu Duw cyffredinol, yn offrwm iddo eu moliant, ac yn gweddio drostynt eu hunain a'u cyd Grist'nogion? Y cyfryw ydyw cymmun y saint; i'r gymdeithas yma y'n galwyd ni: dyweded pob un o honom wrth ei enaid, Beth yw dy gyflwr di? gyd â pha fath ar bobl y mae dy gymdeithas? ai gyd â dynion o yspryd bydol? ai hyfryd gennyt eu pleserau a'u gorchwylion hwy yn unig? Os bydd eich heneidiau yn cydnabod mae hynny yw eu tuedd, yr ydych o'r byd ac yn caru 'r byd: ond gwyn eich byd,

frodyr, os medrwch atteb i'ch cydwybod, Fy hyfrydwch ydyw 'r saint sydd ar y ddaiar, fy nghymdeithas sydd gyd â Thad yr ysprydoedd, a'i Fab Iesu Grist fy mhrynwr, ac â'r Yspryd Glan, ac â'r angylion uchod; cysylltir fi â holl Eglwys y ffyddloniaid ar y ddaiar, yr un orchwyl sydd i'w gyflawni gennym, yr un cysuron sydd yn ein dadebru, yr un cariad cyffredinol a ddylai ein cynhesu at ein gilydd, yr ydwyf yn teimlo fel brawd dros fy nghyd Gristnogion, yn clywed fy ymysgaroedd yn cynnesu tu ag attynt pan fyddwn yn neshau at orsedd Duw, a'm calon sydd yn llosgi ynof wrth ymddiddan â'n gilydd am bethau Duw. Y cyfryw, frodyr, fydd eich teimlad, os gan Yspryd Duw y'ch harweinir.

I ddiweddu: gellir casglu amryw fath ar addysg oddi wrth yr hyn a ddywetpwyd. Dylem ymwahanu oddi wrth y byd a'i ddrygioni; nid oes fodd i gymmundeb fod rhyngom â'r Duwdod a'r saint heb hynny; nid oes dim cymdeithas rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder, rhwng goleuni a thywyllwch: rhaid i ni rodio yn y goleuni er cael cymmundeb gyd âg ef; nis gellir bod cymmundeb lle nid oes cyffelybrwydd. Dylai ystyriaeth ar y gymdeithas yma gynhyrfu eich diolchgarwch. Pa beth ydym ni, blant dynion, fel y derbynier ni i'r fath gymdeithas?

mor ogoneddus yw gobaith ein galwedigaeth! Bydded i'r gobaith yma ein cefnogi dan brofiadau 'r byd a than bob cystudd. Onid peth rhyfedd ydyw ddarfod eich cysylltu mewn cymdeithas â'r Angylion ac Arch-angylion, â gogoneddus gôr yr Apostolion, molianus nifer y Prophwydi, ardderchog lu y Merthyron, ac â'r Eglwys trwy 'r holl fyd? Y fath gymdeithas a ddylai ddyrchafu 'n meddyliau ni; ni ddylai etifeddion nef fod yn ymdreiglo ar y ddaiar, na 'u calonnau redeg ar ol y byd halogedig, amhur. Llewyrched eich goleuni ger bron dynion, ymfucheddwch fel rhai sy a chymdeithas ganddynt gyd â'r Tad, a chyd â'i Fab ef Iesu Grist. Bydded i'r ystyriaeth ennyn ynoch garedigrwydd at yr holl wir Grist'nogion, tosturi at eraill, a dymuniad am eu troi at wir dduwioldeb. Crist a fu farw drosom ni oll, na fydded i ni gashau ein gilydd, nag ymrannu ac ymryson, ac wrth hynny megis dryllio corph Crist. Bydded cariad Crist megis yn ganolbwynt i gysylltu 'n serchiadau tu ag at ein gilydd; maethwn ynom deimlad tu ag at ein cyd Grist'nogion, gan eu diwallu hyd lle gallom, a barnu yn hynaws am danynt, a bod yn helaeth ymhob gweithred dda. Felly y dangoswn fod gennym mewn gwirionedd gymdeithas gyd a Christ, a'n bod ni yn wir ddisgyblion iddo.

PREGETH XXIII.

AIL DDYFODIAD CRIST.

MALACHI III. 2.

Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef? a phwy a saif pan ymddangoso efe?

DIAMMEU fod y geiriau yma yn perthyn i'n Hiachawdwr Iesu Grist; ac yr ydym yn darllain yn aml yn yr Ysgrythur am ei ddyfodiad ef yn y cnawd, ei ddyfodiad i wneuthur barn yn erbyn yr Iuddewon, a'i ddyfodiad diwaethaf i farnu 'r byd. Daliwn sylw, yn awr, ar ei ddyfodiad ofnadwy ef yn nydd y farn, fel y gallom sefyll ger bron ei orsedd yn ddiarswyd.

I. Ystyriwn, gan hynny, rai o'r pethau mwya hynod ynghylch dyfodiad diweddaf Crist.

II. Yr ymofyniad difrifol hwn y mae 'r Prophwyd yn ei ofyn i bob un o honom ni.

I. Un o'r pethau cyntaf ydyw sicrwydd ei ddyfodiad ef i farnu 'r byd. Yr Angylion a ddywedasant yn bendant wrth yr Apostolion,

pan oeddynt yn edrych arno yn myned i fynu i'r nef mewn modd tra gogoneddus, "Chwi wyr o Galilea, paham y sefwch yn edrych tu a'r nef? yr Iesu hwn a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef." Ein Hiachawdwr ei hun a lefarodd yn aml am ei ail ddyfodiad, ac y mae 'r Apostolion yn datgan yr unrhyw wirionedd: St. Pedr a rag-ddywedodd y byddai dynion annuwiol yn y byd, y rhai a fyddent barod i wadu 'r gwirionedd hwn, "Gwybyddwch y daw yn y dyddiau diweddaf watworwyr, yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain, ac yn dywedyd, Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef? canys er pan hunodd y tadau y mae pob peth yn parhau fel yr oeddynt o ddechreuad y greadigaeth." Ond i'r cyfryw wrth-ddadleuwyr y mae 'r Apostol yn atteb gan ddywedyd, "Dydd yr Arglwydd a ddaw megis lleidr y nôs." Ei ddyfodiad ef, gan hynny, a fydd yn ddisymmwth. Y mae pob diwrnod sy yn myned dros ein pennau yn ei ddwyn ef yn nês; mae ein Harglwydd ei hun yn ein rhybuddio ni yn aml mai "yn yr awr ni thybiom y daw Mab y dyn; ac megis y bu yn nyddiau Noe," medd ef, "felly hefyd y bydd yn nyddiau Mab y dyn: yr oeddynt yn bwytta, yn yfed, yn gwreicca, yn gwra, hyd y dydd yr aeth Noe i mewn i'r arch, a daeth y diluw ac a'u di-

fethodd hwynt oll. Yr un modd hefyd ag y bu yn nyddiau Lot, yr oeddynt yn bwytta, yn yfed, yn prynu, yn gwerthu, yn plannu, yn adeiladu; eithr y dydd yr aeth Lot allan o Sodoma, y gwlawiodd tan a brwmstan o'r nef, ac a'u difethodd hwynt oll. Fel hyn y bydd yn y dydd y datguddir Mab y dyn." Ac ystyriwch, mai er, ysgatfydd, ni bydd yr un o honom yn y fan yma yn fyw pan ddelo ef fel hyn yn ddisymmwth, er hynny fe all cennad angeu ddyfod attom yn ddisymmwth, ac fe ddaw cyn bo hir yn sicr ddiammeu at bawb o honom; a dyna amser ein profiad ni drosodd; a'r holl gyrph a hunant yn y bedd, yn ddisymmwth a ddeffroir o'u cwsg gan sain yr udgorn ar ddyfodiad y Barnwr mawr.

Ystyriwch hefyd ymha ryw ddull a modd y daw Crist i farnu 'r byd. Efe a ddaw mewn gogoniant. Yr oedd ei ddyfodiad cyntaf yn ostyngedig ac yn isel iawn; efe a anwyd mewn beudy, a rwymwyd mewn cadachau, a roddwyd i orwedd yn y preseb: ni ddaeth ef gyd a rhwysg a gwychder bydol; nid oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr; efe a gafodd ei ddirmygu, ei erlid, a'i groeshoelio. Ond ei ddyfodiad diweddaf fydd mewn cadernid gogoneddus, fe a'i galwyd gan St. Paul, Ymddangosiad gogoniant y Duw mawr a'n Hiachawdwr. Mae 'r por-

treiad neu 'r darluniad o hono yn gosod allan dull ei ddyfodiad fel un o fawrhydi, a gallu, ac ardderchowgrwydd digyffelyb: "Mab y dyn a ddaw ar gymmylau 'r nef gyd â nerth a gogoniant mawr, a'r holl Angylion sanctaidd gyd âg ef. Yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyd â bloedd, a llef yr Arch-angel, ac âg udgorn Duw. Wele, y mae 'r Arglwydd yn dyfod gyd â myrddiwn o'i saint."

Cofiwn ymhellach, ïe, cofiwn bob amser, i ba ddiben y daw ef. Am ddyfodiad cyntaf Crist, efe a ddywed ei hun i ni, "Ni ddaethum i farnu y byd, eithr i achub y byd." Efe a ddaeth ar y cyntaf i ymweled â nyni mewn mawr ostyngeiddrwydd megis Iachawdwr; ond, yn y dydd diwaethaf, efe a eistedd ac a lywodraetha ar ei frenhin-faingc, a chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd. Ni ddaw efe i achub, ond i farnu 'r byd: yna yn wir, fel y dywed y Prophwyd yn ebrwydd ar ol y testyn, "Efe a fydd fel tân y toddydd, ac fel sebon y golchyddion: ac fe a eistedd fel purwr a glanhawr arian, ac efe a bura 'r byd, ac a'u coetha hwynt fel aur ac fel arian, fel y byddont yn offrymmu i'r Arglwydd offrwm mewn cyfiawnder." Efe a gasgl yr aur oddi wrth y sothach, a'r gwenith oddi wrth y manus; efe a wna wahaniaeth anfeidrol rhwng y da a'r drwg, "a'r rhai hyn a ânt i

gospedigaeth dragywyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol."

II. Wedi dwyn ar gof i chwi ychydig o'r pethau arswydus ynghylch dyfodiad diwaethaf Crist, awn ymlaen yn yr ail fan i atteb y cwestiwn pwysfawr yn y testyn, sef, "Pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad? a phwy a saif pan ymddangoso efe? Ystyr yr ymofyniad sy eglur iawn: rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist, eithr pwy o honom a fedr oddef yr holiad manwl a wneir yr amser hwnnw ynghylch ein hymddygiad? pwy a saif gyd â hyder, gyd â chysur, o flaen y Barnwr? pwy a geiff dderbyniad croesawus ganddo? Wrth atteb y cwestiwn hwn, sy 'n perthyn mor agos i ni oll, ystyriwn,

1. Pwy nis gall oddef dydd ei ddyfodiad, a phwy nis gall sefyll pan ymddangoso efe. Ym mysg y cyfryw rai y mae 'n rhaid i ni osod pob pechadur anedifeiriol a rhyfygus. Nid all y dynion hynny sy 'n achlesu yn eu calonnau falchder, a gwag-ogoniant, a ffug-sanctaiddrwydd, neu gynfigen, digasedd, neu ryw fwriad drwg, byth sefyll ger bron Crist yn ei ymddangosiad ef fel Barnwr yr holl fyd. Trwy ba esgus bynnag y gallant hwy yn awr ostegu'r gydwybod, er mor ddigyffro eu mynwes yn awr, pa sicrwydd bynnag y maent yn addaw iddynt

eu hunain yn eu pechodau yn awr,—anhebyg iawn a fydd eu meddyliau a'u teimlad yn nydd y farn: hwy a gant weled, yr amser hwnnw, mor wag ac ofer yw eu holl esgusion, mor ddirfawr eu pechodau; eu rhyfyg a balla, eu tafodau, y rhai oeddynt yn llefaru pethau mawrion yn erbyn yr Arglwydd, a fyddant fud: "Fel y tawdd cŵyr wrth y tân, y difethir y rhai annuwiol o flaen Duw." Yna, mewn ing a blinder, y dechreuant ddywedyd wrth y mynyddoedd, "Syrthiwch arnom, ac wrth y bryniau, Cuddiwch ni o ŵydd yr hwn sy 'n eistedd ar yr orsedd-faingc, ac oddi wrth lid yr oen; canys daeth dydd mawr ei ddigter ef, a phwy a ddichon sefyll?"

2. At y fath bechaduriaid, gellir yn hawdd chwanegu y dyn bydol, yr hwn sy 'n edrych ar y byd presennol megis ei unig Dduw, ac yn dyrchafu ei eulunod yn ei galon, sef cyfoeth a phethau 'r byd hwn. Treuliodd ei holl ddyddiau yn hwylio ymlaen ei fasnach bydol yn unig; mae ei drysor ef ar y ddaiar, ac yno mae ei galon; rhoddodd ei holl serch ar bethau sy isod, nid ar bethau sy yn y nefoedd: y mae 'r byd yn wir yn canmol y cyfryw ddyn, o blegid y byd a gâr yr eiddo; eithr beth a ddaw o ddyn fel hwn yn nydd y digofaint a datguddiad cyfiawn farn Duw? Efe a wêl ei eulun y byd yn

cael ei losgi, a gwell fyddai iddo yntau gael ei ddifetha yn yr un fflam na sefyll ger bron ei Farnwr digllawn: ond y mae 'n rhaid iddo sefyll, a derbyn y farn gyd á'r sawl oll a fuont yn addoli a gwasanaethu 'r creadur yn fwy na 'r Creawdwr, yr hwn sydd fendigedig yn dragywyddol. Edrychwch yn nesaf at ddilynwyr maswedd a phleserau drygionus, neu at ddilynwyr rhwysg a gwychder bydol: O pa sutt y beiddiant wynebu 'r Barnwr? pa sutt y safant o flaen yr hwn a wnaeth burdeb moesau, a gostyngeiddrwydd, a sancteiddrwydd o fewn y galon yn argoel o'i grefydd nefol? Trowch eich llygaid yn nesaf tu ag at y rhagrithwyr, y rhai sy ganddynt rith duwioldeb, eithr gwedi gwadu ei grym hi: a feiddiant hwy oddef dydd dyfodiad Crist, a sefyll o'i flaen ef yn ei ymddangosiad? O y mae lle i ddisgwyl y cant hwy oll eu bwrw i'r ffwrn dân, yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd. Edrychwch bellach at y balch a'r rhyfygus, yr hwn sy 'n ymddiried yn ei gyfiawnder ei hunan, ac yn dywedyd gyd â'r Pharisead yn y ddammeg, rhyngddo âg ef ei hun, "O Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion eraill, yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwyr," Chwi a wyddoch ei hanes a barn ein Hiachawdwr ar ei ymddygiad; am hynny gochelwch ei lwybr-

au twyllodrus, canys y Barnwr mawr a ddywed wrth y fath ddynion, Nis adnabum chwi erioed, ni edrychais arnoch megis fy nisgyblion i, nid fy nefaid i ydych, ewch oddi wrthyf chwi weithredwyr anwiredd.

Pwy, ynteu, a saif pan ymddangoso ei Arglwydd? pwy a oddef ymddangosiad y Barnwr gogoneddus yn dyfod i farnu 'r byd, lluoedd o Angylion ac Arch-angylion yn ei amgylchu? Y Cristion gostyngedig, duwiol, a wnaeth ei oreu trwy râs i ufuddhau i'r Efengyl, ac sydd wedi ei gyfiawnhau trwy ffydd; y dyn hwnnw, fath bynnag a fuasai, sy wedi myned yn greadur newydd yn Nghrist, sy wedi bod yn edifeiriol am ei gamweddau, ac wedi ymadnewyddu trwy Yspryd Crist i sancteiddrwydd buchedd a meddwl. Fy mrodyr, nid yw 'r cyfryw un yn ddyn bydol; cydwybod a bair iddo fod yn ddiwyd yn ei alwad bydol, a chyflawni ei holl ddyledswydd yn ddyfal, ond nid yw ei galon a'i serch yn y pethau isod; yn y nef y mae ei drysor, ac yno mae ei galon, yno, lle y mae Crist ar ddeheulaw Duw. Nid ydyw y cyfryw ddyn yn rhagrithiwr ychwaith, nag yn gwisgo crefydd megis cochl malais a drygioni; Israeliad yn wir ydyw ef, yn yr hwn nid oes twyll: nid ydyw ef gyd a'i holl egni i ufuddhau, yn hyderu ar ei haeddiant ei hun, nag yn anturio cymmer-

yd chod rhŵng ei hun, ond ymddiried y mae ef i gyflawniad Crist, ac yn rhoddi i bob ogoniant yr Holltwng a'i râs ey 'n dwyn nerth o wendid: yn y cyfryw nerth y mae ef yn sefyll yn awr, gan orchfygu ar ei fynon ei enaid: trwy'r nerth yma y mae 'n gobeithio parhau hyd y diwedd; wedi ei buro trwy haeddiol waed yr Iachawdwr, a'i sancteiddio trwy ei Yspryd, yr ymddengys ef y dydd olaf yn ei wydd ef yn hyderus ac yn ddiarswyd. Wele yma y Cristion cywir, cymmeradwy: dyma 'r dyn a oddef ddyfodiad ei Arglwydd, ac a saif pan ymddangoso efe i'n barnu. Ni fedr ef yn wir, fwy nag eraill, sefyll ar ei haeddiant ei hun, ïe, fe a wêl ac a gydnebydd, mewn gwir ostyngeiddrwydd, amrafael ffaeledigaethau ac amherffeithrwydd ynddo ei hun ar ol ei eithaf ymroad: ei weddi ddiffuant fydd hyd y diwedd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf, bechadur;" ond clywch ei ddadl, "Pwy yw 'r hwn sy 'n damnio? Crist yw 'r hwn a fu farw, ïe, yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd." Ei edifeirwch, ei uniondeb, ei ymdrech gwastadol yn erbyn pechod, ei fuchedd ddiniwaid a buddiol, ei egwyddorion pur a dystiant iachusrwydd ei ffydd. Y Barnwr a fydd yn barod i'w gydnabod yn gyfaill, yn barod i gau safn y cyhuddwr, yn barod i'w groesawu i lawenydd ei Arglwydd.

Attebais yn awr, garedigion, y cwestiwn pwysfawr yn y testyn, gan ddangos i chwi pwy a saif gyd â chysur, gan gael derbyniad llawen o flaen Barnwr mawr yr holl fyd. Y Cristion cywir ydyw 'r gwr: ac ni a allwn i gyd oll fod yn Grist'nogion mewn gwirionedd; mae Crist yn gwahodd pob un o honom i ffoi atto ef megis yr unig noddfa, ac ni a gawn orphwysdra i'n heneidiau. Am hynny, byddwch oll yn barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn: efe a ddaw i'n gosod ni mewn trigfannau o ddedwyddwch neu drueni diddiwedd: bydd barod, O ddyn, i gyfarfod â'th Dduw. Cofied pawb o honom y dylid gweithio tra bo hi 'n ddydd, "y mae 'r nôs yn dyfod pryd na ddichon neb weithio." O mor fyr yw yr amser, mor fer, mor ansicr yw ein hoes! ond ar y deunydd y gwnelom o'r amser yma y mae ein tragywyddol ddedwyddwch, ein cyfran dros byth, yn sefyll. Fe ynnillodd Crist wynfyd nefol yn sicr, ond nid i neb ond y sawl a wnelont eu hetholedigaeth yn sicr trwy ffydd, edifeirwch, a chywir ufudd-dod hyd y diwedd; y cyfryw rai a gant, er ei fwyn ef, goron cyfiawnder, gwynfyd yn y nefol fry, yngwydd Duw, ynghymdeithas seintiau ac angylion dros oes oesoedd. Gan hynny, bydded gofal pennaf pob un o honom ni i fyw felly yn y byd hwn

tan ddisgwyliad gwastadol o ddyfodiad ein Hiachawdwr, fel pan ymddangoso ef i'n barnu ni a phawb oll, y gallom ddywedyd y dydd hwnnw, " Wele dyma ein Duw ni; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw: dyma 'r Arglwydd, gobeithiasom ynddo, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth ef yn dragywydd."

PREGETH XXIV.

Y GAIR.

1 Thessaloniaid ii. 13.

O blegyd hyn yr ydym ninnau hefyd yn diolch i Dduw yn ddibaid, o herwydd i chwi, pan dderbyniasoch air Duw yr hwn a glywsoch gennym ni, ei dderbyn ef nid fel gair dyn, eithr (fel y mae yn wir) yn air Duw, yr hwn hefyd sydd yn nerthol weithio ynoch chwi y rhai sydd yn credu.

TRA bo 'r sawl sy 'n pregethu 'r Efengyl yn attebol am y siars a orchymynwyd iddynt, nid llai attebol yw eu gwrandawyr am y deunydd y gwnant o'u haddysg: tra bo gweinidogion wedi eu siarsio 'n fanwl i wilied ar eu hathrawiaeth, rhybuddir y bobl hefyd i ofalu pa fodd y gwrandawant. Yn ddiau, nis dylid gwneuthur yn ysmala o air Duw; naill ai arogl bywyd i fywyd ydyw, neu arogl marwolaeth i farwolaeth; rhaid i'r gair naill ai gwellhau arnom, neu ein gadael yn waeth: oni bydd iddo wneuthur i ni gynnyddu mewn sancteiddrwydd,

fe a'n sodda yn ddyfnach mewn barnedigaeth o herwydd ein hesgeulusdra. Gan deimlo, ynteu, gymmaint y mae 'n perthyn i ni iawn ystyried y peth, trown ein golwg at siampl y Thessaloniaid, y rhai y mae St. Paul yn son am danynt yn y testyn gyd â chymmaint cysur a boddlondeb: y mae 'n dywedyd wrthynt ei fod yn diolch i Dduw yn ddibaid o'u hachos; a pha ham? "O herwydd," medd ef, "i chwi, pan dderbyniasoch air Duw, yr hwn a glywsoch gennym ni, ei dderbyn ef, nid fel gair dyn, eithr (fel y mae yn wir) yn air Duw, yr hwn sydd yn nerthol weithio ynoch chwi y rhai sydd yn credu." Yr oedd yn atgof ganddo mor ddifrif a dyfal y buasai iddynt ymwrando ar bregethiad gair Duw, mor barod y buasent yn ei dderbyn, ac mor ufudd i'w reolau, yr hyn oedd yn dangos ei allu a'i rym ar eu calonnau, a galw hynny i'w gof oedd yn peri diolchgarwch a diddannwch iddo yn ei aml gystuddiau. O na byddai i bawb sy 'n clywed gair Duw ei dderbyn yr un modd ag y darfu i'r Thessaloniaid yma ei dderbyn, nid fel gair dynion, ond fel y mae yn ddiau, megis gair Duw sydd yn nerthol weithio yn y rhai sy 'n credu. Er mwyn eich cyffroi i ddilyn siampl mor odidog, ac i agor ar y testyn rywfaint ymhellach, gadewch i ni ystyried dau bwngc sy 'n ymgynnyg ar y testyn.

I. Y desgrifiad a roddir o'r gair.

II. Y modd y dylid ei dderbyn.

I. Gellid ystyried y desgrifiad a roddir o'r gair, yn gyntaf, mewn perthynas i'w Awdur, gair pwy ydyw ef; nid gair dynion ydyw medd yr Apostol; fe gymmerir dynion yn offerynnau i'w wneuthur yn hyspys, ond nid eu gair eu hunain y maent yn hyspysu; yr athrawiaeth a ddysgant, nid chwedlau cyfrwys ydyw o ddynol ddychymygiad: eiddo Duw ydyw 'r gair, yn cynnwys ei gennadwri at ddynion, yn mynegi ei ewyllys, ac yn datgan ei gyngor cymhelled ag y rhyngo fodd iddo ei ddatguddio i ni: gair Duw yn wir ydyw ef, medd yr Apostol yn y testyn; y cyfryw oedd y gair yr hwn y pregethodd ef i'r Thessaloniaid, Efengyl Dduw, fel y mae 'n ei alw mewn rhan arall o'i Epistol; datguddiasid ef iddo, fel y dywed wrth y Galatiaid, gan Dduw ei hun, "Yr ydwyf yn hyspysu i chwi, frodyr, am yr Efengyl a bregethwyd gennyf fi, nad ydyw hi ddynol; canys nid gan ddyn y derbyniais hi, nag y'm dysgwyd, eithr trwy ddatguddiad Crist Iesu." Y cyfryw oedd y gair a bregethwyd gan holl Apostolion Crist; gair Duw oedd ef yn yr ystyr manylaf, yr oeddynt yn ddigyfrwng dan ysprydoliaeth yr Yspryd Glan, yr hwn a ddysgodd iddynt yr holl bethau, ac a ddygodd ar gof iddynt yr holl

bethau a ddywedasai Crist iddynt; felly nid hwy, fel y dywed Crist ei hun, oedd yn llefaru, ond Yspryd eu Tad yr hwn oedd yn llefaru ynddynt. Cyffelyb hefyd yw 'r gair ysgrifenedig a gynnwysir yn Bibl, gair Duw yn wir ydyw ef; dynion a roed ar waith i'w ysgrifenu, ond hwy a ysgrifenasant dan arbennig hyfforddiad yr Yspryd Glan; trwy ei allu ef y cedwid hwy rhag cyfeiliorni, y galwyd pob gweithred o eiddo Crist i'w cof. "Yr holl Ysgrythur a roed trwy ysprydoliaeth Dduw; ac nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth, eithr dynion sanctaidd Duw a lefarasant megis y cynhyrfwyd hwy gan yr Yspryd Glan." Felly y mae 'r gair ysgrifenedig cyn wired yn air Duw ag oedd y gair a bregethwyd gan yr Apostolion ar eu tafod-leferydd; ac y mae Duw yn llefaru wrthym ni yn y Bibl mor hyspys ag y byddai ef wrth yr Iuddewon trwy enau ei Brophwydi. Yr un peth y gellir dywedyd am y gair a bregethir yn awr, a phob amser, gan wir weinidogion, y rhai a gynnorthwyir gan yr Yspryd: nid ydynt yn sicr yn cymmeryd arnynt fod wedi eu hysprydoli fel awdwyr yr Ysgrythyrau, a'u goleuo yn y cyfryw fodd na fedrant gam-gymmeryd, canys felly ni byddai y Bibl yn rhagori dim arnynt hwy; ond etto, cyhyd ag y bo eu pregethiad yn gyttun

â'r Bibl, cyhyd ag y bo 'r athrawiaeth a ddysgir ganddynt yn gynnwysedig yn yr Ysgrythyrau, neu wedi ei sylfaenu arnynt, neu wedi ei chasglu yn dêg oddi wrthynt, gair Duw yn wir ydyw 'r gair y maent yn bregethu; cennadon Duw ydynt at eu cyd-greaduriaid, yn ei enw ef y llefarant, ei wirionedd a seiniant; ac felly yn gyfiawn y gellir dywedyd, er mewn îs ystyr yn sicr nag am yr Apostolion a'r Prophwydi, am y geiriau y llefarant, nid eu heiddo hwy, ond eiddo yr hwn a'u hanfonodd, ydynt.

Ond y desgrifiad a roed yma o'r gair sydd i'w ystyried ymhellach yn ei effeithiau: y mae yn nerthol weithio yn y rhai sydd yn credu: y mae Duw yn cymmeryd ei air megis yn foddion nid yn unig i ddatguddio ei ewyllys i ni, ond hefyd i'n bywhau ni o angeu pechod, ac i'n creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da. Y mae gallu enwedigol yn cyd-fyned â'r gair; y mae 'r Arglwydd yn tywallt ei Yspryd i lawr gyd â'i air, ac felly yn peri bod o hono yn effeithiol i ddwyn ymlaen waith ei râs yn yr enaid: St. Pedr a ddywed bod y sawl y purwyd eu heneidiau, "wedi eu hail-eni nid o had llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw;" o achos hyn y gelwir gair Duw yn "wialen ei nerth," ac y mae Duw yn gofyn trwy enau ei Brophwyd Jeremiah, "Onid yw fy nghair i megis

tân, ac fel gordd yn dryllio 'r graig?" O herwydd hyn y dywed Dafydd am air Duw, ei fod nid yn unig yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth, yn goleuo 'r llygaid, ond hefyd yn troi 'r enaid. Ond er mwyn gwneuthur hyn yn fwy amlwg, ystyriwn y ddau fodd y mae 'r gair yn gweithio yn effeithiol yn y sawl a gredont :

1. Wrth argyhoeddi o bechod: dywedodd ein Hiachawdwr am yr Yspryd, y byddai iddo argyhoeddi 'r byd o bechod, yr hyn sy 'n arwyddoccau y gwnai i ddynion, trwy ei ddirgel weithrediad ar y galon, weled a theimlo eu pechodau mewn modd na ddarfu iddynt weled a theimlo o'r blaen; a'r effaith yma y mae 'r Yspryd yn gweithio trwy 'r gair, yn enwedig trwy yr Ysgrythur sanctaidd. O blegid hynny y gelwir y gair, yr Ysgrythur sanctaidd yn bennaf, yn "gleddyf yr Yspryd," yr arf galluog a "llymmach na chleddyf dau-finiog, sy 'n cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr yspryd, a'r cymmalau, a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau 'r galon." Trwy 'r arf ysprydol yma y llonyddwch di-sylfaen ar a sydd gan ormod o ddynion a ddistrywir: hyd yn hyn, nid hwyrach, y bu gan ddynion dyb dda o'u calonnau eu hunain, ac o'u haeddiant; er iddynt gydnabod eu hunain yn bechaduriaid, etto ni theimlasant eu bod felly mewn gwirionedd. Y mae

rhinwedd yspryd ol yn cyd-fyned â gair Duw, ac yn cyrhaedd at ei galon yn nerthol; y mae yn datguddio iddo ei natur lygredig, yn dwyn i'w gof amrafael bethau a aethant yn anghof ganddo, yn dangos iddo cymhelled y mae oddi wrth fod mor gyfiawn ag yr oedd yn ei dybied ei hun, yn dysgu iddo fesur nid yn unig ei weithredoedd, ond hyd yn oed ei eiriau a'i feddyliau, wrth bur reol cyfraith Duw, yn gosod o'i flaen y gospedigaeth erchyll a fygythiwyd yn erbyn pechod, nes o'r diwedd, wedi ei argyhoeddi o'i gamweddau, ac yn arswydus ganddo weled ei berygl, y mae 'n edrych o'i amgylch yn bryderus am ymwared, ac yn llefain, "Beth a wnaf i fod yn gadwedig?" Ac oni ddarfu i chwi oll ar brydiau glywed rhyw fath o'r cyffelyb deimlad, wrth ddarllain y gair neu glywed ei esponio? oni chythryblwyd eich cydwybod? oni chododd amheuaeth ynoch eich bod yn fwy euog nag y mae 'n hawdd gennych gredu eich bod? oni chymhellwyd chwi, fel pettai, i gymmwyso yr hyn a glybuwyd attoch eich hunain? ac oni ddarfu i chwi glywed arnoch fraw wrth ganfod yr enbydrwydd sydd o'ch hamgylch? Y cyfryw argyhoeddiad, y cyfryw fraw, gweithrediad Yspryd Duw ydoedd ar eich heneidiau. Hyd yn hyn, ysgatfydd, y bu i chwi eu gwrth-sefyll a'u distawu; ond Duw a

ganniattao nad felly y byddo 'n wastad, Duw a ganniattao fod i'w air felly ddal gafael ar ein calonnau, fel y gweithredo ynom edifeirwch diffuant a gwir ffydd.

2. Ond ymhellach, y mae gair Duw yn nerthol weithio yn y rhai sydd yn credu, trwy rwymo y galon ddrylliedig: yr un arf a archollodd sy yn iachau 'r briw; gair ar y sydd yn argyhoeddi yr enaid o bechod, sy 'n agor ffordd at faddeuant pechod; y mae 'n datgan Iachawdwr graslawn, gwaed yr hwn sydd yn glanhau oddi wrth bob pechod; mae 'n gosod ger bron y pechadur mewn braw gan argyhoeddiad, feddyginiaeth gyfaddas i'w angenrheidiau; y mae 'n hyspysu iddo allu, daioni, a holl-ddigonoldeb Crist, arderchowgrwydd ei Berson megis Duw a dyn, y perwyl o'i ddyfodiad i'r byd, cyflawnder yr iawn a wnaed ganddo dros bechod ar y groes, y cyfiawnder perffaith a weithredwyd ganddo er llês pob pechadur edifeiriol, ei alwad graslawn ar y blinderog a'r llwythog, a'i barodrwydd i dderbyn, a phardynu, a glanhau pob pechadur edifeiriol a ddêl atto. Y gwirionedd hyn oll a ddatguddir yn y gair, tra bo 'r Yspryd yn ei gymmwyso at y galon yn effeithiol: y pechadur, yn llwythog dan faich ei euogrwydd, sy 'n derbyn yn llawen hanes Iachawdwr, yn gwrando 'n awyddus ar y desgrifiad o'i

allu, ei râs, a'i ddaioni, yn hiraethu am ei gael o nifer y rhai y daeth ef i'w hachub, y mae 'n dwys-erfyn arno am drugaredd, fe a ddysgwyd fesur ychydig i ddal gafael ar ei addewidion graslonaf, ac yn ol fel y byddo 'n ymddiried ynddo ef yn unig am râs a chyfiawnder, y mae ei obaith yn dadebru. ac felly, o'r diwedd, y mae fe 'n mwynhau cysur cadarn, ac a lenwir o dangnefedd a llawenydd, gan gredu. Ac onid oes rhai yn ein plith ni a fedrant ddwyn tystiolaeth i'r effaith hon hefyd o eiddo 'r Yspryd ar eu heneidiau, y rhai sy wedi profi ei rinwedd fendigedig yn rhwymo 'r galon ddrylliedig, ac yn eu llenwi â chysur a gobaith, tangnefedd a hyfrydwch? Duw a ganniattao i ni ymhelaethu fwy-fwy yn y cyfryw effaith o'i air; O bydded iddo chwanegu yn ddirfawr yn ein plith y cyfryw siamplau ardderchog o'i râs, a'i gariad, a danfoniad ei Yspryd i argraphu ei air yn ddyfn ymhob calon. Y cyfryw yw 'r desgrifiad a roed yma o air Duw.

II. Ystyriwn pa sutt y dylid ei dderbyn. Amlwg yw nas gellir derbyn y gair yn iawn, oni dderbynir ef mewn modd cyfaddas i'w natur a'i bwysfawrhydi: fel hyn y darfu i'r Thessaloniaid ei dderbyn; yr Apostol sy 'n tystio ddarfod iddynt ei dderbyn nid fel gair dyn, ond fel y mae yn wir yn air Duw. Ac felly ninnau

â ddylem, os mynnwn ei iawn dderbyn: os gobeithio yr ydym gael budd oddi wrth y gair, a rhoddi iddo y derbyniad a haeddai, rhaid i ni ei dderbyn fel gair Duw: a than y rheol hon amryw bethau a gynnwysir.

1. Er mwyn derbyn y gair fel gair Duw, rhaid i ni ei dderbyn gyd â pharch a dyfal sylw. A ydyw Duw yn wir yn llefaru, ac oni ymwrendy dynion arno, oni wrandawant yn ddyfal, yn barchedig? Y mae ardderchog fawrhydi a phriodoliaethau gogoneddus yr hwn sy 'n llefaru yn cynhyrfu dynion i ymddwyn yn y cyfryw fodd; os y Goruchel a'r Dyrchafedig, yr hwn a breswylia dragywyddoldeb, a ymostwng mor rhyfedd a llefaru wrth bechaduriaid euog, colledig, nis gellir disgwyl llai nag iddynt ymwrando yn ddyfal ac yn ostyngedig arno. Yn fynych y mae Duw yn gofyn cael ymwrando arno megis yr Arglwydd; "Yr Arglwydd a ddywedodd," medd ef mewn amrafael fannau; ac nid all fod annogaeth mwy pwysfawr, efe yw 'r Arglwydd a'n gwnaeth, y Duw yr hwn y mae ein hanadl yn ei law, a'n holl ffyrdd yn hyspys ganddo, y Duw yr hwn a fedr yn ddisymmwth ddistrywio enaid a chorph yn uffern: yn gyfiawn gan hynny y gellid disgwyl, pan deilyngo lefaru wrthym, ymwrando o'r sawl sy ganddynt glustiau i wrando. Ond mor an-

fynych y gwneir hynny, lleied y bydd dynion yn gyffredin yn sylwi ar y gair, mor anaml yn ei ddarllain, mor oeraidd yn ei glywed yn cael ei ddarllain neu ei esponio; yn meddwl am bethau eraill, ac yn troi 'r glust fyddar at y gair, pan font, ar olwg, yn ei glywed. Ai rhyfedd gennym nad oes nemmawr o ddynion yn derbyn lleshad oddi wrth air Duw, a nhw mor ddifatter yn ei wrando, a'u calonnau mor galed a dideimlad?

2. Y mae derbyn gair Duw yn ostyngedig, yn arwyddoccau ein bod yn ei dderbyn heb un groes-ddadl ofer. Y mae Duw yn anfeidrol ddoeth, ac a ŵyr bob peth, gwir a ffyddlawn ydyw ef, ac ni ddichon dwyllo; a feiddiwn ni ymryson yn erbyn yr athrawiaeth a deilyngo efe ddatguddio i ni? Gwir ydyw y gall amrafael bethau yn yr Ysgrythyrau fod yn anhawdd eu deall, ïe, tu hwnt i'n hamgyffred; nid yn groes i'n rheswm, ond yn uwch nag ef; nid oes un erthygl yn groes i'n rheswm, os iawn esponir hi. Derbyn y gair, ynteu, megis gair Duw, ydyw ei dderbyn ef yn ostyngedig, gyd â pharodrwydd i'w dderbyn, ac ufuddhau iddo ar ei awdurdod ef yr hwn a'i rhoddodd. Hynny y mae St. Iago yn ddeall wrth ein cynghori i dderbyn yr impiedig air gyd ág addfwynder; ac heb ei dderbyn felly, nis gallwn na llesu ein hunain,

na gogoneddu Duw; yn hytrach yr ydym yn ei ddianrhydeddu ef, a byddwn yn sicr felly o golli ein heneidiau.

3. Yn ddiwaethaf, derbyn y gair megis gair Duw, ydyw ei dderbyn ef megis y moddion a osodwyd ganddo i droi ac adeiladu ein heneidiau. Gwelsom fod y gair yn nerthol weithio yn y sawl a gredont, gwelsom pa effeithiau yr ordeiniwyd iddo weithio; a ydym ni yn edrych am y fath effaith oddi wrtho? a ydym ni yn darllain ac yn gwrando ar air Duw gyd â gwir ewyllys iddo weithio yn ein calonnau, a magu ynom wir edifeirwch a ffydd ddiffuant? er mwyn hyn, a ydym ni yn danfon ein hymbiliau at orsedd grâs ar i Dduw fendithio ei air er ein hargyhoeddiad a'n cysur? a ydym ni yn gweddio ar iddo ei wneuthur yn nerthol i ddeffroi ein cydwybod, datguddio i ni ein pechodau, a'n dwyn at Grist? Un rheswm fod dynion yn derbyn cyn lleied budd oddi wrth y gair ydyw, o herwydd eu bod yn disgwyl cyn lleied; nid ystyriant ei fod, fel y mae yn wir, yn air Duw; maent yn edrych arno megis offeryn i roddi addysg i'r deall, ac nid megis moddion hefyd i droi 'r enaid, ac felly nid ydynt yn gweddio am yr Yspryd i gyd-weithio âg ef a'i blannu yn eu calonnau. Fy mrodyr, pe gweddiem yn ddyfalach ac yn fwy taer am fendith Duw ar yr hyn

a glywom ac a ddarllenom, yn fuan ni a gaem weithred wynfydedig o'n mewn, i ba un, y mae gormod achos i ofni, bod rhai hyd yn hyn yn ddieithriaid: pe ymroem i gael mwy o leshad oddi wrth y gair, ni a'i caem ef cyn y bo hir, yn ddi-ffael; pe derbyniem ef fel gair Duw, ceid gweled mae 'r cyfryw ydyw ef wrth ei alluog effaith ar ein heneidiau. A Duw a ganniattao, o'i anfeidrol drugaredd yn Nghrist, i ni oll felly ei dderbyn, a chael profiad o'r fath effaith er ein tragywyddol lawenydd. Amen.

END OF VOL. I.

JONES, PRINTER, RUTHIN.